# Adolygiad o Ddedfrydu mewn Achosion Lladdiad Domestig

## Adolygiad Annibynnol Clare Wade KC

Mawrth 2023

CP 814

# Adolygiad o Ddedfrydu mewn Achosion Lladdiad Domestig

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mawrth 2023

CP 814

OGL

© Argraffydd y Brenin a Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi 2023

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle’r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn http://www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn public.enquiries@homeoffice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-3935-4

E02868937 03/23

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau eildro

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Cyf ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

**Diolchiadau** Error! Bookmark not defined.

**1. Cyflwyniad** Error! Bookmark not defined.

1.1 Cefndir **Error! Bookmark not defined.**

1.2 Cylch Gorchwyl **Error! Bookmark not defined.**

1.3 Termau 7

1.4 Methodoleg 12

1.5 Strwythur yr Adroddiad a Chrynodeb o'r Argymhellion **Error! Bookmark not defined.**

**2. Dedfrydu mewn Achosion Llofruddiaeth** Error! Bookmark not defined.

**3. Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 25**

3.1 Hanes Deddfwriaethol Atodlen 21 25

3.2 Absenoldeb Geiriau yn Atodlen 21 28

3.3 Effaith Atodlen 21 cyn 2010 28

**4. Cyflwyno Categori Difrifoldeb Newydd ym Mharagraff 5A 30**

4.1 Cefndir Paragraff 5A (Mynd â Chyllell neu Arf Arall i'r Lleoliad) 30

4.2 Anawsterau ynghylch Geiriad ym Mharagraff 4 Atodlen 21 34

4.3 Mynd â Chyllell neu Arf Arall i'r Lleoliad fel y mae wedi'i Bennu ym Mharagraff 4 Atodlen 21 37

**5. Llofruddiaethau Domestig** Error! Bookmark not defined.

5.1 Lladdiad Domestig fel Cyfreitheg sy'n Datblygu **Error! Bookmark not defined.**

5.2 Rôl Rheolaeth drwy Orfodaeth a Rheolaeth drwy Orfodaeth fel Dull Dadansoddi Fforensig **Error! Bookmark not defined.**

5.3 Troseddwyr sydd Hefyd yn Ddioddefwyr **Error! Bookmark not defined.**

5.4 Nid Oes Dealltwriaeth Da Eto o Reolaeth drwy Orfodaeth **Error! Bookmark not defined.**

**6. Mathau Ehangach o Niwed sy'n Nodweddu Llofruddiaethau Domestig** Error! Bookmark not defined.

6.1 Crynodeb **Error! Bookmark not defined.**

6.2 Diwedd y Berthynas neu Sbardun Arall **Error! Bookmark not defined.**
6.3 Gor-ladd **Error! Bookmark not defined.**
6.4 Cenfigen **Error! Bookmark not defined.**
6.5 Tagu **Error! Bookmark not defined.**
6.6 Tagu fel Math Rhyweddol o Ladd **Error! Bookmark not defined.**
6.7 Trafodaeth am Dagu mewn Grwpiau Ffocws **Error! Bookmark not defined.**

**7. Categori Newydd yn Atodlen 21 73**

**8. Dedfrydu mewn Achosion Dynladdiad – Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu 2018 78**
8.1 Dynladdiad Gwirfoddol **Error! Bookmark not defined.**
8.2 Dynladdiad Anwirfoddol **Error! Bookmark not defined.**
8.3 Dynladdiad drwy Esgeuluster Difrifol **Error! Bookmark not defined.**

**9. Amddiffyniadau** Error! Bookmark not defined.
9.1 Crynodeb **Error! Bookmark not defined.**
9.2 Hunanamddiffyn yn Amddiffyniad Llwyr **Error! Bookmark not defined.**
9.3 Problemau ynghylch Cyfraith Sylwedd **Error! Bookmark not defined.**
9.4 Grym Anghymesur yn Gyfyngedig i Ddeiliaid Tai **Error! Bookmark not defined.**
9.5 Dynladdiad Gwirfoddol **Error! Bookmark not defined.**
9.6 Cyfrifoldeb Lleiedig **Error! Bookmark not defined.**
9.7 Diffyg Bwriad i Achosi Niwed Difrifol Iawn **Error! Bookmark not defined.**

**10. Tabl Argymhellion 109**

**11. Atodiadau** Error! Bookmark not defined.
Atodiad A: Cylch Gorchwyl 112
Atodiad B: Rhestr Termau 115
Atodiad C: Atodlen 21 Deddf Dedfrydu 2020 119
Atodiad D: Crynodeb o Ganfyddiadau gan Dîm yr Adolygiad o Sylwadau Dedfrydu 126
Atodiad E: Data o Fynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref 133
Atodiad F: Canllaw Diffiniol y Cyngor Dedfrydu ar Ddynladdiad 135

# Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i Naila Hadid am ei holl waith ac am ei chymorth amhrisiadwy yn yr adolygiad hwn. Rwyf yn ddiolchgar i Jonathan Bild a Julian Roberts o’r Academi Dedfrydu am eu sylwadau buddiol am ddrafft cynharach o’r adroddiad hwn a hoffwn ddiolch hefyd i Louise Bullivant am ei chymorth a’i sylwadau ar ddrafft cynnar iawn. Hoffwn ddiolch hefyd i’r nifer mawr o bobl a roddodd o’u hamser a rhannu eu harbenigedd, eu mewnwelediad a’u gwybodaeth mewn grwpiau ffocws ac mewn cyfweliadau lled-strwythuredig.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Cychwynnwyd yr Adolygiad hwn o ddedfrydu mewn achosion lladdiad domestig mewn ymateb i lythyr agored ("y llythyr") a anfonwyd ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2021 oddi wrth y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig at yr Arglwydd Ganghellor blaenorol y Gwir Anrhydeddus Robert Buckland AS.

1.1.2 Roedd y llythyr yn tynnu sylw at ragfarn systemig yn erbyn menywod yn y system cyfiawnder troseddol ac roedd hefyd yn nodi'r agweddau hynny ar y broses cyfiawnder troseddol lle credwyd bod dioddefwyr benywaidd yn cael cam yn gyson. Fe'i hanfonwyd ar adeg pan oedd ymgyrch yn parhau ar ran y teuluoedd i ddwy fenyw a gafodd eu llofruddio gan eu partneriaid gwrywaidd. Roedd Ellie Gould yn 17 flwydd oed pan gafodd ei llofruddio gan Thomas Griffith ac roedd Poppy Devey Waterhouse yn 24 blwydd oed pan gafodd ei llofruddio gan Joe Atkinson. Roedd yr ymgyrch honno hefyd yn rhan o'r ysgogiad i gynnal yr Adolygiad o Ddedfrydu mewn Achosion Lladdiad Domestig ("yr Adolygiad").

1.1.3 Llofruddiwyd y ddwy ddioddefwraig yn eu cartrefi eu hunain lle'r oedd arfau ar ffurf cyllyll wedi bod ar gael yn rhwydd i'r troseddwr fel na ellid dweud ei fod wedi mynd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad. Fel rydym yn egluro'n fanwl ym mharagraffau 2.3 2.4, os bydd troseddwr sy'n 18 oed neu'n hŷn wedi mynd â chyllell neu arf arall i leoliad trosedd gan fwriadu (a) cyflawni unrhyw drosedd, neu (b) peri iddi fod ar gael i'w defnyddio fel arf, ac (c) ei fod wedi defnyddio'r gyllell neu arf arall hwnnw, yna bydd y dechreubwynt ar gyfer y cyfnod gofynnol y mae'n rhaid i'r troseddwr ei dreulio yn y ddalfa yn rhan o ddedfryd oes orfodol yn un sy'n uwch o lawer nag y byddai (a bod popeth arall yn gyfartal) os nad oedd y troseddwr wedi mynd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad. Mae gwahaniaeth o ddeng mlynedd rhwng y ddau ddechreubwynt.

1.1.4 Mae ein cylch gorchwyl yn gofyn yn benodol i ni ystyried a yw'r mater o fynd â chyllell neu arf arall i leoliad llofruddiaeth gyda'r bwriad dirgel (sydd wedi'i ddisgrifio uchod) ac yna ei defnyddio i gyflawni'r llofruddiaeth, yn rhywbeth y dylid ei ystyried yn benodol yng nghyd-destun llofruddiaethau domestig.

1.1.5 Roedd Thomas Griffith (17 flwydd oed ar adeg y drosedd) wedi'i ddedfrydu i'w gadw yn y ddalfa am oes am gyfnod o 12 mlynedd a 6 mis o leiaf a dedfrydwyd Joe Atkinson (25 mlwydd oed ar adeg y drosedd) i'w garcharu am oes am gyfnod o 16 flynedd o leiaf. O safbwynt cyfreithiol, nid oes dim o'i le ar y naill na'r llall o'r

dedfrydau a osodwyd yn yr achosion hyn. Roedd y ddau droseddwr wedi pledio'n euog, ac ni ellir dweud bod y dedfrydau a osodwyd yn 'amlwg o ormodol'"[1] nac yn 'rhy drugarog'[2] ond mae cwestiynau wedi codi o ran a yw canllawiau dedfrydu mewn achosion lladdiad domestig yn adlewyrchu ein dealltwriaeth cynyddol o achosion, nodweddion a mathau o niwed yng nghyd-destun cam-drin domestig angheuol.

1.1.6 Y tu ôl i'r cwestiynau hyn mae ystyriaethau ehangach fel: a yw'r dedfrydau a osodir mewn achosion am ladd partneriaid personol yn adlewyrchu difrifoldeb y lladdiadau neu beidio? A oes angen ymdrin â'r dedfrydau hyn mewn ffordd fwy arbenigol gan roi mwy o sylw i natur benodol y troseddau? A oes angen dechreubwyntiau uwch yng nghyd-destun y fframwaith dedfrydu presennol? Yn olaf, a ellir ymdrin â'r materion hyn heb roi ystyriaeth fanwl i laddiadau domestig yn gyffredinol?

1.1.7 Menywod yw mwyafrif y dioddefwyr mewn lladdiadau domestig. Rhoddir taw ar eu lleisiau nid yn unig yn rhinwedd y ffaith eu bod yn cael eu lladd ond oherwydd nad oes digon o gydnabyddiaeth yn y gyfraith ar hyn o bryd i'r mathau o niwed sy'n gysylltiedig â'r lladdiadau hyn. Nid yn unig y mae'r menywod hyn yn cael cam drwy'r tor-ymddiriedaeth sy'n rhan annatod o gam-drin domestig, ond mae'r niwed y maent yn ei gael yn ymestyn yn aml i niwed ychwanegol i ddioddefwyr eilaidd ar ffurf teuluoedd (nifer ohonynt yn blant) a ffrindiau'r dioddefwyr. Wedyn ceir y niwed i gymdeithas yn gyffredinol sydd heb ei ystyried yn ddigonol o bosibl hyd yn hyn. Pa gyfatebiaeth sydd rhwng llofruddiaethau domestig a llofruddiaethau menywod eraill lle mae'n glir bod y llofruddiaeth wedi'i hysgogi gan gasineb at fenywod, ond lle nad yw'r dioddefwr a'r troseddwr mewn perthynas bersonol nac erioed wedi bod mewn perthynas bersonol? Pa gasgliadau y byddwn yn dod iddynt o ran y niwed ehangach mewn amgylchiadau lle nad oes hanes domestig yn gyd-destun i'r lladdiad?

1.1.8 O ran dedfrydu am lofruddiaeth, ceir tyndra nad yw'n cael ei gydnabod yn aml gan gefnogwyr yr alwad am ddechreubwyntiau uwch neu ddedfrydau hirach. Mae'r tyndra hwn yn codi o'r ffaith bod menywod sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth mewn rhai achosion yn lladd eu partneriaid camdriniol. Mae'r menywod hyn yn ddioddefwyr yn ogystal â bod yn gyflawnwyr troseddau. Ni fyddai er budd cyfiawnder i'r menywod hyn dreulio cyfnodau gofynnol hirach yn y carchar. Hyd yn oed ar ôl ystyried disgresiwn barnwrol, byddai cyfnodau gofynnol

1 Yn unol ag a. 9, 11 o Ddeddf Apeliadau Troseddol 1968.

2 Mae a. 36 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn rhoi pŵer i Swyddogion y Gyfraith i wneud cais i'r Llys Apêl am ganiatâd i gyfeirio unrhyw ddedfryd i'w hadolygu os yw wedi'i thraddodi mewn perthynas â throsedd mewn achos yn Llys y Goron ac os yw'n ymddangos yn rhy drugarog.

hirach yn cyd-fynd yn syml â chynnydd yn y dechreubwyntiau ar gyfer cyfnodau gofynnol.

1.1.9 Ar y cychwyn, mae angen cofio pwrpas dedfrydu, sydd wedi'i ddisgrifio yn Neddf Dedfrydu 2020.[3] Mewn achosion llofruddiaeth, mae'r cyhoedd yn cael eu hamddiffyn gan y ddedfryd oes, sy'n cynnwys cyfnod gofynnol y mae'n rhaid ei dreulio'n llawn cyn i'r troseddwr ddod yn gymwys ar gyfer parôl. Ar ôl rhyddhau'r troseddwr, bydd ef neu hi o dan oruchwyliaeth am weddill ei oes. Fodd bynnag, er mwyn cosbi troseddwyr, mae angen pennu'r ymddygiad a'r bai y gellir priodoli'r beiusrwydd iddynt. Mae hyn yn helpu i leihau troseddu (drwy ei atal ymysg pethau eraill) gan fod y gallu i bennu'r lefelau beiusrwydd yn ogystal â'r amgylchiadau perthnasol lle caiff ei ffurfio, yn golygu bod modd pennu a mesur risg. Unwaith y ceir dealltwriaeth o'r risg, yna gallwn ddechrau atal lladdiadau domestig.

## 1.2 Cylch Gorchwyl

1.2.1 Mae ein Cylch Gorchwyl wedi'i ddangos yn llawn yn **Atodiad A**.

1.2.2 Yn ogystal ag ymdrin â'r materion hynny sy'n codi o'r gwahaniaeth mewn dechreubwyntiau ar gyfer cyfnodau gofynnol dedfrydau oes pan gymerir cyllell neu arf arall a 'mynd â hi i'r lleoliad', mae ein cylch gorchwyl yn ymdrin â'r cwestiwn a yw'r fframwaith dedfrydu presennol ar gyfer llofruddiaeth yn darparu templed digonol ar gyfer dedfrydau mewn achosion llofruddiaeth ddomestig.

1.2.3 At hynny, gofynnwyd i ni ddadansoddi a yw hanes o gam-drin domestig gan y cyflawnwr tuag at y dioddefwr neu fel arall yn gwneud gwahaniaeth sylweddol yn y dedfrydau a roddir. Gofynnwyd i ni ddadansoddi ac adolygu'r defnydd o gyfnodau gofynnol o garchar a ffactorau gwaethygol/lliniarol mewn achosion llofruddiaeth ddomestig lle mae'r troseddwr wedi llofruddio partner neu gyn-bartner personol.

1.2.4 Ar ben hynny, gofynnwyd i ni adolygu'r dedfrydu mewn achosion dynladdiad a dadansoddi'r canlyniadau yn nhermau rhywedd ac edrych ar unrhyw faterion sy'n codi o ddedfrydau a roddwyd lle mae cyflawnwr neu oroeswr cam-drin domestig wedi lladd partner personol.

---

[3] Deddf Dedfrydu 2020, a.57 Rhaid i'r llys roi sylw i'r dibenion canlynol i ddedfrydu —

(a) cosbi troseddwyr,

(b) lleihau troseddu (yn cynnwys ei leihau drwy ei atal),

(c) diwygio ac adsefydlu troseddwyr,

(d) amddiffyn y cyhoedd, ac

(e) gwneud iawn gan droseddwyr â phersonau y mae eu troseddau wedi effeithio arnynt.

1.2.5 Hefyd gofynnwyd i ni edrych ar yr amddiffyniadau presennol i gyhuddiadau o lofruddiaeth a gwneud unrhyw argymhelliad ar gyfer newid y credwn fod ei angen.

## 1.3 Termau

1.3.1 Rydym yn ymwybodol nad yw lladdiadau domestig yn digwydd yng nghyd-destun perthnasoedd rhwng partneriaid personol yn unig. Rydym yn cydnabod bod lladdiadau domestig yn cynnwys mathau eraill o gysylltiadau o fewn y teulu. Er enghraifft, ym Mynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref, cofnodir bod lladdiadau'n rhai 'domestig' os yw'r berthynas rhwng dioddefwr 16 flwydd oed a hŷn a'r cyflawnwr yn dod o fewn un o'r categorïau canlynol: (sy'n cynnwys) mab, merch, rhiant (yn cynnwys perthnasoedd llys-rieni a phlant mabwysiedig [a] pherthnasau eraill.[4] Fodd bynnag, y diffiniad o berthynas "**ddomestig**" yn ein Cylch Gorchwyl yw un rhwng partneriaid personol presennol neu flaenorol. Mae hyn yn gyson â'r diffiniad a ddarparwyd yn a.2 (1) (a) – (f) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021[5] ("Deddf 2021"). Nid yw'n cynnwys 'perthnasau' sydd hefyd, yn a. 2(1) (g) o Ddeddf 2021, yn dod o fewn y diffiniad o rai sydd â 'chysylltiad personol'. Er hynny, ein gobaith yw y bydd ein hargymhellion yn ddigon eang fel y byddant yn cael eu gweld (ar ryw bwynt) yn berthnasol i berthnasoedd eraill mewn cyd-destun domestig. Fel y byddwn yn egluro yn yr adroddiad hwn, rydym yn ceisio sicrhau cysondeb damcaniaethol a chyfreithiol.

1.3.2 Rydym hefyd yn defnyddio'r term cam-drin domestig o fewn yr ystyr yn Neddf 2021. Mae a.1 o'r Ddeddf yn diffinio cam-drin domestig fel a ganlyn:

> (2) Behaviour of a person ("A") towards another person ("B") is "domestic abuse" if —

4 Lle'r ydym wedi codi ffigurau o Fynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref, ar gyfer y dadansoddiad hwn rydym wedi cynnwys partneriaid personol blaenorol neu bresennol yn unig.

5 A.2(1) o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021: Diffiniad o "personally connected":

(1) For the purposes of this Act, two people are "personally connected" to each other if any of the following applies —

(a) they are, or have been, married to each other.

(b) they are, or have been, civil partners of each other.

(c) they have agreed to marry one another (whether or not the agreement has been terminated);

(d) they have entered into a civil partnership agreement (whether or not the agreement has been terminated);

(e) they are, or have been, in an intimate personal relationship with each other;

(f) they each have, or there has been a time when they each have had, a parental relationship in relation to the same child (see subsection (2))

(g) they are relatives

(a) A and B are each aged 16 or over and are personally connected to each other, and

(b) the behaviour is abusive.

(3) Behaviour is "abusive" if it consists of any of the following —

(a) physical or sexual abuse;

(b) violent or threatening behaviour;

(c) controlling or coercive behaviour;

(d) economic abuse (see subsection (4))6;

(e) psychological, emotional or other abuse; and it does not matter whether the behaviour consists of a single incident or a course of conduct.

1.3.3 Felly, mae'n cynnwys ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol ('**rheolaeth drwy orfodaeth'**) yn y diffiniad. Rydym yn diffinio rheolaeth drwy orfodaeth yn unol ag esboniad yr Athro Evan Stark o'r ddamcaniaeth glinigol am reolaeth drwy orfodaeth,[7] er nad yw'r diffiniad gan Stark yn niwtral o ran rhywedd.

> "Coercive control entails a malevolent course of conduct that subordinates women to an alien will by violating their physical integrity (domestic violence), denying them respect and autonomy (intimidation), depriving them of social connectedness (isolation), and appropriating or denying them access to the resources for personhood and citizenship (control). Nothing men experience in the normal course of their everyday lives resembles this conspicuous form of subjugation."

1.3.4 Mae'r diffiniad hwn yn sail i'r disgrifiad o'r ymddygiadau sy'n ffurfio elfen yr ymddygiad yn y drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol a ddarperir gan a.76 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2015. Roedd yr ymddygiadau a ystyriwyd gan a.76 wedi cael eu hamlinellu mewn fframwaith canllawiau statudol:[8]

---

[6] (4) "Economic abuse" means any behaviour that has a substantial adverse effect on B's ability to— (a) acquire, use or maintain money or other property, or (b) obtain goods or services.

[7] Stark (Evan) *"Coercive Control How Men Entrap Women in Personal Life"* OUP 2007 t15.

[8] Controlling or Coercive Behaviour in an Intimate or Family Relationship. Statutory Guidance Framework by the Home Office produced pursuant to s.77 of Serious Crime Act December 2015, gweler tudalennau 3-4 paragraffau 10-13.

10. "Controlling or Coercive behaviour does not relate to a single incident. It is a purposeful pattern of behaviour which takes place over time in order for one individual to exert power, control or coercion over another.

11. This new offence focuses responsibility and accountability on the perpetrator who has chosen to carry out these behaviours.

12 The Cross Government definition of domestic violence and abuse[9] outlines controlling and coercive behaviour as follows.

- **Controlling behaviour is:** a range of acts designed to make a person subordinate and/or dependent by isolating them from sources of support, exploiting their resources and capacities for personal gain, depriving them of the means needed for independence, resistance and escape and regulating their behaviour.

- **Coercive behaviour is:** a continuing act or pattern of acts of assault, threats, humiliation and intimidation or other abuse that is used to harm punish or frighten the victim". Nodir nad diffiniad cyfreithiol oedd y diffiniad trawslywodraethol o drais a cham-drin domestig a'i fod yn cynnwys trais ar sail 'anrhydedd', fel y'i gelwir, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) a phriodas dan orfod, ac mae'n glir nad yw dioddefwyr yn perthyn i un rhywedd neu grŵp ethnig yn unig.

1.3.5 Mae ein rhesymu a'n hargymhellion yn seiliedig ar ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol ('rheolaeth drwy orfodaeth') am ei fod yn sail i gam-drin domestig. Nid ydym yn defnyddio'r termau 'cam-drin domestig' a 'rheolaeth drwy orfodaeth' fel pe baent yn gyfystyr.

1.3.6 Y rhesymau dros hynny yw: yn gyntaf, bod ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn drosedd lle nad yw hynny'n wir am gam-drin domestig. Yn ail, mae dadl gryf bod cyfraith trosedd wedi methu hyd yn hyn â chydnabod y drwg a wneir gan gam-drin domestig, ac mae achos *R v. Dhaliwal*[10] yn enghraifft nodedig o hynny. Yn yr achos hwnnw, roedd y wraig ymadawedig wedi cyflawni hunanladdiad ar ôl ymgyrch o gam-drin seicolegol a oedd yn cynnwys rhai ymosodiadau corfforol gan ei gŵr (a gafodd ei gyhuddo o'i dynladdiad) ond barnwyd nad oedd niwed seicolegol a oedd heb fod yn gyfystyr â salwch seicolegol yn ddigon i gael ei ystyried yn niwed corfforol difrifol neu'n wir niwed corfforol ac felly nad oedd niwed

9 Nad oedd yn ddiffiniad cyfreithiol ac sydd bellach wedi'i ddisodli gan y diffiniad cyfreithiol yn Neddf 2021.

10 *R v. Dhaliwal [2006] EWCA Crim 113* lle'r oedd gwraig wedi'i lladd ei hun ar ôl dioddef ymgyrch o'r hyn a fyddai'n cael ei alw heddiw yn rheolaeth drwy orfodaeth.

y gellid dweud ei fod wedi achosi ei hunanladdiad yn yr amser yn union cyn y digwyddiad.[11]

1.3.7 Apeliodd y Goron yn erbyn y dyfarniad terfynol ond roedd dyfarniad y barnwr yn y treial wedi cael ei gadarnhau. Mae'n ddiddorol nodi bod barnwr y treial wedi datgan y farn hon: "I do not see any reason in principle why the final assault which triggered the suicide should be looked at in isolation." Fodd bynnag, nid oedd y Goron wedi dilyn y ddadl hon a chefnodd ar y safbwynt hwnnw wrth apelio gan ddewis ceisio darbwyllo'r llys ar sail salwch seiciatrig a hynny heb lwyddo am mai dim ond un o blith tri arbenigwr a oedd yn gallu tystio i hynny. Roedd y ddau arbenigwr arall o'r farn bod effaith seicolegol ar y ddioddefwraig nad oedd yn gyfystyr â salwch seiciatrig, ond a oedd yn gyson â cham-drin domestig.

1.3.8 Yn achos *R v. Challen*[12] barnodd y Llys Apêl fod euogfarn am lofruddiaeth yn anniogel am na ddibynnwyd yn y treial ar dystiolaeth o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol tuag at yr apelydd gan yr ymadawedig yng nghyd-destun cythrudd a chyfrifoldeb lleiedig. Nid hyd nes cael y dyfarniad hwn yr oedd potensial y cysyniad o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol (fel modd i ddangos y gwir am brofiad menywod sydd wedi'u dal mewn perthnasoedd camdriniol) wedi'i gyflwyno'n fwy cyffredinol i gyfraith trosedd.

1.3.9 Yn drydydd, mae rheolaeth drwy orfodaeth yn fath penodol o gam-drin sydd nid yn unig yn ffynnu yng nghyd-destun anghydraddoldeb strwythurol, ond hefyd yn parhau'r anghydraddoldebau sy'n cael eu gwarchod gan batriarchaeth, ac sydd ag angen delio â nhw mewn cyfraith mewn cymdeithas fodern.

1.3.10 Yn bedwerydd, mae'r holl elfennau eraill mewn cam-drin domestig sydd wedi'u cynnwys yn a.1 o Ddeddf 2021 yn rhai a all fod yn rhan o batrwm o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol.

1.3.11 Fel rydym yn egluro ym mharagraffau 5.2 - 5.4 yn yr adolygiad hwn, er bod rheolaeth drwy orfodaeth wedi dod yn rhan o'n disgwrs cyfreithiol, ni chafwyd dealltwriaeth llawn ohoni eto. Yn sail i'n rhesymu y mae'r syniad bod rheolaeth drwy orfodaeth yn offeryn hewristig y gellir ei ddefnyddio ar draws y system cyfiawnder troseddol i fabwysiadu ymagwedd fwy fforensig at gam-drin domestig.

---

[11] Gweler "Domestic Abuse and Human Rights" Jonathan Herring Intersentia (cyfeiriad ato yn 2022) M. Burton R v. Dhaliwal Commentary yn R Hunter C McGlynn E Rackley (goln) *Feminist Judgments* Hart Publishing Oxford 2010.

[12] *R v. Challen [2019] EWCA Crim 916.*

1.3.12 Drwy gydol yr Adolygiad hwn, rydym yn cyfeirio at y term ‘gor-ladd’ (‘overkill’) sydd wedi’i ddiffinio yn y llenyddiaeth[13] fel lladd sy’n golygu’r defnydd o drais digymell, gormodol y tu hwnt i’r hyn sydd ei angen i achosi marwolaeth y dioddefwr. Nid yw’n derm cyfreithiol ac wrth ei wirio i ddibenion yr Adolygiad, fe wnaed hynny drwy gofnodi’r defnydd o eiriau gan y barnwr dedfrydu yn y ffactor gwaethygol statudol presennol yn Atodlen 21 paragraff 9(c)[14] sef, “mental or physical suffering inflicted on the victim before death”[15] a /neu’r ffactor gwaethygol anstatudol bod yr ymddygiad (a arweiniodd at y farwolaeth) ar ffurf ymosodiad estynedig. Gwnaed hyn mewn cysylltiad ag ystyried amgylchiadau’r lladd. Yn ogystal â hyn, roedd achosion lle na soniwyd am y ffactorau gwaethygol statudol neu anstatudol penodol hyn, ond lle’r oedd yr amgylchiadau’n dangos bod mwy o drais wedi’i ddefnyddio nag yr oedd ei angen i ladd y dioddefwr, hefyd wedi cael eu cyfrif yn achosion gor-ladd.

1.3.13 Oherwydd ein cylch gorchwyl, mae llawer o’r drafodaeth yn y papur hwn yn ymwneud â’r egwyddorion cyffredinol ar gyfer ystyried difrifoldeb yn narpariaethau Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 (y ceir copi ohoni yn **Atodlen C**).

1.3.14 Fel rydym yn egluro isod, mae Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 yn amlinellu’r fframwaith presennol ar gyfer dedfrydu lle mae troseddwr wedi’i gael yn euog o lofruddiaeth. Roedd hon wedi disodli Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Heblaw wrth ddisgrifio’r datblygiadau hanesyddol mewn deddfwriaeth, rydym yn cyfeirio at rifau’r paragraffau yn Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020.

1.3.15 Mae’r sampl o 120 o achosion[16] sy’n sail i’r adolygiad hwn wedi cael ei rhannu’n ddau gategori ar sail rhywedd y cyflawnwr. Wrth gyfeirio at achosion penodol yn ein sampl, cyfeirir atynt yn ôl rhywedd y cyflawnwr a’r rhif yn y fformat canlynol:

---

[13] Gweler Femicide Census: “*If I am not in Friday, I might have been dead”* Long (Julia), Wertans (Emily), Harper (Keshia), Brennan (Deirdre), Harvey (Heather), Allen (Rosie) ac Elliott (Katie) gydag Ingala Smith (Karen) ac O Callaghan (Clarissa). 2009-2018 yn t40. Gweler hefyd *“Safety Planning, Danger and Lethality Assessment”* Campbell (Jacquelyn) a Glass (Nancy) yn *Intimate Partner Violence: A health-based perspective* C Mitchell a D Anglin (goln) Oxford University Press. “Overkill is another characteristic of intimate partner femicide that is not usually present where a female kills a male partner. Overkill was first described by Wolfgang in 1958 as two or more acts of shooting or stabbing or beating the victim to death. Several North American studies have found that the majority (46%-90%) of women in Intimate Partner Homicides are the victims of overkill compared to 12% or less of males” gan grybwyll geiriau Campbell (JC) *“If I can’t have you, no one can”*. Power and Control in homicide of female partners. Yn Russell (JR) gol. *Femicide: The Politics of Women Killing*, New York: Twayne; 1992 99-113, a Wolfgang (ME) “*Patterns in Criminal Homicide. Philadelphia”*: University of Pennsylvania Press 1958.

[14] Deddf Dedfrydu 2020 Atodlen 21 paragraff 9(c).

[15] Nad yw’n gyson â’r amgylchiadau hynny lle mae’r farwolaeth yn digwydd, ond bod yr ymosodiad ar y dioddefwr yn parhau.

[16] Gweler paragraff 1.4.1.

- **Cyflawnwyr gwrywaidd: CM1 - CM99**
- **Cyflawnwyr benywaidd: CF1 - CF21.**

## 1.4 Methodoleg

1.4.1 Roedd y gwaith yn rhan gyntaf yr Adolygiad yn galw am gymryd sampl o 120 o achosion lladdiad domestig rhwng 2018 a 2020 lle'r oedd y dioddefwr yn bartner neu'n gyn-bartner i'r troseddwr. Dynodwyd yr achosion ar sail data a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron/GLlTEF, Mynegai Lladdiadau Domestig y Swyddfa Gartref ac ymchwil benodol (o adroddiadau newyddion a ffynonellau eraill). Roedd mwyafrif yr achosion wedi'u cwblhau yn y llysoedd yn ystod blynyddoedd ariannol 2018/2019 a 2019/2020. Nid oedd unrhyw sicrwydd bod pob achos perthnasol yn y cyfnod hwnnw wedi'i ddynodi.

1.4.2 Dadansoddwyd y sylwadau dedfrydu wedyn gan Gwnsler y Trysorlys. Y nod oedd canfod a oedd gwahaniaeth ac, os oedd, beth oedd graddau'r gwahaniaeth, yn y cyfnodau gofynnol o garchar a roddwyd am lofruddiaeth ac, yn benodol, a ellid dweud bod gwahaniaeth mewn achosion lle'r 'aethpwyd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad' o'u cymharu ag achosion lle 'nad aethpwyd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad'. Roedd y sylwadau dedfrydu wedi'u dadansoddi ymhellach ar gyfer yr Adolygiad. Mae'r canfyddiadau wedi'u nodi mewn adrannau perthnasol drwy'r adroddiad a cheir crynodeb o'r fethodoleg a'r canfyddiadau yn **Atodiad D**.

1.4.3 Roedd 89 o lofruddiaethau a 31 o ddynladdiadau.[17] Yn holl achosion y sampl heblaw un, roedd y berthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr yn un heterorywiol. Dynion oedd y cyflawnwyr ym mwyafrif (83%) yr holl achosion a ddadansoddwyd. Dynion oedd y cyflawnwyr mewn 91% o'r llofruddiaethau ac mewn 58% o'r dynladdiadau. O'r 89 o lofruddiaethau, roedd y cyflawnwr yn wrywaidd mewn 81 o achosion ac nid oedd ond 8 o achosion llofruddiaeth lle'r oedd y cyflawnwr yn fenywaidd. Cyfrifwyd y cyfnodau gofynnol cyfartalog o garchar ar gyfer menywod a dynion yn ogystal â'r defnydd o arfau a'r cyfnodau gofynnol cyfartalog lle'r aethpwyd ag arf i'r lleoliad.

1.4.4 Y cyfnod gofynnol cyfartalog yn yr 89 o achosion llofruddiaeth oedd 20.5 blynedd. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion llofruddiaeth yn y sampl yn rhai cymwys ar gyfer dechreubwynt 15 mlynedd ond roedd y cyfnod gofynnol cyfartalog yn uwch na hyn, sef 18.7 blynedd. Roedd 5 o fenywod a gafodd ddechreubwynt o 15 mlynedd a gan fod 2 wedi cael tariff is na hyn, y tariff cyfartalog ar gyfer y pum menyw oedd 14.6 blynedd o gymharu â'r dynion a gafodd ddechreubwynt o 15 mlynedd a oedd

[17] Rhannwyd y dynladdiadau yn ôl y rheini a ddigwyddodd cyn ac ar ôl dod â Chanllawiau Diffiniol y Cyngor Dedfrydu ar Ddynladdiad i rym (Tachwedd 2018).

wedi cael 19 blynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, rhaid trin y ffigurau hyn yn ofalus gan fod nifer y menywod dan sylw yn fach iawn.

1.4.5 Cofnodwyd bod arf wedi’i ddefnyddio mewn 72% o’r achosion a ddadansoddwyd yn y sampl ac mewn 73% o’r achosion llofruddiaeth.

1.4.6 Roedd yr holl gyflawnwyr benywaidd a laddodd bartner gwrywaidd wedi defnyddio cyllell neu arf arall. Mewn achosion lle na ddefnyddiwyd arf, roedd yr holl gyflawnwyr heblaw un yn wrywaidd. Roedd yr unig gyflawnwr benywaidd a laddodd bartner benywaidd heb ddefnyddio arf.

1.4.7 Rhoddwyd cyfnodau gofynnol uwch o garchar ar gyfartaledd lle’r oedd arf wedi’i ddefnyddio a rhai is lle nad oedd adroddiad yn y sylwadau dedfrydu am y defnydd o arf.

1.4.8 Mewn achosion llofruddiaeth, lle’r aethpwyd ag arf i’r lleoliad roedd gwahaniaeth cyfartalog o 6.5 blynedd rhwng achosion o’r fath a’r achosion hynny lle nodwyd nad aethpwyd ag arf i’r lleoliad.

1.4.9 Ar ôl hynny, dadansoddwyd y dystiolaeth a lanlwythwyd i System Achosion Ddigidol Llys y Goron (‘CCDCS’) yn achosion Thomas Griffith a Joe Atkinson ac, o ganlyniad, roedd nifer o dermau eraill sydd ymhlyg yn y model rheolaeth drwy orfodaeth wedi cael eu cynnwys wrth ystyried ein sampl o 120 o achosion. Enghreifftiau o’r termau hyn oedd: a oedd y lladdiad wedi digwydd ar ddiwedd y berthynas neu wedyn a thystiolaeth o genfigen. Lle nad oeddem yn gallu defnyddio’r CCDCS, defnyddiwyd sylwadau dedfrydu wedi’u hategu gan adroddiadau yn y cyfryngau.

1.4.10 Wedyn cynhaliwyd dadansoddiad, a oedd yn cynnwys ystyriaeth i ‘**or-ladd**’. Fel y nodwyd, y diffiniad o’r term hwn yn y llenyddiaeth yw ‘defnydd o drais digymell, gormodol y tu hwnt i’r hyn sydd ei angen i achosi marwolaeth y dioddefwr.’ I ddibenion y dadansoddiad yn ein hadolygiad o achosion, cofnodwyd y defnydd gan y barnwr dedfrydu o’r geiriad yn y ffactor gwaethygol statudol presennol yn Atodlen 21 paragraff 9(c)[18] sef, “mental or physical suffering inflicted on the victim before death” a/neu’r ffactor gwaethygol anstatudol bod yr ymddygiad (a arweiniodd at y farwolaeth) ar ffurf ymosodiad estynedig. Gwnaed hyn mewn cysylltiad ag ystyried amgylchiadau’r lladd; ffurfiwyd barn oddrychol ar sail ffeithiau’r ymddygiad mewn achos penodol (er enghraifft, os oedd dioddefwr wedi’i drywanu 59 o weithiau) i geisio dynodi gor-ladd. Roedd y diffyg defnydd o ffactorau gwaethygol ‘ymosod estynedig’ neu ‘ddioddefaint corfforol a meddyliol’ yn yr achosion hyn a’r diffyg cyfeiriad at unrhyw beth a fyddai’n dod o fewn y

[18] Deddf Dedfrydu 2020 Atodlen 21 paragraff 9 (c).

diffiniad o **'or-ladd'** yn ein galluogi i weld lle na roddwyd pwys ar y ffactor hwn. Wedyn dadansoddwyd y canlyniadau ar sail rhywedd.

1.4.11 Aethom ymlaen i edrych ar y rôl sydd i dagu mewn lladdiadau domestig. Gwnaed hyn drwy gymryd y dadansoddiad blaenorol o 'amgylchiadau'r lladdiad' yn y sampl o 120 o achosion a dynodi achosion lle'r oedd tagu yn ffactor yn y lladdiad a nodi a oedd unrhyw sôn yn y sylwadau dedfrydu fod y dull o ladd yn ffactor gwaethygol ac a oedd hanes blaenorol o dagu yn y berthynas. Dadansoddwyd y canlyniadau wedyn ar sail rhywedd.

1.4.12 Roeddem hefyd wedi edrych ar gyfran yr achosion lle'r oedd rheolaeth drwy orfodaeth wedi'i chrybwyll fel ffactor gwaethygol. Fodd bynnag, am resymau a eglurir yn rhan 5.4, nid ydym yn hyderus bod presenoldeb neu absenoldeb unrhyw gyfeiriad o'r fath mewn sylwadau dedfrydu yn ffordd gywir ar ei phen ei hun i ganfod presenoldeb neu absenoldeb rheolaeth drwy orfodaeth yn hanes y lladdiad. Er enghraifft, hyd yn oed yn achos Joe Atkinson, mae adolygiad o bapurau'r achos yn awgrymu bod patrymau perthnasol a oedd yn awgrymu ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol fel cadw golwg, stelcio, un digwyddiad o drais corfforol a diffyg unigoleiddio rhwng y dioddefwr a'r cyflawnwr ac eto roedd yn ymddangos nad oedd yr ymchwiliad i lofruddiaeth Poppy Devey Waterhouse wedi nodi hyn na rhoi pwys arno.

1.4.13 Roeddem wedi cymhwyso'r un meini prawf at ddynladdiad yn ein sampl o achosion.

1.4.14 Cyflawnwyd y dadansoddiad uchod gan gadw mewn cof nad yw dedfrydu'n digwydd mewn gwagle ac, os mai'r bwriad yw ei ddadansoddi er mwyn diwygio, fod angen edrych ar y mathau o niwed (yn cynnwys niwed ehangach) y bwriedir ymdrin â nhw er mwyn cosbi troseddwyr a lleihau troseddu. Fel y nodwyd uchod, mae'r niwed hwn yn cynnwys y niwed i ddioddefwyr eilaidd, sef y teulu a ffrindiau i'r prif ddioddefwr a dioddefwyr trydyddol mewn cymdeithas yn gyffredinol.

1.4.15 Wrth gwrs, nid oes dim cystal ag edrych ar y dystiolaeth mewn achosion penodol. Lle'r oedd modd, rydym wedi edrych yn fwy manwl ar y dystiolaeth a lanlwythwyd i'r CCDCS, ond nid oedd hyn yn bosibl ym mhob achos am nad oedd yr amser neu'r adnoddau gennym. Yn ddelfrydol, byddem wedi gwneud astudiaethau achos o'r holl achosion yn ein sampl. Y rheswm am hyn yw ei bod yn anodd dadansoddi'r materion perthnasol ar eu pen eu hunain.

1.4.16 Pan feddyliwyd am gynnal yr adolygiad hwn, y bwriad oedd cynnwys yr atebion i'r problemau dan sylw mewn dadansoddiad o sylwadau dedfrydu yn unig. Os dibynnir ar sylwadau dedfrydu yn unig, gall hynny greu'r perygl o danddatgan neu orddatgan problemau. Mae sylwadau dedfrydu o'u hanfod yn grynodeb o'r ffordd y penderfynwyd ar y ddedfryd ac nid ydynt yn rhoi darlun llawn o'r achos. Y

cyfyngiadau a wynebir wrth ganolbwyntio ar sylwadau dedfrydu yw'r ffaith y gall fod yn anghywir dod i'r casgliad nad oedd y barnwr yn cadw ffactor penodol mewn cof dim ond am nad oedd cyfeiriad penodol ato. Mae hyn yn arbennig o wir os yw'r barnwr wedi clywed y dystiolaeth mewn treial. O gael mwy o amser ac adnoddau, byddai wedi bod yn fuddiol darllen yr Adolygiadau o Laddiadau Domestig[19] yn yr achosion hynny lle maent wedi'u cwblhau. Er mai pwrpas Adolygiad o Laddiad Domestig yw canfod pa wersi y gellir eu dysgu o'r drosedd o lofruddiaeth neu ddynladdiad,[20] mae nifer o'r adolygiadau hyn yn rhoi mewnwelediad i hanes y matrics ffeithiol a arweiniodd at y lladdiad am fod yr adolygiadau'n rhoi pwys ar y gronoleg ffeithiol. Ers eu cyflwyno yn 2011, daeth yn glir bod cysondeb rhwng nifer o'r themâu sy'n cyfrannu at ffactorau risg.

1.4.17 Yn yr achosion lle'r oedd honiadau o drais domestig blaenorol gan un ai'r dioddefwr neu'r cyflawnwr, byddai wedi bod yn fuddiol edrych yn fanwl ar y dystiolaeth. Rydym yn cydnabod bod heriau o ran bodolaeth tystiolaeth mewn achosion cam-drin domestig. Ni fydd dioddefwyr trais domestig a rheolaeth drwy orfodaeth yn sylweddoli bob amser eu bod yn ddioddefwyr. Natur cam-drin o'r fath yw bod y dioddefwr yn cael ei arwain i gredu ei fod ar fai am y cam-drin. Nid yw dioddefwyr yn rhoi gwybod am y cam-drin nac yn cadw cofnod ohono a gall llawer o gam-drin ddigwydd drwy gynnydd graddol. Yn aml, bydd dioddefwyr cam-drin yn methu â'i ddatgelu yn ystod ymchwiliad ac, felly, bydd hyn yn effeithio ar fodolaeth tystiolaeth. Dim ond drwy wneud dadansoddiad cynhwysfawr o hanes y berthynas y gellir canfod cam-drin. Oherwydd croestoriadedd, ceir dioddefwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol rhag datgelu fel oed, iaith a phwysau diwylliannol. Ymhlith y rhwystrau hyn, gellir cael rhai sy'n ganlyniad i gyfyngiadau mewnfudo a diffyg gwybodaeth am hawliau. Gwyddom fod dioddefwyr ac yn enwedig menywod sy'n wynebu'r risg o drais ar sail anrhydedd, yn rhy ofnus i roi gwybod i'r awdurdodau am eu partneriaid/aelodau o'u teulu am eu bod yn ofni'r sgil-effeithiau o du eu cymuned. Mae'r un ofn hefyd yn atal dioddefwyr o'r fath rhag datgelu unrhyw gam-drin (a brofir yn eu perthnasoedd personol) i aelodau o'u teulu eu hunain. Mae rhai o'r dioddefwyr hyn yn cael eu gorfodi gan eu teulu i briodi cyflawnwyr cam-drin yn eu herbyn ac mae hyn yn ei dro yn eu dieithrio oddi wrth rwydweithiau cymorth. Mewn achosion lle mae rhwystrau iaith sy'n galw am gymorth gan gyfieithwyr, byddai wedi bod yn fuddiol dadansoddi'r achosion ymhellach i weld a oedd y cyflawnwr (os oedd yn fenyw) wedi cael y cymorth perthnasol yn ystod yr achos fel mynediad at gyfieithydd ei hiaith frodorol (mae gwahanol dafodieithoedd mewn gwahanol ieithoedd sy'n gallu effeithio ar y dehongliad o'r dystiolaeth). Mae'r un

19 Cyflwynwyd Adolygiadau o Laddiadau Domestig yng Nghymru a Lloegr yn 2011 yn unol â Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 yn rhan o strategaeth i ganfod cyfleoedd i atal lladdiadau pellach.

20 Adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 ('Deddf 2004').

ystyriaeth yn codi o ran a oedd ganddi gynrychiolydd cyfreithiol a oedd yn deall dynameg ddiwylliannol y berthynas a'r teulu.

1.4.18 Oherwydd y pwyslais rydym yn ei roi ar ddioddefwyr eilaidd ac, wrth gwrs, y ffaith mai nhw yn aml sydd yn y lle gorau i ddweud y stori nad yw'r ymadawedig yn gallu ei hadrodd, byddem wedi hoffi gallu cynnal cyfweliadau strwythuredig â nhw. Fodd bynnag, cawsom ein cyfyngu gan ystyriaethau moesegol ynghyd â'r ffaith nad oedd gennym adnoddau digonol i oresgyn y rhwystrau sy'n dod yn sgil yr ystyriaethau moesegol hynny, felly nid oedd hyn yn bosibl.

1.4.19 Roedd y canlyniadau i'r dadansoddiad o'r sampl o achosion wedi ein galluogi i ganfod nifer o themâu a gafodd eu dadansoddi drwy ddulliau ansoddol wedyn ar sail llenyddiaeth academaidd a chyfreithiol, ymgynghori mewn Grwpiau Ffocws â rhanddeiliaid penodedig a chasglu tystiolaeth drwy gyfweliadau pellach â rhanddeiliaid sy'n gyfreithwyr, a throseddegwyr .

1.4.20 Yn ogystal â hyn, roedd data am laddiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2020 o Fynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref[21] wedi cael eu rhannu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (gweler **Atodiad E**). Yn unol â'r diffiniad o'r term 'domestig' gan yr adolygiad, yr unig achosion lladdiad a gafodd eu cynnwys oedd y rheini lle'r oedd y cyflawnwr yn bartner neu'n gyn-bartner personol.

## 1.5 Strwythur yr Adroddiad a Chrynodeb o'r Argymhellion

1.5.1 **Ym Mharagraffau 2.1- 2.4** yn yr adroddiad hwn, rydym yn disgrifio'r fframwaith dedfrydu presennol mewn achosion llofruddiaeth a ddarparwyd gan Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020.

1.5.2 **Ym Mharagraffau 3.1- 3.3**, rydym yn ystyried hanes deddfwriaethol Atodlen 21 a'r ffaith na roddwyd sylw penodol erioed (yn y fframwaith cyffredinol) i lofruddiaethau a gyflawnir mewn cyd-destun domestig. Rydym yn ystyried yr effaith a gafodd Atodlen 21 cyn 2010 pan ddiwygiwyd Atodlen 21 i gynnwys categori difrifoldeb newydd wedi'i seilio ar y ffaith bod troseddwr wedi mynd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad gan fwriadu (a) cyflawni unrhyw drosedd, neu (b) peri iddi fod ar gael i'w defnyddio fel arf, ac (c) bod wedi defnyddio'r gyllell honno neu arf arall wrth gyflawni'r llofruddiaeth. Gwnaed hyn drwy gyflwyno 5A.[22] Rydym yn ystyried y ffordd mae'r llysoedd wedi dehongli'r darpariaethau perthnasol ac a yw'r diffiniad o ddifrifoldeb yn gyson â'r diffiniadau o ddifrifoldeb yn y categorïau llofruddiaeth

[21] Fel yr oeddent ar 15 Rhagfyr 2020. Mae'r ffigurau'n agored i'w hadolygu wrth i'r heddlu a'r llysoedd ddelio ag achosion, neu wrth i fwy o wybodaeth ddod i law.

[22] Bellach paragraff 4(1), (2) o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020.

eraill. Nid yw'n gyson yn ein barn ni, a hynny am nad yw'n nodi bod sefyllfa'r dioddefwr o ran bod yn agored i niwed yn fodd i bennu lefel y difrifoldeb. Rydym yn dod i'r casgliad nad yw gwendid pobl sydd wedi'u dal mewn perthnasoedd camdriniol yn fater sydd wedi'i ystyried mewn polisi eto.

1.5.3 **Ym Mharagraffau 4.1-4.3** rydym yn crynhoi'r natur broblemus sydd i gategori difrifoldeb wedi'i seilio'n llwyr ar y ffaith bod y troseddwr wedi mynd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad. Rydym yn egluro pam mae'r mathau o niwed mewn llofruddiaethau domestig yn wahanol i'r mathau o niwed a oedd dan sylw ym Mharagraff 5A[23] o Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

1.5.4 **Ym Mharagraffau 5.1-5.1.18** rydym yn amlinellu'r ffactorau hynny sy'n gwneud llofruddiaethau domestig yn wahanol i lofruddiaethau eraill. Eglurwn y pwysigrwydd sydd i hanes y berthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr a pha mor bwysig yw rhoi pethau yn nhrefn amser mewn llofruddiaethau domestig. Rydym yn egluro bod cam-drin domestig yn drosedd ryweddol a bod llofruddiaeth ddomestig yn drosedd sy'n ei ddilyn. Rydym hefyd yn egluro bod natur ryweddol lladdiadau domestig yn gyfreitheg sy'n datblygu ac yn cyfeirio at rai datblygiadau pwysig yn ein cyfraith sydd â'r bwriad o gyflwyno cydraddoldeb rhwng y rhywiau, yn cynnwys cyflwyno'r cysyniad o gythrudd cronnol a'r amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth.

1.5.5 **Ym Mharagraffau 5.2-5.2.9** rydym yn disgrifio'r manteision o gyflwyno'r cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth yn y disgwrs ar gyfraith trosedd. Y rhain yw (i) ei fod yn well o ran adlewyrchu profiadau menywod mewn perthnasoedd camdriniol, (ii) bod y cysyniad o endrapio yn esboniad mwy credadwy o'r rheswm y mae pobl yn aros mewn perthynas gamdriniol na'r rheini a geir mewn modelau hen ffasiwn fel Syndrom y Fenyw a Gurwyd, (iii) ei fod yn ein galluogi, o'i ddeall yn iawn, i droi oddi wrth y syniad bod cam-drin domestig yn ymwneud â pherthynas sydd wedi 'mynd o'i le' yn hytrach na'i fod yn ymwneud ag angen patholegol y cyflawnwr i reoli dioddefwr, (iv) ei fod yn chwarae rhan ganolog yn y dilyniant a'r llinell amser sy'n arwain at laddiad. Yn olaf, rydym yn egluro pam mae'r cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth yn galluogi ymarferwyr cyfiawnder troseddol i ymdrin â cham-drin domestig mewn ffordd fwy cynhwysfawr a fforensig.

1.5.6 **Ym Mharagraffau 5.3-5.3.10** rydym yn trafod y mater o droseddwyr sydd hefyd yn ddioddefwyr am eu bod wedi'u dal mewn perthnasoedd o ganlyniad i reolaeth drwy orfodaeth. Cyfeiriwn at yr anhawster o sicrhau darpariaeth niwtral o ran y rhywiau ar gyfer dedfrydu'r troseddwyr hynny sydd hefyd yn ddioddefwyr, sydd ar yr un pryd yn cyfleu'r mathau o niwed go iawn a achosir i fwyafrif y dioddefwyr y mae'r adolygiad hwn yn ymwneud â nhw.

[23] Bellach paragraff 4(1), (2) o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020.

1.5.7 **Rydym yn awgrymu** bod y model rheolaeth drwy orfodaeth[24] yn un ffordd i briodoli difrifoldeb i lofruddiaeth. Y rheswm am hyn yw ei fod yn dangos y cymhelliant dros laddiadau. Er enghraifft, mae nifer mawr o ddynion yn lladd eu partner benywaidd ar ddiwedd perthynas neu pan fydd hi wedi dangos ei bod yn dymuno gadael, a'i fod ef yn canfod na fydd bellach yn gallu ei rheoli.

1.5.8 **Ym Mharagraffau 5.4-5.4.24** rydym yn edrych ar y dystiolaeth a thrwy hynny'n casglu mai dealltwriaeth gwael a geir o hyd o reolaeth drwy orfodaeth ymhlith nifer o asiantaethau rheng flaen ac ymysg ymarferwyr cyfiawnder troseddol. Rydym yn edrych ar natur benodol yr orfodaeth gan gyflawnwyr a'r ffordd y mae hyn yn cyfrannu i gam-drin croestoriadol. Rydym yn ystyried y ffordd y mae rheolaeth drwy orfodaeth yn gallu peri i ddioddefwyr ymddangos yn gyfrannog yn y cam-drin y maent yn ei brofi a'r effaith bosibl o hynny ar y gallu i gasglu gwybodaeth.

1.5.9 **Rydym yn argymell** y dylid cael system benodol ar wahân i gasglu'r holl ddata perthnasol mewn perthynas â'r holl laddiadau domestig, i'w chynnal gan y Swyddfa Gartref neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. Gweler paragraff 5.4.23 ac argymhelliad 1 yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.10 **Rydym yn argymell** darparu hyfforddiant i'r holl gyfreithwyr a barnwyr sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol ar ddeall a chymhwyso'r cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth (er mwyn sicrhau dull mwy fforensig o drafod cam-drin domestig ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol). Gweler paragraff 5.4.24 ac argymhelliad 2 yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.11 **Ym Mharagraffau 6.1- 6.7** rydym yn edrych ar feiusrwydd yn nhermau'r mathau ehangach o niwed sy'n gysylltiedig â llofruddiaethau domestig, sef a yw'r llofruddiaeth yn digwydd ar ddiwedd y berthynas, gor-ladd a chenfigen. Rydym wedi cymhwyso'r cysyniadau hyn at ein sampl o achosion ac wedi edrych ar gyfran yr achosion lle'r oeddent yn cyd-ddigwydd. Wedyn ystyriwyd pa mor gyffredin oedd tagu a beth oedd y goblygiadau o hynny. Rydym yn egluro bod yr holl ffactorau hyn yn cydffinio â rheolaeth drwy orfodaeth.

1.5.12 **Ym Mharagraffau 7.1-7.1.3** rydym yn ystyried, gan gymryd yr holl faterion uchod i ystyriaeth, a ddylid cael categori yn Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 wedi'i seilio ar reolaeth drwy orfodaeth sy'n nodi dechreubwynt newydd yn achos llofruddiaethau domestig. Rydym yn egluro pam nad ydym yn credu y dylid ei gael. Ar wahân i unrhyw beth arall, y rheswm am hyn yw y byddai perygl o greu

---

[24] Sef yr ymddygiadau sy'n cyfrannu i reolaeth drwy orfodaeth yn hytrach na'r drosedd yn a76 Deddf Troseddu Difrifol 2015.

anghysonderau rhwng unrhyw baragraff newydd a pharagraff 2 mewn achosion lle mae ymddygiad y gellir ei briodoli i reolaeth drwy orfodaeth yn cael ei weld yn ddifrifol iawn am ei fod yn cynnwys treisio neu ymosod sadistaidd.

1.5.13 **Rydym yn argymell** bod y dechreubwynt o 25 mlynedd sy'n gymwys mewn amgylchiadau lle mae'r cyflawnwr yn mynd â chyllell neu arf arall 'i'r lleoliad' yn cael ei ddatgymhwyso mewn achosion llofruddiaeth ddomestig am fod y dechreubwynt o 25 mlynedd yn un lle na roddir unrhyw ystyriaeth i'r ffaith bod y dioddefwr yn agored i niwed. (Mae'r mathau o niwed y cyflwynwyd paragraff 5A o Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 er mwyn eu hatal yn 2010 yn rhai gwahanol iawn i'r mathau o niwed sy'n digwydd mewn llofruddiaethau domestig.) Gweler argymhelliad 3 ym mharagraff 7.13 ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.14 **Rydym yn argymell** er hynny, y dylid rhoi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig o fewn y fframwaith dedfrydu presennol o dan Atodlen 21. Dylid pennu lefel y difrifoldeb drwy gymhwyso'r model rheolaeth drwy orfodaeth o fewn y dechreubwynt 15 mlynedd. Y bwriad wrth wneud hyn yw sicrhau bod amgylchiadau rhyweddol (fel lladd ar ddiwedd perthynas a chenfigen) yn cael eu defnyddio i briodoli difrifoldeb i'r llofruddiaeth a bod mathau ehangach o niwed cyfreithiol yn cael eu nodi a'u hadlewyrchu yn y ddedfryd. Gweler argymhelliad 4 ym mharagraff 7.1.14 a'r tabl yn Rhan 10.

1.5.15 Rydym yn egluro ein barn y dylid sicrhau hyn drwy gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth yn y ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol ym mharagraffau 9 a 10 o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020. Os defnyddir rheolaeth drwy orfodaeth i fesur difrifoldeb, yna bydd yn dilyn bod llofruddiaethau domestig yn cael eu gwaethygu neu eu lliniaru gan y mathau o niwed a geir.

1.5.16 **Rydym yn argymell** lle mae hanes o reolaeth drwy orfodaeth dros ddioddefwr llofruddiaeth gan gyflawnwr y llofruddiaeth honno, yna y dylai hyn fod yn ffactor gwaethygol statudol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 i'r Ddeddf Dedfrydu yn unol â hynny. Gweler argymhelliad 5 ym mharagraff 7.1.15 ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.17 I'r gwrthwyneb, **rydym yn argymell** lle mae hanes o gyflawni rheolaeth drwy orfodaeth gan ddioddefwr y llofruddiaeth yn erbyn y troseddwr, yna y dylai hyn fod yn ffactor lliniarol statudol ac y dylid diwygio paragraff 10 o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 yn unol â hyn. Unwaith eto, gweler argymhelliad 5 ym mharagraff 7.1.15 ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.18 **Rydym yn argymell** os bydd llofruddiaeth yn digwydd ar ddiwedd perthynas neu pan fydd y dioddefwr wedi mynegi dymuniad i adael y berthynas, yna y dylid ystyried hyn yn ffactor gwaethygol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Gweler argymhelliad 6 ym mharagraff 7.1.16 o'r adroddiad hwn ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.19 **Rydym yn argymell** cysondeb rhwng cyfraith a pholisi, yn benodol y dylai'r ffactorau lliniarol presennol fod yn gyson â'r polisi sy'n sail i adran 55(5)(c) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Fel y byddwn yn egluro, y bwriad deddfwriaethol a oedd yn sail dros gyflwyno'r amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth oedd ei gwneud yn glir nad oedd anffyddlondeb rhywiol yn gallu esgusodi na chyfiawnhau lladd. Nid oedd y ffactorau gwaethygol a lliniarol ym mharagraffau 10 a 11 (fel yr oeddent ar y pryd) o Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 wedi cael eu diwygio pan ddiddymwyd yr amddiffyniad o gythrudd. Fel y mae'r gyfraith ar hyn o bryd, gallai anffyddlondeb rhywiol gael ei gyfrif yn gythrudd o hyd (heb fod yn amddiffyniad) yn yr ychydig achosion lle mae'r llys yn ystyried hen gyfraith cythrudd. Gweler argymhelliad 7 ym mharagraff 7.1.17 o'r adroddiad hwn ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.20 **Rydym yn argymell** y dylai gor-ladd gael ei ddiffinio mewn cyfraith yn niwed cyfreithiol penodol ac y dylai fod yn ffactor gwaethygol mewn llofruddiaeth. Dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Gweler argymhelliad 8 ym mharagraff 7.1.18 o'r adroddiad hwn ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.21 **Rydym yn argymell** os ceir llofruddiaeth drwy dagu neu lofruddiaeth lle mae tagu wedi digwydd, yna y dylai'r dull hwn o ladd fod yn ffactor gwaethygol statudol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 yn unol â hynny. Y rheswm am hyn yw bod tagu yn cynnwys dioddefaint ychwanegol a niwed mwy. Gweler paragraff 7.1.19 o'r adroddiad hwn ac argymhelliad 9 yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.22 **Rydym yn argymell** na ddylai'r defnydd o arf gael ei weld o reidrwydd yn ffactor gwaethygol mewn llofruddiaeth ddomestig. Gweler paragraff 7.1.20 o'r adroddiad hwn ac argymhelliad 10 yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.23 Mae ein rhesymau dros ddod i'r casgliad nad yw'r defnydd o arf bob amser yn gwaethygu trosedd llofruddiaeth neu ddynladdiad domestig yn ymwneud â rhywedd. Anaml iawn (os o gwbl) y bydd menywod yn gallu lladd dynion heb ddefnyddio arf tra nad yw'r un peth yn wir am ddynion a fydd yn aml yn lladd drwy dagu â'r dwylo.

1.5.24 **Ym Mharagraffau 8.1- 8.3** gan gydnabod bod canllawiau dedfrydu yn fater i'r Cyngor Dedfrydu annibynnol, rydym yn ystyried y dystiolaeth o'r adolygiad o achosion mewn perthynas â dynladdiad gwirfoddol yn nhermau amddiffyniadau rhannol ar sail cyfrifoldeb lleiedig a cholli rheolaeth.

1.5.25 **Rydym yn argymell** mewn achosion o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig, y dylid ystyried diwygio'r canllawiau dedfrydu i wneud tagu yn ffactor gwaethygol sy'n cynyddu difrifoldeb. Gweler argymhelliad 11 ym mharagraff 8.1.23 o'r adroddiad hwn ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.26 Er mwyn cadw cysondeb, **rydym yn argymell** mewn achosion o ddynladdiad drwy golli rheolaeth, y dylid ystyried diwygio'r canllawiau dedfrydu i wneud tagu yn ffactor gwaethygol sy'n cynyddu difrifoldeb. Gweler argymhelliad 12 ym mharagraff 8.2.3 o'r adroddiad hwn ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.27 **Rydym yn argymell** mewn achosion dynladdiad, y dylid ystyried diwygio'r canllawiau dedfrydu i wneud "rheolaeth drwy orfodaeth" ar ran cyflawnwr y lladd dros y dioddefwr yn ffactor sy'n cynyddu difrifoldeb. I'r gwrthwyneb, y dylid ystyried gwneud "rheolaeth drwy orfodaeth" ar ran dioddefwr y lladd yn ffactor lliniarol sy'n lleihau difrifoldeb. Gweler argymhelliad 13 ym mharagraff 8.1.25 ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.28 **Rydym yn argymell** ystyried a ddylid diwygio'r Canllaw Diffiniol ar Gam-drin Domestig i ddynodi bod ymosodiadau drwy dagu nad yw'n angheuol yn ffactor gwaethygol. Gweler argymhelliad 14 ym mharagraff 8.1.26 o'r adroddiad hwn ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.29 **Rydym yn argymell** y dylid rhoi ystyriaeth mewn achosion dynladdiad domestig i ddiwygio'r canllawiau dedfrydu i nodi nad yw'r defnydd o arf o reidrwydd yn ffactor gwaethygol. Gweler argymhelliad 15 ym mharagraff 8.2.10 o'r adroddiad hwn ac yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.30 Roeddem wedi edrych ymhellach ym **mharagraffau 8.2 - 8.3** ar ddynladdiad anwirfoddol ar ffurf dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon a dynladdiad drwy esgeuluster difrifol lle'r oedd hyn yn ymwneud â thrais cydsyniol wrth gael rhyw. O ganlyniad i'n dadansoddiad o'r achosion perthnasol a'r canllawiau dedfrydu, **rydym yn argymell** lle yr achoswyd marwolaeth yn yr amgylchiadau hyn, y dylid dynodi bod lefel y beiusrwydd yn uchel yn y canllawiau dedfrydu perthnasol oherwydd y risg a'r perygl mawr (yn hytrach na'r risg amlwg) o farwolaeth mewn amgylchiadau lle ceir y math o ymosodiadau sy'n dueddol i gael eu cyflawni. Yn ogystal â hyn, mae lladdiadau sy'n digwydd yn yr amgylchiadau hyn yn gallu bod yn ganlyniad i'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n parhau patriarchaeth, neu'n adlewyrchiad ohonynt, ac sydd felly yn ffactor yn y niwed ehangach sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn. Gweler paragraff 8.3.29 ac argymhelliad 16 yn y tabl yn Rhan 10.

1.5.31 **Ym mharagraffau 8.1.13-8.1.16** rydym yn ystyried yr awgrym gan rai rhanddeiliaid lle mae troseddwr mewn achos lladdiad domestig wedi'i gael yn euog o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig, y dylai'r troseddwr hwnnw fod yn destun archwiliad seiciatrig pellach er mwyn asesu risg cyn ei ryddhau ar drwydded. Rydym yn amlinellu pam nad ydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol yn sgil y Canllawiau Diffiniol ar Ddynladdiad ynghylch dedfrydu a ddaeth i rym yn 2018 a gwahanol newidiadau statudol eraill yn y gyfraith ar ddedfrydu.

1.5.32 **Ym mharagraffau 9.1- 9.7** rydym yn tynnu sylw at rai o'r problemau sy'n ymwneud â'r amddiffyniadau llawn a rhannol presennol i gyhuddiadau o lofruddiaeth. Rydym yn nodi agweddau ar amddiffyniadau sy'n broblemus yn nhermau treialon menywod sy'n lladd partneriaid gwrywaidd sy'n cyflawni rheolaeth drwy orfodaeth drostynt. Rydym yn tynnu sylw at yr amddiffyniad newydd ar sail 'rhyw garw' ac yn awgrymu y dylid rhoi mwy o ystyriaeth mewn polisi i'r materion sydd wedi codi o ganlyniad i hyn.

1.5.33 **Rydym yn argymell** cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r amddiffyniadau i gyhuddiadau o lofruddiaeth ar ffurf ymgynghoriad cyhoeddus llawn â'r holl randdeiliaid gan gynnwys barnwyr y llysoedd uwch. Dylai hyn gynnwys craffu ar ôl deddfu ar yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth, ystyriaeth i'r amddiffyniad o hunanamddiffyn ac ystyriaeth i'r hyn y mae sylwebwyr wedi'i alw'n 'amddiffyniad rhyw garw.' Gweler paragraff 9.7.6 a'r argymhelliad yn y tabl yn Rhan 10.

# 2. Dedfrydu mewn Achosion Llofruddiaeth

2.1 Y peth cyntaf i'w nodi yw bod dedfrydu mewn achosion llofruddiaeth yn cael ei lywodraethu gan y fframwaith yn Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020. Ar hyn o bryd, mae Atodlen 21 yn pennu'r pedwar 'dechreubwynt' canlynol ar gyfer penderfynu'r cyfnod gofynnol o garchar.[25] Yn gyntaf, cyfnod oes gyfan (gweler paragraff 2(1)) mewn achos eithriadol o ddifrifol ("exceptionally high seriousness"). Mae difrifoldeb trosedd sy'n dod o fewn paragraff 2 yn cynnwys lladd dau neu ragor o bobl lle mae'r dull o ladd yn cynnwys un ai (i) graddau sylweddol o ragfwriadu neu gynllunio, (ii) herwgydio'r dioddefwr neu (iii) ymddygiad rhywiol neu sadistaidd. Mae paragraff 2 hefyd yn cynnwys dosbarthiadau penodol o ddioddefwyr, sef plentyn sydd wedi'i herwgydio neu ddioddefwr y mae cymhelliad rhywiol neu sadistaidd y llofruddiaeth yn gysylltiedig ag ef; swyddog heddlu neu garchar sy'n gweithredu wrth gyflawni ei ddyletswydd. Mae'n cynnwys achosion lle mai cymhelliad y llofruddiaeth yw hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol, hiliol neu ideolegol ac, yn olaf, os yw'r troseddwr wedi'i gael yn euog o lofruddiaeth o'r blaen, yna bydd hyn hefyd yn ffactor sy'n dangos difrifoldeb.

2.2 Yn ail, bydd dechreubwynt o 30 mlynedd yn gymwys (gweler paragraff 3(1)) – mewn achos neilltuol o ddifrifol ("particularly high seriousness"). Mae paragraff 3 yn darparu ar gyfer llofruddiaethau sy'n ddigon difrifol i alw am ddechreubwynt uwch na'r cyfartaledd a'r enghreifftiau a nodwyd ym mharagraff 3(2) yw llofruddio swyddog heddlu neu swyddog carchar wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd os cyflawnwyd y drosedd cyn 13 Ebrill 2015; llofruddiaeth sy'n cynnwys y defnydd o arf tanio neu ffrwydryn; llofruddiaeth a gyflawnir er elw; llofruddiaeth lle mai'r bwriad yw rhwystro neu ymyrryd â chwrs cyfiawnder; llofruddiaeth sy'n cynnwys ymddygiad rhywiol neu sadistaidd; llofruddio dau neu ragor o bobl; llofruddiaethau sydd wedi'u gwaethygu am eu bod yn gysylltiedig â gelyniaeth tuag at nodweddion gwarchodedig mewn deddfwriaeth troseddau casineb (gelyniaeth hiliol, gelyniaeth grefyddol neu elyniaeth yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol).[26] Mae paragraff 3 hefyd yn cynnwys llofruddiaeth a gyflawnwyd gan droseddwr a oedd o dan 21 oed pan gyflawnwyd y drosedd a fyddai fel arall wedi dod o fewn paragraff 2.[27]

2.3 Yn drydydd, bydd dechreubwynt o 25 mlynedd yn gymwys (gweler paragraff 4(1)) mewn achosion lle’r aethpwyd â chyllell neu arf arall i’r lleoliad gyda’r bwriad penodedig a’i ddefnyddio wedyn yng nghwrs y llofruddiaeth. Mae paragraff 4 yn darparu, os nad yw’r drosedd yn dod o fewn paragraffau 2(1) neu baragraff 3(1) ac os yw’r drosedd yn dod o fewn is-baragraff (2), os oedd y troseddwr yn 18 oed neu’n hŷn[28] pan gyflawnwyd y drosedd, os cyflawnwyd y drosedd ar ôl gwneud Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (Dedfryd Oes Orfodol: Penderfynu’r Cyfnod Gofynnol) 2010[29] yna bydd y drosedd fel arfer yn cael ei gweld yn ddigon difrifol fel mai’r dechreubwynt priodol wrth benderfynu’r cyfnod gofynnol fydd 25 mlynedd.

2.4 Mewn achosion nad ydynt fel arfer yn dod o fewn unrhyw un o’r paragraffau uchod, y dechreubwynt i droseddwr a oedd yn 18 oed neu’n hŷn ar adeg y drosedd yw 15 mlynedd.[30] Fel yr eglurir isod, mae’r rhan fwyaf o lofruddiaethau domestig yn dod o fewn y categori hwn.

---

25 Y cyfnod o garchar y mae’n rhaid i’r troseddwr ei gwblhau cyn y bydd yn gymwys i wneud cais i’r Bwrdd Parôl am ei ryddhau ar drwydded. Bydd unrhyw un a gafwyd yn euog o lofruddiaeth a’i ddedfrydu i’w garcharu am oes yn dod o dan drwydded oes.

26 Bydd llofruddiaeth wedi’i gwaethygu fel hyn os bydd adran 66 o Ddeddf Dedfrydu 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i’r llys drin y ffaith ei bod wedi’i gwaethygu fel hyn fel ffactor gwaethygol.

27 Goddefiad am oed a diffyg aeddfedrwydd.

28 Mae darpariaethau newydd bellach yn adrannau 126 a 127 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd 2022. Bydd y darpariaethau yn a.127 yn diwygio Atodlen 21 paragraff 6 i gynyddu’r dechreubwyntiau yn ôl oed y troseddwr (pa un a oedd yn 17, 16, 15 neu’n 14 oed ar adeg cyflawni’r drosedd ac yn amodol ar y paragraffau yn Atodlen 21 y mae’r drosedd yn gymwys iddynt h.y. os yw’r troseddwr yn 17 oed ar adeg cyflawni’r drosedd a bod y drosedd ym mharagraff 2, yna bydd dechreubwynt o 27 flynedd. Os yw’r drosedd o fewn paragraff 3, yna y dechreubwynt i droseddwr o’r oed hwn fydd 23 blynedd ac os yw’r drosedd yn dod o fewn paragraff 4, y dechreubwynt fydd 14 blynedd. Mae dechreubwyntiau’n cael eu haddasu at i lawr ar gyfer troseddwyr a oedd mewn oedrannau gwahanol (iau) ar adeg y drosedd.

29 Roedd Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (Dedfryd Oes Orfodol: Penderfynu’r Cyfnod Gofynnol) 2010/197 wedi cyflwyno a5A yn Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

30 Gweler Atodlen 21 paragraff 5.

# 3. Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020

## 3.1 Hanes Deddfwriaethol Atodlen 21

3.1.1 Rydym yn adrodd yr hanes hwn yn fanwl am ddau reswm. Yn gyntaf, i ddangos nad yw llofruddiaethau domestig erioed wedi'u hystyried yn gategori penodol yn fframwaith yr Atodlen 21 bresennol na'r un flaenorol. Yn ail, i ddangos y symbyliad deddfwriaethol dros gael categori ychwanegol i ddelio â'r sefyllfa lle mae troseddwr wedi mynd â chyllell neu arf arall i leoliad llofruddiaeth ac wedyn wedi defnyddio'r arf hwnnw wrth gyflawni'r llofruddiaeth. Mae'n glir nad oes cysylltiad rhwng y sail resymegol dros yr hyn a gyflwynwyd gyntaf yn 2010 fel paragraff 5A o Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (ac sydd bellach yn baragraff 4 o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020) a'r ffactorau sy'n ymwneud â llofruddiaethau domestig.

3.1.2 Cyn pasio Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, yr Ysgrifennydd Cartref oedd yn gyfrifol am benderfynu hyd y cyfnod gofynnol. Byddai barnwr y treial yn rhoi cyngor ar hyd y cyfnod gofynnol yn breifat gyda'r Arglwydd Brif Ustus. Er bod y cyngor hwn yn cael ei dderbyn fel arfer, nid oedd yn rhwymo'r Ysgrifennydd Cartref.

3.1.3 Ar 10 Chwefror 1997, darparodd yr Arglwydd Bingham CJ ganllawiau[31] i farnwyr treialon gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb. Argymhellwyd i farnwyr y dylai cyfnod gofynnol o 14 blynedd gael ei gwblhau am lofruddiaeth gyffredin, normal neu aneithriadol ("average", "normal" neu "unexceptional") a chyfnod gofynnol o 30 mlynedd mewn achosion prin. Byddai rhai achosion yn galw am gyfnod gydol oes. Nid oedd yr Arglwydd Bingham CJ wedi egluro beth roedd yn ei olygu wrth "average", "normal" neu "unexceptional".

3.1.4 Rhoddwyd canllawiau hefyd ar faterion y gellid eu hystyried yn rhai lliniarol yn ogystal â chanllawiau ar ffactorau a fyddai'n gwaethygu'r drosedd. Byddai nifer o'r ffactorau hyn yn dod yn sail i'r fframwaith statudol, a ddaeth wedyn yn Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

3.1.5 Ar 15 Mawrth 2002 roedd y Panel Cynghori ar Ddedfrydu ar y pryd wedi rhoi canllawiau i'r Llys Apêl ar hyd y cyfnodau gofynnol.[32] Nodwyd yn y canllawiau fod y cyfnodau gofynnol a argymhellwyd yn amrywio'n fawr uwchben ac o dan y cyfnod o 14 blynedd a awgrymwyd gan yr Arglwydd Bingham CJ ar gyfer llofruddiaeth "normal" ac felly awgrymodd y dylid cael dechreubwynt uchaf, canol

31 Mae'r canllawiau yn *R v. Sullivan [2005] 1 Cr. App. R. 3 yn [28]-[29].*

32 *Minimum Terms in Murder Cases: The Panel's Advice to the Court of Appeal April 2002*

ac isaf. Y ffigur uchaf oedd 15-16 blynedd, y ffigur canol oedd 12 mlynedd a'r ffigur isaf oedd 8/9 mlynedd. Roedd y ffigur canol wedi'i fwriadu i fod yn ddechreubwynt ar gyfer achos sy'n codi o "quarrel or loss of temper between two people known to each other".[33] Roedd y ffigur isaf ar gyfer achosion "where the offender's culpability is significantly reduced. Such cases which in any event come close to the borderline between murder and manslaughter, includes…."[34] Derbyniwyd cyngor y Panel gan yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd, yr Arglwydd Woolf a chafodd ei gynnwys mewn Datganiad Ymarfer *(Crime Life Sentences) [2002] 1 WLR 1789* a'i gadarnhau wedyn yn y Cyfarwyddyd Ymarfer *Criminal Proceedings: Consolidation [2002] 1 WLR 2870, 2906- 2910.*[35]

3.1.6 Yn achos *R. (Anderson v Secretary of State for the Home Department)*[36] fe'i gwnaed yn glir gan Dŷ'r Arglwyddi fod y rhan yr oedd yr Ysgrifennydd Cartref yn ei chymryd mewn pennu'r tariff yn groes i Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'i bod yn annerbyniol.[37]

3.1.7 Drwy basio Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros bennu'r cyfnod gofynnol i farnwr y treial drwy a.269 (5).[38] Yn Atodlen 21 ceisiwyd diffinio lefelau difrifoldeb mewn llofruddiaethau a'r rhain yn amrywio o gyfnod gydol oes i ddechreubwyntiau o gyfnodau o 30 mlynedd a 15 mlynedd. A siarad yn gyffredinol, byddai barnwr dedfrydu yn cydymffurfio â'r adran hon os oedd yn rhoi sylw i'r egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 21.

3.1.8 Yn achos *R v Sullivan & others*[39] roedd y Llys Apêl wedi ystyried geiriad a.269 ac Atodlen 21 yng nghyd-destun darpariaethau trosiannol yn Atodlen 22. Daliwyd bod geiriad a.269(3) yn Neddf 2003, sef:

> (3) The part of his sentence is to be such as the court considers appropriate taking into account —

---

[33] *Ibid* paragraff 17

[34] *Ibid* paragraff 18.

[35] Gweler paragraffau 49.10-20. Roedd y ffigur uwch o 15/16 blynedd yn gymwys os oedd y dioddefwr yn blentyn neu'n un sy'n agored i niwed fel arall. Mae nifer o'r enghreifftiau ym mharagraff 49.13 o'r Cyfarwyddyd Ymarfer (*Criminal Proceedings: Consolidation [2002] 1 WLR)* bellach o fewn y dechreubwynt 30 mlynedd yn Atodiad 21.

[36] *R. (Anderson) v Secretary of State for the Home Department [2003] 1 A.C. 837.*

[37] Nid oes gwahaniaeth rhwng pennu cyfnod gofynnol a dedfrydu ac felly mae'n dasg i'r farnwriaeth yn unig.

[38] A.269 (5) "In considering under subsection (3) or (4) the seriousness of the offence (or the combination of an offence and one or more offences associated with it), the court must have regard to

(a) the general principles set out in Schedule 21 and

(b) any guideline relating to offences in general which are relevant to the case and are not Incompatible with the provisions of Schedule 21".

[39] *R v. Sullivan & others [2005] 1 Cr. App. R. 3,[2004] EWCA Crim 1762 [11]*

a) the seriousness of the offence, or of the combination of the offence and any one or more offences associated with it, and

b) ……

yn golygu, er gwaethaf y canllawiau statudol, fod y penderfyniad o ran hyd y cyfnod gofynnol yn parhau'n benderfyniad i'r barnwr.

> "The Schedule sets out a well-established approach to sentencing. It makes clear (in paragraph 9) that despite the starting points, the judge still has a discretion to determine any term of any length as being appropriate because of the particular aggravating and mitigating circumstances that exist in that case. This discretion must, however, be exercised lawfully and this requires the judge to have regard to the guidance set out in Schedule 21, though he is free not to follow the guidance if in his opinion this will not result in an appropriate term for reasons he identifies. His decision is subject to appeal either by the offender or on Attorney General's Reference in accordance with s.270 and 271."[40]

3.1.9 Roedd y Llys wedi'i gwneud yn glir bod y gair "include" ym mharagraffau 10 ac 11 (am ffactorau gwaethygol a lliniarol yn y drefn honno) yn golygu nad oedd bwriad i'r rhestrau fod yn hollgynhwysol.

3.1.10 Mae'n bwysig nodi bod y Llys wedi dal y byddai disgresiwn barnwrol yn fodd i leihau'r gwahaniaethau rhwng dechreubwyntiau a fabwysiadwyd yn y canllawiau statudol ac anstatudol: gweler [35]-[37]. Gweler yn benodol yn [35]:

> "[t]he judge would also have to be on his guard against determining a higher figure merely because the starting figure that is taken [under Schedule 21] is greater. This is particularly true where the 15 year figure is the starting point selected. In our judgment it would be wrong to assume that Parliament had intended to raise minimum terms over those recommended by the expert Sentencing Advisory Panel by merely applying the 15 year starting point to all murders other than those whose seriousness is exceptionally or particularly high."

3.1.11 Dyroddwyd canllawiau pellach gan Woolf CJ ym Mai 2004: gweler Cyfarwyddyd Ymarfer *Crime: Mandatory Life Sentences [2004] 1 WLR 1874*.[41]

---

40 *R v Sullivan & others [2005] 1 Cr. App. R. 3 [2004] EWCA Crim 1762 [16]*

41 Lle y'i gwnaed yn glir bod pennu'r cyfnod gofynnol yn galw am gymryd y camau canlynol: (i) pennu'r dechreubwynt (ii) gwneud addasiadau ar gyfer y ffactorau gwaethygol a lliniarol yn y rhestrau anghyflawn yn Atodlen 21 (10), (11) a rhoi credyd am amser a dreuliwyd ar remánd.

## 3.2 Absenoldeb Geiriau yn Atodlen 21

3.2.1 Ceir absenoldeb geiriau yn Atodlen 21 sy'n ymwneud yn benodol â'r materion yn ein cylch gorchwyl ac mae hyn yn wir ers sefydlu'r fframwaith statudol.

3.2.2 Erbyn 18 Mai 2004 pan ddyroddodd yr Arglwydd Woolf CJ ei ganllawiau, nid oedd geiriau penodol yn Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 y gellid cyfeirio atynt i bennu difrifoldeb llofruddiaethau a gyflawnwyd mewn cyd-destun domestig. Tybiwyd bod dechreubwynt y llofruddiaethau hyn yn dod y naill ochr a'r llall i'r dechreubwynt 15 mlynedd. Mewn perthynas ag arfau, nid oedd y rhestr o ffactorau gwaethygol statudol ym mharagraff 10 (er nad yw'n un hollgynhwysol) yn cynnwys y defnydd o arf. Roedd y defnydd o arf tanio yn ffactor penodol a fyddai'n arwain at ddechreubwynt o 30 mlynedd.[42]

## 3.3 Effaith Atodlen 21 cyn 2010

3.3.1 Roedd beirniadaeth i'r perwyl y byddai Atodlen 21 yn gallu arwain at ganlyniadau anghyson o ran dedfrydu wedi cael ei lliniaru gan y pwyslais a roddwyd gan y Llys Apêl ar beidio â mabwysiadu ymagwedd fecanistig. Er enghraifft, yn achos *R v Height and Anderson*[43] roedd yr apelydd, Anderson ("**A**"), wedi pledio'n euog i gyhuddiad o lofruddiaeth a Height ("**H**") wedi'i gael yn euog o lofruddiaeth. Yr amgylchiadau oedd bod **A** (a oedd wedi bod yn cael carwriaeth) wedi trafod â **H** y posibilrwydd o beri i'w wraig gael ei llofruddio. Fe'i trawodd ef hi ar ei phen â sosban er mwyn ceisio ei tharo'n anymwybodol. Cafodd hi anafiadau a oedd yn ddifrifol (ond heb fod yn peryglu ei heinioes). Wedyn gyrrodd **A** gyda'i wraig draw at fan **H**. Roedd **H** i fod i gael gwared arni ond gan ei bod hi'n parhau'n ymwybodol, rhoddodd **H** forthwyl a chyllell i **A** i'w defnyddio i ladd y dioddefwr. Cafodd hi ei tharo droeon nes ei bod hi'n anymwybodol. Aeth **H** â hi yn ei fan ond galwodd ef **A** yn ddiweddarach i ddweud ei bod hi'n parhau'n fyw. Gwnaeth y ddau yrru ar ôl ei gilydd at arglawdd lle'r oeddent wedi rholio'r dioddefwr i lawr yr arglawdd ac **A** wedyn wedi'i thrywanu dro ar ôl tro ac yna torri ei gwddf. Cawsant eu harestio ar ôl hynny. Gwnaeth **A** gyfaddef pob dim a rhoddodd dystiolaeth yn erbyn **H**. Cafodd ddedfryd oes gyda chyfnod gofynnol o 22 mlynedd. Cafodd **H** ddedfryd o gyfnod gofynnol o 24 blynedd.

3.3.2 Roedd y Goron wedi dadlau bod **H** wedi cyflawni'r llofruddiaeth er elw[44] (tra oedd **A** wedi dymuno 'cael gwared' â'i wraig a dim mwy). Apeliodd **H** ar y sail bod y barnwr dedfrydu wedi dweud bod y dechreubwyntiau yn Atodlen 21 yn rhai

[42] Atodlen 21 paragraff 5(2)(a) bellach yn baragraff 3(2)(b) o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020.

[43] *R v Height and Anderson [2009] 1 Cr App R (S) 117.*

[44] Ac felly wedi cael dechreubwynt o 30 mlynedd o dan baragraff 3(2)(c).

mympwyol ("arbitrary") a bod eu hamrediad yn eang ("widely spread") a bod y barnwr dedfrydu wedi bod yn rhy anhyblyg wrth eu cymhwyso. Daliodd y Llys yn [31] fod y barnwr dedfrydu wedi cyfeiliorni drwy ganolbwyntio'n rhy driw ar y meini prawf penodol yn yr Atodlen. Roedd hyblygrwydd ar gael ar sail amgylchiadau a beiusrwydd. Dylid rhoi'r un dechreubwynt i'r ddau ddiffynnydd a byddai dedfryd **H** yn cael ei gostwng i 22 flynedd gan sicrhau cydraddoldeb drwy hynny â dedfryd **A** a oedd y mwyaf beius o'r ddau ond a oedd wedi pledio'n euog.

3.3.3 Mae peidio â chymhwyso'r dechreubwyntiau penodol yn yr Atodlen mewn ffordd fecanistig yn egwyddor sydd wedi'i hailddatgan mewn nifer o benderfyniadau. Gweler achos *R v M, AM and Kika*[45] lle dywedodd y llys nad oedd darpariaethau'r Atodlen wedi'u bwriadu i'w cymhwyso mewn ffordd anhyblyg. Yn [5]-[6] roedd y llys wedi trafod goblygiadau'r ffaith nad oedd unrhyw gyfeiriad at y defnydd o gyllell yn Atodlen 21. Yn gyntaf, nid oedd dim i ddweud na ellid trin llofruddiaeth lle defnyddiwyd cyllell yn yr un ffordd â llofruddiaeth lle defnyddiwyd arf tanio neu ffrwydryn. Yn ail, gan dderbyn na fyddai'r dechreubwynt ar gyfer defnyddio cyllell yr un fel arfer â'r dechreubwynt ar gyfer defnyddio dryll neu ffrwydryn, mae'r defnydd o gyllell a'r union amgylchiadau lle y'i defnyddiwyd yn gwaethygu'r difrifoldeb. Mae paragraff 10[46] (ffactorau gwaethygol) yn esboniadol ("illustrative") neu'n gynhwysol ("inclusive") ond nid yw'n hollgynhwysol ("exhaustive"). Yn olaf, roedd wedi bod yn nodwedd waethygol erioed fod trosedd wedi'i hachosi drwy'r defnydd o gyllell neu arf arall.

[45] *R v M, AM and Kika [2010] 2 Cr App R (S) 19 [117].*

[46] Sydd bellach yn baragraff 9 yn Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020.

# 4. Cyflwyno Categori Difrifoldeb Newydd ym Mharagraff 5A

## 4.1 Cefndir Paragraff 5A (Mynd â Chyllell neu Arf Arall i'r Lleoliad)

4.1.1 Yn dilyn ymgyrch proffil uchel yn sgil llofruddio plentyn yn ei arddegau (Ben Kinsella) a drywanwyd yn y stryd gan blant eraill yn eu harddegau, mewnosodwyd paragraff 5A[47] yn Atodlen 21 gan offeryn statudol *Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (Dedfryd Oes Orfodol: Penderfynu'r Cyfnod Gofynnol) 2010/197*. Roedd y gorchymyn yn cyflwyno dechreubwynt newydd o 25 mlynedd ar gyfer penderfynu'r cyfnod gofynnol am lofruddiaeth gan oedolyn drwy ddefnyddio cyllell neu arf arall yr aethpwyd ag ef i'r lleoliad gan fwriadu cyflawni trosedd neu beri iddi fod ar gael i'w defnyddio fel arf a'i defnyddio wrth gyflawni'r drosedd.

4.1.2 Ym Memorandwm Esboniadol yr Offeryn Statudol [yn 4.3] nodwyd "[t]he instrument is being made following a review of Schedule 21 in relation to the starting point for murder using a knife (announced in Parliament on 16 June 2009) which was prompted by public concerns that the current starting point of 15 years should be higher, particularly as the starting point for murder using a firearm is 30 years."

4.1.3 Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro'r cefndir polisi, sef "[t]he change has been prompted by considerable concern that the starting point for this type of murder should be higher than the current 15 years, particularly as the starting point for murder using a firearm is 30 years." Mae'n cyfeirio at yr adolygiad a oedd yn cynnwys ymgynghori â'r uwch farnwriaeth a'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu ("CCD"). Mae crynodeb o'r ymateb gan y CCD ym mharagraff 8.2 o'r Memorandwm Esboniadol.

4.1.4 Mae'n glir o'r ymateb gan y CCD (fel yr oedd ar y pryd) mai cyllyll yn unig a oedd dan sylw ar adeg yr ymgynghoriad yn hytrach nag arfau'n gyffredinol. Roedd y CCD wedi nodi'n briodol y byddai canolbwyntio fel hyn ar un arf penodol yn unig yn creu'r perygl o gael gwahaniaethau sylweddol rhwng dedfrydau a fyddai'n deillio o fanylion cyfreithiol ("flow from legal niceties").

47 O dan bwerau a ddarparwyd gan a.269(6) (7) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

4.1.5 Mae’n bwysig nodi (i ddibenion yr adolygiad hwn) fod ymateb y CCD yn cynnwys y canlynol:

> “It is clear that the circumstances in which the knife is used vary widely, it can be picked up in the course of a domestic quarrel or can be taken to a place with a view to it being used - accordingly, the level of culpability will also vary widely.”

4.1.6 Roedd ymateb y CCD i’r ymgynghoriad yn 2009 yn cynnwys y sylw canlynol am eiriad Atodlen 21:

> “With one exception, the factors listed [ym mharagraffau 4 a 5] relate to the circumstances in which the killing took place rather than the means by which death was caused. They identify either a particular need to recognise the vulnerability of potential victims (police officer, prison officer, child or those killed because of their religion, race or sexual orientation) or the purpose for which the murder was committed, political, for gain, to obstruct or interfere with the course of justice….the single exception relates to situations where the murder involves the use of a firearm or explosive. In reality that is likely to have been pre-meditated.”

4.1.7 Cadarnhawyd yr Offeryn Statudol drwy benderfyniad gan ddau dŷ y Senedd heb ddadl. Fe’i trafodwyd yn y Pwyllgor Deddfwriaeth Ddirprwyedig ar 12 Ionawr 2010 lle codwyd y pwyntiau canlynol a allai fod o ddiddordeb (i’r adolygiad). Roedd yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar y pryd Claire Ward wedi amlinellu pwrpas y ddeddfwriaeth, sef pontio’r bwlch rhwng y dechreubwyntiau 30 mlynedd a 15 mlynedd ac na ddylid cael gwahaniaeth o ran y dechreubwynt os oedd yr arf a gafodd ei gario yn rhywbeth heblaw cyllell fel bat pêl fas neu dyrnsgriw.

4.1.8 Roedd y problemau a ragwelwyd gan y CCD yn yr agwedd honno ar yr ymateb y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 21 uchod wedi cael eu crybwyll yn y ddadl. Gweler, er enghraifft, geiriau David Burrows AS:

> “It is more often [o gymharu ag achosion yn ymwneud ag arfau tanio] the case that a knife is carried and used without such premeditation and might be used in the act of self- protection or partial defence, or under provocation or panic. Will the minister give some assurance that those mitigating factors will be particularly applied in such cases which can be distinguished from cases of a gun or explosive?...Finally, the advent of the proposed additional prescribed starting point based primarily on the reasons [sic] by which death was caused rather than on the circumstances in which the killing took place, reminds me of the Court of Appeal’s concerns, which should be noted by the Committee. Those are that the exercise of determining the minimum term

should allow judges a proper discretion and provide a process which is not, in the words of the Lord Chief Justice a mechanistic application."

4.1.9 Erbyn Rhagfyr 2010, roedd Atodlen 21 yn cael ei beirniadu gan lunwyr polisi blaenorol drwy ddweud ei bod "wedi'i seilio ar bolisi sy'n fyrbwyll ac yn *rhy benodol*. Mae'n ceisio dadansoddi'n hynod fanwl bob un math o lofruddiaeth.[48] O ganlyniad i hyn cafwyd canllawiau sy'n gymysglyd ac yn orgymhleth, ac sydd â mawr angen eu diwygio fel y gellir gwneud cyfiawnder yn briodol ym mhob achos"[49] (ein pwyslais ni). Nid yw'n glir o'r Papur Gwyrdd beth oedd y dystiolaeth dros y haeriad hwn gan fod y ddadl yn *R v. Kelly*[50] wedi'i gwneud ar 12 Mai 2011.

4.1.10 Yn yr apelau yn achosion R v Kelly, R v Bowers, R v Singh ac R v Harding ac eraill roedd y Llys Apêl wedi datgan nad oedd Atodlen 21 wedi creu "a stepped sentencing regime with fixed dividing lines between the specified categories"[51] ac nad yw ond yn nodi'r dechreubwynt priodol mewn perthynas â'r categorïau y mae'n eu pennu. Byddai dechreubwynt o'r fath yn cael ei gymhwyso fel arfer, ond nid yn anorfod.

4.1.11 Yn achos *Kelly* yn [10] lle'r oedd y llys yn ystyried geiriad paragraff 5A o'i gymharu â'r geiriad ym mharagraff 4(2) a 5(2) (a oedd yn pennu dechreubwyntiau cyfnodau gydol oes a 30 mlynedd o garchar yn y drefn honno), nodwyd (yn yr un modd ag a ddywedodd y CCD[52]) "it is striking that unlike paragraphs 4 and 5 this new starting point does not describe the level of seriousness of the offence at all." Aeth y Llys yn ei flaen i ddweud yn [11] "it is not the legislative intention that every murder involving the use of a knife or other weapon to inflict fatal injury should normally fall within the 25 year starting point" ac ymhellach, yn [12] "a literal interpretation of paragraph 5A would produce a disparate result."

4.1.12 Beirniadwyd geiriad paragraff 5A(2) gan sylwebwyr academaidd. Roedd Dr David Thomas wedi disgrifio'r farn yn achos *Kelly* fel a ganlyn: "perhaps best regarded as a further plea for the exercise of judicial discretion in fixing minimum terms in cases of murder."[53]

4.1.13 Roedd y ffeithiau a'r amgylchiadau damcaniaethol a godwyd wrth ystyried yr apelau ar y cyd yn amlygu'r posibilrwydd o gael gwahaniaethau mympwyol o

---

48 Nid ydym yn cytuno ei bod yn ceisio dadansoddi pob math o lofruddiaeth gan nad yw'n crybwyll llofruddiaethau domestig, un o'r materion y mae'r adolygiad hwn yn ymwneud ag ef.

49 Adroddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder: *Torri'r Cylch Cosbi, Ailsefydlu a Dedfrydu Troseddwyr yn Effeithiol,* Rhagfyr 2010 t51.

50 *R v. Kelly, R v. Bowers, R v. Singh and R v. Harding and [2012] 1 WLR 55*

51 *Ibid* ym mharagraff 9 o'r dyfarniad

52 Gweler paragraff 4.1.6 uchod.

53 David Thomas Crim LR Crim.L.R. 2011, 10, 806-809.

ganlyniad i eiriad paragraff 5A:[54] "[i]t is difficult to square the logic of the [Court of Appeal's] decisions in these instances when it runs contrary to their concerns in the hypothetical case they posed."[55] "Is a front garden a different scene? How about paths and doorsteps? Could a defendant really be subjected to a two thirds increase in the starting point simply because an offence one foot one side of a door step rather than the other? There is little in Kelly to dispel this concern."[56]

4.1.14 Yn *R v Dillon*[57] dadansoddwyd y pedwar senario yn achosion pob un o'r apelyddion yn achos *Kelly* ac amlinellwyd yr egwyddorion canlynol wedyn yn [32]:

> Credwn fod y canlynol yn codi o'r achosion a grybwyllwyd wrthym:
>
> (a) Os cymerir cyllell o gegin a'i chario i ran arall o'r un tŷ neu fflat, yn cynnwys balconi (Senechko), ni fydd fel arfer yn cael ei hystyried yn un yr aethpwyd â hi i'r lleoliad, hyd yn oed os agorir drws drwy rym (Kelly);
>
> (b) I'r gwrthwyneb, os eir â'r gyllell o'r tŷ neu fflat i'r stryd (Bowers), neu i ran arall o'r fangre (Balraj Singh), neu i ben grisiau y tu allan i'r fflat (Folley), fe fydd fel arfer yn cael ei hystyried yn un yr aethpwyd â hi i'r lleoliad.
>
> (c) Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng dechreubwynt a phwynt gorffen. Mae'r dyfarniad yn achos Kelly ac eraill yn nodi pa mor bwysig, mewn achosion lle mae beiusrwydd tebyg, yw osgoi gwahaniaethau mawr mewn dedfrydau sydd wedi'u seilio ar fân wahaniaethau. Fel y sylwodd yr Arglwydd Brif Ustus wrth gynnig enghraifft yn y darn a grybwyllwyd uchod, ni fyddai neb yn gweld cyfiawnder mewn gwahaniaeth o ddeng mlynedd yn y cyfnod gofynnol rhwng achos dyn sy'n lladd ei bartner â chyllell a gymerwyd o gegin eu cartref a dyn sy'n lladd ei bartner â chyllell a brynodd ar y ffordd adref. Os nad yw achos ond y dim â bod o fewn paragraff 5A, am fod cyllell wedi'i chymryd o gegin a'i defnyddio i achosi anaf angheuol nid nepell y tu allan i ddrws y fflat neu'r tŷ, byddai'n ddigon posibl i'r egwyddor hon arwain at gyfnod gofynnol o lai na 25 mlynedd (Bowers, Balraj Singh).

---

54 Bild (Jonathan) *Kelly and the 25 year starting point* Arch .Rev.2011,8,7 2 "By introducing this clumsy amendment to Schedule 21 all that Parliament has achieved is to create an arbitrary distinction between whether a weapon was or was not taken to the scene."

55 *Ibid.*

56 *Ibid*.

57 *R v Dillon [2015] EWCA Crim 3.*

4.1.15 Mae paragraff 4 o Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 bellach yn ailadrodd geiriad paragraff 5A o Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 heblaw am y geiriau sydd wedi'u hychwanegu ym mharagraff 4(1)(d).[58]

## 4.2 Anawsterau ynghylch Geiriad ym Mharagraff 4 Atodlen 21

4.2.1 Fel rydym wedi nodi ym mharagraffau 3.2.1 - 3.2.2 uchod, nid oes geiriau yn Atodlen 21 sy'n ymdrin yn benodol â llofruddiaethau domestig.

4.2.2 Mae geiriad Atodlen 21 wedi dilyn, neu o leiaf wedi'i ysgogi, gan y canllawiau anstatudol a roddwyd gan yr Arglwydd Bingham CJ ym 1997 (gweler paragraff 3.1.3 uchod). Mae geiriad Atodlen 21 mewn perthynas â'r disgrifiadau gwreiddiol o ddifrifoldeb (cyfnod gydol oes a 30 mlynedd ynghyd â ffactorau gwaethygol a lliniarol) yn dangos bod Atodlen 21 (ar ôl ei deddfu) yn dibynnu'n helaeth ar y dadansoddiad a ddarparwyd gan yr Arglwydd Bingham CJ yn ei ganllawiau anstatudol. Mae'r ffactorau a oedd yn rhai gwaethygol, yn ei olwg ef, wedi cyfrannu at ddiffinio'r dechreubwyntiau uwch a geir yn awr[59] yn Atodlen 21, paragraffau 2 a 3.

4.2.3 Mae'r gyfraith achosion gynnar yn ei gwneud yn glir y byddai llofruddiaethau "normal" nad oeddent yn perthyn i'r categorïau uwch (cyfnod gydol oes, dechreubwynt o 30 mlynedd) yn arwain at gyfnodau gofynnol sydd rhwng 12 a 16 flynedd.

4.2.4 Nid oedd cyfeiriad penodol yng nghanllawiau'r Arglwydd Bingham at lofruddiaethau a gyflawnwyd mewn cyd-destun domestig lle'r oedd hanes o brofi neu gyflawni cam-drin domestig gan un ai'r cyflawnwr neu'r dioddefwr. Yr unig sylw a gafwyd ganddo oedd y canlynol:

> "[t]he fact that a defendant was under the influence of drink or drugs at the time of the killing is so common that I am inclined to treat it as neutral. But in the not unfamiliar case in which a married couple, or two derelicts, or two homosexuals, inflamed by drink, indulge in a violent quarrel in which one dies, often against a background of longstanding drunken violence, I tend to recommend a term somewhat below the norm."

4.2.5 Yn gyffredinol felly, ni roddwyd ystyriaeth yng ngeiriad y fframwaith statudol i'r ffaith bod dioddefwyr sydd wedi'u dal mewn perthynas gamdriniol yn rhai sy'n agored i niwed. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae'r ffaith bod dioddefwyr yn

---

58 "The offence was committed on or after 2 March 2010."

59 Ers i Ddeddf Dedfrydu 2020 ddod i rym.

agored i niwed yn cael ei ystyried wrth bennu difrifoldeb ar gyfer y dechreubwyntiau ym mharagraffau 2 a 3 o Atodlen 21.

4.2.6 Fel y nodwyd yn 2.2 uchod, mae paragraff 3 o Atodlen 21 yn diffinio difrifoldeb yn rhannol drwy gyfeirio at y ffaith bod dioddefwyr yn agored i niwed ac, yn benodol, at ladd rhai[60] sydd â nodweddion gwarchodedig. Nid yw menywod (sef mwyafrif y dioddefwyr mewn llofruddiaethau domestig) wedi'u cynnwys yng ngeiriad paragraff 3. Nid yw rhyw yn nodwedd warchodedig o dan ddeddfwriaeth ar droseddau casineb. Mae'r cwestiwn a ddylai rhyw fod yn nodwedd warchodedig yng nghyd-destun troseddau casineb wedi bod yn destun ymgynghoriad ac adroddiad dilynol yn ddiweddar gan Gomisiwn y Gyfraith.

4.2.7 Er enghraifft, yn ei bapur ymgynghori ar droseddau casineb,[61] nododd Comisiwn y Gyfraith "the possible use of hate crime laws to respond to violence and hostility against women has gained traction in recent years."[62] Mae'r Comisiwn wedi dweud ymhellach (wrth ystyried troseddau casineb gwaethygedig ar sail rhywedd/rhyw ac amddiffyn rhagddynt) mai un canlyniad o gael troseddau casineb gwaethygedig yn erbyn menywod fyddai drysu'r dealltwriaeth bod yr holl droseddau rhywiol a cham-drin domestig yn erbyn menywod yn rhai sydd o'u hanfod yn dangos casineb at fenywod.[63] Yn ei adroddiad terfynol,[64] nid yw Comisiwn y Gyfraith wedi argymell y dylai rhyw fod yn un o'r nodweddion gwarchodedig yng Nghyfraith Troseddau Casineb. Un o'r rhesymau y mae'n ei roi am hyn yw y byddai'n milwrio yn erbyn y dealltwriaeth bod trais yn erbyn menywod a merched yn cael ei ysgogi gan gasineb at fenywod a'i bod yn well delio â hyn mewn deddfwriaeth arall.[65]

4.2.8 Credwn fod yr uchod yn ategu'r farn y dylid rhoi ystyriaeth benodol i lofruddiaethau domestig yng nghyd-destun ffactorau, fel casineb at fenywod, sydd wrth wraidd llawer o'r trais yn erbyn menywod a merched.

4.2.9 Wrth gwrs, nid oes rheswm dros beidio â chynnwys llofruddiaeth ddomestig mewn dechreubwynt uwch os yw'r ffeithiau'n gyson â'r ffactorau hynny sy'n diffinio difrifoldeb: gweler *R v M, AM and Kika* (supra). Os yw dyn yn tagu ei wraig wrth ei threisio mewn ffordd sadistaidd a bod hyn yn cael ei brofi at y safon droseddol yna, yn dechnegol, bydd y drosedd yn galw am ddechreubwynt uwch. Gwelsom un achos yn ein sampl **(CM55)** lle rhoddwyd dedfryd o 33 blynedd lle'r oedd yn

60 Gweler paragraff 3(2) (g), (h) sy'n cyfeirio at elyniaeth hiliol neu grefyddol neu elyniaeth at gyfeiriadedd rhywiol ac anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol yn y drefn honno.

61 Law Commission Consultation Hate Crime Laws CP 250.

62 Law Commission Consultation Hate Crime Laws CP 250 yn 12.4.

63 *Ibid* 12.117-118...

64 Law Commission Hate Crime Law Final Report, Law Com No 402, Rhagfyr 2021.

65 Law Commission Hate Crime Law Final Report, Law Com No 402, Rhagfyr 2021 yn 5.382 "Our view is that hate crime legislation is not the way to approach the issue of violence against women and girls."

ymddangos bod y trais domestig wedi'i ddynodi'n ymddygiad sadistaidd yn y fframwaith dedfrydu cyffredinol. Roedd y cyflawnwr gwrywaidd wedi defnyddio haearn smwddio a phren hongian dillad i ymosod ar y dioddefwr.[66] Roedd hefyd wedi cyflawni ymosodiad difrifol ar ei wraig rai blynyddoedd ynghynt ac wedi cael dedfryd o orchymyn ysbyty gyda gorchymyn cyfyngu a.41[67] ac wedi'i ryddhau o'r ysbyty wedyn. Y dioddefwr yn **CM55** oedd ail bartner y cyflawnwr.

4.2.10 Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r achosion eraill a oedd yn galw am ddechreubwynt 30 mlynedd yn unol â pharagraff 3, nid oedd amwysedd ynghylch y dechreubwynt am nad oedd unrhyw fath o ddyfarniad gwerth ar ran y dedfrydwr yn rhan o'r penderfyniad ar y categori. Er enghraifft, lle cyflawnwyd y llofruddiaeth er elw yn **CM59**, neu lle'r oedd mwy nag un person wedi'i lofruddio yn **CM74** lle'r oedd y cyflawnwr wedi llofruddio ei wraig a dau blentyn. Yn y cyswllt hwn, gweler hefyd **CM88** lle'r oedd y ddioddefwraig wedi'i thrywanu nifer o weithiau, a'i mam wedi'i thrywanu gan y cyflawnwr a oedd wedyn wedi ailddechrau trywanu'r ddioddefwraig. Enghreifftiau eraill oedd achosion lle defnyddiwyd arf tanio **(CM85** a **CM76)** neu lle defnyddiwyd arf tanio i ymosod a lladd mwy nag un dioddefwr.

4.2.11 Mae dealltwriaeth cymdeithas o gam-drin domestig wedi datblygu'n hollol ar wahân i gyfraith dedfrydu a pholisi mewn achosion llofruddiaeth ac wedi gwella'n sylweddol, fel rydym yn egluro isod, er 1997 pan gylchredwyd canllawiau barnwrol ar ddedfrydau mewn achosion llofruddiaeth am y tro cyntaf.[68] Mae hyn yn ymwneud â phwynt mwy cyffredinol sef bod Atodlen 21 i raddau helaeth yn ddeddfwriaeth sy'n perthyn i'w chyfnod ac wedi'i rhewi yn 2003 a chael ei diwygio fesul tipyn ers hynny. Mae'n eironig bod dedfrydwyr wedi cael mwy o ganllawiau ar droseddau llai. Mae'r Cyngor Dedfrydu yn dyroddi canllawiau wedi'u diweddaru ar wahanol droseddau a'r rhain yn cael eu hadolygu a'u dyfeisio i gymryd newidiadau mewn cymdeithas i ystyriaeth. Er enghraifft, yn Ionawr 2021 dyroddwyd canllawiau newydd ar gyffuriau gan y Cyngor yn unol â'r camddefnydd cynyddol o rai cyffuriau seicedelig o dan Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016 gyda'r bwriad o adlewyrchu troseddu modern. Y ddadl gan rai yw y dylid diwygio Atodlen 21 yn llwyr ac y dylai canllawiau gael eu dyroddi gan y Cyngor Dedfrydu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhan o'n cylch gorchwyl sydd wedi'i gyfyngu i ystyried goblygiadau paragraff 4 a gweithrediad yr Atodlen yng nghyd-destun llofruddiaeth ddomestig.

[66] Roedd y cyflawnwr yn cyd-fyw â'r ddioddefwraig ond nid oedd yn briod â hi.

[67] Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd).

[68] Gweler y cyfeiriad at yr Arglwydd Bingham CJ yn yr adran flaenorol.

## 4.3 Mynd â Chyllell neu Arf Arall i'r Lleoliad fel y mae wedi'i Bennu ym Mharagraff 4 Atodlen 21

4.3.1 Mae'r rhan gyntaf o'n hadolygiad yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn yr hyn sydd yn awr yn baragraff 4 (ond a oedd gynt yn baragraff 5A) wedi achosi problemau. Gellir crynhoi'r problemau fel a ganlyn. Yn gyntaf, wrth ddehongli'r paragraff, mae'r llysoedd wedi'i chael yn anodd penderfynu (heblaw yn yr amgylchiadau mwyaf clir) lle y dylid ystyried bod arf yn un 'yr aethpwyd ag ef i'r lleoliad'. Gweler y penderfyniad yn achos *R v. Kelly* lle dywedwyd bod y ffeithiau a'r amgylchiadau damcaniaethol a godwyd wrth ystyried yr apelau ar y cyd yn amlygu'r posibilrwydd o gael gwahaniaethau mympwyol o ganlyniad i eiriad paragraff 5A.[69]

4.3.2 Yn ail, mae'r rhan gyntaf o'n hymchwil, sef y dadansoddiad o'r sampl o achosion, yn awgrymu bod gwahaniaeth sylweddol o 6.5 blynedd mewn gwirionedd yn hyd y cyfnod gofynnol cyfartalog (y mae'n rhaid i droseddwr ei dreulio cyn gwneud cais am ei ryddhau ar drwydded) rhwng achosion llofruddiaeth lle yr aethpwyd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad ac achosion lle'r oedd arf yn y lleoliad eisoes. Roedd y dadansoddiad gan Gwnsler y Trysorlys hefyd yn dangos mai prin iawn oedd yr achosion lle cyrhaeddwyd y marc 25 mlynedd oherwydd agweddau gwaethygol ar ôl penderfynu ar ddechreubwynt o 15 mlynedd.

4.3.3 Mewn achos llofruddiaeth ddomestig, y dechreubwynt ar gyfer y cyfnod gofynnol fel arfer fydd 15 mlynedd oni bai fod y drosedd yn cynnwys nodwedd sy'n ei rhoi o fewn paragraff 3 (er enghraifft, gellir profi bod y llofruddiaeth wedi'i chyflawni yng nghyd-destun trosedd trais rhywiol neu ag arf tanio). Mae'r gwahaniaeth rhwng y dechreubwynt 15 mlynedd a'r dechreubwynt 25 mlynedd wedi arwain at alwadau am godi'r dechreubwynt 15 mlynedd yn uwch mewn achos llofruddiaeth ddomestig.

4.3.4 Y dadleuon o blaid hyn yw nad yw'r drosedd mewn achos llofruddiaeth ddomestig lle mae'n debygol bod arf wrth law (ac felly heb ei gario i'r lleoliad) yn un a all ddod o fewn paragraff 4. Mae'n sicr o fod yn anghywir, dim ond am fod y dioddefwr mor anffodus â chyd-fyw â'r ymosodwr, ac felly bod arf (cyllell fel arfer) ar gael yn y cartref, fod y dechreubwynt os ceir euogfarn gymaint yn is nag y byddai lle nad oedd yr ymosodwr a'r dioddefwr yn adnabod ei gilydd neu os oedd y drosedd wedi'i chyflawni y tu allan i'r cartref ac arf wedi cael ei gario i'r lleoliad. Mae hawl gan ddioddefwr i deimlo'n ddiogel o fewn ei gartref ac un o'r agweddau mwyaf bradwrus ar gam-drin domestig yw ei fod yn digwydd ym mhreifatrwydd y cartref lle na fydd tystion yn aml. Byddai'r gwahaniaeth hwn yn arbennig o amlwg, er

---

69 Bild (Jonathan) *Kelly and the 25 year starting point Arch.Rev.2011,8,7 2* "By introducing this clumsy amendment to Schedule 21 all that Parliament has achieved is to create an arbitrary distinction between whether a weapon was or was not taken to the scene"

enghraifft, mewn achos lle'r oedd dau berson wedi gwahanu, a bod y llofruddiaeth wedi digwydd tra oedd y ddioddefwraig ar ei ffordd i nôl ei phlant o'r ysgol. Dyma oedd yr amgylchiadau yn **CM30** lle'r oedd plentyn ieuengaf (tair blwydd oed) y ddioddefwraig a'r cyflawnwr yn bresennol hefyd gyda'r ddioddefwraig ar adeg y llofruddiaeth. Digwyddodd hyn ar ddiwedd y berthynas. Roedd y sylwadau dedfrydu yn yr achos hwnnw hefyd yn cynnwys cyfeiriad at reolaeth drwy orfodaeth. Yn ein barn ni, mae beiusrwydd y cyflawnwr sy'n lladd yn y cartref yn waethygedig fel y mae beiusrwydd y cyflawnwr sy'n lladd y tu allan i'r cartref ac yn mynd ag arf ag ef/hi i wneud hynny. Bydd graddau'r gwaethygiad yn dibynnu ar ffactorau penodol ym mhob achos. Ni fydd y beiusrwydd yn ymwneud o reidrwydd â manylion y ffordd y daeth y cyflawnwr i fod yn arfog ond yn hytrach â chyflwr meddwl y cyflawnwr.

4.3.5 Felly nid yw'n glir mai 'mater yr arf' yn Atodlen 21 paragraff 4 yw'r broblem. Os nad hon yw'r broblem (am nad yw'n mynd at wraidd beiusrwydd y cyflawnwr) yna nid yw'n rhesymegol mai hon sy'n penderfynu'r dechreubwynt. Ategwyd y farn hon gan bron pob un o'r rheini a gymerodd ran yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws.

4.3.6 Un anghyfiawnder y dywedir yn aml ei fod yn deillio o'r penderfyniadau ynghylch gwahanol ddechreubwyntiau yw'r hyn a welir yn afresymoldeb y senarios canlynol. Byddai troseddwr sydd wedi mynd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad (a chael dechreubwynt uwch o ganlyniad o bosibl) yn gallu achosi marwolaeth drwy drywanu'r dioddefwr unwaith. I'r gwrthwyneb, byddai troseddwr nad yw'n mynd â chyllell (neu arf arall) i'r lleoliad yn gallu achosi marwolaeth drwy drywanu'r dioddefwr lawer gwaith yn fwy nag sydd ei angen i achosi marwolaeth. Dyma'r hyn a elwir fel arall yn **'or-ladd'**. Os na cheir y troseddwr yn euog o lofruddiaeth, yna drwy ddiffiniad, ni fydd y drosedd wedi'i lliniaru i roi dedfryd o ddynladdiad oherwydd un ai cyfrifoldeb lleiedig neu golli rheolaeth. Y cwestiwn sy'n codi yw i ba raddau y gellir dweud ar sail foesegol fod beiusrwydd troseddwr o'r fath yn llai na beiusrwydd rhywun sy'n cyflawni trosedd sy'n dod o fewn paragraff 4(2) lle mae'n glir bod dechreubwynt uwch ar ei chyfer. Rydym yn awgrymu ei bod yn well ymdrin â'r anghysondeb hwn ar wahân i ystyried Atodlen 21 paragraff 4 ac y dylid canolbwyntio ar y mathau o niwed sy'n ymwneud yn benodol â llofruddiaethau domestig.

4.3.7 Rydym yn awgrymu hyn am y rhesymau y cyfeirir atynt yn 6.1-6.7 isod. Y rhain yw bod y mathau o niwed mewn llofruddiaethau domestig yn wahanol iawn i'r rheini sydd dan sylw ym mharagraff 4 o Atodlen 21 (lle mai bwriad y ddeddfwriaeth oedd atal pobl ifanc rhag cario a defnyddio cyllyll ar y strydoedd). Yr effaith o geisio cymharu'r ddau beth yw bod pwys neu flaenoriaeth yn cael ei roi i ffactorau fel cario arf ar draul ffactorau eraill y gellir eu priodoli i gam-drin domestig a chasineb at fenywod ac sydd heb ddod yn rhan eto o'r prif ddisgwrs fforensig am nad yw llunwyr polisi wedi rhoi ystyriaeth benodol neu ddigonol i'r materion sylfaenol. Mae

angen edrych ar lofruddiaethau domestig er mwyn egluro beth sy'n eu gwneud yn wahanol i lofruddiaethau eraill a fyddai fel arfer yn galw am ddechreubwynt 15 mlynedd.

# 5. Llofruddiaethau Domestig

## 5.1 Lladdiad Domestig fel Cyfreitheg sy'n Datblygu

5.1.1 Yr unig beth sy'n gwahaniaethu llofruddiaethau (a dynladdiadau) domestig oddi wrth nifer o wahanol fathau eraill o lofruddiaeth yw bod hanes perthnasol bob amser mewn llofruddiaethau domestig (er ei bod yn bosibl na fydd hyn wedi'i ystyried yn y treial)[70] sy'n darparu cyd-destun ac esboniad posibl am y lladd.

5.1.2 Roedd rhai a gymerodd ran yn y Grwpiau Ffocws wedi cytuno bod 'cefndir' yn un o'r ffactorau diffiniol mewn lladdiadau domestig:

> "Rydw i'n credu mai'r mater hanfodol lle ceir llofruddiaeth mewn cyd-destun domestig yw nad yw'n debyg i ladd gan ddieithryn yn ystod sgarmes neu rywbeth tebyg. Y cyd-destun yn holl gefndir y berthynas yw'r mater hanfodol wrth ddeall beth sy'n arwain at y lladd." **Un o gyfranogwyr y Grwpiau Ffocws**

> "Pan fydd perthynas bersonol o ryw fath yn parhau, mae angen iddyn nhw fynd yn ôl wedyn ac ystyried yr holl ddynameg honno…" "Y dystiolaeth yw hanes, ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol… dynameg … neu mae'r mater o ymddygiad peryglus iawn…" **Cyfweliad â chyfreithiwr**

5.1.3 Cafwyd camweinyddiadau cyfiawnder am nad oedd ffeithiau'r lladd wedi'u rhoi yn y cyd-destun perthnasol yn y treial.[71]

5.1.4 Mae'r farn am 'gyd-destun' yn cael ei hamlygu yn y Llinell Amser Benywladdiad Partneriaid Personol sy'n rhan ganolog o waith yr Athro Monckton-Smith.[72] Lluniwyd y llinell amser Benywladdiad ar sail dadansoddiad o'r hanes mewn sampl o astudiaethau achos manwl o fenywladdiad. Yn fras, mae'r Athro Monckton-Smith yn gweithio ar y sail bod 'cronolegau a dilyniannau amser yn ddefnyddiol wrth

---

[70] Mae nifer mawr o dreialon yn canolbwyntio ar ddigwyddiad y lladd ar y pryd yn hytrach nag edrych ar y cefndir a oedd wedi arwain ato. Yn rhan 8 rydym yn cyfeirio at achos penodol (Brown) lle'r oedd teulu'r dioddefwr ymadawedig yn teimlo bod hyn wedi digwydd.

[71] Er enghraifft, *R v. Farieissia Surayah Shabirah Martin [2020] EWCA Crim 1790* lle nad oedd tystiolaeth am ddigwyddiadau blaenorol o dreisio gan un arall a hefyd gan yr ymadawedig wedi cael ei rhoi o flaen y rheithgor ac felly lle nad oedd holl gyd-destun y lladd wedi'i ystyried.

[72] Monckton-Smith (Jane) *Intimate Partner Femicide: Using Foucauldian analysis to track an eight stage relationship progression to homicide.* Violence Against women 26 (11) tt 1267-1286, e-print URI http://.eprints.glous.ac.uk/id/eprint6896 gweler hefyd, Professor Jane Monckton Smith *In Control: Dangerous Relationships and How They End in Murder*, Bloomsbury Publishing, 2021 (2021).

ddeall natur ddynamig risg a sut y gall gynyddu'. Mae'n nodi wyth cam sy'n rhagflaenu lladdiad. Yr enwau ar y camau hyn yw: cyn y berthynas, y berthynas gynnar, ymddygiadau'r berthynas, digwyddiad sbarduno, cynyddu, newid yn y ffordd o feddwl, cynllunio a lladdiad. Mae'n bwysig nodi bod yr ymchwil hon yn dangos bod rhai nodweddion yn gyffredin rhwng nifer o achosion (er bod y patrwm yn gallu newid wrth i gamau gael eu hailadrodd neu eu hymestyn) ond bod cynllunio yn elfen gyffredin (sy'n gallu para rhwng ychydig oriau a 12 mis) lle mae dyn yn mynd yn ei flaen i ladd ei bartner personol presennol neu flaenorol.

5.1.5 Mae cam-drin domestig yn drosedd ryweddol.[73] Mae nifer y menywod sy'n dioddef cam-drin domestig yn uwch ar gyfartaledd. Bydd 27% o fenywod wedi profi cam-drin domestig ers 16 oed.[74] Mae ymchwil gan Cymorth i Ferched wedi nodi bod menywod yn fwy tebygol o gael niwed difrifol yng nghyd-destun cam-drin domestig nag y mae dynion.[75]

5.1.6 Mae'r duedd uchod yn ymestyn i laddiad domestig, boed hwnnw'n llofruddiaeth neu'n ddynladdiad. Mewn ffigurau o Fynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2020 lle'r oedd cyflawnwr y lladdiad yn bartner neu'n gyn-bartner personol, roedd 350 o laddiadau.[76] Roedd gwrywod yn 87% (305) o'r cyflawnwyr a menywod yn 13% (45) o'r cyflawnwyr.

5.1.7 Mae'r ffigurau hyn yn gyson â'r canlyniadau o brosiectau ymchwil eraill. Er enghraifft, roedd ffigurau'r Cyfrifiad Benywladdiad ar gyfer 2018[77] yn dangos bod 149 o fenywod wedi cael eu lladd gan ddynion yn y DU yn 2018. Roedd y Cyfrifiad Benywladdiad dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2009 a 2018 yn dangos, am y 1,425 o fenywod a laddwyd gan ddynion yn y DU, fod 888 (62%) wedi'u lladd gan

[73] Cofnodwyd mai benywaidd oedd rhyw 82.5 % o'r achwynyddion mewn erlyniadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron a ddynodwyd yn rhai yn ymwneud â cham-drin domestig yn 2018-2019. Gweler: Gwasanaeth Erlyn y Goron "*Violence Against Women and Girls*" adroddiad 2018-2019 sydd ar gael yn https://www.cps.gov..uk/sites/default/files/documents/publications/cps-vawg-report-2019 a grybwyllwyd yn Law Commission Consultation Hate Crime Laws CP 250 yn 12.40 paragraff 5.179 tudalen 170

[74] https://www.gov.uk/government/publications/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy/tackling-violence-against-women-and-girls-strategy Strategaeth Llywodraeth ar drais yn erbyn menywod a merched (Gorffennaf 2021) Cyffredinolrwydd a thueddiadau cam-drin domestig, Cymru a Lloegr

[75] Women's Aid "Domestic Abuse is a gendered Crime" ar gael yn https://www.womensaid.org.uk/information-support/what-is-domestic-abuse/domestic-abuse-is-a-genderedcrime/ a grybwyllwyd yn Law Commission Consultation Hate Crime Laws CP 250 yn 12.42

[76] Atodiad E

[77] Femicide Census: "*If I am not in Friday, I might have been dead"* Long (Julia), Wertans (Emily), Harper (Keshia), Brennan (Deirdre), Harvey (Heather), Allen (Rosie) ac Elliott (Katie) gydag Ingala Smith (Karen) ac O Callaghan (Clarissa). 2009-2018 tudalen 62.

bartner a bod hanes o gam-drin y ddioddefwraig yn flaenorol mewn 611 (59%)[78] o'r achosion hyn.

5.1.8 Mewn prosiect ymchwil a gynhaliwyd gan Centre for Women's Justice a Justice for Women, cafwyd yn y cyfnod o 10 mlynedd (rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2018) fod 840 o fenywod wedi cael eu lladd gan bartneriaid neu gyn-bartneriaid a bod 108 o ddynion wedi cael eu lladd gan fenywod y buont mewn perthynas â nhw.[79] Roedd ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am y flwyddyn 2017 yn dangos bod menywod yn fwy tebygol na dynion o gael eu lladd gan bartner neu gyn-bartner. Yn y cyswllt hwn, roedd 33% o ddioddefwyr lladdiad yn fenywod o gymharu ag 1% o ddioddefwyr lladdiad a oedd yn wrywod. Yn 2017, roedd 50% o ddioddefwyr benywaidd a oedd yn 16 oed neu'n hŷn wedi cael eu lladd gan bartner neu gyn-bartner o gymharu â 3% o ddioddefwyr gwrywaidd 16 oed neu'n hŷn tra oedd yn fwy tebygol yn yr un flwyddyn i ddynion fod wedi'u lladd gan rywun yr oeddent yn ei adnabod h.y. 32% o ddioddefwyr gwrywaidd 16 oed neu'n hŷn o gymharu â 10% o ddioddefwyr benywaidd 16 oed neu'n hŷn.[80]

5.1.9 Yn ein sampl achosion ni, roedd 99 o laddiadau o fenywod gan ddynion a 20 o laddiadau o ddynion gan fenywod ac un lladdiad o fenyw gan fenyw arall (**CF16**) dros y cyfnod o ddwy flynedd.

5.1.10 Mae'r holl ddadansoddiadau sydd wedi'u crybwyll uchod yn dangos natur ryweddol lladdiadau domestig. Ceir enghraifft ychwanegol o hyn yn y defnydd o arfau. Yn ein sampl, roedd yr holl fenywod a laddodd eu partneriaid gwrywaidd wedi defnyddio arf i wneud hynny. Yn y cyswllt hwn, gweler ein canfyddiadau yn 1.4.6. I'r gwrthwyneb, mewn achosion llofruddiaeth lle na ddefnyddiwyd arf, roedd y cyflawnwr yn wrywaidd yn ddieithriad. Fel rydym yn nodi yn ein sylwadau am ddynladdiad ym mharagraff 8.2 isod, mae ysgolheigion ffeministaidd wedi dadlau ers talwm fod y defnydd o arf gan gyflawnwr benywaidd sy'n lladd gwryw yn ganlyniad anochel i'r ffaith bod ganddi lai o nerth corfforol na chyflawnwr gwrywaidd. Nid yw'r defnydd o arf yn ffactor gwaethygol statudol mewn achosion llofruddiaeth. Er bod y Llys Apêl wedi dweud ei fod yn ffactor gwaethygol bob amser,[81] nid ydym yn credu y dylai gael ei weld yn ffactor gwaethygol bob amser mewn achosion llofruddiaeth ddomestig am mai rhyweddol yw dal at hynny.

78 Femicide Census wedi'i grybwyll yn *Women who Kill: How the state criminalises women we might otherwise be burying* Chwefror 2021 ar dudalen 17. Howes (Sophie).

79 *Op* Cit yn t22

80 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Homicide in England and Wales: Year ending March 2017 wedi'i grybwyll yn Law Com CP 250 yn 12.43. Ar gael hefyd yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/homicideinenglandandwales/yearendingmarch2017.

81 *R v. M, AM and Kika [2010] 2 Cr App R (S) 19.*

5.1.11 Felly credwn na ddylai'r defnydd o arf fod yn ffactor gwaethygol. Roedd cyfranogwyr ym mhob un o'n grwpiau ffocws yn cytuno â'r farn hon. Gweler argymhelliad 10 yn y tabl yn Rhan 10.

5.1.12 Mae natur ryweddol lladdiadau domestig yn destun cyfreitheg sy'n datblygu. Crynodeb yn unig yw'r hyn sy'n dilyn o'r prif gerrig milltir. Roedd yr amddiffyniad rhannol o gythrudd (sydd bellach wedi'i ddiddymu)[82] i gyhuddiad o lofruddiaeth yn cael ei ystyried gan lunwyr polisi a Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn un a oedd yn draddodiadol yn cynnig amddiffyniad rhannol i ddynion (yn hytrach na menywod) am ei fod yn rhoi pwyslais ar golli rheolaeth yn sydyn a dros dro. Yn hynny o beth, roedd yn darparu ar gyfer math o ddicter sy'n nodweddiadol o ddynion a oedd yn gysylltiedig yn aml â chenfigen. Credwyd bod dynion yn lladd mewn dicter yng ngwres yr eiliad, ond bod menywod (drwy ddiffyg cryfder corfforol) yn tueddu i feddwl dros bethau ac felly osgoi gweithredu ar unwaith. Yn y cyswllt hwn, gweler achos *R v. Duffy*[83] lle'r oedd menyw a gamdriniwyd wedi lladd ei gŵr drwy nôl bwyell o'r gegin a'i fwrw wedyn yn ei ben tra oedd yn cysgu mewn gwely. Roedd y Llys Apêl wedi cadarnhau'r cyfarwyddyd i'r rheithgor gan Devlin J fod rhaid i'r lladd fod wedi'i gyflawni'n sydyn heb amser i feddwl drosto er mwyn bodloni'r maen prawf ar gyfer yr amddiffyniad rhannol yn y gyfraith cyffredin ar y pryd. Mae'r Athro Susan Edwards yn disgrifio cyfoesedd y matrics ffeithiol a arweiniodd at y lladd a oedd yn ymwneud â cham-drin corfforol gan gynnwys tagu nad oedd yn angheuol a thrais rhywiol ynghyd â'r ffordd ddidaro yr oedd yr apelydd wedi dweud iddi ladd ei gŵr.[84] Mae'r eglurhad o'r ffeithiau gan yr Athro Edwards yn achos *Duffy* yn dangos y ffordd y mae'r gyfraith wedi methu'n gyson â harneisio profiadau menywod sy'n lladd am eu bod wedi'u dal mewn perthnasoedd camdriniol.

5.1.13 Yn achos *R v. Ahluwalia*[85] roedd yr apelydd, a oedd wedi profi cam-drin domestig dros gyfnod hir gan ei gŵr, wedi'i ladd drwy fynd â phetrol i'w tŷ a'i daflu i'w ystafell ac wedyn ei gynnau. Roedd y Llys Apêl wedi cadarnhau cyfarwyddyd ar gythrudd wedi'i seilio ar y gofyniad am fodloni'r maen prawf o golli rheolaeth yn sydyn a dros dro ("sudden and temporary loss of control"). Roedd y Llys wedi lleddfu ei ddyfarniad drwy nodi na fyddai'r oedi rhwng y cythrudd a'r colli rheolaeth yn negyddu'r amddiffyniad rhannol o reidrwydd ond daliodd mai po hiraf oedd yr oedi rhwng y cythrudd a'r colli rheolaeth, mwyaf tebygol oedd hi y byddai'r erlyniad yn

---

82 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a.56.

83 *R v. Duffy [1949] 1 All ER 932.*

84 *"Justice Devlin's legacy: Duffy a battered woman caught in time"* Edwards (Susan) Crim L.R. 2009 12 851-869, lle mae'r awdur yn honni bod yr adroddiadau am yr achos yn yr adroddiadau cyfraith yn rhai mor fyr fel eu bod yn adlewyrchu diffyg perthnasedd ymddangosiadol y cefndir ffeithiol i drais domestig i ddatblygiad y gyfraith ar y pryd gan ddweud yn 119 "it is most likely that if Rene Duffy were tried today she would again be convicted of murder and would serve a minimum of 15 years."

85 *(1993) 96 Cr.App.R. 133.*

gallu dadbrofi'r amddiffyniad rhannol. Caniatawyd yr apêl ar sail tystiolaeth newydd yn ymwneud â'r cwestiwn o gyfrifoldeb lleiedig.

5.1.14 Yn achos *R Humphreys*,[86] daliodd y Llys Apêl fod dyletswydd ar farnwr y treial, yng nghyd-destun hanes o gam-drin, i dynnu ynghyd gwahanol linynnau'r dystiolaeth y gellid dweud eu bod yn cyfrannu i'r cythrudd terfynol yn hytrach nag adrodd yr hanes yn unig, gan gyflwyno'r cysyniad o gythrudd cronnol i'r gyfraith drwy wneud hynny. Mae'r newid hwn wedi'i roi ar sail statudol bellach. Pan ddiddymwyd yr amddiffyniad rhannol o gythrudd a chyflwyno colli hunanreolaeth yn amddiffyniad rhannol i gyhuddiad o lofruddiaeth yn unol ag a.54- 55 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, darparwyd yn benodol yn a.54 (2) nad oedd gofyniad i'r colli rheolaeth fod yn 'sydyn'.

5.1.15 Yr ysgogiad i'r diwygiadau deddfwriaethol i'r amddiffyniadau rhannol i gyhuddiad o lofruddiaeth a gyflwynwyd drwy Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 oedd y nod o alluogi menywod sy'n lladd eu partneriaid gwrywaidd camdriniol i ddefnyddio'r gyfraith i'w hamddiffyn eu hunain rhag cyhuddiad o lofruddiaeth. Bwriad y diwygiadau oedd sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau o ran y gallu i fanteisio ar yr amddiffyniadau rhannol. Roedd yr adrannau perthnasol yn Neddf 2009 wedi'u seilio gan mwyaf ar waith Comisiwn y Gyfraith[87] a oedd wedi llunio ei argymhellion heb ddeall natur rheolaeth drwy orfodaeth ac, yn wir, heb gyfeirio at y cysyniad hwn. Drwy chwilio Hansard, gwelir nad oedd cyfeiriad at reolaeth drwy orfodaeth yn ystod cam y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin wrth drafod y Bil Crwneriaid a Chyfiawnder.[88] Heblaw am un eithriad nodedig, mae'n ymddangos mai yn 2012 y cafwyd y cyfeiriad cyntaf at reolaeth a gorfodaeth (yng nghyd-destun deddfwriaeth) yn Hansard.[89]

5.1.16 Yn ein sampl achosion, nid oedd yr un achos lle'r oedd cyflawnwr gwrywaidd wedi dibynnu'n llwyddiannus ar yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth er mwyn sicrhau euogfarn am ddynladdiad yn hytrach na llofruddiaeth. Nodir yn benodol nad yw'r amddiffyniad rhannol yn cynnwys anffyddlondeb rhywiol fel sbardun i golli rheolaeth[90] oherwydd, yng nghyswllt amddiffyniadau, nid yw'r gyfraith yn gallu derbyn y bydd cenfigen byth yn gyfiawnhad dros ladd. Er gwaethaf y bwriad deddfwriaethol clir hwn, nid yw'r ffactorau lliniarol statudol ym mharagraff 10 o Atodlen 21 wedi'u diwygio i'w cysoni'n benodol â'r polisi sylfaenol a'r geiriad yn a.55(6)(c). Felly, gellid parhau i ystyried anffyddlondeb rhywiol yn ffactor lliniarol

86 *R v. Humphreys [1995] 4 ALL ER 1008.*

87 *Partial Defences to Murder* Law Com 290 6 Awst 2004, Murder Manslaughter and Infanticide LC 304 29 Tachwedd 2006.

88 A ddaeth wedyn yn Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

89 Yr eithriad i hyn yw'r ffaith bod memorandwm wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref gan Cymorth i Ferched yn 2006 lle defnyddiwyd y term hwn wrth gyfeirio at argymhellion ar ddedfrydu.

90 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a.55(6)(c).

oherwydd gellir dweud ei fod yn gythrudd nad yw'n ddigon i fod yn amddiffyniad. Ym mharagraff 7.1.17, rydym yn argymell y dylid cau'r bwlch hwn yn y ddeddfwriaeth.

5.1.17 Er bod y gyfreitheg hon yn datblygu, ni chafwyd erioed ddull fforensig cynhwysfawr o drafod cam-drin domestig na'r llofruddiaethau hynny sy'n ganlyniad i gam-drin domestig.

5.1.18 Deëllir yn awr fod cam-drin domestig wedi'i seilio ar ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol ar ran cyflawnwr y cam-drin tuag at y dioddefwr.

## 5.2 Rôl Rheolaeth drwy Orfodaeth a Rheolaeth drwy Orfodaeth fel Dull Dadansoddi Fforensig

5.2.1 Yn 2015 deddfwyd i greu trosedd newydd o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol a gafodd ei chyflwyno drwy a.76 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2015. Roedd y drosedd wedi'i seilio ar waith Evan Stark.[91] Mae'r Athro Stark yn disgrifio rheolaeth drwy orfodaeth drwy ddweud ei bod yn drosedd yn erbyn rhyddid mewn amgylchiadau lle mae dioddefwraig yn cael ei hamddifadu'n systematig o'i hymreolaeth.[92] Mae'r diffiniad gan yr Athro Stark wedi'i seilio ar gysyniad clinigol sy'n deillio o'r dystiolaeth empeiraidd o'i ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol fforensig. Mae a.76 yn trosi'r cysyniad yn rhywbeth sy'n agored i gyfreithio.[93] Yn y fan hon, nid ydym yn meddwl yn gymaint am y drosedd ei hun ond am natur a graddau'r niwed a achosir gan yr ymddygiad sy'n cael ei wneud yn drosedd.

5.2.2 Sicrhawyd nifer o bethau drwy gyflwyno'r drosedd a'r cysyniad o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol ('rheolaeth drwy orfodaeth') i'r disgwrs ar gyfraith trosedd. Yn gyntaf, mae wedi helpu'r Llywodraeth i barhau i gwrdd â'i rhwymedigaethau rhyngwladol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.[94]

---

91 *Coercive Control How men entrap women in personal life. Op cit.* Gweler hefyd Stark (Evan): "*Rethinking coercive control".* Violence Against Women 15(2): 1509–1525.

92 Fodd bynnag, mae'r drosedd y mae a.76 yn darparu ar ei chyfer yn un sy'n niwtral o ran rhywedd.

93 Walklate (Sandra) Fitz-Gibbon (Kate) McCulloch (Jude) "*Is more law the answer? Seeking justice for victims of intimate partner violence through the reform of legal categories"* Criminology and Criminal Justice 2018 Cyfrol 19(1) 15-131 yn tt17-18. Yn fras, mae'r awduron yn dadlau bod problemau ynglŷn â throi cysyniad clinigol yn rhywbeth sy'n agored i gyfreithio.

94 Roedd y DU wedi llofnodi Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Gwrthweithio Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig (Confensiwn Istanbwl) ar 8 Mehefin 2012 ond nid yw wedi cadarnhau'r cytuniad eto. Mae'r Llywodraeth wedi dweud na wnaiff gadarnhau'r cytuniad nes ei bod wedi'i bodloni bod y DU wedi cwrdd â'i holl rwymedigaethau o dan y Confensiwn.

5.2.3 Yn ail, mae wedi cyflwyno geirfa i gyfraith trosedd sy'n gallu hwyluso naratif sy'n adlewyrchiad gwell o brofiad menywod sy'n dioddef cam-drin domestig. Y rheswm am hyn yw bod damcaniaeth rheolaeth drwy orfodaeth yn egluro'r ffordd y mae ymddygiadau seiliedig ar drais, bygwth, ynysu a rheolaeth yn cael eu defnyddio i gam-drin menywod mewn perthnasoedd domestig. Drwy hynny, mae'n symud y pwyslais oddi wrth resymu sy'n ymwneud â mathau penodol o niwed corfforol ac at batrwm o reolaeth sy'n peryglu cadernid corfforol a seicolegol y ddioddefwraig ac yn ei hynysu, gan wneud iddi deimlo ei bod yn amhosibl dianc o'i sefyllfa gan fod pwyslais ar endrapio'r ddioddefwraig sy'n cael ei achosi gan orfodaeth ac arfer rheolaeth gan y cyflawnwr. Fel trosedd yn erbyn rhyddid, mae rheolaeth drwy orfodaeth hefyd yn tynnu sylw'r gyfraith (neu fe ddylai wneud) at y cyfyngu ar y dewisiadau strategol sydd ar gael i'r ddioddefwraig er mwyn goroesi.

5.2.4 Mae dull seiliedig ar ddigwyddiadau o fesur cam-drin domestig yn anghyflawn ac nid yw'n cynnwys pethau fel 'ynysigrwydd' a 'chywilydd' sydd heb eu cydnabod yn fathau o niwed yn draddodiadol yng ngolwg y gyfraith, ond sy'n niweidiol dros ben i ddioddefwyr cam-drin domestig ac yn cyfrannu at barhau cam-drin domestig am mai eu heffaith yw atal menywod rhag rhoi gwybod amdano. Mae ysgolheigion ffeministaidd wedi dweud bod y drosedd o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn un na welwyd ei thebyg o'r blaen gan ei bod yn cynnwys elfen allanol o ymddygiad na fyddai'n anghyfreithlon o reidrwydd o'i ystyried ar wahân a'r tu allan i'r patrwm ymddygiadol.[95] Mae'n dynodi'r ansawdd ffiaidd ac annirnad yn aml sydd i lawer math o gam-drin. Mae'r newid pwyslais o ddull seiliedig ar ddigwyddiadau yn golygu bod modd egluro'r ymosodiad ar ymreolaeth y fenyw mewn ffordd a allai fod yn rhwyddach i'w deall gan yr heddlu ac asiantaethau eraill.

5.2.5 Yn drydydd, mae'r cysyniad o endrapio yn cynnig esboniad mwy credadwy o'r rheswm y mae pobl[96] yn aros mewn perthnasoedd camdriniol nag y mae damcaniaethau fel 'syndrom y fenyw a gurwyd', er enghraifft, a diagnosisau fel Anhwylder Straen Wedi Trawma sydd ill dau'n rhoi pwyslais ar weithredoedd/ ymosodiadau unigol a statws seicolegol y dioddefwr o ganlyniad iddynt. Mae'r pwynt hwn wedi'i amlygu gan y ffeithiau yn achos *Dhaliwal*[97] a'r penderfyniad yn yr achos hwnnw. Pe byddai'r ffeithiau yn yr achos hwnnw wedi'u hystyried yng nghyd-destun rheolaeth drwy orfodaeth, yna byddai'r canlyniad wedi gallu bod yn wahanol. Er bod barnwr y treial wedi nodi y dylai fod yn bosibl edrych ar y gwahanol ddigwyddiadau fel continwwm, ni welwyd gwerth yn y cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth ar y pryd a rhoddwyd pwyslais ar gyflwr seicolegol y dioddefwr.

---

95 Edwards (Susan) *"Coercion and Compulsion re-imagining crimes and defences"* 2016 Crim LR 876.

96 Menywod gan mwyaf.

97 *Op Cit.* Gweler ein sylwadau yn rhan 1 o'r adroddiad hwn.

5.2.6 Mewn termau fforensig, mae'r model rheolaeth drwy orfodaeth hefyd yn hwyluso newid o'r rhagdybiaeth bod cam-drin domestig yn rhywbeth 'sefyllfaol' a sylweddoli ei fod yn ymwneud yn llai â'r ffaith bod perthynas 'wedi mynd o'i le' a'i fod yn rhan o batrwm o endrapio a grëwyd gan gyflawnwr sydd ag angen patholegol i arfer rheolaeth. Yng ngeiriau'r Athro Monckton-Smith:

> "[d]ominant discourses construct domestic abuse as a 'couple's problem' which is generated through the particular dynamics in any relationship between two people. This position considered a domestic abuse myth, suggests that domestic abuse is situational and provoked…in contrast, discourses of coercive control situate the problems and the abuse within the perpetrator, arguing they will continue with the same behaviour pattern in all relationships."[98]

> "Mae'r prif bwyslais yn y naratifau fforensig gan gwnsleriaid yr amddiffyniad a'r erlyniad yn cael ei roi ar edrych ar y berthynas fel un sydd wedi mynd o'i le yn hytrach nag ystyried yr ymddygiadau patholegol gan rywun sydd â phroblemau o ran rheolaeth." **Cyfweliad lled-strwythuredig**

5.2.7 Hyd yn oed heb ei gweld yng nghyd-destun y Llinell Amser Benywladdiad Partneriaid Personol, mae perthynas sy'n cael ei rheoli gan ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn gallu arwain, yn yr achosion gwaethaf, at hunanladdiad neu laddiad.[99] Gweler hefyd *"Domestic Homicides and Suspected Victim Suicides During the Covid 19 Pandemic"*[100] lle dywedir mai'r ffactorau risg ar gyfer lladdiad a hunanladdiad oedd cam-drin domestig ac, yng nghyd-destun cam-drin domestig, fod ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol yn ffactor risg pwysig.[101] Mae llofruddiaeth yn ganlyniad sy'n gysylltiedig â'r rheolaeth drwy orfodaeth a gaiff ei harfer gan gamdrinwyr.[102] Fel rydym yn egluro isod, bydd yn digwydd yn aml mewn amgylchiadau lle mae'r camdriniwr yn ofni y bydd y berthynas yn dod i

---

98 Monckton-Smith (Jane) *Intimate Partner Femicide: Using Foucauldian analysis to track an eight-stage relationship progression to homicide. Op Cit.* t 13 yn crybwyll Dobash a Dobash (2002) a Stark (2009).

99 Gweler Stark (Evan) *"Coercive Control How men entrap women in personal life"* OUP 2007 tt 276-277 yn crybwyll Nancy Glass et al *"Risk for Intimate Partner Femicide in Violent relationships"* DV report 9 no 2 Dec 2003/Jan 2004 1,2 30-33.

100 Y Swyddfa Gartref NCCP, *Vulnerability Knowledge and Practice Programme, Domestic Homicides and Suspected Victims Suicide During the Covid-19 Pandemic* 2020-2021, Bates (Lis), Hoeger (Katherine), Stoneman (Melanie-Jane), Whittikar (Angela).

101 *Ibid* yn 4.2.2 (tudalen 54) mae hefyd yn gwneud y pwynt bod nifer yr achosion o reolaeth drwy orfodaeth yn cael ei danadrodd "as it is a pattern of behaviour that may be less easily identifiable than discrete incidents involving physical assault or verbal argument".

102 Monckton-Smith (Jane) 2019 Intimate Partner Femicide: Using Foucauldian Analysis to track an eight-stage progression to Homicide Violence Against Women 2019. Gweler hefyd Monkton-Smith (Jane) *"In Control Dangerous relationships and how they end in murder"* (2021).

ben.[103] Yn y cyswllt hwn, gweler y Cyfrifiad Benywladdiad yn 2.8 ar laddiadau ar ôl gwahanu. O'r 888 o fenywod o laddwyd dros y cyfnod o 10 mlynedd sydd wedi'i gynnwys yn y cyfrifiad, roedd 378 (43%) lle'r oedd yn hysbys bod y menywod wedi gwahanu neu gymryd camau i wahanu oddi wrth y cyflawnwr.[104] Ategir hyn gan gam 4 yn Llinell Amser Benywladdiad yr Athro Monckton-Smith: "the reasons given for men killing their partners overwhelmingly revolved around the withdrawal of commitment and separation. This separation could be real or imagined or just threatened."[105]

5.2.8 Fel rydym yn trafod ym mharagraff 6.2 yn yr adroddiad hwn, roedd tystiolaeth (yn ein sampl o achosion) i ategu'r farn bod diwedd ar berthynas yn tueddu i ragflaenu lladdiad.[106] Mewn 43[107] o blith 89 o achosion llofruddiaeth (48%) roedd y sylwadau dedfrydu yn datgelu bod adroddiadau am un ai cenfigen neu ddicter ar ran y cyflawnwr ynghylch methiant y berthynas. Ym mwyafrif yr achosion, roedd yn ymddangos mai hyn oedd y sbardun i'r llofruddiaeth. Roedd y cyflawnwr yn wrywaidd mewn 42 o'r 43 o achosion hyn. Nid oedd unrhyw achosion lle dywedwyd bod cyflawnwr benywaidd wedi arfer rheolaeth drwy orfodaeth tuag at y dioddefwr cyn y lladd. Roedd un achos (**CF1**) lle dywedwyd bod y cyflawnwr yn "obstructive, abusive, argumentative threatening, aggressive and violent when in drink or craving drink" a lle nad oedd y barnwr wedi derbyn disgrifiad y cyflawnwr o brofi rheolaeth drwy orfodaeth o du'r dioddefwr.

5.2.9 I'r gwrthwyneb, mae lladdiad (boed yn ddynladdiad neu'n llofruddiaeth) yn gallu digwydd hefyd lle mae un sy'n profi'r ymdeimlad o endrapio yn y berthynas (o ganlyniad i gael ei cham-drin drwy ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol) yn

[103] Y peth sy'n achosi'r newid yn y ffordd o feddwl o'r angen i reoli i'r angen i ladd gwrthrych y rheolaeth yn y llinell amser lladdiad, *Intimate Partner Femicide Using Foucauldian Analysis to track an eightstage progression to Homicide Violence Against Women. T 8 Monkton-Smith (Jane)* "[t]he argument proposed is that IPF is part of a journey where the motivation to abuse (need for control) is linked to the motivation to kill (loss of, or threat to control). Breakdown in control can be preceded by a somewhat broad spectrum of triggers, and this often revolves around separation but also financial ruin and mental or physical crises. This means there will be many more relationships where there is a breakdown in control than there are homicides. However, if the response shows signs of last chance thinking, or determined revenge, the risk of homicide escalates".

[104] Femicide Census: "*If I am not in Friday, I might have been dead"* gan Long (Julia), Wertans (Emily), Harper (Keshia), Brennan (Dierdre), Harvey (Heather), Allen (Rosie) ac Elliott (Katie) gydag Ingala Smith (Karen) ac O' Callaghan (Clarissa). 2009-2018 Tudalen 30.

[105] *Op Cit* ar d17.

[106] Yn *Building a temporal sequence for developing prevention strategies, risk assessment and perpetrator interventions in domestic abuse related suicide, honour killing and intimate partner suicide* t35 mae Monckton Smith (Jane) Siddiqui (Hannana) Haile (Susan) Sandham (Alex) yn cyfeirio at ddigwyddiad sbarduno yng nghyd-destun lladdiadau ar sail anrhydedd a hunanladdiadau.

[107] Roedd un achos lle nad oedd hyn yn glir felly nid oedd yr achos hwn wedi'i gynnwys yn y cyfrif.

teimlo nad oes ffordd allan heblaw drwy ladd. Bydd dioddefwr y cam-drin wedyn yn dod yn gyflawnwr y llofruddiaeth.

## 5.3 Troseddwyr sydd Hefyd yn Ddioddefwyr

5.3.1 Hyd yn hyn rydym wedi canolbwyntio ar ddynion ac ar gyflawni benywladdiad ganddynt. Mae ymchwil yn dangos, lle mae menywod wedi'u cael yn euog o lofruddio eu partneriaid gwrywaidd, iddynt fod yn aml yn ddioddefwyr cam-drin domestig cyn hynny gan eu partneriaid.[108] Mae menywod sydd wedi profi cam-drin domestig mewn perthynas lle ceir rheolaeth drwy orfodaeth yn rhai sy'n debygol o ladd am fod rheolaeth drwy orfodaeth wedi arwain at y fath raddau o endrapio fel na allant weld ffordd arall neu ffordd gyfreithlon i ddianc o'u sefyllfa. Mae Stark yn nodi bod yr hyn y mae'n ei alw yn "perspecticide"[109] yn cyfrannu at hyn.

5.3.2 Mewn amgylchiadau lle mae menywod o'r fath wedi'u cael yn euog o lofruddiaeth, mae ymchwil wedi dangos bod hyn yn aml yn ganlyniad i ddiffygion y system cyfiawnder troseddol. Un ai nad yw menywod o'r fath wedi'u hamddiffyn yn briodol rhag cam-drin domestig blaenorol neu nid oeddent wedi cael eu cynrychioli'n briodol yn y treial.[110] **Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cytuno:**

> Rydyn ni'n gweld hynny mewn gwasanaethau rheng flaen ac mewn adroddiadau ac rydyn ni'n gweld hynny yn y cyfryngau drwy'r amser lle mae menywod wedi cael eu cyhuddo, pan ydyn nhw'n cael eu harestio. Ddim yn y farnwriaeth yn unig y mae'r rhagdybiaeth ryweddol honno; mae'n bodoli ym mhob rhan o gymdeithas. **Un o'r cyfranogwyr yn y Grwpiau Ffocws.**

5.3.3 Un rheswm arall rydym wedi'i awgrymu dros gael menywod o'r fath yn euog o lofruddiaeth mewn llawer achos yw nad yw'r prif ddisgwrs[111] yn ymwneud eto â rheolaeth drwy orfodaeth sydd, fel rydym wedi dadlau eisoes, yn sail i gam-drin domestig. Eglurir y rhesymau am hyn ymhellach yn Rhan 9 o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae wedi'i dderbyn mewn egwyddor bellach y gall rheolaeth drwy

[108] *Women who kill: How the State Criminalises Women We Might Otherwise be Burying* Howes (Sophie) t 29 "The triggers to women's lethal violence".

[109] Stark (Evan), Coercive Control *"How men entrap women in personal life"* OUP (2007) ar d 267 "one of the most devastatingly psychological effects of isolation is the above related incapacity to know what you know."

[110] Howes (Sophie) *Women who Kill: How the state criminalises women we might otherwise be burying* Chwefror 2021.

[111] Monckton-Smith (Jane), *Intimate Partner Femicide: Using Foucauldian analysis to track an eight-stage relationship progression to homicide. Op. cit.*

orfodaeth fod yn elfen mewn amddiffyniadau rhannol i gyhuddiadau o lofruddiaeth.[112]

5.3.4 Nid oeddem wedi canfod bod y dedfrydau a roddwyd i fenywod am lofruddiaeth yn hirach na'r rheini a roddwyd i ddynion. Mewn gwirionedd, roedd y ddedfryd gyfartalog i fenywod yn fyrrach, sef 17.6 blynedd i fenywod o gymharu â 20.8 blynedd i ddynion – er na ellir dod i gasgliadau pendant am fod y nifer o fenywod yn yr adolygiad o achosion yn fach (8 wedi cael dedfryd am lofruddiaeth). Gan ei bod yn ymddangos bod hyn yn wir, anghywir yng ngolwg yr ymchwil a gyhoeddwyd am gam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth fyddai cynyddu dedfrydau fel y cyfryw. Roedd yr holl gyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws yn gytûn ar hyn.

5.3.5 Byddai unrhyw bolisi yn sicr o arwain at anghyfiawnder os nad oedd yn ystyried y ffaith bod lleiafrif o gyflawnwyr hefyd yn ddioddefwyr o'r union ddrygau y mae'r polisi dedfrydu i fod i'w hadlewyrchu/delio â nhw. Mewn geiriau eraill, byddai canlyniadau anfwriadol. Mae'r Athro Jeremy Horder a Kate Fitz-Gibbon yn gwneud y pwynt cryf y byddai'r cyhuddedig yn achos *Kiranjit Ahluwalia*,[113] os cafwyd hi'n euog eto o dan y fframwaith dedfrydu presennol yn Atodiad 21, yn cael dechreubwynt o 25 mlynedd[114] oherwydd, wrth gwrs, roedd hi wedi mynd ag arf (petrol) i'r lleoliad ac wedi'i ddefnyddio i ladd yr ymadawedig. Mae diffyg cyswllt rhwng agweddau ar gyfraith sylwedd yn dilyn y newidiadau yn sgil Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 5.1.16) a'r fframwaith dedfrydu sydd wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth ac sydd, fel rydym wedi nodi ym mharagraff 2.3, yn parhau fel yr oedd yn 2003. Mae'r ymchwil uchod yn galw am fwy o hyblygrwydd yn y fframwaith dedfrydu er mwyn gallu gwneud gwell asesiad o feiusrwydd troseddwyr benywaidd sydd hefyd yn ddioddefwyr.

[112] Gweler y penderfyniad yn *R v. Challen [2019] EWCA Crim 916.* Er hynny, mae'n bwysig nodi yn achos *Challen* fod y Llys Apêl yn ymdrin â chythrudd ac nid yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar.

[113] Mae'r Athro Susan Edwards wedi dadlau bod ei hachos yn un nodweddiadol o ran rheolaeth drwy orfodaeth. Mae'r Athro Edwards yn dyfynnu geiriau Taylor CJ yn achos *R v. Ahluwalia (1992) 96 Cr. App R. 133* gan ddweud eu bod i bob pwrpas yn disgrifio rheolaeth drwy orfodaeth pan ddywedodd fod llythyr yr oedd yr apelydd wedi'i ysgrifennu at yr ymadawedig yn dystiolaeth o "the state of humiliation and loss of self-esteem to which the deceased's behaviour had reduced her". Gweler Edwards (Susan) "*Coercion and Compulsion re-imagining crimes and defences"* 2016 Crim LR 878.

[114] Horder (Jeremy) a Fitz-Gibbon (Kate) "*When sexual infidelity triggers murder: examining the impact of homicide law reform on judicial attitudes in sentencing."* C.LJ 2015 74(2). 307-328 sy'n dweud bod y paragraff blaenorol 11(c) yn Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn "arguably very weak attempt to take into account circumstances which will include those in which abused women may kill their abusive partners hardly matches the effort devoted to carving out a partial defence to murder, based, when a loss of control is added to the picture, on this very ground."

5.3.6 Un ffordd i ddiffinio difrifoldeb llofruddiaeth ddomestig ac atal unrhyw anghyfiawnder sy'n deillio o'r anghysondeb a ddisgrifiwyd uchod fyddai defnyddio damcaniaeth rheolaeth drwy orfodaeth i briodoli lefel o ddifrifoldeb i'r llofruddiaeth. A siarad yn gyffredinol, y rheswm am hyn yw bod y ddamcaniaeth/model rheolaeth drwy orfodaeth sy'n ymwneud yn bennaf â chyfyngu rhyddid yn un sy'n adlewyrchu anghydraddoldebau rhwng y rhywiau a oedd yn bodoli cynt. Yn ei gwaith yn 2012[115] mae Jane Monckton-Smith yn crybwyll geiriau Evan Stark:

> "coercive control takes the enforcement of gender stereotypes as its specific aim, the degradation of femininity as a major means, and reinforces sexual inequality in society as a whole in ways that constrain women's opportunities to 'do' femininity, it is about the construction and deconstruction of gender identity in ways that other forms of violence against women are not."

5.3.7 Er enghraifft, mae'r pwyslais mewn rheolaeth drwy orfodaeth ar reoli manwl ar weithgareddau y mae cymdeithas wedi tybio'n draddodiadol eu bod yn 'waith menywod' (fel gwaith tŷ a gofalu am blant) hefyd yn golygu bod menywod sy'n lladd yn llai tebygol o fod wedi arfer rheolaeth drwy orfodaeth dros y partner y maent wedi'i ladd. Mae'n annhebygol y gwelir bod menywod o'r fath yn rhai sydd â hanes o gyflawni'r cam-drin sy'n gyffredin mewn perthnasoedd lle ceir rheolaeth drwy orfodaeth, sef tagu nad yw'n angheuol a threisio fel ymddygiad rheolaidd. Yn ei lyfr diweddar, *Domestic Abuse and Human Rights*, mae Jonathan Herring yn cyfeirio at waith yr Athro Marianne Hester a'i chydweithwyr[116] "[who] found that while significant numbers of men reported emotional, physical or sexual harm, only 4.4% of men experience coercive and controlling violence, and of these, half admitted doing the same to their partner."[117] Pa un bynnag, mae rheolaeth drwy orfodaeth yn gallu gwaethygu ymddygiad penodol y mae'n barhad ohono, sef yr angen i reoli, ac mae hefyd yn gallu lliniaru difrifoldeb y lladdiad os gellir ei egluro drwy ddangos ei fod wedi'i seilio ar yr angen i ddianc rhag rheolaeth.

5.3.8 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 5.2.8 uchod, mae nifer mawr o lofruddiaethau o fenywod gan eu partneriaid neu gyn-bartneriaid personol gwrywaidd yn tueddu i gael eu cyflawni un ai ar ddiwedd y berthynas neu pan fydd dioddefwraig y llofruddiaeth wedi penderfynu y bydd yn gadael y berthynas neu hyd yn oed wedi i'r berthynas ddod i ben. Mae hyn yn arwain at newid yn y ffordd o feddwl (sydd wedi'i nodi gan yr Athro Monckton-Smith).[118] Mae hwn yn newid o'r angen i arfer

[115] Monckton Smith (Jane), Murder, Gender and the Media 2012 Palgrave Macmillan, Basingstoke. Tudalen 138.

[116] M. Hester, C. Jones ac E. Williamson "*Is it Coercive Controlling Violence? A Cross-sectional Domestic Violence and Abuse Survey of Men Attending General Practice in England and Wales*" (2017) 17 Psychology of Violence 417.

[117] *Op. cit* t 44.

[118] Gweler paragraff 5.1.4 uchod.

rheolaeth dros berson i'r penderfyniad i ladd y person hwnnw unwaith y gwelir na ellir parhau â'r rheolaeth. Mae'r ddamcaniaeth rheolaeth drwy orfodaeth yn awgrymu bod y cymhelliad i gyflawni lladdiadau o'r fath yn ymwneud ag anallu i dderbyn diwedd yr elwa o freintiau gwrywaidd sydd mor gyffredin mewn perthnasoedd rheolaethol a gorfodaethol. Mae cenfigen yn cael ei gweld yn ffactor yn aml ond, mewn gwirionedd, nid yw ond yn un agwedd ar y strategaeth rheolaeth drwy orfodaeth sydd wedi'i seilio ar freintiau gwrywaidd a roddir drwy batriarchaeth. Fel y dywed Stark "[t]he ultimate expression of property rights is the right of disposal illustrated by the statement that frequently precedes femicide 'If I can't have you no one will'."[119]

5.3.9 Eithriad posibl i'r ddamcaniaeth uchod, bod diwedd y berthynas yn bwysig yng nghyd-destun cymhelliad i ladd, yw cenfigen. Fel y nodwyd yn Rhan 5.1.12,[120] trafodwyd hyn yn benodol gan y Senedd yn a.55(6)(c) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.[121] Fodd bynnag, mae ymarfer yn y llysoedd troseddol hefyd yn dangos bod cenfigen yn naratif cyffredin y dibynnir arno yn niffyg dealltwriaeth priodol o reolaeth drwy orfodaeth fel y sail i gam-drin domestig.[122]

5.3.10 O'r 99 o achosion a oedd yn ymwneud â chyflawnwr gwrywaidd yn ein sampl o 120 o achosion, roedd y dedfrydwr wedi dweud i'r cyflawnwr ddangos rheolaeth drwy orfodaeth at y dioddefwr mewn 46 o achosion. Roedd o leiaf un enghraifft glir iawn lle'r oedd y barnwr dedfrydu wedi diystyru'r hyn a alwyd gan deulu'r dioddefwr yn reolaeth drwy orfodaeth ond wedi gosod dedfryd a oedd yn uchel fel arall [**CM16**]. Yn ddiweddarach yn y papur hwn, byddwn yn trafod y gorgyffwrdd rhwng rheolaeth drwy orfodaeth a'r themâu eraill rydym wedi'u canfod yn ystod yr adolygiad. Wrth gwrs, roedd yn rhaid mesur rheolaeth drwy orfodaeth yn ôl sylwadau dedfrydu ac, fel rydym wedi nodi eisoes, mae hon yn ffordd amherffaith i ganfod yr holl ffactorau perthnasol mewn achos penodol.

## 5.4 Nid Oes Dealltwriaeth Da Eto o Reolaeth drwy Orfodaeth

5.4.1 Mynegwyd pryderon ym mwyafrif y grwpiau ffocws am y ffaith bod y dealltwriaeth o reolaeth drwy orfodaeth yn wael o hyd a'i bod yn aml yn cael ei hanwybyddu yng nghyd-destun lladd gan bartner personol.

[119] 9 Stark (Evan), Coercive Control "*How men entrap women in personal life"* OUP (2007) t 208.

[120] Gweler uchod yn 5.1.15

[121] Fel y nodwyd eisoes, mae'r adran hon yn darparu bod anffyddlondeb rhywiol i gael ei ddiystyru wrth edrych ar y sbardun i golli rheolaeth ar sail y polisi nad yw cenfigen byth yn gallu cyfiawnhau lladd.

[122] Gweler *R v. Challen [2019] EWCA Crim 916* lle dywedwyd mai cenfigen oedd cymhelliad yr apelydd yn ei threial cyntaf pan oedd esboniad arall (dibwyllo) mewn gwirionedd a oedd yn adlewyrchu ei phrofiadau a'i gweithredoedd.

5.4.2 Er bod y dystiolaeth empeiraidd ar y mater hwn yn gyfyngedig iawn o hyd, mae'r diffyg dealltwriaeth hwn wedi'i nodi mewn mannau eraill. Mae Adolygiad o'r drosedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol (Mawrth 2021)[123] yn darparu dadansoddiad meintiol o ddata o'r system cyfiawnder troseddol ynghyd â dadansoddiad ansoddol o'r ffordd y mae'r drosedd yn gweithio er mwyn pennu'r angen am newidiadau mewn polisi. Ymhlith prif ganfyddiadau'r adolygiad yr oedd y canlynol: (1) bod anawsterau o hyd wrth adnabod rheolaeth drwy orfodaeth (2) bod diffyg data systematig ar draws y system cyfiawnder troseddol ar nodweddion troseddau gorfodaethol a rheolaethol, ymysg pethau eraill. Un argymhelliad ar gyfer ymchwil oedd y dylid ymchwilio ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol i asesu lefelau presennol yr ymwybyddiaeth a'r dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth a'r ffordd o'i chymhwyso'n ymarferol er mwyn nodi unrhyw newidiadau sydd eu hangen yn y canllawiau a'r hyfforddiant sydd ar gael.

5.4.3 Mae'r adroddiad yn tynnu ar ymchwil academaidd ac, yn benodol, ar un astudiaeth o blismona yng Nglannau Mersi.[124] Y casgliad yw (yng nghyd-destun hyrwyddo'r defnydd o drosedd ymddygiad Rheolaethol a Gorfodaethol yn a.76 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2015) yw "the successful implementation of the coercive control offence is dependent on more than just legislation"[125] gan gyfeirio at waith Burman a Brooks-Hay sydd wedi dadlau "legislative change cannot on its own lead to improvements. Whatever laws we have will only be as effective as those who enforce, prosecute and apply them. Improving these practices - through education, training and embedding best practice - is likely to be more effective than the creation of new offences alone." At hynny, dibynnir hefyd ar y dadleuon a gyflwynwyd gan ysgolheigion ffeministaidd fod angen rhoi lle canolog i hyfforddiant mewn dull gweithredu unedig. Yng ngeiriau Julia Tolmie "[i]f the law is to be successfully applied, shifts will need to be required in the collective response of all

---

[123] Cynhaliodd y Swyddfa Gartref adolygiad o'r drosedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, a gyflwynwyd yn Rhagfyr 2015, a darparwyd adroddiad ym Mawrth 2021. Gweler https://www.gov.uk/government/publications/review-of-the-controlling-or-coercive-behaviour-offence.

[124] Barlow (Charlotte), Walklate (Sandra), Johnson (Kelly), Humphreys (Les) a Kirby (Stuart) yn N8 Policing Research Partnership *Police Responses to Coercive Control* lle'r oedd astudiaeth o Heddlu Glannau Mersi yn cynnwys y prif ganfyddiadau a ganlyn: bod lefel y defnydd o'r gyfraith yn isel, yn dangos anawsterau o ran deall a chofnodi rheolaeth drwy orfodaeth gan yr heddlu; y posibilrwydd bod cyfleoedd yn cael eu colli i ganfod rheolaeth drwy orfodaeth mewn achosion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn gyffredinol, fel Gwir Niwed Corfforol ('ABH'); bod problemau wedi'u nodi o ran ymchwiliadau'r heddlu a blaenoriaethu troseddau rheolaeth drwy orfodaeth o gymharu â mathau eraill o droseddu sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, yn enwedig y gyfradd isel o arestio a datrys achosion o gymharu â mathau eraill o droseddu cysylltiedig â cham-drin domestig fel ABH; problemau o ran sicrhau tystiolaeth o reolaeth drwy orfodaeth ac anawsterau yng nghyswllt swyddogion mewn perthynas â graddau a goblygiadau'r risg mewn achosion rheolaeth drwy orfodaeth.

[125] *Ibid* ar dudalen 37 yn cyfeirio at waith Burman a Brooks-Hay (2018) *'Aligning policy and law? The creation of a domestic abuse offence incorporating coercive control*', Criminology and Criminal Justice, cyf. 18 (1) tt 78

key criminal justice decision makers, including prosecution lawyers, judges, juries….”

5.4.4 Am fod y dealltwriaeth o reolaeth drwy orfodaeth yn annigonol, mae’n bosibl na fydd yn cael ei chanfod yn rhwydd gan ymchwilwyr na chyfreithwyr a barnwyr. Un rheswm posibl am hynny yw’r ffordd y mae rheolaeth drwy orfodaeth yn peri i ddioddefwyr ymddangos bod ganddynt ran yn y cam-drin y maent yn ei brofi.

5.4.5 Fel y dywedodd un o’r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws:

> “Un o’r tactegau a ddefnyddir yn aml gan gamdrinwyr mewn achosion rheolaeth drwy orfodaeth yw creu cyd-destun lle mae hi’n gwneud y penderfyniad. Er enghraifft, mae hi’n cael ei hynysu oherwydd bob tro mae ei ffrindiau wedi dod draw i’r tŷ mae ef wedi ymddwyn mewn ffordd mor gywilyddus fel mai hi yw’r un sydd wedi’u stopio rhag dod draw ond nawr mae ganddo reswm credadwy dros wadu’r honiad – Ddim fi wnaeth dy ynysu di; ti wnaeth hynny dy hun. Mae hynny’n ei gwneud yn fwy anodd byth i gyflwyno tystiolaeth bendant.” **Un o’r cyfranogwyr yn y Grwpiau Ffocws**

5.4.6 Mae nifer mawr o ddioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth heb gydnabod eu bod yn ddioddefwyr o ganlyniad i’r patrwm ymddygiad hwn. Gall hyn fod yn ganlyniad i ddibwyllo neu, fel rydym yn egluro isod, gellir cael iaith ddieiriau idiosyncratig rhwng y camdriniwr a’r dioddefwr sydd wedi datblygu dros amser ac sy’n bodoli o fewn perthynas agos. Mewn un achos proffil uchel (nad oedd yn y sampl o achosion) lle’r oedd menyw wedi lladd ei gŵr, byddai’r ymadawedig yn rheoli’r apelydd dim ond drwy edrych arni’n gas. Mewn achos proffil uchel arall nad oedd yn rhan o’r sampl, lle’r oedd menyw wedi lladd ei gŵr a hwnnw, meddai hi, wedi arfer rheolaeth drwy orfodaeth drosti am flynyddoedd, byddai’r cwestiwn ‘ble wnest ti barcio dy gar?’ yn cael ei ofyn i’r diffynnydd i ddynodi y dylai roi’r gorau i siarad neu byddai llygaid yr ymadawedig yn newid mewn ffordd na fyddai neb ond hi yn sylwi arni.

5.4.7 Un rheswm arall dros yr anawsterau wrth adnabod rheolaeth drwy orfodaeth yw ei bod yn aml yn cael ei disgrifio’n fath o gam-drin sy’n benodol neu’n bersonol iawn. Felly, bydd yn aml yn gudd ac yn anodd i’r dioddefwr ei egluro:

> “Beth ddywedwn i yw bod y bygwth einioes a’r bygythiadau eraill yn aml yn rhai cynnil ac yn oblygedig ac na fydden nhw’n cael eu hadnabod gan bobl sy’n chwilio am fygythiadau penodol i einioes, ond maen nhw’n sicr yn golygu rhywbeth i’r dioddefwr.” **Un o’r cyfranogwyr yn y Grwpiau Ffocws**

5.4.8 Felly mae rheolaeth drwy orfodaeth yn fath o gam-drin ‘pwrpasol’ yn yr ystyr y bydd y cyflawnwr yn canfod y gwendidau penodol sydd gan y dioddefwr ar ddechrau’r berthynas ac wedyn yn mynd yn ei flaen i elwa o’r gwendidau hynny.

Yn ei lyfr *“Coercive Control: how men entrap women in personal life,”* mae’r Athro Evan Stark yn dweud “only in coercive control do perpetrators hone their tactics to their special knowledge of everything from a victim’s earnings and phone conversations to her medical problems, personal fears…”.[126] Gwelsom yr enghreifftiau clir canlynol o gam-drin ‘pwrpasol’. Yn gyntaf, **CM49** lle’r oedd cyflawnwr y llofruddiaeth yn 13 blwydd yn hŷn na’r ddioddefwraig. Roedd ef yn gwybod iddi gael ei cham-drin yn rhywiol yn blentyn a’i cham-drin yn gorfforol gan ei chyn-bartner. Roedd y cyflawnwr wedi arllwys te poeth yn y gwely, wedi poeri arni ac wedi gorfodi’r ddioddefwraig i orwedd ynddo am ei bod wedi dweud wrtho fod ei llystad wedi poeri arni pan gafodd ei cham-drin yn blentyn. Yng ngeiriau’r barnwr dedfrydu “it is an irresistible inference in my judgment that you spat at her to dredge up her memories and humiliate her.” Yn yr achos hwn, roedd yn glir bod y cam-drin teilwredig yn gwaethygu beiusrwydd pa un a oedd y cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth wedi’i grybwyll neu beidio. Mantais y model rheolaeth drwy orfodaeth yw ei fod yn darparu templed fforensig ar gyfer yr hyn roedd y barnwr dedfrydu hwn yn gallu ei ganfod a’i ddisgrifio.

5.4.9 Yn **CM59** roedd y cyflawnwr wedi dweud wrth bobl fod y ddioddefwraig yn feichiog a bod ganddo ef blant gan wybod nad oedd hyn yn wir ond mai hynny oedd gwir ddymuniad y ddioddefwraig. Yn yr achos hwn, roedd y barnwr dedfrydu wedi nodi hyn wrth ddisgrifio cyd-destun y llofruddiaeth ond dywedodd nad oedd yn gwaethygu beiusrwydd y troseddwr.

5.4.10 Am fod gweithredoedd rheolaethol a gorfodaethol wedi’u pennu’n aml gan amgylchiadau diwylliannol a chyd-destunol[127] gall rheolaeth drwy orfodaeth gael ei chuddio hefyd gan gam-drin croestoriadol oni bai fod yr heddlu, y CPS, cyfreithwyr yr erlyniad a’r amddiffyniad yn gwybod am beth i chwilio. Yn aml, bydd rhyng-gysylltiad rhwng rheolaeth drwy orfodaeth a ffactorau gormesol a/neu wahaniaethol eraill fel iechyd meddwl, trais ar sail anrhydedd (ac felly dim neu nemor ddim cymorth gan y teulu a ffrindiau) neu faterion fel y rheini sy’n ymwneud â diwylliant neu ddiffyg mynediad at arian cyhoeddus yn achos menywod mudol a fydd yn dwysáu’r endrapio.

5.4.11 Gwelsom yr enghreifftiau clir canlynol o gam-drin croestoriadol yn y sampl o achosion. Roedd **CM1** yn achos lle cafodd y ddioddefwraig ei llofruddio gan ei gŵr am na fyddai’n cefnogi ei gais am statws mewnfudo. Mae hyn yn dangos un ffordd y mae menywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn cael eu niweidio gan reolaeth

[126] Stark (Evan), “*Coercive Control How men entrap women in personal life*” OUP (2007) t 206.

[127] Walklate (Sandra), Fitz-Gibbon (Kate) a McCulloch (Jude) “*Is more law the answer? Seeking justice for victims of intimate partner violence through the reform of legal categories*” Op. cit. Yn crybwyll Velonis, *“He never did anything you typically think of as abuse Experiences with violence in controlling and non-controlling relationships in a non-agency sample of women”*, Violence Against Women 22(9):1031-1054 2016):1036.

drwy orfodaeth ac un na sylwir arni efallai gan asiantaethau rheng flaen ac eraill sydd â rhan yn y system cyfiawnder troseddol. Yn debyg i hyn, yn **CM2**, gwelsom enghraifft glir o drais ar sail anrhydedd lle'r oedd y cyflawnwr wedi parhau i aflonyddu ar y ddioddefwraig, er bod y berthynas wedi methu, ac wedi'i lladd yn y pen draw pan gafodd wybod ei bod hi gyda phartner arall. Yn **CM14**, roedd y ddioddefwraig wedi cychwyn carwriaeth â chefnder i'r cyflawnwr; roedd y cyflawnwr wedi cael gwybod am hyn ymhen amser, wedi ymosod arni ac wedi bygwth ei chywilyddio yn y gymuned Fwslimaidd. Roedd y bygythiad hwn wedi atal y ddioddefwraig rhag gadael y berthynas lle'r oedd wedi cael ei dal. Ymhen amser, roedd y cyflawnwr wedi ymosod arni gan ddefnyddio tair cyllell ac achosi 75 o anafiadau i'w chorff drwy drywanu.

5.4.12 Yn **CM67**, roedd y cwpl wedi trefnu priodas a oedd yn un broblemus gan fod tensiynau wedi'u nodi rhwng y cyflawnwr a theulu'r ddioddefwraig o'r dechrau. Roedd yr elyniaeth wedi parhau a phroblemau wedi codi yn y berthynas o ganlyniad. Ar 25 Rhagfyr, cododd ffrae rhwng y ddau, ac ymosododd y cyflawnwr yn wyllt ar y ddioddefwraig gan ei tharo â phadell ffrio a'i thrywanu wedyn 38 o weithiau â chyllell gegin fawr cyn ei thagu.

5.4.13 Yn **CM74**, roedd y cyflawnwr wedi arfer rheolaeth drwy orfodaeth dros y ddioddefwraig a'r tactegau'n cynnwys rheoli ei defnydd o'r rhyngrwyd a'r ffôn gan ei hatal rhag cyfathrebu â'i theulu yn Yemen. Dywedodd y ddioddefwraig ei bod am gael ysgariad, ond roedd y cyflawnwr yn ofni y byddai hi'n dychwelyd i Yemen, pe byddai hynny'n digwydd, ac y byddai hi'n mynd â'u plant gyda hi. Mygodd ef y ddioddefwraig ac aeth yn ei flaen i foddi ei phlant.

5.4.14 Os deëllir y ffordd y mae ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn gweithio, dylai hynny arwain at strategaethau i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Fodd bynnag, ni cheir dealltwriaeth o'r ffaith bod natur benodol rheolaeth drwy orfodaeth yn gallu cynnig dulliau fforensig i ddileu cam-drin croestoriadol os bydd y diffyg hyfforddiant yn parhau:

> "Hyd yr amser a'r patrwm cam-drin. Does dim dealltwriaeth o hynny. Rydyn ni'n gwneud llawer o waith yn ein sector ni – yn y rheng flaen ac o safbwynt polisi. Rydyn ni'n gwneud llawer o waith ynghylch y ffordd y mae'r mathau hyn o gam-drin yn cydblethu. Ond beth sy'n digwydd yn aml yn y System Cyfiawnder Troseddol yw eu bod yn cymryd un agwedd ar y math hwnnw o gam-drin. Rydw i'n credu bod angen cydnabod yn aml – er enghraifft, yn achos nifer mawr o fenywod du a lleiafrifol bydd agweddau ar reolaeth drwy orfodaeth ond hefyd diffyg cydnabyddiaeth o drais ar sail anrhydedd sy'n digwydd neu ddiffyg cydnabyddiaeth o hanes o briodas dan orfod. Weithiau ceir gwahaniaethu rhwng yr agweddau lle mae un agwedd ar drosedd benodol sydd wedi'i chyflawni yn cael blaenoriaeth gan ba asiantaeth bynnag

sy'n cynnig y math hwnnw o gymorth ac mae hynny'n broblemus iawn." **Un o'r cyfranogwyr yn y Grwpiau Ffocws**

5.4.15 Un anhawster sy'n codi o ganlyniad i'r diffyg dealltwriaeth o reolaeth drwy orfodaeth (ymysg ymatebwyr yn y rheng flaen ac ymhlith ymchwilwyr i achosion) yw ei fod yn rhoi cyfle i gamdrinwyr ystumio'r ffeithiau fel y bydd yn anodd i'r heddlu arestio'r prif ymosodwr. Mae ysgolheigion ffeministaidd wedi nodi eu pryderon yn y cyswllt hwn.[128] Mae hyn yn arbennig o wir lle mae ymatebwyr y rheng flaen a chyfreithwyr yn canolbwyntio ar ddigwyddiad neilltuol yn hytrach na threulio amser i ddeall patrymau rheolaeth a gorfodaeth. Os canolbwyntir ar ddigwyddiadau penodol, byddant yn aml yn agored i'r feirniadaeth nad ydynt, ar eu pen eu hunain a/neu ar wahân, yn ffurfio ymddygiad sy'n droseddol.[129] At hynny, mae gwaith yr Athro Marianne Hester wedi dangos bod diffyg holi am ddynameg rhwng y rhywiau ynghyd â phwyslais ar ddigwyddiadau neilltuol yn golygu bod menywod yn dair gwaith yn fwy tebygol na dynion o gael eu harestio pan fydd yr heddlu wedi'u galw i ddigwyddiadau domestig.[130]

5.4.16 Mae hyn, ynghyd â'r ffaith gydnabyddedig mai nifer cyfyngedig o achosion cam-drin domestig sy'n cael eu cofnodi,[131] yn cael effaith o ran casglu data. Er enghraifft, mae Mynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref[132] yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi ar y Ffurflen Lladdiadau ar wahanol gamau yn ystod yr achos – er bod hyn yn cynnwys opsiwn i dicio gwahanol ddulliau o ladd sydd wedi'u hawgrymu, mae materion a gofnodir yn nhermau trais domestig yn cynnwys blwch ticio i ddangos a oedd y lladd yn gysylltiedig â digwyddiadau blaenorol o drais domestig[133] yn erbyn y dioddefwr/yr un a ddrwgdybir. Bydd hyn yn seiliedig ar farn oddrychol y swyddog yn yr achos, ond gellir ei seilio hefyd ar droseddau blaenorol a gofnodwyd. Yn aml bydd barn y swyddog yn dibynnu'n llwyr ar y ffordd o ymchwilio i'r dystiolaeth a'i dehongli ac ar ganlyniad y treial yng nghyd-destun diffyg hyfforddiant a gwybodaeth. Nid oes cyfeiriad at 'reolaeth drwy orfodaeth' yn y ffurflen safonol a ddarperir ar gyfer casglu'r wybodaeth. Cyfeirir at rai agweddau

[128] Edwards (Susan) (2016) *Coercion and Compulsion-re-imagining crimes and defences*: Criminal Law Review (12) tt 876-899.

[129] "The failure of criminal justice agencies to respond appropriately to domestic abuse is a key factor in the significant under reporting of domestic abuse." Gweler *Women who kill* sy'n cyfeirio at CWJ yn cyflwyno uwch-gŵyn. Centre for Women's Justice Super-Complaint Police failure to use protective measures in cases involving violence against women and girls. Mawrth 2019, ar gael yn: https://static1.squarespace.com/static/5aa98420f2e6b1ba0c874e42/t/5c91f55c9b747a252efe260c/1553069406371/Super-complaint+report.FINAL.pdf

[130] Hester, Marianne *Portrayal of Women as intimate partner domestic violence perpetrators,* Violence Against Women 18(9) 1067-1082.

[131] Op cit. n.127.

[132] Mae'n cynnwys templed ar gyfer casglu data.

[133] "Violence" yw'r gair sydd ar y ffurflen.

ar yr hyn a alwn yn fodel rheolaeth drwy orfodaeth yn y rhesymau dros y lladdiad, h.y. diwedd y berthynas, cenfigen.

5.4.17 Nid ydym yn gwybod pa mor aml y gellid dweud bod rheolaeth drwy orfodaeth wedi digwydd yn ein sampl o achosion gan ein bod wedi gorfod dibynnu'n llwyr ar sylwadau dedfrydu i ganfod a yw'n bresennol neu'n absennol. Mae diffyg gwybodaeth ystadegol briodol yn y cyswllt hwn yn ychwanegu at y camddeall ac at y rhagdybiaethau.

5.4.18 Rydym yn ategu barn yr Athro Monckton-Smith wrth ddweud ei bod yn bwysig pwysleisio bod hyfforddiant, yn ein barn ni, yn galw am rannu gwybodaeth a dealltwriaeth digonol am reolaeth drwy orfodaeth er mwyn gallu creu dull fforensig cyson o ymdrin â cham-drin domestig drwy edrych ar hanes penodol ac adnabod patrwm ac, yn y patrwm hwnnw, gweld bod tystiolaeth berthnasol ar gael. Nid yw hyfforddiant yn galw o reidrwydd am ddatblygu empathi ond fe ddylai ganolbwyntio ar ganfod y patrymau tystiolaeth perthnasol.

> "…. Nid cam-drin seicolegol yn unig yw rheolaeth drwy orfodaeth, mae'n cynnwys cymhelliad. Felly rhaid i chi ddeall y cymhelliad i reoli rhywun sydd, fel y mae Evan Stark yn dweud, yn golygu dal rhywun mewn perthynas fel na fydd yn gallu gadael. A dim ond deall y peth bach hwnnw."
>
> "…..efallai y bydd swyddogion heddlu yn dod i eistedd a gwrando ar storïau dioddefwyr – mae hynny'n effeithiol iawn. Mae'n dda iawn o ran meithrin empathi a phethau o'r fath. Ond a yw hynny'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen at y dyfodol? Y sgiliau penodol i allu adnabod rheolaeth drwy orfodaeth. Wyddoch chi, ei hadnabod wrth ei gweld. Cael gwared â'r duedd honno i ddehongli tystiolaeth mewn ffordd sy'n cadarnhau'ch credoau." **Cyfweliad â throseddegydd**

5.4.19 Ceir gwrthgyferbyniad rhwng y sefyllfa yn y system cyfiawnder troseddol a'r sefyllfa yn yr awdurdodaeth teulu lle mae cryn bwyslais bellach ar ddeall rheolaeth drwy orfodaeth. Yn y llysoedd teulu, rhoddwyd pwyslais ar adnabod patrymau rheolaeth drwy orfodaeth. Yn achos *Re H-N and Others* (gwrandawiadau i ganfod ffeithiau am gam-drin domestig)[134] daliodd y Llys Apêl fod y diffiniad yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 12J sef,

> "Coercive behaviour means an act or a pattern of acts of assault, threats, humiliation or other abuse that is used to harm punish or frighten the victim"
>
> "Controlling behaviour" means an act or pattern of acts designed to make a person subordinate and/or dependent by isolating them from sources of

[134] *Re H-N and Others (domestic abuse fact finding hearings) [2021] EWCA Civ 448*

> support, exploiting their resources and capacities for personal gain, depriving them of the means needed for independence, resistance and escape and regulating their everyday behaviour"
>
> "is and remains fit for the purpose for which it was designed namely to provide the courts with a structure enabling the courts first to recognise all forms of domestic abuse and thereafter how to approach such allegations when made in private law proceedings" yn [28].

Yn [29] cymeradwyodd y Llys y dyfarniad gan Hayden J yn achos *F v.M*[135] lle dywedodd:

> "[i]n the family court the expression [coercive and controlling behaviour] is given no legal definition, in my judgment it requires none. The term is unambiguous and needs no embellishment. Understanding the scope and ambit of the behaviour however requires a recognition that coercion will usually involve a pattern of acts encompassing for example, assault, intimidation, humiliation and threats. 'Controlling behaviour' really involves a range of acts designed to render an individual subordinate and to corrode their sense of personal autonomy. Key to both behaviours is an appreciation of a 'pattern' or a 'series of acts' the impact of which must be assessed cumulatively and rarely in isolation"

5.4.20 Wedyn, yn [30], nododd y Llys yn HN fod Hayden J hefyd wedi ymgymryd â:

> "the valuable exercise of highlighting the Home Office statutory guidance produced pursuant to s.77 of the Serious Crime Act 2015 which identified the paradigm behaviours of controlling and coercive behaviour" sef canllawiau a oedd yn berthnasol ar gyfer "the evaluation of evidence in the family court."

Yr unig sylw y byddem yn ei ychwanegu yw ei bod yn hawdd gweld pam nad oes angen diffiniad neu esboniad pellach o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn y llys teulu sy'n ymwneud yn bennaf ag ymarferiadau i ganfod ffeithiau. Fodd bynnag, yn yr awdurdodaeth droseddol mae angen i ymarferwyr allu nid yn unig ddeall y patrwm o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol ond deall rheolaeth drwy orfodaeth yng nghyd-destun amddiffyniadau llawn a rhannol sydd wedi'u datblygu'n annibynnol ar ein dealltwriaeth o reolaeth drwy orfodaeth ac felly mae'r ymarferiad yn fwy cymhleth. Rydym yn trafod hyn yn rhan 9 o'r adroddiad hwn.

[135] *F v.M [2021] EWFC 4.*

5.4.21 **Argymhelliad 1: Rydym yn argymell** y dylid cael system benodol ar wahân i gasglu'r holl ddata perthnasol mewn perthynas â'r holl laddiadau domestig, i'w chynnal gan y Swyddfa Gartref neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

5.4.22 **Argymhelliad 2: Rydym yn argymell** y dylid cael hyfforddiant gorfodol i'r holl gyfreithwyr a barnwyr ar ddeall a chymhwyso'r cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth. (Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10)

# 6. Mathau Ehangach o Niwed sy'n Nodweddu Llofruddiaethau Domestig

## 6.1 Crynodeb

6.1.1 Rydym wedi ceisio pennu'r ymddygiad sy'n cynnwys y beiusrwydd a'r mathau ehangach o niwed y dylid delio â nhw mewn dedfrydau am laddiadau domestig gan ddal sylw ar ddibenion statudol dedfrydu sef amddiffyn y cyhoedd, adsefydlu troseddwyr a gostwng troseddu (ar ffurf lladdiadau domestig).

## 6.2 Diwedd y Berthynas neu Sbardun Arall

6.2.1 Fel y nodwyd ym mharagraff 5.2.8 uchod, roedd y sampl o achosion yn dangos bod cysylltiad ymddangosiadol rhwng dicter ar ddiwedd y berthynas ar ran y cyflawnwr gwrywaidd a'r ffaith bod hanes o reolaeth drwy orfodaeth. Gwelwyd arwyddion o deimladau o ddicter a chenfigen ar ddiwedd y berthynas a gellid eu hystyried yn sbardun i'r lladd mewn 45 o achosion (38%). Yn yr holl achosion heblaw un, roedd y cyflawnwr yn wrywaidd.

6.2.2 Roedd o ddiddordeb arbennig i ni weld ble'r oedd ffactorau cyffredin (er enghraifft, bod diwedd y berthynas yn sbardun i'r lladdiad) yn cyfuno â ffactorau eraill sy'n ymwneud â'r math hwn o ladd. Un o'r ffactorau mwyaf trawiadol ynghylch nifer mawr o lofruddiaethau domestig yw gor-ladd. Yn gyntaf, edrychwn ar gyffredinrwydd gor-ladd.

## 6.3 Gor-ladd

6.3.1 Achosir un o'r mathau ehangach o niwed gan **'or-ladd'**[136] am ei fod yn peri gofid dirfawr i deuluoedd y dioddefwyr o wybod nid yn unig fod un o'u hanwyliaid wedi'i llofruddio ond hefyd fod y fath drais gormodol a digymell wedi'i gyflawni yn ei herbyn.[137] Mae'n golygu anharddu sy'n gyfystyr â halogi'r corff benywaidd ac mae llofruddiaethau o'r fath o fenywod yn gyson â delweddau sy'n dangos casineb at fenywod yn gyffredinol mewn pornograffi treisgar. Ceir anghysondeb hefyd i ryw raddau yn y ffaith bod celu, dinistrio neu ddarnio corff yn ffactor gwaethygol

[136] Fel y mae wedi'i ddiffinio yn yr adran ar dermau 1.3.12, sef lladd sydd yn cynnwys "defnydd o drais digymell, gormodol y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i achosi marwolaeth y dioddefwr."

[137] Yn amlach na pheidio, mae'r dioddefwr yn fenyw. Gweler y ffigurau ym mharagraffau 5.1.6-5.1.9.

statudol o dan baragraff 9(g) o Atodlen 21 a bod gor-ladd (sydd heb ei gydnabod yn swyddogol) yn gallu golygu halogi tebyg o'r corff ond nad oes bwriad i guddio tystiolaeth hyd yn oed wrth ei gyflawni.

6.3.2 Roedd yn ymddangos i ni mai gor-ladd yw un o'r pethau sydd wrth wraidd y mater a nodwyd gan y rheini sy'n teimlo gofid ynghylch y gwahaniaeth rhwng y dechreubwyntiau 15 a 25 mlynedd yn Atodlen 21. Ceir anghysondeb yn y ffaith bod un anaf drwy drywanu a achoswyd gan rywun a aeth â chyllell neu arf arall i'r lleoliad yn galw am ddechreubwynt uwch nag ar gyfer rhywun sydd wedi trywanu ei bartner yn ei chartref lle'r oedd arf ar gael yn rhwydd ac wedyn wedi cyflawni **'gor-ladd.'**[138]

6.3.3 Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn ein grwpiau ffocws yn credu bod 'gor-ladd' mewn llofruddiaeth yn fynegiant o ddicter tuag at y dioddefwr.

> "Yn fy marn i, mae gor-ladd yn dangos cymhelliad ac nid yw cymhelliad yn rhywbeth digymell a sydyn o reidrwydd mewn lladdiad o'r math hwn. Mae'r cymhelliad yn deillio o'r hanes mewn ffordd. Rydw i'n meddwl mai hynny sydd angen ei ddeall yng nghyd-destun y berthynas." **Un o gyfranogwyr y Grwpiau Ffocws**

> "Rydw i'n credu ei fod yn dangos maint y dicter tuag at bobl – cyffredinoli yw hyn ond yn eithaf aml ceir dicter mawr iawn pan fydd dynion yn lladd menywod. Rydw i'n meddwl bod y gor-ladd yn dangos y math hwnnw o ddicter." **Un o gyfranogwyr y Grwpiau Ffocws**

6.3.4 Roedd dadansoddiad pellach o achosion lle'r oedd arwydd clir o or-ladd[139] yn dangos o blith y sampl o 120 o achosion (lle'r oedd 99 yn cynnwys cyflawnwyr gwrywaidd a 21 yn cynnwys cyflawnwyr benywaidd) fod cyfanswm o 56 o achosion (47%) lle gellir ystyried bod gor-ladd wedi digwydd. Roedd y cyflawnwyr yn wrywaidd yn yr holl achosion o or-ladd heblaw un. O'r 56 o achosion y

---

[138] Julie Devey yn "*The changes we can make.*" Cyfarwyddwr y ffilm ymgyrchu oedd Levi James, myfyriwr yn ei flwyddyn olaf ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr https://youtube/EhBEbMQbIG8 Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, mewn achosion fel CM14 (lle'r oedd y ddioddefwraig yn anhapus yn ei phriodas ac wedi cychwyn carwriaeth â chefnder i'r cyflawnwr. Roedd brawd y cyflawnwr wedi cael gwybod am hyn ac wedi blacmelio'r ddioddefwraig a hynny wedi arwain at waethygu ei hiselder. Pan gafodd y cyflawnwr wybod am hyn, dechreuodd ymosod ar y ddioddefwraig, gan fygwth ei chywilyddio yn y gymuned. Roedd yr ofn hwn wedi atal y ddioddefwraig rhag gadael y berthynas. Ar ddiwrnod y digwyddiad, ymosododd y cyflawnwr ar y ddioddefwraig a'i slaesio â chyllell gegin. Pan geisiodd y cymdogion ymyrryd, llusgodd ef y ddioddefwraig yn ôl i mewn ac ymosod arni eto â thair cyllell gegin gan achosi 75 o anafiadau drwy drywanu) fod y ddedfryd ar yr un lefel â dedfryd lle penderfynir y dechreubwynt yn ôl paragraff 4 ond, fel y nododd Cwnsler y Trysorlys, prin iawn oedd yr achosion lle'r oedd y nodweddion gwaethygol wedi codi'r ddedfryd i'r lefel hon.

[139] Gweler paragraff 1.3.14 ar dermau a pharagraff 1.4.10 ar fethodoleg yr adolygiad hwn.

cyfeiriwyd atynt uchod, roedd 53 (95%) wedi arwain at euogfarn am lofruddiaeth a'r 3 oedd yn weddill (5%) wedi arwain at euogfarn am ddynladdiad. Defnyddiwyd arf mewn 49 o'r 56 o achosion (88%) lle cafwyd gor-ladd.

6.3.5 Yn y 56 o achosion lle gwelsom fod gor-ladd, cyfeiriwyd at y gor-ladd yn y sylwadau dedfrydu drwy sôn am ymosodiad estynedig/ dioddef meddyliol/corfforol hir a nodwyd ei fod yn ffactor gwaethygol mewn 40 o achosion (71%). Roedd un achos hefyd lle'r oedd wedi'i adlewyrchu yn lle hynny yn yr asesiad o niwed/beiusrwydd. Nid oedd pwys yn cael ei roi bob amser ar natur y lladd. Mae'n bosibl bod hyn yn dangos nad yw'r cysyniad hwn yn cydweddu'n rhwydd â'r ffactorau gwaethygol statudol yn Atodlen 21 gan eu bod yn crybwyll dioddefaint meddyliol a/neu gorfforol estynedig yn benodol lle mae gor-ladd drwy ddiffiniad yn ganlyniad i ymosodiad sy'n parhau wedi i'r farwolaeth ddigwydd neu ar ôl cyflawni trais sy'n ddigon i achosi marwolaeth.

6.3.6 Yn ogystal â hyn, nid oedd menywod yn tueddu i ladd drwy 'or-ladd'. Yn hytrach, roedd mwyafrif y lladdiadau a gyflawnwyd gan fenywod yn ymwneud ag un clwyf angheuol drwy drywanu. Er enghraifft, mewn 16 o achosion yn y sampl (13%) cyflawnwyd y lladd drwy achosi un clwyf drwy drywanu (a allai ddangos bod y trywanu wedi'i gyflawni'n unswydd i achosi marwolaeth). Mewn 10 o'r achosion hyn (63%) roedd y cyflawnwr yn fenywaidd ac mewn 6 (37%) roedd y cyflawnwr yn wrywaidd.

6.3.7 Roedd gor-ladd yn nodwedd mewn un achos (**CF17)** o lofruddiaeth lle'r oedd menyw wedi lladd mewn modd y gellid ei ddiffinio'n 'or-ladd'. Yn yr achos hwn, roedd adolygiad o'r ffeithiau ar CCDCS yn awgrymu bod y cyflawnwr wedi dioddef rheolaeth drwy orfodaeth dan law'r ymadawedig. Nid oedd y barnwr dedfrydu wedi derbyn graddau'r rheolaeth drwy orfodaeth. Nid oedd yr un achos lle dywedwyd bod cyflawnwr benywaidd wedi arfer rheolaeth drwy orfodaeth dros ddioddefwr y llofruddiaeth. Y farn (ymhlith cyfranogwyr y grwpiau ffocws) oedd bod modd priodoli gor-ladd, lle mae'n nodwedd mewn achosion lle mae menywod yn lladd, i'r angen i sicrhau bod y camdriniwr/rheolwr wedi marw:

> "Rydw i'n meddwl am or-ladd gan fenywod – ei fod yn dystiolaeth o'r rheolaeth am mai'r darlun rydyn ni'n ei gael yw ei fod yn fwystfil hollbwerus sydd angen ei or-ladd. Mae'n wahanol fath o gyd-destun i'r gor-ladd gan ddynion. Mae hynny'n rhyw fath o wylltineb ond lle mae menywod yn gor-ladd, mae hynny'n codi o deimlad o anobaith tuag at un arall sy'n hollbwerus." **Un o gyfranogwyr y Grwpiau Ffocws**

Mae hyn yn cael ei egluro ymhellach gan Stark sy'n dweud bod y strategaeth goroesi sydd gan y ddioddefwraig rheolaeth drwy orfodaeth yn un sy'n golygu

delfrydoli'r camdriniwr a mewnoli ei reolau. Wedyn mae'r lluniad seicolegol hwn yn chwalu wrth gyflawni'r lladd:

> "By internalising the rules by "owning" them Laura found a way to master their unpredictability and the chronic anxiety they elicited. If the rules were hers and not merely Nick's she could draw a certain satisfaction from meeting them even when he was violent, constructing an image of him within herself that was orderly, reasonable and approving and which could contain her mounting rage in the obsessive enactment of domesticity. The Nick within was protective, not merely delusional. It enabled Laura to hide her survival self in an internal image of her victimizer and so counter the emptiness that made her victim self so vulnerable to self-loathing. Laura's inner conversation with "Nicky" protected her against annihilation even as her behavioural conformity made her appear lost in the rules. When Nick was killed, the imago's function began to atrophy, the rage surfaced in a suicidal gesture."[140]

6.3.8 Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cytuno â'n barn am y drygau a'r mathau o niwed sy'n deillio o or-ladd er bod cyfranogwyr mewn un grŵp wedi dweud eu bod yn meddwl y dylem gael mewnbwn gan seiciatryddion ar y mater hwn. Nid ydym yn amharod i gael mewnbwn gan seiciatryddion. Fodd bynnag, nid oedd gennym adnoddau i wneud hynny o fewn cwmpas yr adolygiad hwn. Rydym hefyd yn ymwybodol bod llawer o'n syniadau yn ymwneud â llywio'r gyfraith oddi wrth esboniadau seiciatrig o gysyniadau y byddai'n well eu hegluro drwy ddull fforensig o drafod cam-drin domestig a/neu reolaeth drwy orfodaeth gan gofio'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Yn y cyswllt hwn, gweler y drafodaeth yng nghyd-destun achos *R v. Dhaliwal* yn rhan 1 o'r adroddiad hwn.

6.3.9 Mae'r ffordd i ddiffinio gor-ladd yn fater i'r cwnsler seneddol ond mae cyfle posibl i gynnwys y cysyniad yn y paragraff 9(c) a (g) presennol yn Atodlen 21.

6.3.10 Os yw'r digwyddiad o or-ladd yn berthnasol i ddicter, yna bydd yn bwysig ymchwilio i'r cefndir sy'n arwain at y lladd mewn achos penodol. Roeddem yn gallu canfod ei fod yn cyd-ddigwydd yn aml â chenfigen a/neu feddiangarwch.

## 6.4 Cenfigen

6.4.1 Mewn mwy na hanner (56%) yr achosion gor-ladd a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd, gellid ystyried bod teimladau o genfigen neu ddicter ar ddiwedd y berthynas yn sbardun i'r lladd. Ym mhob un o'r 99 o achosion a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd, roedd cenfigen neu ddicter ar ddiwedd y berthynas yn glir a chredwyd bod canfyddiad o leihad mewn rheolaeth yn sbardun i'r lladd mewn 44

[140] Stark (Evan) *Coercive Control How men entrap women in personal life.* Op cit. Ar d 336.

(44%) o achosion. Yn **CM55** mae cyfeiriad at genfigen afiach[141] yn y dyfarniad ar ei gais newydd am apelio. Ni soniwyd am hyn mewn sylwadau dedfrydu. Roeddem wedi sylwi hefyd, mewn un o'r llofruddiaethau a gyflawnwyd gan fenyw yn erbyn ei phartner gwrywaidd, fod seiciatrydd yr amddiffyniad (a oedd wedi asesu'r diffynnydd cyn y treial) wedi nodi bod y disgrifiad o ymddygiad yr ymadawedig yn gyson â rhywun a oedd yn profi cenfigen afiach a bod ffactorau eraill y byddai rhywun yn disgwyl eu cael mewn achos o genfigen afiach fel y camddefnydd o ganabis a chocên. Nid diagnosis seiciatrig yw cenfigen afiach ond syndrom seiciatrig ac mae'n aml yn gysylltiedig â chamddefnydd o alcohol a sylweddau.[142] Mae'n effeithio ar fwy o lawer o ddynion nag o fenywod a chredir ei fod yn 'arwydd o rybudd' yng nghyd-destun lladd. Unwaith eto, mae hyn yn ategu ein barn y dylai unrhyw esboniadau seiciatrig o laddiadau domestig gael eu gweld yng nghyd-destun unrhyw batrymau o ymddygiad rheolaethol sy'n bodoli.

6.4.2 O'r 55 o achosion gor-ladd a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd, roedd 40% yn achosion lle nodwyd bod y cyflawnwr wedi rheoli a gorfodi'r dioddefwr o'r blaen **a hefyd** fod teimladau o genfigen neu ddicter ar ddiwedd y berthynas y gellid eu hystyried yn sbardun i'r lladd. O'r cyfanswm o 99 o achosion a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd, cafwyd bod bron 3 ym mhob 10 (29%) yn achosion lle'r oedd y cyflawnwr wedi ymddwyn yn orfodaethol a rheolaethol tuag at y dioddefwr a bod modd canfod teimladau o genfigen neu ddicter am fod y berthynas wedi dod i ben. Fel y nodwyd ym mharagraff 5.3.10 uchod, nid oedd yr un achos lle dywedwyd bod cyflawnwr benywaidd wedi arfer rheolaeth dros y dioddefwr gwrywaidd.

## 6.5 Tagu

6.5.1 Roeddem wedi dadansoddi ein sampl o achosion ymhellach mewn perthynas â thagu. O'r 120 o achosion yn ein sampl, roedd 35 o achosion (29%) yn cynnwys tagu o ryw fath. Mewn 32 o'r 35 o achosion, roedd y dull o ladd yn cynnwys tagu â'r dwylo a'r tri a oedd yn weddill yn cynnwys y defnydd o rwymiad.[143] Mewn 77% o'r achosion, cafwyd y cyflawnwr yn euog o lofruddiaeth. Yn y 23% sy'n weddill, fe'i cafwyd yn euog o ddynladdiad.

6.5.2 Mewn 15 o'r 35 o achosion a oedd yn cynnwys tagu (43%), roedd y barnwr dedfrydu wedi dal bod y drosedd wedi'i gwaethygu o ganlyniad i'r dioddefaint a

[141] *R v. Mustafa [2019] EWCA Crim 1926, [21].*

[142] Morbid Jealousy in Alcoholism Midal (Albert), Mirza, (Sudeshni), Mirza (H), Babu (V.S) CUP 2 Ionawr 2018.

[143] Roedd hyn yn fwy na chyfran y lladdiadau yn y Mynegai Lladdiadau 2016-2020 lle cyflawnwyd 21% o'r lladdiadau drwy dagu.

achoswyd oherwydd natur yr ymosodiad. Fodd bynnag, yn yr 20 o achosion sy'n weddill (57%), nid oedd cydnabyddiaeth i'r dull o ladd yn y ffactorau gwaethygol.

6.5.3 Yn y 15 o achosion lle dywedwyd bod y drosedd wedi'i gwaethygu gan natur y lladd, mae'n bwysig nodi mewn 11 o achosion (73%) fod y tagu wedi'i gyflawni ar y cyd ag ymosodiad neu ymosodiad ag arf.

6.5.4 Hyd cyfartalog y cyfnod gofynnol yn y 27 o achosion llofruddiaeth a oedd yn cynnwys tagu oedd 18 mlynedd a 7 mis.

6.5.5 Mae'r cyd-destun i'r defnydd o dagu yn y sampl o achosion yn bwysig o ran ei ddeall. Er enghraifft, mewn 13 o'r 35 o achosion (37%) lle defnyddiwyd tagu, roedd y cyflawnwr wedi arfer rheolaeth drwy orfodaeth yn ystod neu ar ôl y berthynas.

6.5.6 Yn yr un modd, mewn 12 o'r 35 (34%) o achosion a oedd yn cynnwys tagu, gellid dehongli bod cenfigen ar ran y cyflawnwr neu'r ffaith bod y berthynas wedi dod i ben yn sbardun i'r lladd.

6.5.7 Roedd y dioddefwr wedi profi cam-drin domestig o'r blaen gan y cyflawnwr mewn 16[144] o'r 35 o achosion (46%).

6.5.8 Mae'n bwysig nodi, mewn 8 o'r 35 o achosion tagu, fod gan y cyflawnwr hanes o dagu nad oedd yn angheuol.

## 6.6 Tagu fel Math Rhyweddol o Ladd

6.6.1 Roedd dadansoddiad yn ôl rhywedd yn dangos bod tagu (lle achosir marwolaeth gan asffycsia) yn fath rhyweddol o ladd. Er enghraifft, mewn 34 o'r 35 (97%) o achosion, roedd y cyflawnwr yn wrywaidd. Yn yr un achos lle'r oedd y cyflawnwr yn fenywaidd, roedd y dioddefwr hefyd yn fenywaidd. O'r 34 o achosion tagu lle'r oedd y cyflawnwr yn wrywaidd, roedd 27 wedi arwain at euogfarn am lofruddiaeth. Roedd y 7 achos sy'n weddill wedi arwain at euogfarn am ddynladdiad lle'r oedd 3 oherwydd cyfrifoldeb lleiedig a 4 oherwydd dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon. Yn yr unig achos lle'r oedd y cyflawnwr benywaidd wedi defnyddio tagu fel dull o ladd, cafwyd euogfarn am ddynladdiad oherwydd cyfrifoldeb lleiedig.

6.6.2 O'r 34 o achosion tagu lle'r oedd y cyflawnwr yn wrywaidd, roedd 16 o achosion lle mai tagu â'r dwylo oedd yr unig ddull o ladd (47%). Yn y 18 o achosion sy'n weddill, cyflawnwyd y tagu â rhwymiad neu ar y cyd ag ymosodiad neu ymosodiad

[144] Mewn un achos, nid oedd hyn yn glir ar sail y wybodaeth a oedd ar gael i ni felly nid yw'r achos hwnnw wedi'i gynnwys yn y cyfrif.

ag arf. Yn yr unig achos o dagu gan gyflawnwr benywaidd, cyflawnwyd y drosedd drwy dagu â'r dwylo.

6.6.3 Mewn 14 o'r 34 o achosion tagu lle'r oedd y cyflawnwr yn wrywaidd (41%), roedd y dedfrydwr o'r farn bod y drosedd wedi'i gwaethygu oherwydd y dioddefaint a achoswyd oherwydd yr ymosodiad ond yn yr 20 o achosion sy'n weddill (59%) nid oedd cydnabyddiaeth i'r dull o ladd yn y ffactorau hynny y dywedwyd eu bod wedi gwaethygu'r drosedd. Fodd bynnag, yn yr unig achos lle'r oedd y cyflawnwr yn fenywaidd, dywedwyd bod y drosedd wedi'i gwaethygu gan natur y lladd.

6.6.4 O'r 14 o achosion hynny lle dywedwyd bod y drosedd wedi'i gwaethygu oherwydd y dull o ladd, mae'n arwyddocaol o bosibl fod y tagu mewn 11 o'r achosion wedi'i gyflawni ar y cyd ag ymosodiad neu ymosodiad ag arf. Dim ond mewn 3 achos lle'r oedd tagu â'r dwylo yn unig ddull o ladd yr oedd y dull o ladd, sef tagu, wedi cael ei ystyried yn ffactor gwaethygol.

6.6.5 Roedd y cyflawnwr yn wrywaidd ym mhob un o'r 13 o achosion tagu (37%) a oedd wedi dilyn cyfnod o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol. Roedd hyn yn wir hefyd yn y 12 achos lle'r oedd y lladd wedi digwydd o ganlyniad i genfigen neu wedi'i sbarduno gan ymateb i derfynu'r berthynas rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr.

6.6.6 Mewn 15 o'r 34 o achosion a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd (44%), nodwyd bod y dioddefwr wedi profi cam-drin domestig cyn hynny. Roedd hyn yn wir hefyd am y ddioddefwraig yn yr unig achos tagu a oedd yn cynnwys cyflawnwr benywaidd.

6.6.7 O'r 13 o achosion lle cyflawnwyd llofruddiaeth drwy dagu â'r dwylo yn unig, y cyfnod gofynnol cyfartalog oedd 18.1 blynedd. Fodd bynnag, roedd un achos lle'r oedd y dechreubwynt 30 mlynedd yn gymwys[145] am fod y llofruddiaeth wedi'i chyflawni er elw a phan dynnir yr achos hwn o'r cyfrifiad, y cyfnod gofynnol cyfartalog yw 17.1 blynedd.

6.6.8 Yn y 14 o achosion tagu sy'n weddill lle cafwyd euogfarn am lofruddiaeth, cyflawnwyd ymosodiad ychwanegol ag arf neu heb arf neu defnyddiwyd rhwymiad. Hyd cyfartalog y ddedfryd oedd 18.6 blynedd.

6.6.9 Mae ein canfyddiadau ar dagu yn gyson â'r canfyddiadau mewn gwaith ymchwil arall. Yn y 10 mlynedd sy'n destun i'r ymchwil gan Centre for Women's Justice a Justice for Women, mewn 71% o'r achosion (n=65), roedd menywod a laddodd eu partneriaid camdriniol wedi trywanu'r ymadawedig, mewn 9% o'r achosion (n=8) roedd menywod wedi ymosod ar yr ymadawedig ag arf o fath arall, mewn 5% (n=5) ohonynt roedd menywod wedi ymosod yn gorfforol ar eu partner gyda

[145] Gweler paragraff 2.2 o'r adroddiad hwn.

chymorth rhywun arall ac mewn 7% (n=6) o’r achosion, roedd menywod wedi rhoi eu partner ar dân neu wedi cynnau tân yn fwriadol a arweiniodd at ei farwolaeth. Dim ond un achos o dagu gan fenyw a ddaeth i’r golwg yn yr ymchwil.[146]

6.6.10 Yn ogystal â hyn, mae’r Athro Susan Edwards wedi nodi bod ffigurau a gasglwyd am achosion er 1986,[147] yn dangos mai tagu a mygu partner benywaidd (un ai â’r dwylo neu drwy ddefnyddio rhwymiad) oedd y prif ddull o ladd. Isod, rydym yn egluro ein pryder bod tagu menywod gan ddynion wedi cael ei normaleiddio.

## 6.7 Trafodaeth am Dagu mewn Grwpiau Ffocws

6.7.1 Roedd cyfranogwyr yn teimlo gan mwyaf[148] y dylai tagu fod yn ffactor gwaethygol mewn achosion llofruddiaeth a hefyd mewn achosion dynladdiad. Mae hyn yn ganlyniad yn rhannol i natur y dull o ladd. Mae’n cymryd amser i dagu dioddefwr gan achosi marwolaeth drwy asffycsia.

> “Rydw i wedi darllen tua 900 o adolygiadau o laddiadau domestig erbyn hyn, i sicrhau ansawdd. Roeddwn i wedi canfod bod rhyw arswyd unigryw yn perthyn i’r weithred o dagu. Defnyddio’r dwylo ond edrych i lygaid ei gilydd – mae’n bersonol ac yn anodd iawn ei ddisgrifio – mae’r arswyd yn hollol unigryw.” **Un o gyfranogwyr y Grwpiau Ffocws**

> “Rydyn ni’n gwybod bod tagu nad yw’n angheuol yn cael ei ddefnyddio’n aml fel rhybudd a bygythiad yn benodol – os ei di dros y llinell bydd hyn yn mynd yn bellach. Wrth gwrs, yn aml dydy hyn ddim yn cael ei gofnodi. Dim ond pan fyddwch chi’n holi menyw sy’n ddioddefwraig a gofyn cwestiynau iddi y gallai hi weld hynny, a bydd hi’n tueddu i’w ddiystyru. Lle mae hanes sydd wedi’i gofnodi ar ffurflen DASH neu rywbeth tebyg – yna mae’n amlwg y dylai’r dull o ladd yn y diwedd fod yn ffactor gwaethygol”. **Un o gyfranogwyr y Grwpiau Ffocws**

> “Mae bron bob amser yn ymwneud â’r ffaith bod y cyflawnwyr am gael y gair olaf ond os byddwch chi’n gweithio gyda’r cyflawnwyr, byddwch chi’n clywed hyn dro ar ôl tro – roeddwn i am iddi gau ei cheg, roeddwn i am iddi fod yn ddistaw ond roeddwn i am ennill , rhaid i chi gael y gair olaf. Dyna sy’n

[146] Howes (Sophie) *Women who kill; How the state criminalises women we might otherwise be burying* Chwefror 2021, t 23.

[147] Edwards (Susan), *The strangulation of female partners* Crim LR 2015 12 949-966.

[148] Roedd un person wedi anghytuno am ei fod o’r farn nad yw canllawiau o gymorth yn gyffredinol ac ni thrafodwyd y mater o wneud tagu yn nodwedd waethygol mewn un cyfarfod grŵp ffocws am fod y syniad wedi’i godi ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfod dilynol o’r grŵp ffocws.

digwydd wrth ymosod ar y gwddf a rhoi'r dwylo dros y geg – y pwrpas yw rhoi taw ar rywun." **Un o gyfranogwyr y Grwpiau Ffocws**

6.7.2 Ym mharagraff 7.19 isod rydym yn gwneud argymhellion ynghylch tagu yng nghyd-destun llofruddiaeth ac ym mharagraff 8.1.23-8.1.24 rydym yn gwneud argymhellion cyfatebol yng nghyd-destun dynladdiad. Yn ein barn ni, dylai tagu fod yn ffactor gwaethygol statudol mewn achosion llofruddiaeth.

6.7.3 Y rheswm am hyn yw bod arwyddocâd neilltuol i'r weithred o dagu â'r dwylo fel dull o lofruddio yn y materion sydd dan sylw yn yr adolygiad. Yn gyntaf, mae'r drafodaeth uchod yn awgrymu ei fod yn fath rhyweddol o ladd. Yn ail, credir yn gyffredinol fod digwyddiadau tagu nad ydynt yn angheuol yn rhagfynegydd cywir i drais angheuol.[149] Y dystiolaeth gliriaf o hyn yw'r ffaith bod digwyddiad tagu nad yw'n angheuol yn destun cwestiwn penodol yn y ffurflen DASH.[150] Yn drydydd, deddfwyd ar dagu nad yw'n angheuol yn Neddf 2021.[151] Yn bedwerydd, mae tagu nad yw'n angheuol yn gyffredin mewn perthnasoedd lle ceir rheolaeth drwy orfodaeth.

6.7.4 Yn bumed, rydym am sicrhau cysondeb ym mhob agwedd ar y ffordd y mae'r gyfraith yn trin drygau benywladdiad. Tra ein bod wedi trafod yr agweddau penodol ar laddiadau domestig, mae cwestiwn yn codi bob amser ynghylch sut mae lladdiadau o'r fath yn sefyll ochr yn ochr â lladdiadau menywod (boed drwy lofruddiaeth neu ddynladdiad) nad ydynt ac na fuont erioed mewn perthynas bersonol â'r troseddwr. Mae'r ffaith bod tagu yn gyffredin yn y troseddau hyn yn bwysig ei nodi. Rhan o'r sail resymegol dros wneud tagu yn ffactor gwaethygol statudol yw sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae'r gyfraith yn trin lladd rhyweddol.

6.7.5 O ran y mathau ehangach o niwed, mae ysgolheigion ffeministaidd wedi argymell diwygio'r gyfraith ar y ffordd y mae tagu yn cael ei drin.[152] Roedd yr Athro Susan Edwards, wrth ysgrifennu yn 2015, wedi cyfeirio at gyffredinrwydd tagu mewn achosion lle lladdwyd partneriaid benywaidd a chyfeiriodd hefyd at absenoldeb tagu mewn achosion annomestig. Ymhellach, bod camau blaenorol i ddiwygio'r

[149] Gweler *Domestic Homicides and Suspected Victim Suicides during the Covid 19 Pandemic* yn 4.4, tudalen 58 sy'n nodi bod adolygiad o'r llenyddiaeth yn ei gwneud yn glir, lle mae'r ffactorau risg yn cyd-ddigwydd, y gellir wynebu risg fawr o laddiad. Yn ogystal â hyn, mae cydberthynas arwyddocaol rhwng tri ffactor, sef gwahanu, tagu nad yw'n angheuol a lladdiad gan fod gwahanu yn gallu golygu colli rheolaeth. Mae tagu nad yw'n angheuol yn ffordd i arfer rheolaeth.

[150] Asesiad i bennu risg mewn achosion o gam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail anrhydedd (Domestic Abuse Stalking and Honour Based Violence).

[151] Gweler a70 sy'n mewnosod a75 A, 75B yn Neddf Troseddu Difrifol 2015.

[152] *Edwards (Susan), The strangulation of female partners Crim LR 2015 12 949-966*

gyfraith[153] wedi ymatal rhag ystyried goblygiadau tagu a'u bod yn ymwneud yn unig â mathau eraill o ymddygiad sy'n peri risg fawr fel meddu ar bornograffi sy'n dangos treisio.

6.7.6 Dim ond yn ddiweddar y mae polisi a'r gyfraith wedi dechrau derbyn y rôl sydd i dagu mewn cam-drin domestig.[154] Mae ymchwil ddiweddar i dagu nad yw'n angheuol yn tynnu sylw at y mathau helaeth o niwed sy'n gysylltiedig â hyn.[155] Drwy gyflwyno'r drosedd annibynnol o dagu nad yw'n angheuol o dan ddarpariaeth a.70 o Ddeddf 2021, cymerwyd cam mawr ymlaen o ran y ffordd y mae'r gyfraith yn edrych ar dagu yng nghyd-destun cam-drin domestig. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n awr â'r ffordd y mae'n cael ei ystyried yng nghyd-destun dedfrydu lle mae marwolaeth wedi digwydd.

6.7.7 Nododd yr Athro Edwards (mor bell yn ôl â 2015) nad oedd tagu wedi'i grybwyll yn unman yn Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ond, wrth gwrs, y byddai barnwr dedfrydu yn gallu ystyried yr hyn a oedd bryd hynny yn baragraff 5(1) (a) (difrifoldeb) 5(2) (e) (ymddygiad sadistaidd) a'r ffactorau gwaethygol o dan yr hyn a oedd yn baragraff 10 nad oedd ei gynnwys (fel y nodwyd eisoes,[156] oherwydd y gair "include")[157] wedi'i fwriadu i fod yn hollgynhwysol. Mewn geiriau eraill, roedd cyfle i farnwyr dedfrydu gymryd difrifoldeb tagu i ystyriaeth.

6.7.8 Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr Athro Edwards, wrth gyfeirio at ganllaw dedfrydu diffiniol y Cyngor Canllawiau Dedfrydu ar Egwyddorion Cyffredinol mewn Achosion Trais Domestig mewn perthynas â cham-drin domestig, wedi dweud ei fod wedi gwrthdroi'r sefyllfa flaenorol[158] "where the domestic context was regarded as a mitigating factor allowing courts to excuse men as 'not normally violent', 'no danger to the public'"[159] neu ddweud fel arall fod eu hymddygiad "out of character"[160] ond nododd, er hynny, nad oedd sôn am dagu yn y canllaw. Roedd yr awdur wedi nodi'r parodrwydd ar ran y Llys Apêl i bennu lefel briodol o

153 *Ibid. R v. Coutts [2007] 1 Cr. App. R 6* Euogfarn am lofruddiaeth mewn amgylchiadau lle'r oedd yr apelydd wedi honni cael cydsyniad i dagu a daliwyd y dylai barnwr y treial fod wedi gadael cownt arall o ddynladdiad i'r rheithgor. Sefydlwyd polisi ar droseddoli meddiant o luniau ffotograffig o dreisio ac ymosod yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 a.63 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 a.37.

154 Deddf Cam-drin Domestig 2021 a.70.

155 *"The Neuropsychological outcomes of non-fatal strangulation in domestic and sexual violence. A systematic review"* Bichard (Helen), Byrne (Christopher), Saville (Christopher WN) a Coetzer (Rudi) PsyArXiv 15 Mai 2020.

156 Edwards (Susan), *The strangulation of female partners* Crim LR 2015 12 949-966

157 Gweler paragraff 3.1.9 o'r adroddiad hwn a'r cyfeiriad at *R v. Sullivan (supra).*

158 Overarching Principles: Domestic Violence Definitive Guideline a oedd yn gymwys i ddedfrydau a roddwyd ar neu ar ôl 18 Rhagfyr 2006.

159 *Op. cit. R v. Reilly 1982 4 Cr App R S 288.*

160 *Op. cit. R v. Beaumont 1992 13 Cr App R S 270.*

feiusrwydd mewn cysylltiad â thagu gan ddweud bod ymwybyddiaeth gynyddol ymysg y farnwriaeth erbyn 2013 o berygl a difrifoldeb tagu.[161]

6.7.9 Yn hytrach nag argymell y dylai tagu fod yn ffactor gwaethygol statudol penodol, rydym wedi ystyried a ddylem nodi yn unig y dylai presenoldeb tagu gyfrannu at gynyddu'r cyfnod gofynnol a roddir, gan y byddai ei wneud yn ffactor gwaethygol statudol penodol yn gallu cael yr effaith o roi gormod o bwyslais ar y dull o ladd. Yn ogystal â hynny, gallai fod yn bosibl cynnwys y cysyniad bod beiusrwydd y troseddwr yn fwy oherwydd tagu drwy addasu paragraff 9(c)[162] o Atodlen 21. Er ein bod yn cydnabod bod dadl ddilys dros gredu y gallai perygl godi drwy roi gormod o bwyslais ar y dull o ladd, byddai'n well gennym weld tagu yn cael ei wneud yn ffactor gwaethygol. Y rheswm am hyn yw bod tagu yn ymddygiad rhyweddol a'i fod yn cyfleu i'r dim fod y dioddefwr yn agored i niwed.

6.7.10 Rydym yn nodi nad oes cyfeiriad penodol eto at dagu yn y canllawiau diffiniol ar Gam-drin Domestig[163] nac yn y canllawiau diffiniol ar ddynladdiad.[164]

6.7.11 Byddwn hefyd yn gwneud argymhellion cyfochrog ar ddynladdiad gan ein bod yn awgrymu ystyried a ddylid cael cyfeiriad at dagu mewn canllawiau dedfrydu ar gam-drin domestig ac yn y Canllaw Diffiniol ar ddynladdiad. Credwn y dylai tagu gael ei ystyried yn ffactor gwaethygol mewn achosion llofruddiaeth ac yn ffactor sy'n cynyddu beiusrwydd neu o leiaf yn gwaethygu dynladdiad. Byddwn yn trafod hyn ymhellach yn yr adran ar ddynladdiad ym mharagraffau 8.1-8.3.

6.7.12 Ar y pwynt hwn, rydym hefyd yn nodi bod barnwyr sy'n dedfrydu mewn achosion llofruddiaeth yn gorfod cymryd y Canllaw ar Gam-drin Domestig i ystyriaeth (lle nad yw'r canllaw yn groes i unrhyw ganllawiau perthnasol eraill) ac felly mae'n ddigon posibl y bydd unrhyw ddiwygiad i'r canllaw yn effeithio ar ddedfrydu mewn achosion llofruddiaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 1.1.8 uchod, ceir lladdiadau bob amser sydd wedi'u cymell gan gasineb at fenywod ond lle nad yw ac na fu'r dioddefwr a'r troseddwr mewn perthynas bersonol ac felly lle na fydd y Canllaw ar Gam-drin Domestig yn gymwys.[165]

161 Ar d963 yn crybwyll *R v. Jones [2013] All ER D 181* lle cadarnhaodd y Llys Apêl ddedfryd o 15 mlynedd o garchar mewn amgylchiadau lle'r oedd yr apelydd wedi tagu ei bartner benywaidd. Mae'r awdur yn nodi bod y llys wedi datgan "(i) the fact that the act of violence was one of extreme dangerousness and that…it had been an intentional assault intended to frighten and demonstrate control over the deceased (ii) that it was not an isolated act of violence and (iii) the defendant's behaviour after having killed the deceased."

162 Paragraff 9(c) "mental or physical suffering inflicted on the victim before death."

163 Y Cyngor Dedfrydu, Overarching Principles Domestic Abuse.

164 Gweler rhan 8 o'r adroddiad hwn.

165 Mewn achosion dynladdiad, hyd yn oed lle mae'r troseddwr a'r ymadawedig mewn perthynas bersonol, daliwyd nad yw'r Canllaw ar Egwyddorion Cyffredinol Cam-drin Domestig yn gymwys ym mhob achos yn

y cartref: gweler *R v Pybus* ym mharagraff 8.3.21 o’r adolygiad hwn. Mae hyn yn ategu’r pwynt a wnaethom am ddiffyg dealltwriaeth fforensig o gam-drin domestig yn y system cyfiawnder troseddol – gweler rhan 5 uchod.

# 7. Categori Newydd yn Atodlen 21

7.1.1 Tra ein bod yn credu y dylid rhoi mwy o sylw i raddau'r beiusrwydd a geir drwy reolaeth drwy orfodaeth mewn llofruddiaethau domestig (a yw'r troseddwr wedi'i gael yn euog o lofruddiaeth un ai am ei fod yn cyflawni rheolaeth drwy orfodaeth neu am ei fod yn ei dioddef), mae gennym bryderon ynghylch sut mae hyn i gael ei gyflawni.

7.1.2 Dywedwn ar y dechrau nad ydym yn argymell cynnwys paragraff ychwanegol yn Atodlen 21 gyda'r bwriad o ddarparu dechreubwynt newydd (uwch) mewn achosion llofruddiaeth ddomestig. Yn gyntaf, nid oes angen dechreubwynt uwch. Er gwaethaf yr hyn a ddywedodd y Llys Apêl yn achos *Sullivan*[166] (supra), mae dedfrydau eisoes wedi mynd yn hirach at ei gilydd o gymharu â'r rheini cyn cyflwyno'r fframwaith statudol yn Atodlen 21. Roedd rhai o'n rhanddeiliaid yn glir na allent gefnogi unrhyw gynigion o'r fath ar gyfer cyflwyno dechreubwynt newydd.[167] Cytunwn â'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai a rhanddeiliaid eraill y byddai angen ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd ar unrhyw newid o'r fath. Oherwydd cyfyngiadau'r Adolygiad hwn, nid yw cynnig o'r fath yn dod o fewn ei gwmpas. Credwn fod ychwanegu paragraff 5A yn 2010 (a wnaed, fel y dywedwyd, heb y math o ddadl neu ymgynghoriad y cyfeiriwn ato) wedi ategu'r gred bod 'achosion anodd yn gwneud deddfau gwael' ac y dylai deddfwyr fod yn wyliadwrus ynghylch cyflwyno paragraffau newydd ar sail achosion penodol.

7.1.3 Problem ychwanegol o ran cyflwyno paragraff newydd (a fyddai'n darparu dechreubwynt uwch mewn achosion llofruddiaeth ddomestig) yw y byddai'n arwain at y perygl o greu anghysondeb â'r fframwaith dedfrydu presennol. Er enghraifft, byddai achos a ddylai ddod o fewn Atodlen 21 paragraff 3 am ei fod yn llofruddiaeth a gyflawnwyd yng nghwrs treisio yn gallu galw am ddechreubwynt is mewn paragraff newydd wedi'i seilio ar reolaeth drwy orfodaeth ac eto mae rheolaeth drwy orfodaeth yn fath o gam-drin sy'n gallu cynnwys 'treisio fel

[166] *R. v Sullivan [2004] EWCA Crim 1762* Gweler paragraff 3.1.8 o'r adroddiad hwn.

[167] Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai "like many commentators over many years, we regret the piecemeal approach that successive governments have taken to change in both the substantive law on homicide and that in sentencing for that and other serious matters it leads to unintended and normally unwelcome consequences". Mae'n destun pryder iddi mai yn y DU y ceir y nifer mwyaf o garcharorion a gafodd ddedfryd oes o holl wledydd Ewrop. Yn ogystal â hyn, nid oes dim neu nemor ddim tystiolaeth bod dedfrydau hirach yn cael unrhyw effaith o ran cynyddu ataliaeth. Mae dedfrydau hirach yn cael effaith ar ffactorau amddiffynnol sy'n atal troseddu yn y pen draw ar ôl eu rhyddhau. Gweler yn gyffredinol, Prison Reform Trust: Long-term prisoners: the facts, England and Wales, Hydref 2021.

ymddygiad rheolaidd'. Byddai hyn yn anghyson. Mae Atodlen 21 eisoes yn llawn anghysonderau y mae angen ymdrin â nhw mewn cyfraith a pholisi.[168]

7.1.4 Er bod rheolaeth drwy orfodaeth yn ystyriaeth ganolog i ni, a'i bod yn amlwg ei bod yn nodwedd mewn lladdiadau domestig lle mae'r cyflawnwr a'r dioddefwr mewn perthynas, fe fydd achosion o fenywladdiad lle nad oes tystiolaeth o reolaeth drwy orfodaeth. Mantais y model rheolaeth drwy orfodaeth yw ei fod wedi'i seilio ar anghydraddoldebau strwythurol rhwng dynion a menywod. Felly, mewn achosion o ladd menywod lle nad oes tystiolaeth o reolaeth drwy orfodaeth, fe geir tystiolaeth fel arfer o rai o'r nodweddion sy'n arwyddocaol mewn achosion rheolaeth drwy orfodaeth, boed hynny'n dagu neu'n rhywbeth arall fel cenfigen. Mewn rhai achosion, mae'n ddigon posibl y bydd hanes o reolaeth drwy orfodaeth ar ran y troseddwr yn ei berthnasoedd: gall y lladd fod yn arwydd o gynnydd mewn cam-drin domestig blaenorol ym mherthnasoedd blaenorol y cyflawnwr. Gan hynny, mae'n debygol y ceir cysondeb cyffredinol rhwng lladdiadau domestig a'r rheini na ellir eu dynodi felly ond lle mae'r olaf yn amlygu rhai o'r ffactorau neu nodweddion sydd wedi bod dan sylw yn yr adolygiad hwn.

7.1.5 Credwn y dylid diweddaru'r ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol sydd ym mharagraffau 9 a 10, yn y drefn honno, er mwyn adlewyrchu'r mathau penodol ac ehangach o niwed sydd wedi'u canfod mewn llofruddiaethau domestig. Byddai hyn yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth gwell (a chynyddol) o gam-drin domestig.

7.1.6 Os defnyddir rheolaeth drwy orfodaeth i ddiffinio difrifoldeb llofruddiaethau domestig mewn termau mwy fforensig, yna byddai'n dilyn bod y llofruddiaethau hyn yn cael eu gwaethygu a'u lliniaru yn nhermau'r mathau o niwed a geir.

7.1.7 Pe byddai hyn yn digwydd, credwn y dylid gwneud darpariaeth i ddatgymhwyso paragraff 4 yng nghyd-destun llofruddiaethau domestig fel rydym wedi'u diffinio. Os eir â chyllell neu arf arall i'r lleoliad, yna gall hynny fod yn arwydd o lefel benodol o gynllunio a rhagfwriadu a all gael ei hadlewyrchu mewn ffactorau gwaethygol.[169] Er hynny, y lle gorau i adlewyrchu'r beiusrwydd a'r niwed estynedig

[168] Gweler Roberts (JV) a Saunders (J) "*Sentencing for murder: the Adverse and Unintended Consequences of Schedule 21 of the Criminal Justice Act 2003"* Crim. L. R (2020) 10 895-906 lle mae'r awduron yn dadlau bod y dechreubwyntiau yn Atodlen 21 yn groes i'r cysyniad o gymesuredd trefnol. Yr enghraifft y maent yn ei chynnig yw'r gwahaniaeth mewn dechreubwyntiau rhwng diffynnydd sy'n lladd ar ôl cynllunio ond nad yw'n cyrraedd yr amgylchiadau ar gyfer dechreubwynt 30 mlynedd neu 25 mlynedd a diffynnydd sy'n lladd swyddog diogelwch yn ystod bwrgleriaeth ar safle masnachol ar ôl codi arf mewn warws a bwriadu achosi niwed difrifol iawn a fyddai'n cael dechreubwynt 30 mlynedd. Mae'r awduron yn dadlau o blaid cyflwyno Canllaw diffiniol yn null y Cyngor Dedfrydu mewn achosion llofruddiaeth.

[169] Paragraff 9(a) "a significant degree of planning or premeditation." Rydym hefyd yn cydnabod y gellir pennu dechreubwynt o 25 mlynedd mewn amgylchiadau lle mae'r dedfrydwr yn gallu dyfarnu bod llofruddiaeth benodol heb gael ei chynllunio.

yw mewn materion sy’n nodweddion penodol mewn llofruddiaethau domestig yn hytrach na’u hadlewyrchu mewn dechreubwynt sy’n cael ei bennu gan baragraff 4.

7.1.8 Yn ogystal â hyn, mae lle mawr i gredu bod y rhan fwyaf o lofruddiaethau domestig yn cael eu cynllunio i ryw raddau neu hyd yn oed i raddau mawr. Ceir y dystiolaeth o hyn yn y Llinell Amser Benywladdiad Partneriaid Personol a ddyfeisiwyd gan yr Athro Monckton-Smith ac y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 5.1.4 uchod. Wrth gymhwyso’r fframwaith ymddygiad rheolaeth drwy orfodaeth at y ffeithiau mewn nifer mawr o achosion llofruddiaeth ddomestig, mae’n debygol y gwelir rhyw raddau o gynllunio. Os gwneir hyn ar gamau’r ymchwiliad a’r dystiolaeth, fel y dylid gwneud yn ein barn ni, yna gellir cynnwys y ffaith honno yn y ffactor gwaethygol statudol presennol . Nid oes angen cymhwyso Paragraff 4 o Atodlen 21 yn fanwl mewn amgylchiadau o’r fath.

7.1.9 O ran amddiffyniadau, mae cynsail dros ddarpariaeth i ddiystyru senarios ffeithiol penodol os yw’r senarios hynny’n mynd yn groes i’r polisi sy’n sail i’r ddeddfwriaeth. Gweler er enghraifft a.55(6)(c) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, sy’n darparu bod anffyddlondeb rhywiol i gael ei ddiystyru wrth ystyried y sbardun i golli rheolaeth. Y rheswm am hyn yw na ddylai cenfigen a achoswyd gan anffyddlondeb fod yn gyfiawnhad dros ladd.

7.1.10 Gellir cyfiawnhau’r datgymhwyso a gynigir ym mharagraffau 7.1.7-7.1.8 ar y sail nad yw’r ffaith bod y dioddefwr yn agored i niwed yn rhagamod ar gyfer cymhwyso’r dechreubwynt ym mharagraff 4 a bod y mathau o niwed (yr oedd yn fwriad delio â nhw yn 2010 drwy’r diwygiad a arweiniodd at y paragraff 4 presennol) yn hollol wahanol i’r ffactorau hynny sy’n nodweddu llofruddiaethau domestig. Os gwelir bod y mathau penodol o niwed yn gwaethygu neu’n lliniaru difrifoldeb y llofruddiaeth, yna mae’n debygol y bydd digon o hyblygrwydd i ddelio â hynny ym mharagraffau 9 a 10 o Atodlen 21.

7.1.11 Os yw paragraff 4 i gael ei ddatgymhwyso yng nghyd-destun llofruddiaethau domestig am y rhesymau rydym wedi’u hamlinellu, bydd cwestiwn yn codi ynghylch pam, ar sail resymegol, na ddylid datgymhwyso paragraff 3 os defnyddir arf tanio ac os yw’r llofruddiaeth yn llofruddiaeth ddomestig. Nid ydym yn argymell datgymhwyso paragraff 3 yn gyfan gwbl. Gwelsom ddau achos lle’r oedd arf tanio wedi’i ddefnyddio gan ddyn i ladd ei bartner personol (**CM76** a **CM85**). Credwn fod yr ateb i’r cwestiwn hwn yn dibynnu ar y ffaith bod rhesymau cryf mewn polisi dros wahardd meddiant arfau tanio ac mai’r sail resymegol dros y polisi yw atal y niwed sy’n dilyn meddiant anghyfreithlon o arfau tanio a’r defnydd ohonynt.[170] Y polisi hwn yw’r sail resymegol dros droseddau atebolrwydd caeth mewn perthynas â meddiant arfau tanio. Yn wahanol i gyllyll ac offer miniog eraill, nid yw arfau tanio

[170] *R v. Braddish (1990) 90 Cr. App. R. 271.*

mewn defnydd pob dydd neu o fewn cyrraedd hawdd yn y cartref. Ystyriwyd y defnydd o arfau tanio mewn cyd-destun domestig yn achos *R v Tucker*[171] lle'r oedd y llys wedi ystyried y polisi diogelwch cyhoeddus fel y'i disgrifiwyd yn achos *Jones*[172] ond yn achos Tucker nid oedd nemor ddim cydnabyddiaeth i'r themâu y nodwyd eu bod yn peri pryder yn yr adolygiad hwn. Daliodd y Llys yn benodol nad oedd yr achos yn cynnwys tor-ymddiriedaeth. Rydym o'r farn bod tor-ymddiriedaeth yn agwedd hanfodol ar gam-drin domestig. Yn achos Tucker, roedd cyfnod gofynnol o 26 blynedd wedi'i ostwng i 22 flynedd mewn perthynas ag apelydd a gafwyd yn euog o lofruddiaeth ar ôl treial lle'r oedd wedi dibynnu'n aflwyddiannus ar amddiffyniad rhannol o gythrudd ac yntau wedi saethu ei bartner yng nghefn y pen tra oedd yn y bath ac wedi iddi ei wawdio ynghylch ei hanffyddlondeb.

7.1.12 Gellir cael achosion anodd o ganlyniad i gymhwyso paragraff 3 (yng nghyswllt arfau tanio) yn yr holl achosion llofruddiaeth ddomestig. Gan gymryd un enghraifft ddamcaniaethol, mae menyw sy'n byw ar fferm yn defnyddio dryll sydd heb ei gadw yn y cwpwrdd drylliau i ladd ei gŵr camdriniol. Ar sail y polisi sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn, byddai'n anghywir iddi gael dechreubwynt o 30 mlynedd. Fodd bynnag, mae'r holl ddechreubwyntiau a bennwyd yn Atodlen 21 yn dilyn y gair "normally" sy'n golygu bod lle wyro oddi wrth y dechreubwynt. Os oes polisi rhesymegol yn ymwneud â llofruddiaethau domestig sy'n cymryd anghydraddoldeb strwythurol i ystyriaeth ond sydd er hynny'n niwtral o ran y rhywiau, ni welwn reswm dros gymhwyso'r Atodlen yn fecanistig mewn achosion o'r fath.

7.1.13 Yn unol â hynny, yn **Argymhelliad 3 rydym yn argymell** bod y dechreubwynt o 25 mlynedd sy'n gymwys mewn amgylchiadau lle mae'r cyflawnwr yn mynd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad yn cael ei ddatgymhwyso mewn achosion llofruddiaeth ddomestig am fod y dechreubwynt o 25 mlynedd yn un lle na roddir unrhyw ystyriaeth i'r ffaith bod y dioddefwr yn agored i niwed. Mae'r mathau o niwed y cyflwynwyd paragraff 5A er mwyn eu hatal yn rhai gwahanol iawn i'r mathau o niwed sy'n digwydd mewn llofruddiaethau domestig. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

[171] *R v. Tucker [2011] EWCA Crim 3046.*

[172] *R v. Jones [2006] 2 Cr. App. R.*

7.1.14 **Argymhelliad 4: Rydym yn argymell** y dylid rhoi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig o fewn y fframwaith dedfrydu presennol o dan Atodlen 21. Dylid pennu lefel y difrifoldeb drwy gymhwyso'r model rheolaeth drwy orfodaeth o fewn y dechreubwynt 15 mlynedd. Y bwriad wrth wneud hyn yw sicrhau bod amgylchiadau rhyweddol (fel lladd ar ddiwedd perthynas a chenfigen) yn cael eu defnyddio i briodoli difrifoldeb i'r llofruddiaeth a bod mathau ehangach o niwed cyfreithiol yn cael eu nodi a'u hadlewyrchu yn y ddedfryd. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

7.1.15 **Argymhelliad 5: Rydym yn argymell** lle mae hanes o reolaeth drwy orfodaeth, yna y dylai hyn fod yn ffactor gwaethygol neu'n ffactor lliniarol ac y dylid diwygio paragraffau 9 a 10 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

7.1.16 **Argymhelliad 6: Rydym yn argymell** os bydd llofruddiaeth yn digwydd ar ddiwedd perthynas neu pan fydd y dioddefwr wedi mynegi dymuniad i adael y berthynas, yna y dylid ystyried hyn yn ffactor gwaethygol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

7.1.17 **Argymhelliad 7: Rydym yn argymell** y dylid diwygio'r ffactorau lliniarol presennol ym mharagraff 10(d) fel y byddant yn gyson â'r polisi sy'n sail i a.55(5)(c) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Yn benodol, nad yw anffyddlondeb rhywiol ar ran yr ymadawedig yn gallu lliniaru difrifoldeb y llofruddiaeth. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

7.1.18 **Argymhelliad 8: Rydym yn argymell** y dylai gor-ladd gael ei ddiffinio mewn cyfraith yn niwed cyfreithiol penodol ac y dylai fod yn ffactor gwaethygol mewn llofruddiaeth. Dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

7.1.19 **Argymhelliad 9: Rydym yn argymell** os ceir llofruddiaeth drwy dagu neu lofruddiaeth lle mae tagu wedi digwydd, yna y dylai'r dull hwn o ladd fod yn ffactor gwaethygol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

7.1.20 **Argymhelliad 10: Rydym yn argymell** na ddylai'r defnydd o arf gael ei weld o reidrwydd yn ffactor gwaethygol mewn llofruddiaethau domestig.

# 8. Dedfrydu mewn Achosion Dynladdiad – Canllawiau'r Cyngor Dedfrydu 2018

## 8.1 Dynladdiad Gwirfoddol

8.1.1 Mae dynladdiad gwirfoddol yn cynnwys yr amddiffyniadau rhannol i gyhuddiad o lofruddiaeth, sef Cyfrifoldeb Lleiedig y darperir ar ei gyfer gan a.2 o Ddeddf Lladdiadau 1957 (fel y'i diwygiwyd) a Cholli Rheolaeth y darperir ar ei gyfer gan a.54-55 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Fel y nodwyd eisoes ym mharagraff 5.1.15 uchod, diwygiwyd yr amddiffyniadau rhannol gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

8.1.2 Yn 2018, cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu ganllaw diffiniol mewn perthynas â dynladdiad[173] a ddaeth i rym o 1 Tachwedd yn y flwyddyn honno. Er hwylustod, mae'r Canllaw Diffiniol wedi'i atgynhyrchu yn **Atodiad F**. Roeddem wedi nodi lle'r oedd achosion yn ein sampl yn disgyn y naill ochr neu'r llall wrth weithredu'r canllaw diffiniol ac rydym yn cyfeirio at y ffactor hwn lle mae'n berthnasol. O dan y canllawiau ar gyfrifoldeb lleiedig (sy'n delio â dedfrydau o garchar), mae'n glir bod niwed o'r difrifoldeb mwyaf gan ei fod yn ymwneud â marwolaeth, ond mae beiusrwydd yn amrywio o'r isel i'r uchel ac mae cryn wahaniaeth rhwng y categori beiusrwydd isel a'r categori beiusrwydd uwch.

8.1.3 Mae ffactorau gwaethygol statudol o dan y canllaw yn cynnwys "[o]ffence motivated by or demonstrating hostility based on any of the following characteristics or presumed characteristics of the victim: religion, race, disability, sexual orientation or transgender identity": nid ydynt yn cynnwys casineb at fenywod, rheolaeth drwy orfodaeth, a thagu. Mae "other aggravating factors" yn cynnwys "history of violence or abuse towards the victim by the offender". Yn ogystal â hyn, ffactor gwaethygol yw bod y drosedd yn cynnwys y defnydd o arf.

8.1.4 Wrth gwrs, mae'n ddealledig y dylid ystyried y Canllaw ar Gam-drin Domestig[174] lle mae'n gymwys.

8.1.5 Yn ein sampl o achosion, roedd 11 o achosion lle'r oedd cyfrifoldeb lleiedig wedi'i gynnig fel amddiffyniad ond lle cafwyd y diffynnydd yn euog o lofruddiaeth er hynny. Roedd cyfanswm o 8 achos lle'r oedd cyfrifoldeb lleiedig wedi'i ganfod neu

[173] The Sentencing Council: Manslaughter Definitive Guideline, cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 a'i roi mewn grym o fis Tachwedd 2018.

[174] Overarching principles: Domestic Abuse Sentencing Council.

ei dderbyn lle’r oedd dyn wedi lladd ei bartner personol. O’r achosion hyn, roedd 5 yn achosion (**CM22, CM26, CM27, CM40**, a **CM48**) lle’r oedd y cyflawnwr yn dioddef salwch meddwl difrifol a oedd yn cynnwys sgitsoffrenia, seicosis a/neu gamdybiaethau. Cafodd y cyflawnwyr hyn ddedfryd o orchymyn ysbyty gyda chyfyngiadau o dan a.37, a.41 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y’i diwygiwyd) neu orchmynion o dan a.45A o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 sef gorchymyn ysbyty a chyfarwyddiadau cyfyngiadau[175] a derbynnir nad yw’r materion y mae’r adolygiad hwn yn ymwneud â nhw yn gallu effeithio ar benderfyniadau gan farnwyr dedfrydu a wneir ar sail tystiolaeth feddygol sy’n unol â gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y’i diwygiwyd).

8.1.6 Roedd dau achos, **CM26** (cyn cyflwyno’r canllawiau) a **CM57** (ar ôl cyflwyno canllawiau 2018), yn ymwneud â throseddwyr hŷn a oedd wedi pledio’n euog i gyhuddiad o ladd eu gwragedd a’r ddwy ohonynt yn dioddef gan ddementia lle dywedwyd bod y cyflawnwyr yn teimlo’n euog ynghylch rhoi’r ddioddefwraig mewn cartref gofal. Cawsant ddedfryd o 2 flynedd yn y carchar a 2 flynedd yn y carchar wedi’i gohirio yn y drefn honno. Roedd y troseddwr cyntaf wedi taro ei wraig sawl gwaith â pholyn ac wedyn wedi’i mygu. Roedd yr olaf wedi’i drywanu ei hun a gadael nodyn hunanladdiad: cafodd ei drin am glwyfau arwynebol. Dyfarnwyd bod beiusrwydd y ddau droseddwr ar lefel is. Heb wybod rhagor am ffeithiau’r achosion, mae’n anodd gwneud sylwadau pellach. Er hynny, mae’n werth nodi mai asffycsia (y canlyniad i dagu) oedd achos y farwolaeth yn y ddau achos.

8.1.7 Mae’n bwysig rhoi ystyriaeth i faterion sy’n ymwneud â ‘straen ar y rhoddwr gofal’ sy’n amlwg yn ymwybyddiaeth y cyhoedd[176] ond sicrhau yr un pryd nad yw achosion o’r ddau fath hyn yn rhai lle mae cam-drin domestig wedi parhau mewn henaint. Yn y cyswllt hwn, gweler Jonathan Herring:

> “A middle path is appropriate. There is much elder abuse which can be usefully examined as part of intimate relationship abuse which is simply the continuation of a violent relationship into old age.”[177]

---

[175] Gorchymyn gan farnwr, sy’n rhoi awdurdod i drosglwyddo’r troseddwr i ysbyty i dderbyn triniaeth gyda chyfarwyddyd cyfyngiadau. Yr un yw effaith y cyfarwyddyd cyfyngiadau â’r gorchymyn cyfyngu o dan a.41 ond mae ei effaith yn peidio pan ddaw’r cyfnod penderfynedig i ben. Er hynny, bydd y troseddwr yn parhau i fod o dan oruchwyliaeth yr ysbyty.

[176] Herring (Jonathan) Domestic Abuse and Human Rights *Op. cit.* ar d 225.

[177] *Ibid* ar d227 yn crybwyll C. Walsh, J. Ploeg. L. Lohfeld et al., Violence across the Lifespan: Interconnections among Forms of abuse as described by Marginalized Canadian Elders and Their Caregivers (1999) 19 *Journal of Interpersonal Violence* 282; B Penhale , ‘Bruises on the soul: Older women, Domestic Violence and Elder Abuse (1999) 11 Journal of Elder abuse and Neglect 1; C. Cooney ac A Mortimer, ‘Elder Abuse and Dementia: A Pilot Study (1995) 41 *International Journal of Psychiatry* 276; S Harris, For better or for Worse Spouse Abuse Grown Old (1996) 8 *Journal of Elder Abuse and*

8.1.8 Yn fwy cyffredinol, mae Jane Monckton-Smith wedi tynnu sylw at barodrwydd cymdeithas i dderbyn trais lle mae wedi'i gelu gan ddisgwrs am gariad rhamantaidd am fod hyn yn gymeradwy am ryw reswm. Mewn dadansoddiad o achosion, cafodd fod cydberthynas rhwng diffyg datganiadau o gariad gan ddynion a'r euogfarnau a gawsant am lofruddiaeth. Cafodd hefyd, yn yr achosion hynny lle honnwyd bod dynion yn gariadus "the tariff for a manslaughter for example where love was in evidence, was approximately five years."[178]

8.1.9 Ein gobaith yw, wrth i'r dealltwriaeth o reolaeth drwy orfodaeth a'r arwyddion o'i phresenoldeb ddod yn fwy cyffredin, y ceir craffu manwl ar yr holl achosion sydd wedi arwain at ladd lle ceir y bwriad gofynnol ar gyfer llofruddiaeth.

8.1.10 Mewn un achos, **CM69**, a arweiniodd at ddedfryd oes gyda chyfnod gofynnol o 10 mlynedd ynghyd â gorchymyn a.45A, roedd tagu wedi dilyn hanes hir o reolaeth drwy orfodaeth, yn cynnwys 3 digwyddiad blaenorol o drais difrifol a mygu. Roedd yr achos yn dangos yr holl nodweddion risg a nodwyd yn llinell amser Jane Monkton- Smith gan fod y cyflawnwr a'r dioddefwr wedi ysgaru ac wedyn wedi ailafael yn eu perthynas cyn y lladd.

8.1.11 Roedd tagu yn chwarae rhan arwyddocaol yng nghyd-destun dynladdiad. Ym mhob un o'r 7 achos tagu a arweiniodd at euogfarn am ddynladdiad i ddynion, roedd 3 achos lle'r oedd hyn o ganlyniad i gyfrifoldeb lleiedig .[179] Mae'n anodd meddwl y gallai chwarae rhan arwyddocaol mewn achosion colli rheolaeth o ystyried yr amser y gall ei gymryd i dagu dioddefwr. Fodd bynnag, er mwyn cadw cysondeb, rydym wedi cynnwys colli rheolaeth yn ein hargymhelliad ar dagu sydd wedi'i ddangos isod.

8.1.12 Yn olaf, mewn un achos, **CM58** (cyn gweithredu canllaw'r Cyngor Dedfrydu yn 2018) cafodd y cyflawnwr ddedfryd o 5 mlynedd mewn amgylchiadau lle'r oedd wedi pledio'n euog i ladd ei wraig yn ystod yr hyn a alwyd yn ymosodiad gorffwyll ac estynedig â chyllell, drwy guro a thagu. Digwyddodd hyn ar ôl perthynas o 25 mlynedd ac mewn amgylchiadau lle dywedwyd bod y troseddwr, a gawsai ddiagnosis o ganser y prostad, yn dioddef gan iselder cymedrol ac yn pryderu bod ei wraig am ei adael. Felly roedd y lladdiad yn dangos nifer o'r nodweddion rydym wedi mynegi pryder yn eu cylch yng nghyd-destun ein trafodaeth o achosion llofruddiaeth ac yn ein harwain i ofyn a ddylid dweud bod y ffactorau sydd, yn ein barn ni, yn gwaethygu llofruddiaeth, yn rhai sydd hefyd yn gwaethygu dynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig lle nad oes posibilrwydd o benderfynu achos o dan y

*neglect* 1; M Lundy ac S Grossman 'Elder Abuse: Spouse/Intimate Partner Abuse and Family Violence Among Elders' (2004) 16 *Journal of Elder Abuse and Neglect* 85 .

178 Monckton-Smith (Jane) "Murder gender and the media narratives of dangerous love" Palgrave Macmillan (2012) t84.

179 Roedd y 4 arall yn ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon.

Ddeddf Iechyd Meddwl. Credwn y dylid craffu'n ofalus iawn ar yr achosion hyn er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynnwys nodweddion rheolaeth drwy orfodaeth.

8.1.13 Tynnwyd un mater penodol i'n sylw yn ymwneud ag achos y tu allan i'n sampl o 120 o achosion drwy ddioddefwyr a oedd wedi cysylltu â'r Comisiynydd Cam-drin Domestig ac wedi gweithio gyda Refuge. Roedd mam a merch Joanna Simpson, y brif ddioddefwraig dan law'r troseddwr Robert Brown,[180] wedi mynegi pryder am hyd dedfrydau penderfynedig am ddynladdiad. Er nad oedd yr achos hwn yn ein sampl o 120 o achosion, dywedir ei fod yn enghraifft nodweddiadol o achos lladdiad domestig lle nad oedd y cyd-destun a'r cefndir wedi'u hystyried yn drwyadl yn y treial. Y ffeithiau oedd bod Joanna Brown (née Simpson) wedi cael ei lladd gan ei gŵr dieithredig, Robert Brown, ar Galan Gaeaf 2010. Fe'i lladdwyd yn ei chartref ei hun ac roedd ei phlant yn dystion i ffaith yr ymosodiad ac i'r ffaith bod y troseddwr wedi gyrru ymaith o'r lleoliad â chorff eu mam ar ôl iddi gael ei lladd yn dreisgar drwy ei tharo ar ei phen 14 o weithiau â morthwyl yr oedd y troseddwr wedi dod ag ef i'r lleoliad ym mag ysgol ei ferch. Er bod tystiolaeth sylweddol o gynllunio ymlaen llaw,[181] fe'i cafwyd yn euog o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig (a'r cyflwr meddygol cydnabyddedig yn anhwylder ymaddasu) ym Mai 2011. Cafodd Robert Brown ddedfryd o gyfanswm o 26 blynedd o garchar (yn cynnwys 24 blynedd am ddynladdiad a 2 flynedd am rwystro crwner, i'w treulio'n olynol) y bydd yn rhaid iddo dreulio ei hanner yn y ddalfa.[182] Cadarnhawyd y ddedfryd gan y Llys Apêl ar ôl apelio. Mae teulu'r ddioddefwraig wedi mynegi pryder, nid yn unig am nad oedd y cefndir o gam-drin domestig wedi'i ystyried yn y treial, ond hefyd am nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu diogelu gan gyfraith sy'n rhoi'r gallu i ryddhau'r troseddwr hanner ffordd drwy'r ddedfryd. Mae hyn wedi digwydd mewn amgylchiadau lle cafwyd bod yr apelydd yn dioddef gan yr hyn sydd fel arfer yn gyflwr meddygol cydnabyddedig ysgafn a byr ei barhad, sef anhwylder ymaddasu. Yn Ebrill 2020, gweithredwyd *Gorchymyn Rhyddhau Carcharorion (Addasu Cyfran Berthnasol y Ddedfryd) 2020 OS 2020 Rhif 158* ac o ganlyniad i hyn, yng nghyswllt trosedd dreisgar neu rywiol berthnasol, lle mae troseddwr wedi cael dedfryd o 7 mlynedd, ni fydd yn gymwys i'w ryddhau nes bydd wedi treulio dwy ran o dair o'i ddedfryd. Yn ogystal â hyn, mae a.130 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 yn lleihau'r cyfnod o 7 mlynedd i gyfnod o 4 blynedd mewn perthynas â throseddau penodol, a dynladdiad yn un ohonynt.

---

180 *R v Brown [2011] EWCA Crim 2796*

181 Sef bod y cyflawnwr wedi torri bedd cyn y lladdiad.

182 Nid felly y byddai heddiw. Mae Gorchymyn Rhyddhau Carcharorion (Addasu Cyfran Berthnasol y Ddedfryd) 2020 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2020 bellach yn darparu, lle rhoddwyd dedfryd o 7 mlynedd o leiaf am drosedd dreisgar, fod rhaid i'r troseddwr gwblhau dwy ran o dair ohoni.

8.1.14 Pwynt a wnaed gan Refuge oedd lle mae cyflawnwyr cam-drin domestig a dynladdiad yn gallu dibynnu ar anhwylderau nad oes gofyn triniaeth ar eu cyfer mewn ysbyty diogel, fel iselder neu yn achos Robert Brown, Anhwylder Ymaddasu, i ddiben amddiffyniad o gyfrifoldeb lleiedig, yna ni cheir archwiliadau meddygol i weld a ydynt yn parhau i ddioddef gan yr anhwylder ar adeg eu rhyddhau os byddant wedi cael dedfryd benderfynedig (fel y bydd nifer wedi cael).[183] Mae hyn yn peri pryder gan fod yr euogfarn am ddynladdiad yn golygu ei fod o leiaf yn "significant contributory factor"[184] wrth beri iddynt ladd. Dylai diogelwch y cyhoedd a dioddefwyr eilaidd fod o'r pwys mwyaf.

8.1.15 Mae hwn yn bwynt dilys a godwyd gan un o'n grwpiau ffocws ar wahân i achos Robert Brown. Teimlwyd na ellid rhoi sylw i unrhyw gwestiwn ynghylch hyd dedfrydau heb wybod yr holl risgiau o ran lladdiadau pellach.

8.1.16 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion yn unol â'r uchod am y rhesymau canlynol. Yn gyntaf, penderfynwyd achos Robert Brown cyn cyhoeddi'r Canllaw Diffiniol ar Ddynladdiad a'i roi mewn grym. Byddai'r achos dan sylw yn un lle'r oedd lefel uchel o gyfrifoldeb o dan y strwythur dedfrydu yn y canllawiau lle byddai'r dechreubwynt yn 24 blynedd gydag amrediad o 15-40 mlynedd. Mae ffeithiau'r lladdiad hwn yn awgrymu y byddai unrhyw ddedfryd ym mhen uchaf yr amrediad yn y cyd-destun presennol. Yn ail, mae'r addasiad i'r darpariaethau rhyddhau awtomatig y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 8.1.13 uchod yn golygu y bydd troseddwr fel Robert Brown bellach yn cwblhau dwy ran o dair o'r cyfnod o garchar. Yn drydydd, ceir darpariaethau penodol yn awr y gellir eu cymhwyso wrth ddedfrydu troseddwyr peryglus.[185] Fodd bynnag, pe byddai unrhyw argymhelliad o'r fath, credwn y dylid ymchwilio ymhellach ac ymgynghori'n fanwl â seiciatryddion a'r bwrdd parôl cyn cyflwyno unrhyw gynnig yn y dyfodol, gan y byddai'r gweithwyr proffesiynol hyn â rhan mewn gwneud asesiadau o'r fath. Roedd ymgynghori â seiciatryddion y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn.

8.1.17 Os derbynnir ein hargymhelliad y dylai Llywodraeth gadw ystadegau manwl am laddiadau domestig o hyn ymlaen, ein gobaith yw y bydd gennym well gwybodaeth

---

[183] Y dechreubwynt o dan y Canllaw Diffiniol presennol yw 24 blynedd lle mae'r troseddwr yn dal lefel uchel o feiusrwydd.

[184] A.2(1)(b)(1B) o Ddeddf Lladdiadau 1957 (fel y'i diwygiwyd).

[185] Mae darpariaeth i lysoedd osod dedfrydau estynedig sy'n cynnwys cyfnod yn y ddalfa a chyfnod estynedig ar drwydded yn achos troseddwyr a credir eu bod yn beryglus o dan Ran 10 o Ddeddf Dedfrydu 2020. Bydd troseddwr yn un peryglus os credir ei fod yn peri risg sylweddol y bydd yn cyflawni troseddau penodedig pellach ac yn achosi niwed corfforol neu seicolegol difrifol i un neu ragor o bobl. Rhaid i'r drosedd fod yn un sydd wedi'i rhestru yn Atodlen 18 i Ddeddf Dedfrydu 2020. Mae dynladdiad yn drosedd sydd wedi'i rhestru. Rydym yn cydnabod, er hynny, fod nifer o gamdrinwyr domestig yn gallu osgoi'r asesiad o berygl am y rhesymau a nodwyd gan yr Athro Edwards. Yn y cyswllt hwn, gweler paragraff 6.7.8 uchod.

yn y dyfodol mewn perthynas â chynigion o'r fath. Os cedwir cofnodion o'r fath, mae'n ddigon posibl y byddant yn dangos bod angen rhoi ystyriaeth bellach i amodau trwydded troseddwyr a gafwyd yn euog o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig oherwydd anhwylderau meddygol cydnabyddedig na ellid (ac na ellid byth) eu cadw'n gaeth o ganlyniad iddynt o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

8.1.18 Yn ein sampl o 120 o achosion, roedd 4 o'r 13 o fenywod a gafodd ddedfryd am ddynladdiad wedi'u cael yn euog o'r drosedd ar sail cyfrifoldeb lleiedig. Yn **CF9**, cafodd y troseddwr ddedfryd ar ffurf gorchymyn ysbyty. Roedd wedi bod yn briod yn hapus â'r dioddefwr am 60 mlynedd ac roedd wedi bod yn dioddef gan ddementia.

8.1.19 Yn **CF6**, roedd y troseddwr wedi derbyn cynnig ar ddiwrnod y treial i bledio'n euog i gyhuddiad o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig. Roedd hi'n dioddef gan Anhwylder Straen Wedi Trawma a dywedwyd ei bod yn dioddef "syndrom gwragedd a gurwyd", ac roedd wedi colli'r cyfrifoldeb dros ofal ei phlentyn yn rhannol oherwydd pryderon am gam-drin domestig. Fodd bynnag, ni chynigiwyd y ple hwn gan yr erlyniad tan ddiwrnod y treial.

8.1.20 Dim ond un fenyw (yn **CF11**) a gafwyd yn euog o ddynladdiad ar ôl treial lle'r oedd ei hamddiffyniad yn seiliedig ar hunanamddiffyn a Chyfrifoldeb Lleiedig. Yn wreiddiol, cafodd ddedfryd o 18 mlynedd o garchar ond gwrthdrowyd yr euogfarn am ddynladdiad gan y Llys Apêl. Roedd y Llys wedi gorchymyn ail dreial lle cafwyd hi'n euog o ddynladdiad eto (yn hytrach na'i rhyddfarnu ar sail hunanamddiffyn) a'i dedfrydu i 11 mlynedd o garchar.

8.1.21 Nid oedd ond dau achos yn y sampl o 120 o achosion lle dibynnwyd yn llwyddiannus ar yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth yng nghyd-destun treial am lofruddiaeth. Roedd y ddau achos yn ymwneud â menywod a gafodd eu cyhuddo a'u herlyn am lofruddiaeth a'r ddwy ohonynt wedi dibynnu ar ddadl am gam-drin domestig a rheolaeth drwy orfodaeth i gefnogi'r amddiffyniad rhannol. Byddwn yn dod yn ôl at hyn yn Rhan 9.

8.1.22 Mae'r pwynt a wneir isod mewn perthynas â'r defnydd o arf (cyllell fel arfer) mewn dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon yn un sy'n gymwys i'r un graddau i achosion dynladdiad gwirfoddol.

8.1.23 **Argymhelliad 11: Rydym yn argymell** mewn achosion o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig, y dylid ystyried diwygio'r canllawiau dedfrydu i wneud tagu yn ffactor gwaethygol sy'n cynyddu difrifoldeb.

8.1.24 **Argymhelliad 12: Rydym yn argymell** mewn achosion o ddynladdiad drwy golli rheolaeth, y dylid ystyried diwygio’r canllawiau dedfrydu i wneud tagu yn ffactor gwaethygol sy’n cynyddu difrifoldeb.

8.1.25 **Argymhelliad 13: Rydym yn argymell** mewn achosion dynladdiad, y dylid ystyried diwygio’r canllawiau dedfrydu i wneud rheolaeth drwy orfodaeth ar ran cyflawnwr y lladd dros y dioddefwr yn ffactor gwaethygol sy’n cynyddu difrifoldeb. Ymhellach, y dylid ystyried gwneud rheolaeth drwy orfodaeth ar ran dioddefwr y lladd tuag at gyflawnwr y lladd yn ffactor lliniarol sy’n lleihau difrifoldeb.

8.1.26 **Argymhelliad 14: Rydym yn argymell** ystyried a ddylid diwygio’r Egwyddorion Cyffredinol ar Gam-drin Domestig i ddynodi bod ymosodiadau drwy dagu nad yw’n angheuol yn ffactor gwaethygol.[186] Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

## 8.2 Dynladdiad Anwirfoddol

8.2.1 Roedd mwyafrif yr euogfarnau am ddynladdiad wedi’u rhoi ar sail Dynladdiad drwy Weithred Anghyfreithlon y cafwyd canllawiau dedfrydu ar eu cyfer bellach. Fel y gwelir yn y canllawiau hynny, mae beiusrwydd y troseddwr yn cael ei briodoli i un o bedwar categori. Mewn achosion lle nodir **beiusrwydd uchel iawn**, mae dechreubwynt o 18 mlynedd gydag amrediad o 11-24 blynedd; mewn achosion lle nodir **beiusrwydd uchel**, mae dechreubwynt o 12 mlynedd gydag amrediad o 8-16 mlynedd yn y ddalfa; mewn achosion lle nodir **beiusrwydd canolig**, mae dechreubwynt o 6 blynedd gydag amrediad o 3-9 mlynedd ac mewn achosion lle nodir **beiusrwydd is**, mae dechreubwynt o 2 flynedd gydag amrediad o 1-4 blynedd.

8.2.2 O’r 13 o fenywod yn y sampl a gafwyd yn euog o ddynladdiad yn hytrach na llofruddiaeth, roedd 7 wedi’u cael yn euog o ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon.

8.2.3 Lle defnyddiwyd arf, bydd y dedfrydau’n perthyn i gategori B.[187] Anaml y byddant yn perthyn i gategori D.[188] Roedd un achos (**CF10**) yn enghraifft o hyn, lle’r oedd y

---

[186] Oni bai fod hyn yn golygu cyfrif dwbl mewn achos penodol, wrth gwrs.

[187] Beiusrwydd uchel – lle mae’n debygol mai’r matricsau ffeithiol fydd bod y farwolaeth yn digwydd yng nghwrs gweithred anghyfreithlon lle’r oedd bwriad i achosi niwed nad oedd yn gymaint â niwed corfforol difrifol (‘GBH’) neu yng nghwrs gweithred anghyfreithlon lle’r oedd risg fawr o achosi marwolaeth neu GBH a ddylasai fod yn amlwg i’r troseddwr.

[188] Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau ffeithiol wrth amddiffyn yr hunan neu un arall ond heb olygu hunanamddiffyn neu lle nad oedd bwriad i wneud niwed.

ddedfryd wreiddiol o 8 mlynedd o garchar wedi'i lleihau ar apêl i ddedfryd o 6 blynedd. A siarad yn gyffredinol, ni ellir dadlau bod dim o'i le neu'n anghyson yn y categorïau yn y canllawiau dedfrydu ar gyfer dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon. Y pwynt pwysig yw nad oes amddiffyniad ar gael i gyhuddiad o lofruddiaeth sy'n gyson â phrofiad menywod sydd wedi'u hendrapio mewn sefyllfa oherwydd cam-drin domestig.

8.2.4 Mae'n bwysig nodi mai un o'r ffactorau gwaethygol statudol yw bod y drosedd yn amlygu neu wedi'i sbarduno gan elyniaeth tuag at y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig yn y ddeddfwriaeth bresennol ar droseddau casineb.[189] O ganlyniad i hyn, nid yw casineb at fenywod wedi'i gynnwys am nad yw rhyw yn nodwedd warchodedig. Un ffactor gwaethygol yw bod y drosedd yn cynnwys y defnydd o arf.

8.2.5 Rydym wedi cyflwyno ein ffigurau ynghylch y defnydd o arf a'r gwahaniaeth a geir rhwng y rhywiau yn y cyswllt hwn yn Rhan 1. Nodir eto fod y ffigurau hyn yn weddol gyson â'r rheini a gafwyd mewn prosiectau ymchwil eraill, yn benodol yr un a gynhaliwyd gan Centre for Women's Justice.[190]

8.2.6 Mae ysgolheigion ffeministaidd wedi dadlau ers amser hir fod menywod, oherwydd y gwahaniaeth o ran cryfder rhwng menywod a dynion, yn gorfod defnyddio arf er mwyn lladd. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw'r Llys Apêl yn gywir wrth ddatgan neu ddal bod y defnydd o arf yn ffactor gwaethygol bob amser.[191] Gan fod marwolaeth yn elfen ganlyniadol yn y weithred o lofruddiaeth (a dynladdiad) a bod tuedd iddi beidio â digwydd os cyflawnir y weithred gan fenyw heb ddefnyddio arf, yna mae'r hyn y tybiwyd ei fod yn ffactor gwaethygol yn rhan, mewn gwirionedd, o'r drosedd y cafwyd hi'n euog ohoni.

8.2.7 Wrth ystyried bod y defnydd o arf yn ffactor gwaethygol, gall hynny filwrio yn erbyn y rheol yn erbyn 'cyfrif dwbl'[192] wrth ddedfrydu. Yn y cyswllt hwn, gweler hefyd eiriau Latham LJ yn achos *R v. Richardson (Adam)*:[193]

> "[t]he use of a weapon will not necessarily and of itself be an aggravating factor. For example if a knife is picked up in the case of a quarrel, or a fight and then used in a fatal attack, it is difficult to see how the use of a knife can

---

189 Rhan 2.2 a 4.2.6 - 4.2.8

190 Howes (Sophie) *Women who kill; How the state criminalises women we might otherwise be burying* Chwefror (2021).

191 *R v. M, AM and Kika [2010] 2 Cr App R (S) 19 yn [7]* wedi'i grybwyll yn *R v Dillon (Paul) [2015] EWCA Crim 3.*

192 Sef bod modd pennu'r drosedd/categori yn ôl ffactorau na ddylai gael eu cyfrif wedyn i waethygu'r drosedd.

193 *R v. Richardson (Adam) [2006]] 1 Cr App R (S) 43* t420

then be said to be an aggravating factor, that is why the offence is one of murder."

8.2.8 Fel yr eglurwyd ym mharagraff 6.5 uchod, nid yw tagu â'r dwylo yn cynnwys y defnydd o arf ond, oherwydd ei natur ryweddol, nid oes cyfiawnhad dros liniaru difrifoldeb lladd drwy dagu neu ei weld yn llai difrifol ar y sail nad oedd arf wedi'i ddefnyddio. Mae ein barn nad yw'r defnydd o arf yn nodwedd waethygol o reidrwydd yn un sy'n gyson mewn egwyddor â'n sylwadau mewn perthynas â thagu.

8.2.9 Roedd yr holl gyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn cytuno â'r farn na ddylai'r defnydd o arf fod yn ffactor gwaethygol statudol am y rhesymau rydym wedi'u hamlinellu.

8.2.10 **Argymhelliad 15: Rydym yn argymell** y dylid rhoi ystyriaeth mewn achosion dynladdiad *domestig* i ddiwygio'r canllawiau dedfrydu i nodi nad yw'r defnydd o arf o reidrwydd yn ffactor gwaethygol. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

## 8.3 Dynladdiad drwy Esgeuluster Difrifol

8.3.1 Cafwyd pryder ymysg y cyhoedd am laddiadau proffil uchel o fenywod yn dilyn ymosodiadau yr honnwyd eu bod yn gydsyniol wrth gael rhyw y dywedwyd ei fod wedi 'mynd o chwith'. Yn aml bydd ymgyrchwyr, academyddion a llunwyr polisi yn galw hyn yn amddiffyniad "rhyw garw". Mewn geiriau eraill, dywedir bod y dioddefwr wedi cydsynio i ymosodiad nad yw'n mynd mor bell â gwir niwed corfforol. Mae'r gyfraith wedi bod yn glir ers y penderfyniad yn achos *Brown*[194] ym 1994, nad yw person yn gallu cydsynio i wir niwed corfforol yn groes i a.47 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1868 (DTC) neu i ymosodiad a fyddai'n golygu achosi niwed corfforol difrifol yn groes i a.20 o DTC. Mae'n bosibl, o ganlyniad i'r ffaith bod y penderfyniad yn achos Brown wedi'i roi ar sail statudol yn a. 71 o Ddeddf 2021,[195] fod troseddau a oedd unwaith yn arwain at gyhuddiad o ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol bellach yn arwain at gyhuddiad o ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon ond gall hynny ddibynnu hefyd ar y ffordd y mae achosion o'r fath yn cael eu gweld mewn termau cymdeithasol. Mewn geiriau eraill, mae tuedd i ystyried bod achosion lle cafwyd ymosodiad wrth gael rhyw (lle dywedir bod yr ymosodiad hwnnw yn gydsyniol i ddiben boddhad rhywiol) yn hollol ar wahân i

---

[194] *R v Brown and others [1994] 1 A.C. 212*.

[195] Mae a.71 yn darparu nad yw cydsynio i niwed er boddhad rhywiol yn amddiffyniad. Mae'n gymwys i droseddau o dan a.47, a.20 ac a.18 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861.

unrhyw drais a rheolaeth sy'n digwydd ar adegau eraill mewn perthynas rhwng partneriaid personol.

8.3.2 Mae Palmer a Wiener[196] wedi dadlau bod hanfod y ddadl bresennol ar y mater hwn i'w chanfod yn y naratifau sy'n digwydd, oherwydd y rhan y mae 'rhyw garw' yn gallu ei chwarae fel cyfrwng i reolaeth drwy orfodaeth ac fel arwydd ohoni. Gan gymryd yr achos adnabyddus iawn **CM9** (gweler isod) yn fan cychwyn, maent yn dadansoddi'r defnydd o ryw garw mewn perthynas gamdriniol lle ceir rheolaeth drwy orfodaeth a'r dehongliad ohono mewn cyfraith trosedd. Mae'r awduron yn dadlau bod tri dehongliad wedi'u cymhwyso yn eu tro yn hanesyddol mewn cyfraith trosedd, sef (i) ymosodiad rhywiol treisgar, (ii) rhywioldeb gwyredig a (iii) niwed damweiniol.

8.3.3 Yn yr achosion yn ein sampl o 120 o achosion sy'n berthnasol i'r drafodaeth hon, derbyniwyd canfyddiadau o ddamwain gan ymchwilwyr a chan y llysoedd (sydd wrth gwrs yn gorfod dibynnu ar y ffordd yr ymchwiliwyd i'r achos a'r ffordd y mae wedi'i gyflwyno).

8.3.4 Mae'r ymchwilwyr uchod yn nodi am yr achosion a ddadansoddwyd ganddynt:

> "Appear to suggest a particular willingness to apply this narrative [which is one of accident] in cases of men injuring women in the course of sexual activity and to normalise a degree of rough sex, reframed as 'vigorous sexual activity' in heterosexual relationships. This has implications for the framing of rough sex in coercive, controlling heterosexual relationships, which are themselves heavily shaped by normative gender roles."

8.3.5 Mewn mannau eraill, fe ddadleuwyd, yn gywir yn ein barn ni, fod angen bellach i ailystyried y mater o'r hyn a elwir yn aml yn 'rhyw garw sydd wedi mynd o chwith' yng nghyd-destun rheolaeth drwy orfodaeth[197] lle gellir arfer gorfodaeth drwy ymddygiadau fel gwrthod siarad neu fygythiadau teilwredig ac felly na ellir cymryd bod gweithgarwch rhywiol penodol mewn perthynas sefydlog yn rhywbeth cydsyniol bob amser. Mater sy'n peri pryder neilltuol yw bod rhyw garw yn gallu cynnwys tagu.

8.3.6 Lle mae lladd yn yr amgylchiadau hyn yn arwain at euogfarn am lofruddiaeth, yna bydd yn glir bod Atodlen 21 yn darparu'r fframwaith dedfrydu. Mae sylwebwyr

[196] Palmer (Tanya) a Weiner (Cassandra) *"Telling the wrong stories: rough sex, coercive control and the criminal law"* Child and Family Law Quarterly Cyfrol 33 Rhifyn 4 2021.

[197] Herring (Jonathan) a Bows (Hannah) yn crybwyll Jenny E Mitchell a Chitra Raghaven, *"The impact of coercive control on use of specific sexual coercion tactics"* Tachwedd 2019 yn 2021 V 27 Violence Against Women a Kathleen C Basile *Histories of Violent Victimisation Among Women Who Reported Unwanted Sex in Marriage and Intimate Relationships: Findings From a Qualitative Study* 2008 14 Cyfrol 14 Rhifyn 1 Violence Against Women 29

academaidd a sylwebwyr eraill wedi gwneud y pwynt bod yr amddiffyniad 'rhyw garw' yn cael ei ddefnyddio i ddianc rhag atebolrwydd am lofruddiaeth lle mae'n briodol ysgwyddo atebolrwydd o'r fath. Yn y cyswllt hwn, gweler Rhan 9 isod ar amddiffyniadau i gyhuddiad o lofruddiaeth. Gweler ymhellach Bows a Herring yn crybwyll gwaith ymchwil yr Athro Edwards ynghyd â phapurau briffio gan y grŵp ymgyrchu We Can't Consent To This (WCCTT), a dadleuon blaenorol gan sylwebwyr ac academyddion ffeministaidd:

> "[t]his method of killing as well as the broader context of death occurring during or immediately after sexual activity is thus heavily gendered and reflects wider homicide trends; strangulation as a method of killing in domestic/intimate partner homicide has remained constant over the last three decades and is the primary method of killing of a female partner in a heterosexual relationship.|"[198]

8.3.7 Gwnaed y pwynt pwysig mai'r rheswm am hyn yw bod y cyflawnwr yn gallu dadlau nad oes *mens rea* perthnasol neu elfen o fai[199] drwy ddadlau nad oedd ganddo fwriad i achosi niwed difrifol iawn. Nid yw'r un o'r diwygiadau ynghylch tagu nad yw'n angheuol/cydsynio wedi delio â'r canlyniad i wadiad syml am *mens rea*/bai. Yn ein hadran ar amddiffyniadau i gyhuddiad o lofruddiaeth, rydym yn awgrymu y dylid ystyried diwygio pellach gyda'r bwriad o gyfyngu amddiffyniad o'r fath i gyhuddiad o lofruddiaeth.

8.3.8 Rhan o'n cylch gwaith yw ystyried digonolrwydd darpariaethau dedfrydu lle mae 'rhyw garw' yn arwain at euogfarn am ddynladdiad (boed hwnnw'n ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol neu ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon). Roedd ein sampl o 120 o achosion yn cynnwys 3 dynladdiad drwy esgeuluster difrifol. Cyflawnwyd pob un gan ddynion yn erbyn dioddefwyr benywaidd. Roedd dau o'r achosion hyn yn ymwneud â lladdiadau a ddigwyddodd yng nghwrs rhyw treisgar y dywedwyd bod y dioddefwr wedi cydsynio iddo (er nad tagu oedd y dull lladd).

8.3.9 Drwy ddiffiniad, mae ymchwiliadau i amgylchiadau lladdiadau o'r fath wedi'u cyfyngu gan y ffaith nad yw'r dioddefwr yn gallu disgrifio'r cydsyniad.

8.3.10 Mae'r Canllaw Diffiniol ar Ddynladdiad mewn perthynas â dedfrydau am ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol yn cynnwys pedwar categori: beiusrwydd is, beiusrwydd canolig, beiusrwydd uchel a beiusrwydd uchel iawn gyda dechreubwyntiau o 2 flynedd, 4 blynedd, 8 mlynedd a 12 mlynedd yn y ddalfa. Yr

198 Bows (Hannah) a Herring (Jonathan) "*Getting away with murder a review of the rough sex defence"* JCL 84 (525) Rhagfyr 2020

199 Herring (Jonathan) a Bows (Hannah) *"Regulating intimate violence: rough sex, consent and death"* [2021] CFLQ 311 ar dudalen 3.

amrediadau ar gyfer pob un o’r dechreubwyntiau hynny yw: 1-4, 3-7, 8- 12 a 10-18 mlynedd yn y ddalfa yn y drefn honno.

8.3.11 Fel y nodwyd uchod, roedd ein sampl yn cynnwys tri achos o ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol. Mewn dau o’r achosion hyn **CM9, CM29** dywedwyd mai’r matrics ffeithiol oedd gêm rhyw neu “ryw garw” a oedd wedi ‘mynd o chwith’. Mae’n werth craffu ar yr achosion hyn. Ar sail y gyfraith bresennol, gall yr achosion hyn godi anawsterau wrth ddedfrydu.

8.3.12 Yn **CM29** roedd y troseddwr wedi dal cyllell wrth wddf y dioddefwr yn ystod cyfathrach rywiol a’r achos a gyflwynodd ef (ac a dderbyniwyd gan yr erlyniad) oedd bod y gyllell wedi llithro a thorri’r rhydweli garotid gan achosi marwolaeth. Fe’i derbyniwyd (nid yn unig yn rhinwedd y ple) ond ar sail y ple hwnnw nad oedd bwriad i drywanu’r dioddefwr ond bod dal y gyllell wrth wddf y dioddefwr yn fath o ymddygiad bygythiol efelychiadol “to heighten sexual pleasure”. Plediodd y cyflawnwr yn euog ar ôl y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial ond cyn y treial a chafodd y credyd priodol am wneud hynny.

8.3.13 Cafodd ei ddedfrydu i gyfnod o chwe blynedd yn y carchar a oedd yn llai na’r cyfnod o wyth mlynedd a fyddai wedi bod yn briodol ar ôl treial. Dywedwyd bod y perygl o drywanu’r dioddefwr yn amlwg. Daliodd y barnwr dedfrydu mai nodwedd liniarol gyfyngedig oedd ‘cydsynio’ oherwydd “acute risk of serious violence and death being visited on [his] sexual partner”. Derbyniodd y barnwr dedfrydu fod y gyllell yn cael ei dal i’r diben o gael boddhad rhywiol ac efelychu bygythiad[200] ac roedd hyn yn cynnwys perygl mynych ac enfawr. Dywedwyd bod lefel y beiusrwydd yn uchel yn sgil dweud celwyddau wrth yr heddlu a’r defnydd o alcohol a chyffuriau. Roedd y barnwr dedfrydu wedi ymwrthod â’r disgrifiad o’r ymddygiad rhywiol ei fod yn ‘rhyw garw’ ac yn “adventurous” gan ddweud “it was simply extremely dangerous sadomasochistic sexual conduct.” Penderfynwyd bod y troseddu’n perthyn i gategori B – beiusrwydd uchel.[201]

8.3.14 Daliwyd bod y defnydd o alcohol a chyffuriau yn nodwedd waethygol. Barnwyd bod lefel y beiusrwydd yn uchel yng ngolwg y ffaith bod y cyflawnwr o reidrwydd yn “acutely aware” o ran y peryglon eithafol o ddefnyddio cyllell fel y gwnaeth. Dywedwyd ei bod yn amlwg bod risg o beri marwolaeth neu niwed difrifol iawn.

8.3.15 Yn **CM9**[202] derbyniwyd ple i gyhuddiad o ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol ar ddiwedd achos yr erlyniad mewn treial llofruddiaeth a threial am achosi niwed

[200] Dywedodd y barnwr yn benodol felly nad oedd hwn yn achos lle y dylid bod wedi pennu dechreubwynt o 25 mlynedd os oedd wedi arwain at euogfarn am lofruddiaeth.

[201] Mae’r troseddu’n ddifrifol am fod y troseddwr wedi dangos diffyg ystyriaeth amlwg i’r risg fawr iawn o beri marwolaeth a oedd yn codi o’r ymddygiad esgeulus.

[202] Sydd wedi bod yn destun llawer o drafodaeth academaidd.

corfforol difrifol yn fwriadol. O ran y cefndir, roedd y dioddefwr wedi bod mewn perthynas bersonol â'r cyflawnwr am ychydig o fisoedd. Roedd hi'n 13 blynedd yn iau na'r cyflawnwr. Ar adeg yr ymddygiad rhywiol ac wedyn marwolaeth, roedd lefel yr alcohol yng ngwaed y dioddefwr yn beryglus o uchel (389 mg am bob 100 ml o waed) fel ei bod o fewn y terfynau gwenwynegol lle ceir coma a marwolaeth. Lefel y cocên yn ei gwaed oedd 0.74 mg y litr a lefel y Cocaethylen[203] oedd 0.59 mg y litr. Mewn geiriau eraill, roedd hi wedi meddwi i'r graddau ei bod yn anodd derbyn iddi allu cael neu gadw'r galluedd i gydsynio.

8.3.16 Roedd y barnwr dedfrydu yn sicr, at y safon berthnasol, fod y cyflawnwr wedi achosi mwyafrif yr anafiadau drwy guro ar y noson y bu farw'r dioddefwr. Yn ôl disgrifiad y cyflawnwr, yn ogystal â chydsynio i gael ei churo, roedd y dioddefwr wedi gofyn iddo roi potel chwistrellu hylif glanhau carpedi yn ei gwain. Roedd hyn wedi achosi archolliadau mewnol a arweiniodd at waedlif rhydweliol a gwythiennol. Roedd y cyflawnwr wedi sylwi ar anafiadau amlwg ond, er hynny, ni alwodd am gymorth na gofyn am ambiwlans. Yn hytrach, roedd ef wedi'i gadael ar waelod y grisiau ac wedi mynd i'w wely. Nid oedd ychwaith wedi'i rhoi i orwedd ar glustog, wedi rhoi blanced drosti na'i gosod yn yr ystum adfer.

8.3.17 Wrth wneud asesiad o feiusrwydd cyffredinol y cyflawnwr, roedd y barnwr dedfrydu wedi ystyried y ddadl mai'r ymddygiad a oedd yn gyfystyr ag esgeuluster difrifol oedd y methiant i gael help i'r dioddefwr ar ôl achosi niwed difrifol (yr honnwyd ei bod hi wedi cydsynio iddo). Digwyddodd hyn mewn amgylchiadau lle'r oedd risg o farwolaeth o ganlyniad i'w chyflwr a fyddai wedi bod yn amlwg i rywun rhesymol a phwyllog.

8.3.18 Argymhelliad yr erlyniad oedd bod y drosedd yn perthyn i Gategori B, beiusrwydd uchel ond nid oedd wedi argymell bod yr anafiadau a achoswyd i'r ymadawedig wedi'u peri'n anghyfreithlon ac felly ni argymhellodd fod yr achos yn bodloni'r maen prawf bod yr ymddygiad esgeulus wedi digwydd yng nghyd-destun troseddoldeb difrifol arall.

8.3.19 Daliodd y barnwr ei fod wedi'i fodloni fel ei fod yn sicr bod y cyflawnwr wedi achosi'r rhan fwyaf o'r anafiadau i fronnau a phen ôl/cefn isaf y dioddefwr a'u bod yn gyfystyr â gwir niwed corfforol o fath eithaf difrifol a bod yr awdurdodau'n glir nad oedd y dioddefwr yn gallu cydsynio o dan y gyfraith i wir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol i'r diben o gael boddhad rhywiol. Daliodd fod y Llys Apêl, yn achos *R v BM*,[204] wedi ystyried yn awdurdodol a fyddai cydsyniad gan ddioddefwr yn gallu darparu amddiffyniad i gyhuddiadau o droseddau sy'n groes i a.47 ac a.20 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861. Roedd y ffaith nad oedd cydsyniad yn rhoi

---

[203] Y sylwedd y mae cocên ac alcohol yn cael eu trawsnewid iddo yn y corff.

[204] *R v M (B) [2018] 3 WLR 883 [21].* Yn yr achos hwn, roedd y Llys Apêl wedi trafod y cwestiwn a oedd newid rhannau o'r corff ar ôl cael cydsyniad yn gyfystyr â Niwed Corfforol Difrifol.

amddiffyniad yn golygu bod y methiant ar ran y cyflawnwr i alw am help yn esgeuluster yng nghyd-destun troseddoldeb arall.[205]

8.3.20 Daliwyd nad oedd rhoi’r chwistrell glanhau yn y wain yn anghyfreithlon (wedi i’r barnwr ddod i’r casgliad bod galluedd i gydsynio gan y dioddefwr)[206] ond y byddai’n sicr o fod yn amlwg i’r cyflawnwr y byddai mewnosod y botel, hyd yn oed os nad oedd yn anghyfreithlon, yn peri risg fawr. Yn ystod y croesholi, ni chodwyd y cwestiwn o ba un a fyddai wedi bod yn well galw am ambiwlans, yn hytrach na defnyddio iraid i dynnu’r botel. At hynny, roedd y drosedd wedi’i gwaethygu gan fethiant y cyflawnwr i geisio atal y dioddefwr rhag meddwi i raddau a allai fod yn angheuol. At ei gilydd, nid oedd y troseddu yn perthyn yn hollol i’r “type of ‘serious offending ‘contemplated in Category B”. Er hynny, nid oedd yn achos Categori D[207] ac roedd yr achos wedi’i roi’n briodol tua phen uchaf Categori C. Roedd nifer o ffactorau lliniarol ond roedd y drosedd wedi’i gwaethygu gan y defnydd o alcohol a chyffuriau. Y dechreubwynt oedd 5 mlynedd a 6 mis ar ôl cloriannu’r ffactorau gwaethygol a lliniarol ac, ar ôl rhoi gostyngiad llawn o un rhan o dair am bledio’n euog, y ddedfryd a roddwyd oedd un am 3 blynedd ac 8 mis.

8.3.21 Roedd y penderfyniad diweddaraf a gafwyd gan y Llys Apêl ar fater dynladdiad mewn amgylchiadau lle cafwyd bod y dioddefwr wedi cydsynio i niwed yn ystod cyfarfyddiad rhywiol yn un a oedd yn ymwneud â dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon. Gweler cais y Twrnai Cyffredinol am atgyfeirio’r ddedfryd yn achos *R v. Samuel Pybus*[208] ar y sail ei bod yn rhy drugarog. Wrth wrthod ei hatgyfeirio, daliodd y llys fod 6 blynedd o garchar yn ddechreubwynt priodol ar ble euog i gyhuddiad o ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon. Roedd y troseddwr wedi tagu’r dioddefwr y dywedwyd ei bod wedi cydsynio i “erotic asphyxiation”[209] yn ystod cyfarfyddiad rhywiol. O ran y cefndir, roedd y troseddwr yn briod ond byddai’n gweld y dioddefwr (S), y dywedwyd ei fod wedi cael cyfarfyddiadau rhywiol â hi, 6 gwaith y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys “rough sex including choking.” Cyflwynwyd yr achos yn y lle cyntaf fel un lle’r oedd ansicrwydd ynghylch grym neu barhad y tagu â’r dwylo y dywedwyd ei fod wedi achosi marwolaeth ac ynghylch y pwynt lle’r oedd y dioddefwr wedi mynd yn anymwybodol yn ystod y tagu. Wrth geisio dadlau y dylasai’r beiusrwydd fod yn uchel yn hytrach na chanolig, roedd y Twrnai Cyffredinol wedi’i gyfyngu gan y ffaith bod prif gwnsler yr erlyniad yn y llys is wedi cyd-weld â’r barnwr dedfrydu bod gwahaniaeth rhwng risg

[205] Gan ei roi, felly, yng nghategori B yn y Canllaw Diffiniol.

[206] Mae’n anodd gweld sut na allai’r barnwr fod yn sicr nad oedd galluedd gan y dioddefwr o ystyried lefel y meddwdod.

[207] Beiusrwydd is.

[208] *R. v. Pybus (Sam Joseph) [2021] EWCA Crim 1787*

[209] Ym mharagraff [19] y dyfarniad, nododd y llys fod tystiolaeth annibynnol ar y troseddwr yn y llys is a oedd yn awgrymu fel a ganlyn am y dioddefwr: “participation was consensual and was initiated by her”.

amlwg a risg fawr ac er mai po fwyaf amlwg y risg, hawsaf ei rhoi yn y categori uchel, “a foreseeable risk is not a high risk”. Yn ogystal â hyn, roedd y Llys Apêl yn cytuno fel a ganlyn: “[the Crown] were only able to speculate as to the mechanism of death and specifically in relation to the nature of asphyxiation in terms of its duration and the ultimate loss of consciousness. [28]”. Daliwyd nad oedd dadl yn erbyn rhoi dedfryd ar sail Categori C (beiusrwydd canolig).

8.3.22 Gwahaniaethodd y llys rhwng risg amlwg o beri niwed a risg fawr o beri niwed. Wrth benderfynu na ellid dangos bod gwall cyfreithiol, roedd y llys hefyd wedi pwysleisio bod yr achos hwn yn dibynnu ar y ffeithiau sydd ynddo [35].

8.3.23 Rydym yn credu y bydd risg fawr o achosi marwolaeth bob amser wrth dagu yn y modd hwn ac mai mater o fanylu cyfreithiol yw ceisio gwahaniaethu rhwng risg amlwg a risg fawr. Byddai nifer mawr o arbenigwyr yn dadlau bod y weithred o dagu nid yn unig yn creu risg amlwg o achosi marwolaeth ond y gellir dweud i’r un graddau ei bod yn creu risg fawr a ddylai fod yn amlwg i unrhyw un.[210]

8.3.24 Mae’n wir wrth gwrs fod pwerau’r Llys Apêl wrth ystyried atgyfeiriad yn rhai cyfyngedig ac yng nghyd-destun atgyfeiriad gan y Twrnai Cyffredinol fod y llys wedi’i rwymo gan y ffeithiau a gyflwynwyd i’r barnwr dedfrydu. Fodd bynnag, yn achos *R v. Pybus*, roedd y Llys Apêl drwy oblygiad wedi ceisio dynodi bod lladdiad y dioddefwr yn ganlyniad i ddewis rhywiol yn hytrach na’i fod yn ganlyniad i ddatblygiad normau cymdeithasol sydd wedi’u seilio ar anghydraddoldeb strwythurol.

8.3.25 Gan droi’n ôl at y pwyntiau a wnaed gan Palmer a Weiner, yn ogystal â’r niwed o’r farwolaeth ar y pryd, mae’n bwysig bod y polisi sy’n sail i’r gyfraith yn un sy’n ystyried y mathau ehangach o niwed sy’n deillio o’r ymddygiad sy’n gallu arwain at laddiad o’r math hwn.

8.3.26 Y perygl yw bod y math hwn o droseddu yn darparu “cultural scaffolding”[211] ar gyfer dull ac amgylchiadau’r mathau o lofruddiaeth sydd hefyd yn destun i’r

---

[210] Gweler, Shield MD (Lisa) Corey MD (Tracy S) Weakley-Jones MD (Barbara) Stewart MD (Donna) *“Living Victims of Strangulation 10 year review of cases in a metropolitan community*” Am J Forensic Med Pathol Cyfrol 31 Rhifyn 4 (2010) ar d 324 “The fine line between life and death in strangulation depends on a host of factors, including the strength of the victim/perpetrator, drugs involved, natural state of health of the victim and circumstances of whether an onlooker may be present who may disengage the perpetrator from the victim prior to the fatality.”

[211] McGlynn (Clare), Vera-Gray (Fiona), Kureshi (Ibad) a Butterby (Kate) “*Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography.”* The British Journal of Criminology, Ebrill 2021, 61, 1243–1260] Mae’r awduron yn nodi bod Garvey wedi cyfeirio at ‘the cultural scaffolding of rape’ “namely, the construction of cultural norms and practices that support rape or set up its preconditions” sy’n symud tuag at “a legitimate framework of sexual norms.”

adolygiad hwn.[212] Mae hyn yn niweidiol ar ei ben ei hun. Er mwyn cymharu hyn â throseddau rhywiol a chynnig esboniad pellach, mewn prosiect ymchwil ar drais rhywiol fel sgript mewn pornograffi ar-lein prif ffrwd,[213] dadleuwyd bod y ffaith bod mathau penodol o ddeunydd ar gael i'r rheini sy'n defnyddio pornograffi am y tro cyntaf yn codi cwestiynau am "the role of the criminal law, self-regulation and corporate accountability".[214] Dywedir yn y cyd-destun hwn "when pornography is understood as a key social institution legitimizing sexual harms then the distortion between what counts as criminal, what counts as harmful and what counts as sexual constitutes '*in itself*' a form of cultural harm."

8.3.27 Am fod tagu yn gyffredin (i) mewn pornograffi, (ii) fel dull o arfer rheolaeth mewn perthnasoedd sydd wedi'u nodweddu gan reolaeth drwy orfodaeth a (iii) fel dull rhyweddol o lofruddio, mae hyn yn awgrymu ei bod yn bwysig bod y math hwn o ddynladdiad (sy'n gallu digwydd o ganlyniad i dagu) yn arwain at ddechreubwynt uwch yn y canllawiau ar ddynladdiad, sef un yn y categori beiusrwydd uchel.[215] Er bod hyn yn berthnasol i dagu yn benodol, mae'r ddadl hon yn gymwys i fathau eraill o ymosod sy'n efelychu'r defnydd o drais mewn ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol. Yn ogystal ag achosi marwolaeth yn yr achosion sydd dan sylw yma, achosir y niwed ehangach drwy normaleiddio ymddygiad o'r fath. Yn ein barn ni, mae rhesymau da o ran polisi dros yr argymhelliad rydym yn ei wneud isod.

8.3.28 Cafwyd cefnogaeth ym mhob un o'n grwpiau ffocws i'n cynigion mewn perthynas â marwolaeth yn dilyn cydsyniad i ymosod ar y dioddefwr yn ystod cyfarfyddiad rhywiol.

8.3.29 **Argymhelliad 16: Rydym yn argymell** lle mae marwolaeth yn digwydd yng nghwrs trais yr honnwyd ei fod yn gydsyniol yn ystod cyfarfyddiad rhywiol rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr yna, pa un a yw'r troseddwr yn cael ei gyhuddo o ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon neu ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol, y dylai'r lladdiad gael ei ddynodi'n un sy'n perthyn i gategori B, beiusrwydd uchel. Gweler y tabl argymhellion yn Rhan 10.

[212] Mewn perthynas â'n sampl o achosion, mae'r pwynt hwn yn cael ei amlygu yn y ffaith mewn un o'r ddau achos lle cafwyd menyw yn euog i gyhuddiad o ddynladdiad drwy golli rheolaeth, fod yr ymadawedig a oedd wedi arfer rheolaeth drwy orfodaeth wedi cadw cyllell yn yr ystafell wely. Mewn achos arall lle cafwyd y cyflawnwr benywaidd yn euog o lofruddiaeth, roedd hynny mewn amgylchiadau lle'r oedd hi wedi deffro a gweld bod yr ymadawedig yn dal cyllell uwch ei phen.

[213] McGlynn (Clare), Vera-Gray (Fiona), Kureshi (Ibad) a Butterby (Kate) *"Sexual violence as a sexual script in mainstream online pornography."* The British Journal of Criminology, Ebrill 2021, 61, 1243–1260

[214] *Ibid.*

[215] Categori B yn y Canllawiau Dedfrydu Diffiniol ar Ddynladdiad.

# 9. Amddiffyniadau

## 9.1 Crynodeb

9.1.1 Nid ydym wedi cael adnoddau digonol i allu cynnal adolygiad llawn neu ddigon manwl o amddiffyniadau mewn achosion lladdiad domestig. Er mwyn gwneud hyn gan gyfeirio at ein sampl o achosion, byddai wedi bod yn angenrheidiol i ni gael mynediad i'r CCDCS ar gyfer pob achos yn y sampl a chynnal cyfweliadau strwythuredig â'r cyfreithwyr cysylltiedig. Yn ogystal â hyn, yn ein barn ni, byddai adolygiad cynhwysfawr o amddiffyniadau i gyhuddiadau o laddiad domestig yn un sy'n galw am ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys barnwyr y llysoedd uwch, sydd y tu hwnt i gwmpas ymarferol y prosiect hwn. Mae materion cymhleth o ran cyfraith, polisi ac ymarfer yn gysylltiedig â hyn. Y peth mwyaf y ceisiwn ei wneud yn y rhan hon yw amlinellu'r materion perthnasol gan argymell gwneud rhagor o waith yn y dyfodol.

## 9.2 Hunanamddiffyn yn Amddiffyniad Llwyr

9.2.1 Mae hunanamddiffyn a damwain yn amddiffyniadau llwyr i gyhuddiad o lofruddiaeth. Yn yr adolygiad hwn, rydym yn dal sylw ar hunanamddiffyn.

9.2.2 Er mwyn gallu dibynnu ar yr amddiffyniad cyfraith gyffredin o hunanamddiffyn, rhaid i'r diffynnydd allu dangos nad oedd wedi defnyddio ond y grym a oedd yn angenrheidiol yn yr amgylchiadau fel yr oedd yn eu gweld mewn gwirionedd.[216] Rhaid i'r grym a ddefnyddir fod yn gymesur. Yr unig eithriad yw mewn achos deiliad tŷ lle gall y grym fod yn anghymesur ar yr amod nad yw'n "grossly disproportionate."[217] Mewn achos o'r fath, rhaid i'r diffynnydd gredu bod y dioddefwr yn dresmaswr yn yr eiddo ar adeg y defnydd o rym.[218] Hyd yn oed os nad yw'r grym a ddefnyddir ond yn anghymesur, rhaid iddo fod yn rhesymol yn yr amgylchiadau er hynny.[219] Penderfynir y cwestiwn o ran a oedd yr amgylchiadau'n rhesymol ar sail yr hyn yr oedd y diffynnydd yn credu eu bod. Gall cred y diffynnydd fod yn un gyfeiliornus[220] ar yr amod nad oedd wedi'i hachosi gan feddwi gwirfoddol.[221] Nid oes dyletswydd i gilio bellach: yn hytrach, nid yw ond yn ffactor

---

216 A.76(1)-(3) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

217 A.76(5A) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008

218 A.76(8A) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.

219 *R v. Ray (Steven) [2017] EWCA Crim 1391.*

220 A.76(4) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.

221 A.76(5) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.

perthnasol i'w ystyried.[222] Wrth benderfynu'r cwestiwn o ba un a oedd y grym yn rhesymol neu beidio yn yr amgylchiadau fel roedd y diffynnydd yn credu eu bod, ni fydd disgwyl i rywun sy'n gweithredu i ddiben cyfreithlon bwyso a mesur unrhyw weithred yn union.[223]

9.2.3 Anaml y bydd cyflawnwyr yn gallu dibynnu'n llwyddiannus ar hunanamddiffyn mewn achos am ladd partner personol. Yn y data o'r Mynegai Lladdiadau a gafwyd ar gyfer yr adolygiad a lle'r oedd y canlyniad terfynol yn hysbys ar yr adeg y darparodd y Swyddfa Gartref y data, gwelwyd bod 7 rhyddfarn yn cynnwys gollwng achosion yn yr achosion am ladd partneriaid personol yn y cyfnod rhwng Ebrill 2016 a Rhagfyr 2020. Roedd y rhain yn cynnwys achosion lle'r oedd 2 fenyw wedi'u rhyddfarnu ar sail hunanamddiffyn (un ohonynt wedi'i rhyddfarnu yn y diwedd ar ôl ail dreial) a 5 dyn. Roedd ymchwil ychwanegol yn cynnwys adroddiadau o'r wasg yn dangos bod un dyn wedi cael ei gyhuddo o roi ei wraig ar dân ond ei fod wedi dadlau'n llwyddiannus ei bod wedi mynd ar dân yn ddamweiniol wrth wneud uwd iddo. Roedd un arall, a gafodd ei ryddfarnu ar ôl treial am lofruddiaeth, wedi cael ei gyhuddo o daflu olew ffrio sglodion berwedig dros ei wraig ond wedi gallu dadlau ei bod hi wedi'i dynnu am ei phen.

9.2.4 Mae wedi'i hir gydnabod bod hunanamddiffyn yn broblemus mewn achosion lle mae menywod wedi lladd eu partneriaid gwrywaidd ac mae hyn yn wir hyd yn oed mewn sefyllfaoedd lle mae hanes o gam-drin domestig neu reolaeth drwy orfodaeth.[224] Os na chredir bod menyw yn profi ymosodiad ar amser y lladd, yna mae'n annhebygol iawn y bydd ei gweithredoedd yn cael eu gweld yn rhai a oedd yn rhesymol. Mewn egwyddor, mae amddiffyniad o hunanamddiffyn yn caniatáu gweithredu rhagataliol ar ran y diffynnydd. Fodd bynnag, mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Centre for Women's Justice,[225] cafwyd mewn 92 o achosion dros gyfnod o 10 mlynedd mai dim ond 6 menyw oedd wedi dibynnu'n llwyddiannus ar amddiffyniad o hunanamddiffyn ac nad oedd yr un o'r 6 wedi gallu dibynnu ar amddiffyniad o ddefnyddio grym rhagataliol.

9.2.5 Mewn achosion lle mae menywod wedi lladd o ganlyniad i gael eu dal mewn perthnasoedd camdriniol, nid yw'r rhesymau dros fethu gan amlaf â manteisio ar amddiffyniad o hunanamddiffyn yn rhai y gellir eu priodoli bob amser i ddiffyg yng nghyfraith sylwedd.

---

[222] A.76(6A) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.

[223] A.76(7) Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.

[224] *Women who kill: why self-defence rarely works for women who kill their abuser* Howes (Sophie Kate), Swaine Williams (Katy), t Wistrich (Harriet) Crim. L.R 2021 947-957 ar d 947.

[225] *Women who kill; Defending women we might otherwise be burying* Howes (Sophie) wedi'i grybwyll yn *Women who kill: why self-defence rarely works for women who kill their abuser* Howes (Sophie Kate), Swaine Williams (Katy), t Wistrich (Harriet) Crim. L.R 2021 947-957 ar d 949.

9.2.6 Fel y dywedodd un cyfreithiwr:

> “Un o’r problemau yw’r canfyddiadau ymhlith rheithgorau ynghylch sut y dylai’r dioddefwr ymddangos os yw’n profi cam-drin domestig. Dydy menywod sy’n defnyddio trais angheuol ddim yn cael eu gweld yn rhai sy’n agored i niwed, yn rhai sydd wedi’u dal yn gaeth neu’n haeddu cydymdeimlad”:
>
> “Yn achos dynion sy’n lladd, os ydyn nhw’n rhai sydd o gymeriad da fel arall, y duedd yw eu trin gyda chydymdeimlad, tra bydd menywod sy’n lladd yn cael eu gweld yn rhai sy’n ymddwyn mewn ffordd annerbyniol iawn …. Mae hyn yn hen ffasiwn dros ben” **Cyfweliad â chyfreithiwr**

9.2.7 I grynhoi, credir mai’r rhesymau dros euogfarnu menywod sy’n lladd eu partneriaid gwrywaidd yw, yn gyntaf, cyffredinrwydd y camdybiaethau a stereoteipiau, er enghraifft, y gamdybiaeth ei bod bob amser yn bosibl gadael perthynas lle mae’r dioddefwr wedi’i ddal gan reolaeth drwy orfodaeth. Yn ail, mae’r system cyfiawnder troseddol yn gweithredu dan gyfyngiadau cyllidol ac yn ôl amserlenni sy’n milwrio yn erbyn datgelu cynnar effeithiol (gan ddiffynyddion sy’n ddioddefwyr) am hanes y berthynas â’r ymadawedig. Mae tystiolaeth dda i ddangos bod nifer mawr o ddioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth yn ei chael yn anodd iawn datgelu manylion y driniaeth a gawsant gan eu camdriniwr. Yn drydydd, mae’r ffaith na wnaed defnydd helaeth hyd yma o arbenigwyr ar gam-drin domestig, yn cynnwys rheolaeth drwy orfodaeth, ac o asesiadau risg a geir ganddynt, yn rhwystr i ddealltwriaeth rheithgorau ac yn hwyluso parhad camdybiaethau am gam-drin domestig fel y gred y byddai’r ddioddefwraig “wedi talu’r pwyth yn ôl”. Yn bedwerydd, nid yw’r llysoedd ond newydd ddechrau rhoi cyfarwyddiadau i reithgorau ar gamdybiaethau a stereoteipiau cam-drin domestig. Yn bumed, mae hyn mewn amgylchiadau lle nad oes dealltwriaeth fforensig priodol o gam-drin domestig a’i effeithiau. Wrth wraidd dealltwriaeth priodol o reolaeth drwy orfodaeth y mae’r sylweddoliad bod anghytgord mewn dynameg reolaethol yn tueddu i ddod i’r amlwg pan fydd y dioddefwr yn herio’r camdriniwr rheolaethol. Fodd bynnag, bydd yr her yn arwain fel arfer at ymddygiad sy’n golygu wedyn bod y dioddefwr yn byw yn ôl y rheolau rhag ofn y bydd yn tramgwyddo’r camdriniwr ac yn peri i’r ymddygiad ddigwydd eto. Mae hyn yn cael ei gamddehongli’n aml drwy gredu nad yw’r dioddefwr yn poeni am y rheolau a/neu ei fod yn mwynhau’r berthynas.

9.2.8 Er mwyn i fenywod o’r fath gael eu rhyddfarnu, mae angen deall effeithiau rheolaeth drwy orfodaeth yng nghyd-destun yr amddiffyniad o hunanamddiffyn. Mae menyw sydd wedi profi rheolaeth drwy orfodaeth yn debygol o gael ei heffeithio ganddi ac o deimlo llawer mwy o ofn a allai beri iddi godi cyllell (neu arf

arall) neu gymryd camau sy'n cael eu gweld yn anghymesur o safbwynt gwrthrychol.

> "Mae mwy o ofn oherwydd yr hanes o gam-drin a mwy o ganfyddiad o'r bygythiad o drais sy'n arwain at weithred anghymesur."

> "Oherwydd yr hanes o gam-drin domestig, mae'n debygol y bydd y canfyddiad o'r bygythiad yn fwy." **Cyfweliad â chyfreithiwr**

## 9.3 Problemau ynghylch Cyfraith Sylwedd

9.3.1 Mae problemau'n codi hefyd oherwydd natur ryweddol cyfraith sylwedd. Fel y mae ein sampl o achosion yn dangos, bydd menywod yn defnyddio cyllell neu arf arall gan amlaf pan fyddant yn lladd ac, o ganlyniad i hyn, ceir canfyddiad yn aml fod y lladdiad yn anghymesur yn yr amgylchiadau ar y pryd. Canolbwyntir ar y digwyddiad ar y pryd yn hytrach na'r cyd-destun a'r cefndir.

> "y brif ystyriaeth wrth gynrychioli menywod sy'n lladd yn fy marn i yw: materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rhywedd; yn ymwneud yn uniongyrchol â'r union ffaith yng nghyd-destun lladdiad domestig fod yr eitemau a gwrthrychau sy'n dod i law yn arfau fel cyllyll felly yn y system dedfrydu canolbwyntir ar yr arf ac nid ar y cyd-destun sydd wedi arwain yn y pen draw at orfodi'r unigolyn i godi arf." **Un o gyfranogwyr y grwpiau ffocws**

> 'Y peth hanfodol yw gofyn pam roedd rhywun wedi codi cyllell. A oedd wedi gwneud hynny i'w amddiffyn ei hun? **Un o gyfranogwyr y grwpiau ffocws**

9.3.2 Ceir ymdriniaeth helaeth â'r rhesymau dros ddefnyddio arfau gan fenywod yn y llenyddiaeth ar gyfreitheg ffeministaidd sydd wedi'i chrynhoi'n fwyaf diweddar mewn astudiaeth achos o ddau achos sy'n cyfeirio at yr ymchwil a geir yn *Women who Kill: defending women we might otherwise be burying*[226] a hefyd gan yr Athro Susan Edwards.[227]

---

[226] Howes (Sophie) *Women who kill defending women we might otherwise be burying Op Cit* wedi'i grybwyll yn Howes (Sophie) Swain Williams (Katy) Wistrich (Harriet) *Women who kill why self-defence rarely works for women who kill their abuser* Crim L. R 2021 11, 945-957

[227] Edwards (Susan) *"Demasculinising" the defences of Self-Defence and the "Householder Defence" and "Duress"* Crim. L.R. 2022, 2, 111-129

## 9.4 Grym Anghymesur yn Gyfyngedig i Ddeiliaid Tai

9.4.1 Mae sylwebwyr wedi mynegi gofid ynghylch y ffaith bod y gyfraith ar hunanamddiffyn yn caniatáu defnyddio grym anghymesur gan ddeiliad tŷ yn erbyn rhywun y mae'r deiliad tŷ yn credu ei fod yn dresmaswr ar yr amser perthnasol ond nad yw dioddefwr cam-drin yn gallu defnyddio grym anghymesur wrth ei hamddiffyn ei hun rhag camdriniwr yn y cartref oni bai fod y meini prawf yn a.76 (5A), (8A)(d) wedi'u bodloni.

9.4.2 Yn achos *R v. Cheeseman*[228] daliwyd bod y gallu i fanteisio ar yr amddiffyniad hwn yn dibynnu ar gred y deiliad tŷ ynghylch a oedd V yn dresmaswr ar adeg y digwyddiad treisgar. Mewn geiriau eraill, nid yw'r amddiffyniad yn gymwys yn achos tresmaswyr yn unig.

9.4.3 Mae'n bosibl, felly, fod yr amddiffyniad estynedig yn gymwys i rai dioddefwyr cam-drin domestig, ond nid pob un. Er enghraifft, gellid cymryd bod yr amddiffyniad hwn yn gymwys yn yr enghreifftiau damcaniaethol canlynol: (i) achos deiliad tŷ sydd wedi cael gorchymyn peidio ag ymyrryd sydd wedyn yn cael ei dorri gan V sy'n dod i'r eiddo ac yn ymddwyn yn dreisgar neu (ii) lle mae'r eiddo yn cael ei ddal yn enw'r diffynnydd a'i bod hi wedi dweud wrth V camdriniol fod rhaid iddo adael cyn neu ar adeg y weithred dreisgar.[229] (iii) Lle mae'r diffynnydd (D) yn berchen ar eiddo ac mae'n cychwyn perthynas sy'n rheolaethol a gorfodaethol, a'i phartner (P) yn symud i fyw i'r eiddo yn fuan iawn ar ôl dechrau'r berthynas. Ar achlysur pan yw P yn ymddwyn yn dreisgar ac yn fygythiol tuag at D, mae hi'n dweud wrtho am adael. Mae P yn gwrthod gwneud hynny ac felly mae'n dresmaswr yng nghartref D. Mae ef yn parhau i ymddwyn yn dreisgar ac mae D yn estyn am gyllell i'w hamddiffyn ei hun â hi. Mae hi'n trywanu P i farwolaeth gan achosi un clwyf. O dan y gyfraith bresennol, mae hawl gan D i ddefnyddio grym sy'n anghymesur.

9.4.4 Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mewn sefyllfa lle mae P a D yn cyd-fyw ac yn berchen ar y cartref ar y cyd, ni ellir dehongli bod P yn dresmaswr yn yr eiddo pan yw'n dechrau ymddwyn yn dreisgar. Byddai lefel y bygythiad yn union fel yr oedd yn yr enghreifftiau eraill ond yn enghreifftiau (i) a (iii) uchod byddai hawl gan D i gael cyfarwyddyd gan y barnwr i'r perwyl y gallai ddefnyddio grym anghymesur tra na byddai D yn yr ail enghraifft. Byddai mantais gan y menywod hynny dros y rheini sy'n ddeiliaid tai ar y cyd â'r ymosodwr.

[228] *R v. Cheeseman [2019] EWCA 149.*

[229] Nid yw'n glir ar adeg ysgrifennu hyn i ba raddau y mae'r gyfraith yn gymwys. Disgwylir dyfarniad gan Adran Droseddol y Llys Apêl.

9.4.5 Mae hyn yn anghyson am mai menywod sydd heb gymorth asiantaeth neu gefnogaeth gyfreithiol neu sy'n ddeiliaid tai ar y cyd â'u camdrinwyr a fyddai â'r angen mwyaf am yr amddiffyniad mewn achos cyfreithiol.

9.4.6 O safbwynt cyfreithiol, gellid dadlau bod a.76(5A) wedi'i dehongli fel na fydd yn gwneud dim neu nemor ddim gwahaniaeth. Yn y cyswllt hwn, gweler achos *R v. Ray (Stephen)*[230] lle daliwyd bod rhaid i'r rheithgor benderfynu'n gyntaf a oedd y grym yn "grossly disproportionate" a dim ond os nad oedd y byddai'n mynd ymlaen i benderfynu a oedd yn rhesymol yn yr holl amgylchiadau ac wedyn nad yr un pethau yw 'disproportionate' a 'reasonable' i ddiben a.76.

9.4.7 Fodd bynnag, pan ystyrir ffactorau fel y ffaith mai un clwyf a achoswyd drwy drywanu ar sail cefndir o reolaeth drwy orfodaeth, er enghraifft, gellid dadlau y byddai'r amddiffyniad estynedig yn gallu gwneud gwahaniaeth ymarferol mewn rhai achosion.

9.4.8 Gwrthodwyd ymgais i ymestyn[231] y gallu i ganiatáu grym anghymesur yn amddiffyniad y Deiliad Tŷ a ddarperir gan a.76(5A), (8A)(d) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008[232] gan y Llywodraeth yn ystod hynt y Bil Cam-drin Domestig (Deddf 2021).[233] Dywedodd y Llywodraeth fod yr amddiffyniadau llawn a rhannol presennol yn cynnwys amgylchiadau lle mae diffynnydd hefyd yn ddioddefwr cam-drin domestig. "We are not aware of any significant evidence that demonstrates that the panoply of the current full and partial legal defences available are failing those accused of crimes where being a victim of domestic abuse is a factor to be taken into consideration."[234] Yn fwy diweddar, dadleuwyd o blaid cyflwyno amddiffyniad penodol i amrywiaeth fawr o droseddau sydd wedi'u cyflawni ac sydd â chysylltiad uniongyrchol â cham-drin domestig[235] ac o blaid ymestyn a.76 i greu amddiffyniad i ddioddefwyr cam-drin domestig a fyddai'n cael

[230] *R v. Cheeseman [2017] EWCA Crim 1391.*

[231] Drwy greu amddiffyniad cyfatebol.

[232] Mae a.76(5A) yn darparu "In a householder case, the degree of force used by D is not to be regarded as having been reasonable in the circumstances as D believed them to be if it was grossly disproportionate in those circumstances"

(6) In a case other than a householder case, the degree of force used by D is not to be regarded as having been reasonable in the circumstances as D believed them to be if it was disproportionate in those circumstances".

[233] Roedd y diwygiadau a gynigiwyd i'r Bil Cam-drin Domestig yn rhan o ymgyrch ehangach i ddarparu ar gyfer amddiffyniad o orfodaeth i gyflawni troseddau oherwydd cam-drin domestig mewn mathau penodol o droseddau.

[234] Edwards (Susan) *"Demasculinising" the defences of self-defence, the householder defence and duress"* Crim. L.R. 2022, 2, 111-129 yn crybwyll Hansard HL deb vol 811 col 1890 21.4April 2021 a thystiolaeth ysgrifenedig gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai.

[235] Double Standard: Ending the unjust criminalisation of victims of violence against women and girls. https://www.centreforwomensjustice.org.uk/double-standard

yr effaith o greu amddiffyniad sy'n cyfateb i 'amddiffyniad y deiliad tŷ' i'w ddefnyddio gan ddioddefwyr cam-drin domestig.

9.4.9 Credwn y dylid o leiaf roi ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd o ymestyn yr hyblygrwydd a fwynheir gan ddeiliaid tai sy'n wynebu tresmaswyr i gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr mewn amgylchiadau o gam-drin domestig. Mae gwir angen rhoi ystyriaeth i hyn o gofio (i) mai'r farn yw mai'r defnydd o arf sy'n arwain gan amlaf at weld y grym yn anghymesur a (ii) bod mwyafrif y lladdiadau gan fenywod o'u partneriaid gwrywaidd yn cael eu hachosi gan un clwyf ar ôl eu trywanu. Y fantais o ymestyn cwmpas a.76 (5A), (8A) fel yr awgrymir uchod yw y ceir cydlyniant cyfreithiol drwy ymestyn cwmpas y gyfraith bresennol. Byddai'n ehangu'r gyfraith ac yn atal anghysonderau fel y rheini sydd ymhlyg yn yr enghreifftiau uchod.

9.4.10 Mae diwygiadau posibl eraill y gellid eu hystyried o ran rhoi mynediad cyfartal at yr amddiffyniad o hunanamddiffyn i fenywod sy'n lladd. Un posibiliad yw amddiffyniad rhannol sy'n ddewis uniongyrchol yn lle hunanamddiffyn.

9.4.11 Yn y cyswllt hwn, gellid rhoi ystyriaeth bellach i greu amddiffyniad rhannol o hunangadwraeth. Ystyriwyd amddiffyniad rhannol o'r fath gan Gomisiwn y Gyfraith yn ystod cam ymgynghori ei adolygiad o'r amddiffyniadau rhannol i gyhuddiadau o lofruddiaeth yn 2003-6.[236] Edrychwyd ar ddau fath posibl o amddiffyniad rhannol. Yn gyntaf, un eang a allai fod yn gymwys lle'r oedd diffynnydd yn wynebu bygythiad ond nid un a oedd yn ddigon agos i gyfiawnhau'r defnydd o rym. Yn ail, math cyfyng lle'r oedd cyfiawnhad dros ddefnyddio rhywfaint o rym ond nid grym i'r graddau a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd.

9.4.12 Rhoddwyd y gorau i'r syniad yn sgil cyflwyno'r amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth. Gall colli rheolaeth fod yn gymwys lle mae "fear of serious violence" ond mae hyn yn amodol ar fodloni gofynion statudol eraill y byddwn yn eu trafod ym mharagraffau 9.5.5 isod.

9.4.13 Dewis arall y gellid ei ystyried yw cyflwyno amddiffyniad rhannol i ddioddefwyr cam-drin domestig wedi'i seilio ar y ffaith bod y troseddwr wedi bod o dan reolaeth drwy orfodaeth. Byddai hyn yn darparu ar gyfer ymateb angheuol gan droseddwr i batrwm ymddygiad nad oedd yn mynd mor bell â thrais difrifol ac mewn amgylchiadau lle nad oes sbardun amlwg neu uniongyrchol.[237] Byddai wedi bod yn

---

[236] Comisiwn y Gyfraith CP173 Partial Defences to murder yn 12.82.

[237] Er enghraifft, mewn un achos diweddar yn y llys gwrandawiad cyntaf lle'r oedd menyw 66 blwydd oed wedi trywanu ei gŵr, wedi iddynt fod yn briod am 22 flynedd, roedd yr adroddiadau yn y wasg wedi canolbwyntio ar ffrae rhwng y diffynnydd a'r ymadawedig ynghylch ychydig o stwnsh tatws a chabets er mai amddiffyniad y diffynnydd oedd colli rheolaeth o ganlyniad i wynebu blynyddoedd o reolaeth drwy orfodaeth y teimlai na allai ddianc rhagddi.

gyson â'r dull mwy fforensig o drafod cam-drin domestig y cyfeiriwyd ato mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn. Felly, byddai'n datrys nifer o'r problemau y dangoswyd eu bod yn nodweddu treialon menywod sydd wedi lladd eu partneriaid camdriniol. Drwy ganolbwyntio ar reolaeth drwy orfodaeth, bydd yn haws ailddiffinio'r naratifau hynny a ddefnyddir yn aml yn nhreialon menywod sy'n lladd partneriaid camdriniol. Er enghraifft, byddai'n chwalu'r gamdybiaeth nad oedd y berthynas cyn waethed â hynny os oedd y dioddefwr wedi aros. Byddai llai o demtasiwn i erlynwyr alw perthnasoedd camdriniol yn rhai "tanllyd" a "gwenwynig". Mae tuedd i ddisgrifio perthnasoedd fel hyn mewn sefyllfaoedd lle mae dioddefwyr ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn herio ymddygiad o'r fath. Y brif ddadl yn erbyn y cysyniad o amddiffyniad rhannol wedi'i seilio ar reolaeth drwy orfodaeth yw y byddai'n golygu na allai rheolaeth drwy orfodaeth fod yn sail i amddiffyniad llawn ac, felly, y byddai hynny'n arafu datblygiad ein dealltwriaeth cynyddol o gam-drin domestig.

9.4.14 Ymysg y manteision i amddiffyniad rhannol o'r fath y mae'r ffaith y byddai llai o ddefnydd o ddarpariaethau cymeriad drwg mewn amgylchiadau lle mae'r rheolaeth drwy orfodaeth gan y troseddwr yn y berthynas wedi cael ei hailbortreadu er anfantais i ddioddefwr y rheolaeth drwy orfodaeth.[238] Byddai'n disodli'r pwyslais presennol ar gyflwr seiciatrig y troseddwr a byddai'n fwy addas o ran delio â'r hyn y mae rhai arbenigwyr yn honni ei fod yn ymateb normal i gam-drin ar ffurf rheolaeth drwy orfodaeth.

9.4.15 Bydd yn bwysig bod unrhyw ystyriaeth i'r uchod yn cael ei seilio ar ddadansoddiad manwl o effeithiolrwydd yr amddiffyniad rhannol presennol o golli rheolaeth.

9.4.16 Ceir anawsterau cyfreithiol wrth ddefnyddio'r amddiffyniad o golli rheolaeth fel dewis yn lle'r amddiffyniad llwyr o hunanamddiffyn. Mae'r ddau amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth a chyfrifoldeb lleiedig yn anghyson mewn egwyddor â hunanamddiffyn gan eu bod yn amddiffyniadau lliniarol sy'n gostwng yr hyn a fyddai fel arall yn llofruddiaeth i fod yn ddynladdiad. Felly, mae'r rhain yn galw am fwriad i ladd neu achosi niwed difrifol iawn tra bydd y *mens rea* neu'r bai mewn amddiffyniad gwir o hunanamddiffyn yn cael ei negyddu. Mae hyn yn ei wneud yn anodd i'r diffynnydd ddibynnu ar yr amddiffyniad o hunanamddiffyn a'r amddiffyniadau rhannol yn y dewis arall. Fel rydym yn nodi isod, mae pledio amddiffyniad o golli rheolaeth yn milwrio yn erbyn y defnydd o hunanamddiffyn fel amddiffyniad.

[238] Er enghraifft, nodwyd yn nhreial cyntaf Sally Challen fod yr heddlu wedi diystyru ei chŵyn bod yr ymadawedig wedi ymweld â phuteindai a ddefnyddiai ddioddefwyr masnachu mewn pobl ar y sail ei bod yn feddw ac yn afresymol. Fe'i crybwyllwyd fel tystiolaeth o gymeriad drwg er nad oedd hi wedi meddwi ar yr adeg y lladdodd hi yr ymadawedig.

9.4.17 Mae'r amddiffyniad o golli rheolaeth yn gymharol newydd o hyd. Nodwyd ym mharagraff 5.1.15 fod y diwygiadau i amddiffyniadau rhannol cythrudd a chyfrifoldeb lleiedig wedi'u cyflwyno o ganlyniad i ymgyngoriadau gan Gomisiwn y Gyfraith a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar effeithiolrwydd yr amddiffyniad rhannol mewn achosion lle'r oedd menywod wedi lladd partner camdriniol.[239] Roedd y diwygiadau wedi'u seilio ar gynigion deddfwriaethol gan Gomisiwn y Gyfraith er eu bod yn wahanol i'r cynigion hynny mewn nifer o faterion pwysig.

9.4.18 Fel y nodwyd yn rhan 5 o'r adroddiad hwn, roedd yr amddiffyniad rhannol o gythrudd wedi'i ddisodli gan yr amddiffyniad rhannol newydd o golli rheolaeth. Mae a.54-55 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 wedi bod mewn grym ers 10 mlynedd bellach ac mae angen cynnal craffu manwl ar ôl deddfu er mwyn ystyried a yw'r amddiffyniad rhannol wedi cyflawni ei nodau deddfwriaethol a'r rheini a ragwelwyd gan Gomisiwn y Gyfraith.

## 9.5 Dynladdiad Gwirfoddol

### 9.5.1 Colli Rheolaeth

9.5.2 Roedd y dadansoddiad o'r sampl o achosion yn dangos mai'n anaml y dibynnwyd ar yr amddiffyniad o golli rheolaeth ac mai anaml yr oedd wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus wrth ddibynnu arno. Dibynnwyd arno mewn 11 (9%) o'r 120 o achosion yn y sampl o achosion. Roedd yn llwyddiannus mewn 2 o'r achosion hynny.

9.5.3 Mae'n ymddangos nad yw'r amddiffyniad rhannol yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus wrth ddibynnu arno gan ddynion sydd wedi lladd eu partneriaid benywaidd personol. Roedd y ddau achos yn y sampl o achosion lle cafodd ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn ymwneud â menywod a oedd wedi lladd eu partner gwrywaidd camdriniol. Yn y ddau achos hynny, roedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi dod â chyhuddiad o lofruddiaeth ac yn achos un fenyw fe aeth i ail dreial wedi i'r rheithgor yn y treial cyntaf fethu â chytuno ar reithfarn.

9.5.4 Y prif nod mewn polisi wrth gyflwyno'r amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth oedd ceisio darparu ar gyfer y cysyniad o rym gormodol mewn amddiffyniadau o hunanamddiffyn.[240] Ar y sail hon y cyflwynwyd yr elfen o ofni trais difrifol yn y sbardun gofynnol (un ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag ymdeimlad cyfiawnadwy o gael cam difrifol).

---

[239] Partial Defences to murder L.C 290 yn 1.1.

[240] Gweler paragraff 9.4.10

9.5.5 Mae geiriad a.54 o Ddeddf 2009 yn gymhleth ac mae'r llysoedd wedi gorfod ei dehongli mewn ffordd sy'n ymddangos yn groes i amcan polisi'r amddiffyniad rhannol. Yn achos *Clinton*[241] daliwyd bod rhaid cael tystiolaeth o bob un o dair elfen yr amddiffyniad er mwyn gadael yr amddiffyniad rhannol i'r rheithgor. Yr elfennau yw (i) colli rheolaeth, (ii) sbardun (fel y mae wedi'i ddiffinio mewn statud) i'r colli rheolaeth hwnnw a (iii) y posibilrwydd y byddai rheithgor a gafodd gyfarwyddyd priodol yn gallu dod i'r casgliad y byddai rhywun o oed a rhyw y diffynnydd â graddau normal o oddefgarwch ac ymatal yn amgylchiadau'r diffynnydd wedi gallu ymateb yn yr un ffordd neu mewn ffordd debyg i'r hyn a wnaeth. Mae'r elfennau hyn yn annibynnol ar ei gilydd ac er mwyn gadael yr amddiffyniad rhannol i'r rheithgor, rhaid cael tystiolaeth ddigonol o bob un fel y byddai rheithor yn dod i'r casgliad rhesymol bod yr amddiffyniad yn gymwys. Mae gofyn ystyried pob elfen ar wahân. Mae'r amgylchiadau lle gellir gadael yr amddiffyniad rhannol i'r rheithgor yn gwrthgyferbynnu â'r amgylchiadau yn yr amddiffyniad rhannol o gythrudd a ddiddymwyd lle'r oedd y barnwr yn gorfod ei adael i'r rheithgor os oedd yn credu bod tystiolaeth a allai fod yn sail i gasgliad gan y rheithgor y gallai'r amddiffyniad fod yn gymwys.

9.5.6 Rhaid i'r erlyniad negyddu'r amddiffyniad at y safon droseddol lle mae'r diffynnydd yn ei godi a byddai rhai'n dadlau bod y gyfraith yn rhy gymhleth i reithgorau gan ei bod yn gofyn am ystyriaeth driphlyg i negyddiadau dyblyg. Mae'r canlynol yn ychwanegu at yr anhawster. Yn gyntaf, nid yw'r llysoedd wedi penderfynu'n iawn beth a olygir wrth golli rheolaeth ac maent wedi osgoi dehongli'r geiriau'n fanwl. Gweler achos *R v Gurpiner*[242] lle gwrthododd y Llys Apêl benderfynu beth yn union roedd y geiriau "loss of control" yn ei olygu. Yn ail, nid yw dehongliad wedi'i seilio ar Saesneg cyffredin yn gyson â'r ffaith bod ymchwil wedi dangos bod nifer o laddiadau domestig yn cael eu cynllunio.[243] Gwnaed y gyfraith cyn i reolaeth drwy orfodaeth ddod yn rhan o'n disgwrs cyfreithiol a heb gyfeirio o gwbl at yr egwyddorion pŵer/rheolaeth ac endrapio sydd wedi dilyn cyhoeddi gwaith Evan Stark sy'n dehongli rheolaeth drwy orfodaeth fel trosedd yn erbyn rhyddid. Mae'r naratif am 'drosedd traserch' sy'n parhau ym mlaen meddwl cymdeithas yn gwbl anghyson ag ymateb i achos eithafol o reolaeth drwy orfodaeth. Mae hyn er gwaethaf y cafeat yn y ddeddfwriaeth nad yw'r colli rheolaeth yn gorfod bod yn sydyn: roedd hyn wedi'i fwriadu, wrth gwrs, i ddarparu ar gyfer y ffordd y mae menywod sydd wedi profi cam-drin domestig dros gyfnod hir yn ymateb weithiau drwy ladd.[244]

---

241 [2012] EWCA Crim 2.

242 *[2015] 1 Cr. App. R 31* yn [20].

243 Gweler y cyfeiriad at ddilyniant mewn amser mewn achosion o lofruddiaeth a datblygu'r llinell amser lladdiadau 8 cam yn Rhan 5 o'r adroddiad hwn.

244 *R v. Humphreys. (supra)*

9.5.7 Mae nifer o broblemau'n codi wrth gysylltu hanes o reolaeth drwy orfodaeth â'r amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth.

9.5.8 Yn gyntaf, o ran yr angen i gael tystiolaeth ddigonol o'r colli rheolaeth ei hun: ni ellir casglu bod colli rheolaeth wedi digwydd ar sail y dystiolaeth.[245] Yr effaith ymarferol o hyn yw ei wneud yn amddiffyniad rhannol annibynnol yn hytrach na dewis yn lle amddiffyniad o hunanamddiffyn. Hon oedd y sefyllfa mewn achos rydym yn cyfeirio ato (**CF21**) lle'r oedd y diffynnydd benywaidd wedi seilio ei hamddiffyniad ar ddiffyg bwriad – roedd barnwr y treial wedi gwrthod gadael y mater o golli rheolaeth i'r rheithgor ar y sail nad oedd tystiolaeth ddigonol i alluogi'r rheithgor i ddod i'r casgliad bod yr amddiffyniad yn gymwys. Mewn termau ymarferol, rhaid i'r cyhuddedig neu dyst arall dystio i'r colli rheolaeth. Mae'n annhebygol y bydd tystion eraill mewn lleoliad domestig gan ei bod yn debygol mai dim ond y cyhuddedig a'r ymadawedig a oedd yn bresennol. O ran tystiolaeth y diffynnydd, rhaid iddi dystio i'r ffaith iddi golli rheolaeth ac felly mae'r amddiffyniad rhannol yn anghyson â'r amddiffyniad llwyr o hunanamddiffyn a fydd yn dibynnu ar y ffaith bod yr ymateb yn bwyllog, oni bai ei fod yn dod o fewn a.76 (5A), (8A) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008.[246] Mae *mens rea* neu fai yn cael ei negyddu mewn amddiffyniad o hunanamddiffyn ond, oherwydd natur liniarol yr amddiffyniadau rhannol, mae holl elfennau'r llofruddiaeth yn bresennol ac felly mae'r ddau amddiffyniad yn anghyson â'i gilydd mewn egwyddor. Yr effaith ymarferol o hyn yw bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn tueddu i beidio â derbyn pleon euog i gyhuddiadau o ddynladdiad drwy golli rheolaeth a'i bod yn well ganddo geisio euogfarn am lofruddiaeth mewn treial.

9.5.9 Yn ail, er bod modd bodloni'r maen prawf ar gyfer sbardun o dan a.55(6), am fod rheolaeth drwy orfodaeth yn gallu arwain at ymdeimlad o fod wedi cael cam difrifol, nid yw'n arwain o reidrwydd at yr hyn y gellir ei alw'n ofn trais *difrifol*, sydd yn drothwy uchel iawn. Y cam y mae rheolaeth drwy orfodaeth yn ei achosi yw'r cam o endrapio nid y cam o godi ofn ar rywun ar y pryd.[247] Fe all ofn chwarae rhan mewn rheolaeth drwy orfodaeth ond mae ffactorau eraill ar waith fel dibyniaeth. O ganlyniad i hyn, mae'r ddioddefwraig yr un mor debygol o deimlo dicter oherwydd y tresmasu ar ei hymreolaeth a'i rhyddid ag y mae o deimlo ofn. Mae hyn yn debygol o filwrio yn erbyn y defnydd llwyddiannus o'r amddiffyniad rhannol gan ei bod yn rhy hawdd cyfuno dicter â "considered desire for revenge"[248] sy'n atal y

[245] R v. Goodwin [2018] EWCA 2287.

[246] Sy'n caniatáu i'r defnydd o rym fod yn anghymesur.

[247] Er bod ofn yn achosol ac yn chwarae rhan, nid yw'n ddigon o reidrwydd ar gyfer yr amddiffyniad rhannol. Hefyd, er bod endrapio'n gallu cael ei achosi gan ofn o ganlyniad i weithredoedd sy'n orfodaethol, fe all amlygu emosiynau eraill sydd heb eu cynnwys yn yr amddiffyniad rhannol.

[248] Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a5 (4): ni fydd yr adran hon yn gymwys os oedd D wrth gyflawni neu fod â rhan yn y lladd wedi gweithredu drwy awydd pwyllog am ddial.

diffynnydd rhag dibynnu ar yr amddiffyniad rhannol hwn. Yn ogystal â hyn, ceir canfyddiadau stereoteipaidd o'r modd y dylai dioddefwyr ymddangos. Yng nghyd-destun yr ystafell llys, mae problemau o ran canfyddiadau cymdeithas o bwy a pha fath o fenyw sydd yn ddioddefwr yn cael eu gweld yn glir.

9.5.10 Yn drydydd, mae natur benodol neu bersonoledig rheolaeth drwy orfodaeth yn gallu cyfrannu at gynyddu difrifoldeb y sbardun yn hytrach na'r colli rheolaeth. Gall hyn fod yn ddefnyddiol mewn achosion rheolaeth drwy orfodaeth oherwydd natur benodol neu bersonol iawn y cam-drin, ond oherwydd y penderfyniad yn achos *Clinton*,[249] sef bod rhaid rhoi ystyriaeth ar wahân i dair elfen yr amddiffyniad rhannol, sef colli rheolaeth, y sbardun, ac a fyddai rhywun o oed a rhyw D â graddau rhesymol o oddefgarwch ac ymatal wedi ymateb mewn ffordd debyg, os na ellir dweud bod colli rheolaeth wedi digwydd, yna ni ellir hyd yn oed ystyried difrifoldeb y sbardun. Os gall yr erlyniad ddangos nad oedd y diffynnydd wedi colli hunanreolaeth, yna ni all y rheithgor ystyried y sbardun, pa mor gryf bynnag yw'r dystiolaeth.

9.5.11 Dim ond mewn dau achos yn y sampl o achosion yr oedd colli rheolaeth wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus fel amddiffyniad. Yn y ddau achos, roedd y cyflawnwr yn fenyw a oedd wedi profi rheolaeth drwy orfodaeth dan law'r ymadawedig. Roedd y dedfrydau o fewn y canllawiau ar ddynladdiad. Roedd y ddwy euogfarn yn ganlyniad i dreialon am lofruddiaeth ac, yn ein barn ni, mae'n arwyddocaol bod yr amddiffyniad yn y treialon yn gyfreithwyr arbenigol a/neu'n gwnsler a/neu wedi cael mewnbwn sylweddol gan gyfreithwyr arbenigol. Hyd yn oed wedyn, roedd y cyflawnwr mewn un achos wedi'i roi ar dreial yr eildro wedi i'r rheithgor cyntaf fethu â dod i reithfarn.

9.5.12 Yn yr achos hwnnw, roedd y rheithgor wedi cael y diffynnydd yn euog o ddynladdiad er nad oedd yn hawdd canfod y sbardun ac felly roedd effaith ar y ddedfryd (**CF08**).

## 9.6 Cyfrifoldeb Lleiedig

9.6.1 Mae'r amddiffyniad rhannol yn gofyn i'r diffynnydd brofi yn ôl pwysau tebygolrwydd ei fod ar adeg y lladd yn dioddef gan weithredu meddyliol annormal yn codi o gyflwr meddygol cydnabyddedig a oedd yn amharu ar ei allu i ddeall ei ymddygiad, i farnu'n rhesymol neu arfer hunanreolaeth. Hefyd, er mwyn darparu esboniad am y lladd, rhaid cael "significant contributory factor in causing D to carry out the conduct. [of killing]."

[249] *Ibid.*

9.6.2 Y brif broblem o ran cyfrifoldeb lleiedig mewn achosion lle mae menywod yn defnyddio trais angheuol yw ei fod yn trin ymateb normal i gam-drin domestig fel pe bai'n seicolegol annormal. Mae rheolaeth drwy orfodaeth yn batrwm ymddygiad sy'n amlygu ymateb rhagweladwy gan y dioddefwr. Priodolir cyfrifoldeb lleiedig i weithredu meddyliol annormal sydd wedi'i achosi gan gyflwr meddygol.

9.6.3 Mae cam-drin domestig blaenorol yn gallu arwain at roi diagnosis am gyflyrau fel Anhwylder Straen Wedi Trawma neu anhwylder personoliaeth (yn dibynnu ar brofiadau yn ystod plentyndod a'r glasoed) sy'n peri i rywun fod yn orwyliadwrus ac ymateb i rywbeth mewn ffordd benodol.

9.6.4 Mewn sefyllfaoedd o'r math hwnnw y dylai'r rhyngweithio rhwng "recognised medical conditions"[250] (er enghraifft, Anhwylder Straen Wedi Trawma)[251] a'r canlyniadau i reolaeth drwy orfodaeth ddod yn ystyriaeth bwysig. Derbyniwyd y ffaith bod dynameg o'r fath gan y Llys Apêl yn achos *Challen.*[252]

9.6.5 Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o seiciatryddion yn arbenigwyr mewn cam-drin domestig neu reolaeth drwy orfodaeth a byddant un ai'n methu â chanfod y patrwm rheolaeth drwy orfodaeth a/neu'r ffordd y mae un ai wedi achosi neu wedi rhyngweithio â chyflyrau seiciatrig. Byddai o gymorth iddynt gael barn arbenigol ar gam-drin domestig neu reolaeth drwy orfodaeth: gwelir o hyd nad yw arbenigwyr o'r fath yn cael eu galw fel arfer.

9.6.6 Yn ein sampl o achosion, roedd pedair menyw wedi'u cael yn euog o ddynladdiad ar sail cyfrifoldeb lleiedig.

## 9.7 Diffyg Bwriad i Achosi Niwed Difrifol Iawn

9.7.1 Rydym wedi nodi ym mha gyd-destun y mae'r amddiffyniad hwn i gyhuddiad o lofruddiaeth wedi codi mewn achosion o drais cydsyniol wrth gael rhyw ym mharagraff 8.3.7 yn yr adroddiad hwn.

9.7.2 Yn y sampl o achosion, roedd dau achos a oedd wedi arwain yn y pen draw at euogfarnau am ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol lle mai'r amddiffyniad oedd nad oedd bwriad i achosi marwolaeth neu niwed difrifol iawn a'i fod wedi digwydd wrth gael rhyw. Yn achos **CM9** roedd yr erlyniad wedi dechrau fel un am

[250] Gweler a.2(1)(a) o Ddeddf Lladdiadau 1957. Mae'r prawf statudol am gyfrifoldeb lleiedig yn gofyn i'r amddiffyniad brofi yn ôl pwysau tebygolrwydd bod D wedi dioddef gan "abnormality of mental functioning" sy'n codi o "recognised medical condition."

[251] *R v. Farieissia Surayah Shabirah Martin [2020] EWCA Crim 1790.*

[252] Er bod y llys yn yr achos hwnnw yn ystyried y rhyngweithio rhwng anhwylder personoliaeth dibynnol, anhwylder tymer a oedd yn ffinio ar anhwylder affeithiol deubegynol a hanes hir o reolaeth drwy orfodaeth.

lofruddiaeth ac wedi gorffen fel un am ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol lle'r oedd yr erlyniad wedi dod i'r casgliad na fyddai'n gallu profi'r bwriad gofynnol am lofruddiaeth. Cafwyd pryder ymysg academyddion a sylwebwyr eraill am ganlyniadau anfwriadol ers gweithredu'r diwygiadau i'r amddiffyniadau rhannol yn sgil Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Un canlyniad anfwriadol i'r diwygio ar yr amddiffyniadau rhannol yw bod dynion wedi dibynnu'n fwy ar amddiffyniadau eraill sydd i bob pwrpas yn symud y bai at y dioddefwr (benywaidd). Mae'r Athro Edwards wedi nodi bod y lleihad yn y ddibyniaeth ar yr amddiffyniadau rhannol o golli rheolaeth a chyfrifoldeb lleiedig wedi mynd law yn llaw ag ymddangosiad yr 'amddiffyniad rhyw garw' lle bydd y cyflawnwr yn dadlau na all ef[253] fod yn euog o lofruddiaeth gan nad oedd ganddo fwriad i achosi niwed corfforol difrifol. Mae'r datblygiad diweddaraf hwn wedi'i grynhoi'n ddiweddar gan Herring a Bows sy'n ei alw'n naratif anwir arall, ac yn disgrifio ymdrechion mewn deddfwriaeth i ymdrin â'r amddiffyniad rhyw garw fel a ganlyn:

> "[They] have not appreciated that the problem is not with the substantive law itself, but the way evidence is presented at trial and the broader social context within which these offences occur. The history of the law of male violence against women has been marked by excuses for violence, often shifting the blame and focus of the attention on the woman and away from the accountability of the male behaviour. This history of killings in that context is littered with excuses such as 'she had an affair' or 'she kept nagging' or 'she was just so annoying' or now, 'she enjoyed rough sex.' So there is a long history of the law enabling men to use stories to justify their abuse. The 'rough sex defence is the latest in long line of these."[254]

9.7.3 Ym mharagraff 8.3.20 uchod rydym wedi cyfeirio at y sylwadau gan farnwr y treial yn **CM9** i'r perwyl nad oedd cwestiynau penodol wedi'u gofyn i'r cyflawnwr yn ystod yr ymchwiliad/erlyniad. Mae hyn yn ategu'r farn a fynegwyd gan Herring a Bows.

9.7.4 Mewn unrhyw adolygiad o amddiffyniadau, dylid ystyried diffyg bwriad yng nghyd-destun y mathau hyn o achosion.

[253] Yn y rhan fwyaf o lawer o achosion, dynion sy'n lladd menywod yn yr amgylchiadau hyn ac nid fel arall.

[254] Herring (Jonathan) a (Hannah): *Regulating intimate violence: rough sex, consent and death* – [2021] CFLQ 311, tudalen 7.

9.7.5 **Argymhelliad 17: Rydym yn argymell** cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r amddiffyniadau i gyhuddiadau o lofruddiaeth ar ffurf ymgynghoriad cyhoeddus llawn â'r holl randdeiliaid gan gynnwys barnwyr y llysoedd uwch. Dylai hyn gynnwys craffu ar ôl deddfu ar yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth, ystyriaeth i'r amddiffyniad o hunanamddiffyn ac ystyriaeth i'r hyn y mae sylwebwyr wedi'i alw'n 'amddiffyniad rhyw garw'.



Clare Wade KC

Mehefin 2022

# 10. Tabl Argymhellion

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br>Paragraff 5.4.23 | **Casglu data**<br>Rydym yn argymell y dylid cael system benodol i gasglu'r holl ddata perthnasol mewn perthynas â'r holl laddiadau domestig, i'w chynnal gan y Swyddfa Gartref neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y cyd â Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig. |
| **Argymhelliad 2**<br>Paragraff 5.4.24 | **Hyfforddiant**<br>Rydym yn argymell y dylid cael hyfforddiant gorfodol i'r holl gyfreithwyr a barnwyr ar ddeall a chymhwyso'r cysyniad o reolaeth drwy orfodaeth. |
| **Argymhelliad 3**<br>Paragraff 7.1.13 | **Mynd â chyllell neu arf i'r lleoliad**<br>Rydym yn argymell bod y dechreubwynt o 25 mlynedd sy'n gymwys mewn amgylchiadau lle'r eir â chyllell neu arf arall i'r lleoliad yn cael ei ddatgymhwyso mewn achosion llofruddiaeth ddomestig am ei fod yn un lle na roddir unrhyw ystyriaeth i'r ffaith bod y dioddefwr yn agored i niwed. Mae'r mathau o niwed y cyflwynwyd y paragraff 5A blaenorol er mwyn eu hatal yn rhai gwahanol iawn i'r mathau o niwed sy'n digwydd mewn llofruddiaethau domestig. |
| **Argymhelliad 4**<br>Paragraff 7.1.14 | Rydym yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig o fewn y fframwaith dedfrydu presennol o dan Atodlen 21. Dylid pennu lefel y difrifoldeb drwy gymhwyso'r model rheolaeth drwy orfodaeth o fewn y dechreubwynt 15 mlynedd arferol. |
| **Argymhelliad 5**<br>Paragraff 7.1.15 | **Ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn ffactorau gwaethygol a lliniarol**<br>Rydym yn argymell lle mae hanes o reolaeth drwy orfodaeth, y dylai hyn fod yn ffactor gwaethygol neu'n ffactor lliniarol ac y dylid diwygio paragraffau 9 a 10 o Atodlen 21 yn unol â hynny. |
| **Argymhelliad 6**<br>Paragraff 7.1.16 | **Diwedd perthynas**<br>Rydym yn argymell os bydd llofruddiaeth yn digwydd ar ddiwedd perthynas neu pan fydd y dioddefwr wedi mynegi dymuniad i adael y berthynas, yna y dylid ystyried hyn yn ffactor gwaethygol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 7** | Rydym yn argymell y dylid diwygio'r ffactorau lliniarol presennol ym mharagraff 10(d) o Ddeddf Dedfrydu 2020 fel y byddant yn gyson â'r polisi sy'n sail i a.55(5)(c) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Yn benodol, nad yw anffyddlondeb rhywiol ar ran yr ymadawedig yn gallu lliniaru difrifoldeb y llofruddiaeth. |
| **Argymhelliad 8** | **Gor-ladd**<br>Rydym yn argymell y dylai gor-ladd gael ei ddiffinio mewn cyfraith yn niwed cyfreithiol penodol ac y dylai fod yn ffactor gwaethygol mewn llofruddiaeth. Dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. |
| **Argymhelliad 9**<br>Paragraff 7.1.19 | **Tagu**<br>Rydym yn argymell os ceir llofruddiaeth drwy dagu neu lofruddiaeth lle mae tagu wedi digwydd, yna y dylai'r dull hwn o ladd fod yn ffactor gwaethygol statudol ac y dylid diwygio paragraff 9 o Atodlen 21 yn unol â hynny. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion tebyg ynghylch dynladdiad. Gweler argymhellion 11 a 12 isod. |
| **Argymhelliad 10**<br>Paragraff 7.1.20 | Rydym yn argymell na ddylai'r defnydd o arf gael ei weld o reidrwydd yn ffactor gwaethygol mewn llofruddiaethau domestig. |
| **Argymhelliad 11**<br>Paragraff 8.1.23 | **Dynladdiad gwirfoddol**<br>Rydym yn argymell mewn achosion o ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig, y dylid ystyried diwygio'r canllawiau dedfrydu i wneud tagu yn ffactor gwaethygol. |
| **Argymhelliad 12**<br>Paragraff 8.1.24 | Rydym yn argymell mewn achosion o ddynladdiad drwy golli rheolaeth, y dylid ystyried diwygio'r canllawiau dedfrydu i wneud tagu yn ffactor gwaethygol. |
| **Argymhelliad 13**<br>Paragraff 8.1.25 | Rydym yn argymell mewn achosion dynladdiad, y dylid ystyried diwygio'r canllawiau dedfrydu i wneud rheolaeth drwy orfodaeth ar ran cyflawnwr y lladd dros y dioddefwr yn ffactor gwaethygol sy'n dangos beiusrwydd uwch. Ymhellach, y dylid ystyried gwneud rheolaeth drwy orfodaeth ar ran dioddefwr y lladd tuag at gyflawnwr y lladd yn ffactor sy'n dangos beiusrwydd is. |
| **Argymhelliad 14**<br>Paragraff 8.1.26 | Rydym yn argymell ystyried a ddylid diwygio'r Egwyddorion Cyffredinol ar Gam-drin Domestig i gynnwys cyfeiriad penodol i'r perwyl bod ymosodiadau drwy dagu nad yw'n angheuol yn ffactor gwaethygol. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 15**<br>Paragraff 8.2.10 | Rydym yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth mewn achosion dynladdiad domestig i ddiwygio'r canllawiau dedfrydu i nodi nad yw'r defnydd o arf o reidrwydd yn ffactor gwaethygol. |
| **Argymhelliad 16**<br>Paragraff 8.3.29 | Rydym yn argymell lle mae marwolaeth yn digwydd yng nghwrs trais yr honnwyd ei fod yn gydsyniol yn ystod cyfarfyddiad rhywiol rhwng y cyflawnwr a'r dioddefwr yna, pa un a yw'r troseddwr yn cael ei gyhuddo o ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon neu ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol, y dylai'r lladdiad gael ei ddynodi'n un sy'n perthyn i gategori B, beiusrwydd uchel. |
| **Argymhelliad 17** | Rydym yn argymell cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r amddiffyniadau i gyhuddiadau o lofruddiaeth ar ffurf ymgynghoriad cyhoeddus llawn â'r holl randdeiliaid gan gynnwys barnwyr y llysoedd uwch. Dylai hyn gynnwys craffu ar ôl deddfu ar yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth, ystyriaeth i'r amddiffyniad o hunanamddiffyn ac ystyriaeth i'r hyn y mae sylwebwyr wedi'i alw'n 'amddiffyniad rhyw garw'. |

# 11. Atodiadau

## Atodiad A: Cylch Gorchwyl

Gweler: https://www.gov.uk/government/publications/domestic-homicide-sentencing-review-terms-of-reference/domestic-homicide-sentencing-review-terms-of-reference (Cyrchwyd 16 Chwefror 2023)

**1. Pwrpas yr Adolygiad**
Adolygiad i ganfod, i'r graddau sy'n bosibl, sut mae'r gyfraith bresennol yn gymwys i achosion lladdiad domestig (sy'n cael eu herlyn ar sail cyhuddiad o lofruddiaeth neu ddynladdiad) lle mae unigolyn wedi achosi marwolaeth partner neu gyn-bartner personol, a nodi opsiynau ar gyfer diwygio lle y bo'n briodol.

**2. Amcanion**
Bydd yr adolygiad yn edrych ar groestoriad o achosion (drwy adolygiad cychwynnol o'r achosion) i ganfod sut mae achosion lladdiad domestig yn cael eu trin o dan adrannau perthnasol o'r gyfraith trosedd bresennol, yn cynnwys egwyddorion statudol ar gyfer dedfrydu am lofruddiaeth mewn perthynas â gorchmynion cyfnod gofynnol a Chanllawiau Dedfrydu perthnasol mewn perthynas â dynladdiad, er mwyn asesu sut mae cyflawnwyr a dioddefwyr yn cael eu trin o dan y gyfraith.

Bydd yr adolygiad yn ystyried y canlynol:

- Effaith dechreubwyntiau statudol ar gyfer cyfnodau gofynnol sydd wedi'u nodi yn Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 a'r ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol ym mharagraffau 9 a 10 yn yr un Atodlen ar ddedfrydau am lofruddiaeth lle mae'r dioddefwr yn bartner neu'n gyn-bartner personol i'r cyflawnwr. Bydd hyn yn cynnwys asesiad i ganfod a yw'r dechreubwyntiau a'r ffactorau gwaethygol a lliniarol hyn yn arwain at wahaniaethau o ran rhywedd (neu unrhyw wahaniaethau eraill) o ran canlyniadau dedfrydu.
- Bydd yr adolygiad yn asesu wedyn, ar sail y dystiolaeth hon, a yw'r dechreubwyntiau statudol yn Atodlen 21 a'r ffactorau gwaethygol a lliniarol, fel y maent yn cael eu cymhwyso yn yr achosion hyn o laddiad domestig, yn rhai sy'n addas i'w diben.
- Un mater penodol y bydd yr adolygiad yn ei ystyried yw sut mae'r darpariaethau perthnasol yn Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 mewn perthynas â llofruddiaeth a'r Canllawiau Dedfrydu mewn perthynas â dynladdiad yn cael eu defnyddio mewn achosion lladdiad domestig lle mae arf wedi'i ddefnyddio mewn gwahanol amgylchiadau, yn enwedig achosion lle daethpwyd ag arf i leoliad y lladdiad gyda'r bwriad gofynnol a lle mae arf sydd eisoes yn y lleoliad wedi cael ei ddefnyddio i ladd.

- Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried unrhyw wahaniaethau yn y dull o ddedfrydu mewn achosion lle mae dioddefwr cam-drin domestig wedi defnyddio arf i ladd cyflawnwr cam-drin o’r fath o gymharu ag achosion lladdiad domestig lle na ddefnyddiwyd arf (gan un ai dioddefwr neu gyflawnwr cam-drin domestig) neu lle defnyddiwyd arf gan gyflawnwr cam-drin domestig yn erbyn yr un sy’n dioddef ganddo, mewn achosion llofruddiaeth a dynladdiad.
- Y defnydd o’r amddiffyniadau presennol i gyhuddiadau o llofruddiaeth lle defnyddir nhw gan ddioddefwyr cam-drin domestig sydd wedi lladd eu camdriniwr.
- Mae hyn i gynnwys ystyriaeth benodol i unrhyw wahaniaethau, o ran canlyniadau achosion (yn cynnwys canlyniadau dedfrydu), sy’n codi o ddefnyddio’r amddiffyniadau hyn, yn cynnwys amddiffyniadau rhannol, o gymharu â chyhuddiadau o lofruddiaeth lle nad yw’r dioddefwr wedi bod yn gamdriniwr.
- Y ffordd y mae’r Canllawiau Dedfrydu Diffiniol ar gyfer Dynladdiad yn cael eu cymhwyso mewn achosion lladdiad domestig, yn enwedig y rheini sy’n berthnasol i gam-drin domestig a sut y gallant effeithio ar ganlyniadau dedfrydu.

**3. Cwmpas**

Bydd yr adolygiad yn edrych ar achosion lladdiad domestig lle mae unigolyn wedi achosi marwolaeth partner neu gyn-bartner personol ac wedi cael ei gyhuddo a/neu ei gael yn euog o un ai llofruddiaeth neu ddynladdiad. Bydd yr achosion hyn wedi’u trafod gan lysoedd yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr adolygiad cychwynnol o achosion yn canolbwyntio i ddechrau ar ddadansoddi sylwadau dedfrydu mewn perthynas â’r croestoriad o achosion, h.y. achosion sydd wedi arwain at euogfarn am y naill drosedd neu’r llall. Bydd yr adolygiad cychwynnol o achosion hefyd yn canfod ac yn dadansoddi data perthnasol.

**4. Allbynnau**

Bydd adroddiad cychwynnol a fydd yn ceisio darparu dadansoddiad o ddetholiad o’r materion uchod a godwyd o wybodaeth a gafwyd mewn achosion blaenorol o laddiad domestig (‘yr adolygiad cychwynnol o achosion’) ac yn dod i gasgliadau lle y bo modd.

Rhennir hwn â’r adolygydd annibynnol (gweler Llywodraethu isod) a fydd yn ystyried y canfyddiadau ac, os yw’n briodol, yn gwneud argymhellion ar gyfer newid. Dylai unrhyw argymhellion fod yn seiliedig ar dystiolaeth i’r graddau y gellir dangos bod modd eu priodoli’n uniongyrchol i ganfyddiadau’r adolygiad cychwynnol o achosion, unrhyw ddadansoddiad cysylltiedig o ddata ac unrhyw ddadansoddiad allanol ychwanegol y mae’r adolygydd annibynnol yn credu y gall fod yn berthnasol. Gall yr adolygydd annibynnol gynnal rhagor o ddadansoddi mewnol lle tybir bod hynny’n briodol.

Cyhoeddir canfyddiadau’r adolygiad cychwynnol o achosion a chanfyddiadau’r adolygydd annibynnol ar ôl eu hystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn diwedd yr adolygiad.

**5. Amseru**

Dylid cynnal yr adolygiad cychwynnol o achosion ac adrodd arno erbyn Gorffennaf 2021. Rhaid cyflwyno'r adolygiad llawn, yn cynnwys unrhyw argymhellion, i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn diwedd 2021. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried yr adolygiad a'i argymhellion cyn penderfynu a oes angen ymgynghori ymhellach neu'n cyhoeddi'r adroddiad.

**6. Llywodraethu a Methodoleg**

Bydd yr adolygydd yn arbenigwr annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac a fydd yn atebol iddo am gwblhau'r adolygiad. Cytunir ar fanylion y llywodraethu a fydd yn sicrhau'r atebolrwydd hwn a'r fethodoleg ar gyfer yr adolygiad – yn cynnwys dadansoddi'r adolygiad cychwynnol o achosion ac ymgynghori â llywodraeth ganolog a chyrff perthnasol eraill – rhwng yr arbenigwr annibynnol a'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Atodiad B: Rhestr Termau

**Actus reus** – yr elfen allanol mewn trosedd h.y. yr elfen nad yw'n ymwneud â chyflwr meddwl y troseddwr. Fel arfer bydd yr actus reus yn cynnwys tair elfen sef elfen yr ymddygiad (y weithred), elfen yr amgylchiadau (y matrics ffeithiol lle mae'r weithred yn digwydd) ac elfen y canlyniad (canlyniad y weithred).

**Adolygiad o Laddiad Domestig (DHR)** – archwiliad o'r amgylchiadau lle mae neu lle mae'n ymddangos bod marwolaeth rhywun 16 oed neu'n hŷn yn ganlyniad i drais, cam-drin neu esgeuluster gan rywun yr oedd yn perthyn iddo neu yr oedd wedi bod mewn perthynas bersonol ag ef.

**Amddiffyniad rhyw garw** – y term y mae sylwebwyr yn ei ddefnyddio i ddisgrifio sefyllfa lle mae'r diffynnydd yn haeru bod y dioddefwr wedi marw neu wedi'i anafu o ganlyniad i gael rhyw garw ar ôl cydsynio iddo.

**Anhwylder Straen Wedi Trawma** – diagnosis seiciatrig sy'n ganlyniad i'r ffaith bod rhywun wedi profi neu wedi bod yn dyst i ddigwyddiad trawmatig, neu ddigwyddiadau trawmatig yn achos Anhwylder Straen Wedi Trawma Cymhleth.

**Benywladdiad** – lladd menywod a merched am mai menywod a merched ydyn nhw.

**Bwriad dirgel** – bwriad i achosi canlyniad y tu hwnt i'r drosedd neu weithred droseddol dan sylw.

**Byrbwylltra** – elfen bai lle mae'r diffynnydd yn sylweddoli bod perygl a lle mae'n afresymol yn yr amgylchiadau sy'n hysbys iddo am y perygl ei fod wedi mentro i'r perygl hwnnw.

**Canllawiau dedfrydu** – canllawiau a ddyroddir gan y Cyngor Dedfrydu ar ôl ymgynghori'n ffurfiol arnynt. Pwrpas y canllawiau yw creu tryloywder a chysondeb.

**Cenfigen afiach** – syndrom seiciatrig sy'n seiliedig ar genfigen batholegol sydd hefyd yn cael ei alw'n "syndrom Othello".

**Colli rheolaeth** – un o'r amddiffyniadau rhannol i gyhuddiad o lofruddiaeth sy'n lleihau llofruddiaeth i fod yn ddynladdiad os yw'r diffynnydd wedi lladd o ganlyniad i golli rheolaeth sydd wedi'i sbarduno gan ofn trais difrifol neu ymdeimlad cyfiawnadwy o gael cam difrifol mewn amgylchiadau lle byddai rhywun o oed a rhyw y diffynnydd â graddau normal o oddefgarwch ac ymatal yn amgylchiadau'r diffynnydd wedi gallu ymateb yn yr un ffordd neu mewn ffordd debyg i'r hyn a wnaeth.

**Comisiwn y Gyfraith** – corff annibynnol statudol sy'n dal cyfraith Cymru a Lloegr dan sylw ac yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio.

**Croestoriadedd** – natur gydgysylltiedig categorïau cymdeithasol fel hil, dosbarth a rhywedd mewn perthynas ag unigolyn neu grŵp sy'n creu systemau o wahaniaethu neu anfantais sy'n gorgyffwrdd ac yn gyd-ddibynnol.

**Cyfarwyddiadau ymarfer** – cyfarwyddiadau a ddyroddir gan y llysoedd uwch yn amlinellu'r arferion gorau.

**Cyfnod gofynnol** – y cyfnod y mae'n rhaid ei dreulio gan droseddwr a gafwyd yn euog o lofruddiaeth a'i ddedfrydu i garchar am oes cyn y bydd yn gymwys i wneud cais am barôl.

**Cyfrifoldeb lleiedig** – un o'r amddiffyniadau rhannol i gyhuddiad o lofruddiaeth sy'n seiliedig ar weithredu meddyliol annormal sy'n codi o gyflwr meddygol cydnabyddedig sy'n effeithio'n sylweddol ar allu'r diffynnydd i ddeall natur ei ymddygiad, i ffurfio barn resymegol neu arfer hunanreolaeth ac sy'n darparu esboniad am y lladd.

**Cyngor Dedfrydu** – corff cyhoeddus anadrannol annibynnol a sefydlwyd yn 2010 sy'n datblygu canllawiau ar ddedfrydu, yn monitro effaith canllawiau dedfrydu ar ymarfer dedfrydu ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddedfrydu ymysg y cyhoedd.

**Cythrudd** – amddiffyniad rhannol i gyhuddiad o lofruddiaeth a ddiddymwyd lle byddai'r diffynnydd yn gallu honni ei fod wedi'i gythruddo i golli hunanreolaeth oherwydd pethau y mae'r dioddefwr wedi'u dweud neu eu gwneud.

**Cythrudd cronnol** – ymddygiad cythruddol a gyflawnwyd gan yr ymadawedig tuag at y diffynnydd sydd wedi cronni dros amser.

**DASH** – rhestr wirio o ddangosyddion cam-drin domestig, stelcio a thrais ar sail 'anrhydedd' – offeryn i'w ddefnyddio gan ymarferwyr (yr heddlu ac eraill) i adnabod dioddefwyr cam-drin domestig ac asesu lefel y risg.

**Dechreubwynt** – ffigur mewn canllawiau dedfrydu mewn perthynas â dedfrydau am droseddau heblaw llofruddiaeth (lle mae canllawiau wedi'u cynnwys yn Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020) sy'n gymwys i'r holl droseddwyr heb ystyried eu ple neu euogfarnau blaenorol. Mae'r canllawiau hefyd yn darparu rhestrau sydd heb fod yn hollgynhwysol o ffactorau gwaethygol a lliniarol sy'n ymwneud â chyd-destun y drosedd a'r troseddwr. Gall y ffactorau hyn arwain at addasu'r ffigur i fyny neu i lawr.

**Dibwyllo** – ystyr dibwyllo yw peri i rywun gwestiynu ei realiti ei hun. Mae'n gysylltiedig â rhywedd neu'n ymwneud yn benodol â phobl o rywedd penodol.

**Diffynnydd** – yr un sydd wedi'i gyhuddo o drosedd.

**Dynladdiad anwirfoddol** – lladd anghyfreithlon a gyflawnir heb y bwriad i achosi niwed difrifol iawn neu ladd ac sydd felly'n cynnwys dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon lle

mai byrbwylltra yw elfen y bai a dynladdiad drwy esgeuluster difrifol lle mai esgeuluster difrifol yw elfen y bai.

**Dynladdiad drwy esgeuluster difrifol** – dynladdiad anwirfoddol lle mae'r farwolaeth yn ganlyniad i dorri dyletswydd gofal y diffynnydd at yr ymadawedig drwy esgeuluster, lle'r oedd y dioddefwr drwy dorri'r ddyletswydd honno drwy esgeuluster yn wynebu perygl o farwolaeth a oedd yn amlwg a difrifol a lle'r oedd yr amgylchiadau mor feius fel eu bod yn gyfystyr ag esgeuluster difrifol.

**Dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon** – math o ddynladdiad anwirfoddol lle mai elfen y bai yw byrbwylltra.

**Dynladdiad gwirfoddol** – dynladdiad lle mai bwriad i achosi niwed difrifol iawn neu ladd yw elfen y bai ac felly bod holl elfennau llofruddiaeth yn bresennol ond bod difrifoldeb y drosedd wedi'i liniaru i fod yn ddynladdiad gan y naill neu'r llall o'r amddiffyniadau rhannol, sef cyfrifoldeb lleiedig neu golli rheolaeth.

**Elfen allanol** – gweler actus reus.

**Elfen y bai** – mens rea y drosedd neu gyflwr meddwl y troseddwr.

**Ffactor gwaethygol** – ffactor sy'n cynyddu difrifoldeb i ddiben y ddedfryd.

**Ffactor lliniarol** – ffactor sy'n cyfrannu at wneud y drosedd yn llai difrifol i ddiben y ddedfryd.

**Gor-ladd** – y defnydd o drais digymell, gormodol y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i achosi marwolaeth.

**Llofruddiaeth** – trosedd sydd â'r actus reus neu elfen allanol o achosi marwolaeth y dioddefwr yn anghyfreithlon ac sydd â'r mens rea neu elfen y bai o fwriad i ladd neu achosi niwed corfforol difrifol.

**Mens rea** – elfen y bai mewn trosedd sy'n ymwneud â chyflwr meddwl y troseddwr h.y. bwriad, byrbwylltra neu esgeuluster yn hytrach na'i weithred.

**Patriarchaeth** – system gymdeithasol lle mae dynion yn dal y grym er mantais iddyn nhw eu hunain a lle mae menywod wedi'u hatal rhag arfer grym.

**Perspecticide** – term a ddefnyddiwyd gan Evan Stark i ddisgrifio'r colli persbectif gan ddioddefwr rheolaeth drwy orfodaeth sydd wedi cael ei ddibwyllo.

**Syndrom y Fenyw/Gwraig a Gurwyd** – patrwm o arwyddion sy'n cael ei amlygu gan fenywod sy'n dioddef trais domestig cyson a oedd yn destun ymchwil gan Leonore E. Walker a oedd hefyd wedi bathu'r term. Roedd Walker wedi seilio ei damcaniaeth ar gylch

o drais yn cynnwys tyndra, argyfwng ffrwydrol a chymodi y byddai'r fenyw yn mynd drwyddo o leiaf ddwywaith. Daeth Walker i'r casgliad bod dioddefwyr yn aros mewn perthnasoedd lle'r oeddent yn cael eu curo am eu bod yn datblygu "diymadferthwch wedi'i ddysgu" o ganlyniad i'r digwyddiadau o drais eithafol.

**System Achosion Ddigidol Llys y Goron** – system electronig a ddefnyddir gan yr erlyniad, yr amddiffyniad a'r llys i gofnodi, storio a chyrchu holl ddeunydd yr achos mewn perthynas ag erlyniad yn Llys y Goron neu'r Llys Apêl (Adran Droseddol).

**Ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol/ rheolaeth drwy orfodaeth** – patrwm o gam-drin lle mae camdriniwr yn defnyddio strategaeth o dactegau anghilyddol sy'n cynnwys bygwth, ynysu a rheolaeth er mwyn tanseilio cadernid corfforol a seicolegol y dioddefwr lle mai'r brif ffordd i sicrhau rheolaeth yw rheoleiddio manwl ar ymddygiadau pob dydd sy'n gysylltiedig â rolau benywaidd stereoteipaidd fel gwneud gwaith tŷ a gofalu am blant gyda'r amcan o amddifadu'r dioddefwr o hawliau ac adnoddau sy'n rhan annatod o ddinasyddiaeth a phersonoldeb.

**Y Ceisydd** – yr un sy'n gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd.

**Yr Apelydd** – yr un sydd wedi cael caniatâd i apelio yn erbyn euogfarn neu ddedfryd.

# Atodiad C: Atodlen 21 Deddf Dedfrydu 2020

Gweler: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/17/schedule/21 (Cyrchwyd 16 Chwefror 2023)

**SCHEDULE 21**

DETERMINATION OF MINIMUM TERM IN RELATION TO MANDATORY LIFE SENTENCE FOR MURDER ETC

**Addasiadau etc. (heb newid y testun)**

**C1** Atodlen 21 wedi'i haddasu (28.6.2022) gan 2006 c. 52, a. 261A(5) (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (c. 32), aa. 148, 208(5)(p))

*Interpretation*

1 In this Schedule—

"child" means a person aged under 18;

"mandatory life sentence" means a mandatory life sentence passed in circumstances where the sentence is fixed by law.

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I1** Atodlen 21 paragraff 1 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

*Starting points*

2 (1) If—

(a) the court considers that the seriousness of the offence (or the combination of the offence and one or more offences associated with it) is exceptionally high, and

(b) the offender was aged 21 or over when the offence was committed,

the appropriate starting point is a whole life order.

(2) Cases that would normally fall within sub-paragraph (1)(a) include—

(a) the murder of two or more persons, where each murder involves any of the following—

(i) a substantial degree of premeditation or planning,

(ii) the abduction of the victim, or

(iii) sexual or sadistic conduct,

(b) the murder of a child if involving the abduction of the child or sexual or sadistic motivation,

**[F1** (ba) the murder of a child involving a substantial degree of premeditation or planning, where the offence was committed on or after the day on which section 125 of the Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022 came into force,**]**

(c) the murder of a police officer or prison officer in the course of his or her duty, where the offence was committed on or after 13 April 2015,

(d) a murder done for the purpose of advancing a political, religious, racial or ideological cause, or

(e) a murder by an offender previously convicted of murder.

**Diwygiadau i'r testun**

**F1** Atodlen 21 paragraff 2(2)(ba) wedi'i fewnosod (28.6.2022) gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (c. 32), aa. 125, 208(5)(l)

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I2** Atodlen 21 paragraff 2 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

3 (1) If—

(a) the case does not fall within paragraph 2(1) but the court considers that the seriousness of the offence (or the combination of the offence and one or more offences associated with it) is particularly high, and

(b) the offender was aged 18 or over when the offence was committed,

the appropriate starting point, in determining the minimum term, is 30 years.

(2) Cases that (if not falling within paragraph 2(1)) would normally fall within sub-paragraph (1)(a) include—

(a) in the case of a offence committed before 13 April 2015, the murder of a police officer or prison officer in the course of his or her duty,

(b) a murder involving the use of a firearm or explosive,

(c) a murder done for gain (such as a murder done in the course or furtherance of robbery or burglary, done for payment or done in the expectation of gain as a result of the death),

(d) a murder intended to obstruct or interfere with the course of justice,

(e) a murder involving sexual or sadistic conduct,

(f) the murder of two or more persons,

(g) a murder that is aggravated by racial or religious hostility or by hostility related to sexual orientation,

(h) a murder that is aggravated by hostility related to disability or transgender identity, where the offence was committed on or after 3 December 2012 (or over a period, or at some time during a period, ending on or after that date),

(i) a murder falling within paragraph 2(2) committed by an offender who was aged under 21 when the offence was committed.

(3) An offence is aggravated in any of the ways mentioned in sub-paragraph (2)(g) or (h) if section 66 requires the court to treat the fact that it is so aggravated as an aggravating factor.

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I3** Atodlen 21 paragraff 3 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

4 (1) If—

(a) the case does not fall within paragraph 2(1) or 3(1),

(b) the offence falls within sub-paragraph (2), **F2**...

(c) the offender was aged 18 or over when the offence was committed, **[F3**and**]**

(d) the offence was committed on or after 2 March 2010,

the offence is normally to be regarded as sufficiently serious for the appropriate starting point, in determining the minimum term, to be 25 years.

(2) The offence falls within this sub-paragraph if the offender took a knife or other weapon to the scene intending to—

(a) commit any offence, or

(b) have it available to use as a weapon,

and used that knife or other weapon in committing the murder.

**Diwygiadau i'r testun**

**F2** Gair yn Atodlen 21 paragraff 4(1)(b) wedi'i hepgor (28.6.2022) yn rhinwedd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (c. 32), a. 208(5)(aa), Atodlen 21 paragraff 9(a)

**F3** Gair yn Atodlen 21 paragraff 4(1)(c) wedi'i fewnosod (28.6.2022) gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (c. 32), a. 208(5)(aa), Atodlen 21 paragraff 9(b)

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I4** Atodlen 21 paragraff 4 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

5 If the offender was aged 18 or over when the offence was committed and the case does not fall within paragraph 2(1), 3(1) or 4(1), the appropriate starting point, in determining the minimum term, is 15 years.

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I5** Atodlen 21 paragraff 5 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

**[F4** 5A (1)This paragraph applies if—

(a) the offender was aged under 18 when the offence was committed, and

(b) the offender was convicted of the offence on or after the day on which section 127 of the Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022 came into force.

(2) The appropriate starting point, in determining the minimum term, is the period given in the entry in column 2, 3 or 4 of the following table that corresponds to—

(a) the age of the offender when the offence was committed, as set out in column 1, and

(b) the provision of this Schedule that would have supplied the appropriate starting point had the offender been aged 18 when the offence was committed, as set out in the headings to columns 2, 3 and 4.

| *1* | *2* | *3* | *4* |
|---|---|---|---|
| ***Age of offender when offence committed*** | ***Starting point supplied by paragraph 3(1) had offender been 18*** | ***Starting point supplied by paragraph 4(1) had offender been 18*** | ***Starting point supplied by paragraph 5 had offender been 18*** |
| *17* | 27 years | 23 years | 14 years |
| *15 or 16* | 20 years | 17 years | 10 years |
| *14 or under* | 15 years | 13 years | 8 years |

**Diwygiadau i'r testun**

**F4** Atodlen 21 paragraffau 5A a 6 wedi'u hamnewid (28.6.2022) ag Atodlen 21 paragraff 6 gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (c. 32), aa. 127, 208(5)(l)

6 (1) This paragraph applies if—

(a) the offender was aged under 18 when the offence was committed, and

(b) the offender was convicted of the offence before the day on which section 127 of the Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022 came into force.

(2) The appropriate starting point, in determining the minimum term, is 12 years.**]**

**Diwygiadau i'r testun**

**F4** Atodlen 21 paragraffau 5A a 6 wedi'u hamnewid (28.6.2022) ag Atodlen 21 paragraff 6 gan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (c. 32), aa. 127, 208(5)(l)

*Aggravating and mitigating factors*

7 Having chosen a starting point, the court should take into account any aggravating or mitigating factors, to the extent that it has not allowed for them in its choice of starting point.

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I6** Atodlen 21 paragraff 7 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

8 Detailed consideration of aggravating or mitigating factors may result in a minimum term of any length (whatever the starting point), or in the making of a whole life order.

**Gwybodaeth am gychwyn**

I7 Atodlen 21 paragraff 8 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

9 Aggravating factors (additional to those mentioned in paragraphs 2(2), 3(2) and 4(2)) that may be relevant to the offence of murder include—

(a) a significant degree of planning or premeditation,

(b) the fact that the victim was particularly vulnerable because of age or disability,

(c) mental or physical suffering inflicted on the victim before death,

(d) the abuse of a position of trust,

(e) the use of duress or threats against another person to facilitate the commission of the offence,

(f) the fact that victim was providing a public service or performing a public duty, and

(g) concealment, destruction or dismemberment of the body.

**Gwybodaeth am gychwyn**

I8 Atodlen 21 paragraff 9 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

10 Mitigating factors that may be relevant to the offence of murder include—

(a) an intention to cause serious bodily harm rather than to kill,

(b) lack of premeditation,

(c) the fact that the offender suffered from any mental disorder or mental disability which (although not falling within section 2(1) of the Homicide Act 1957) lowered the offender's degree of culpability,

(d) the fact that the offender was provoked (for example, by prolonged stress) but, in the case of a murder committed before 4 October 2010, in a way not amounting to a defence of provocation,

(e) the fact that the offender acted to any extent in self-defence or, in the case of a murder committed on or after 4 October 2010, in fear of violence,

(f) a belief by the offender that the murder was an act of mercy, and

(g) the age of the offender.

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I9** Atodlen 21 paragraff 10 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

11 Nothing in this Schedule restricts the application of—

(a) section 65 (previous convictions),

(b) section 64 (bail), or

(c) section 73 (guilty plea),

or of section 238(1)(b) or (c) or 239 of the Armed Forces Act 2006.

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I10** Atodlen 21 paragraff 11 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

*Offences committed before 18 December 2003*

12 (1) This paragraph applies where the offence was committed before 18 December 2003.

(2) If the court makes a minimum term order, the minimum term must, in the opinion of the court, be no be greater than the period which, under the practice followed by the Secretary of State before December 2002, the Secretary of State would have been likely to notify to the offender as the minimum period which in the view of the Secretary of State should be served before the prisoner's release on licence.

(3) The court may not make a whole life order unless it is of the opinion that, under the practice followed by the Secretary of State before December 2002, the Secretary of State would have been likely to notify the prisoner that the Secretary of State did not intend that the prisoner should ever be released on licence.

**Gwybodaeth am gychwyn**

**I11** Atodlen 21 paragraff 12 wedi'i roi mewn grym ar 1.12.2020 gan O.S. 2020/1236, rheoliad 2

## Atodiad D: Crynodeb o Ganfyddiadau gan Dîm yr Adolygiad o Sylwadau Dedfrydu

**Methodoleg**

Ar gyfer cam cyntaf yr adolygiad hwn, dadansoddwyd y sylwadau dedfrydu mewn sampl o 120 o achosion lladdiad domestig rhwng 2018 a 2020 lle'r oedd y dioddefwr yn bartner neu'n gyn-bartner i'r troseddwr. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion wedi'u cwblhau yn y llysoedd yn ystod blynyddoedd ariannol 2018/2019 a 2019/2020.

Dynodwyd yr achosion ar sail data a ddarparwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron/GLlTEF, o Fynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref ac o ymchwil bwrpasol (ar sail adroddiadau newyddion a ffynonellau eraill).

Adolygwyd y sylwadau dedfrydu gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Rhywedd y cyflawnwr a'r dioddefwr.
- Y drosedd y rhoddwyd dedfryd amdani: llofruddiaeth neu ddynladdiad ac, ar gyfer dynladdiad, y math (cyfrifoldeb lleiedig, gweithred anghyfreithlon etc.).
- Y ddedfryd a roddwyd.
- Yr amddiffyniad a godwyd.
- Ffactorau gwaethygol a lliniarol.
- Y defnydd o arf, yn cynnwys a gafwyd ef yn y lleoliad neu a aethpwyd ag ef i'r lleoliad.
- A oedd y cyflawnwr a/neu'r dioddefwr wedi profi cam-drin domestig yn ystod neu ar ôl y berthynas.

Ychwanegwyd at hyn wedyn wrth i'r adolygiad ddatblygu i gynnwys:

- **Diwedd y berthynas a chenfigen:** Yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth a lanlwythwyd i System Achosion Ddigidol Llys y Goron ('CCDCS') yn achosion Thomas Griffith a Joe Atkinson, roedd y cwestiwn o ran a oedd y lladd wedi digwydd ar ddiwedd neu ar ôl diwedd y berthynas a thystiolaeth o genfigen wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad o'r 120 o achosion. Lle nad oedd modd defnyddio'r CCDCS, defnyddiwyd sylwadau dedfrydu wedi'u hategu gan adroddiadau ar y cyfryngau.
- **'Gor-ladd':** Y diffiniad o hyn yn y llenyddiaeth yw'r 'defnydd o drais digymell, gormodol y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i achosi marwolaeth y dioddefwr'. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, gwnaed dyfarniad goddrychol ynghylch a oedd gor-ladd wedi digwydd ar sail yr amgylchiadau ym mhob achos (er enghraifft, os oedd dioddefwr wedi'i drywanu 20 o weithiau). Ystyriwyd bod y defnydd o'r ffactorau gwaethygol o 'ymosodiad estynedig' neu 'ddioddefaint corfforol a meddyliol' gan y barnwr yn y sylwadau dedfrydu yn brocsi dros ddweud a oedd pwys yn cael ei roi ar or-ladd wrth ddedfrydu neu beidio.
- **Tagu:** Nodwyd hyn drwy ganfod a oedd tagu yn ffactor yn y lladdiad ar sail manylion yr achos ac a oedd unrhyw sôn yn y sylwadau dedfrydu bod y dull o ladd yn ffactor gwaethygol ac a oedd hanes blaenorol o dagu yn y berthynas.

- **Rheolaeth drwy orfodaeth:** Ar sail y dadansoddiad o gam-drin domestig yn ystod ac ar ôl y berthynas, adolygwyd cyfeiriadau at reolaeth drwy orfodaeth.

Lle’r oedd y niferoedd yn caniatáu, dadansoddwyd y canlyniadau ar sail rhywedd.

**Cyfyngiadau**

Mae nifer o gyfyngiadau sydd angen eu hystyried wrth ddehongli’r canlyniadau o’r dadansoddiad hwn.

- Oherwydd y dulliau a ddefnyddiwyd i ddynodi achosion perthnasol i’w dadansoddi, nid oes sicrwydd bod pob achos perthnasol yn y cyfnod dan sylw wedi cael ei ddynodi.
- Mae sylwadau dedfrydu o’u hanfod yn grynodeb o’r ffordd y penderfynwyd ar y ddedfryd ac nid ydynt yn rhoi disgrifiad llawn o’r achos. Oherwydd hyn, mae’r canfyddiadau’n seiliedig yn llwyr ar yr hyn a grybwyllwyd yn benodol yn y sylwadau. Er enghraifft, mae ffactorau wedi’u dynodi’n rhai gwaethygol neu liniarol dim ond lle cyfeiriwyd atynt yn benodol yn y geiriau hynny. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd nad oedd y barnwr yn meddwl am ffactor penodol dim ond am nad oedd sylw penodol wedi’i wneud amdano.
- Yn yr un modd, roedd canfyddiadau am gam-drin domestig blaenorol a rheolaeth drwy orfodaeth gan y cyflawnwr wedi’u seilio’n llwyr ar yr hyn a oedd wedi’i grybwyll mewn sylwadau dedfrydu. O ystyried y materion ehangach o danadrodd nifer yr achosion o gam-drin domestig a heriau o ran y dystiolaeth sydd ar gael mewn achosion cam-drin domestig, mae’n debygol bod y canfyddiadau hyn yn tanadrodd y nifer o achosion.
- Roedd yr achosion yn cynnwys y rheini a gwblhawyd yn 2018/19 a 2019/20. Cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu ganllawiau newydd a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2018 ynghylch sut y dylid dedfrydu troseddwyr a geir yn euog o ddynladdiad yng Nghymru a Lloegr. Er hynny, mae’r canllawiau’n hyrwyddo cysondeb wrth ddedfrydu a thryloywder ynghylch sut y dylid penderfynu ar ddedfrydau, felly mae’n annhebygol y byddant wedi newid lefelau’r dedfrydau yn y rhan fwyaf o’r mathau o achosion (mae’n bosibl bod y newidiadau wedi effeithio ar achosion Esgeuluster Difrifol yn fwy nag eraill).
- Rhaid wrth ofal wrth ddehongli niferoedd bach i ddod i gasgliadau, yn enwedig wrth gyfrifo cyfartaledd (fel hyd cyfartalog y ddedfryd /tariff a gafwyd). Mae hyn yn arbennig o wir am ddadansoddiadau ar sail rhywedd am fod nifer yr achosion lle’r oedd cyflawnwyr benywaidd yn gymharol fach.
- Nid yw data coll wedi’u cynnwys mewn cyfrifiadau.

Mae’r canfyddiadau ar sail y dadansoddiad o’r sylwadau dedfrydu yn gyfyngedig i’r hyn sydd wedi’i gofnodi ac felly mae’r canlyniadau i’w hystyried yn rhai dangosol a bydd rhywfaint o ddehongli goddrychol yn gysylltiedig â nhw.

**Canfyddiadau**
Tra ceir canfyddiadau o'r adolygiad hwn ym mhob rhan o'r adroddiad, mae crynodeb o'r canfyddiadau wedi'i ddarparu isod. Mae bosibl na fydd y rhifau mewn tablau/ffigurau yn dod i gyfanswm o 100% lle maent wedi cael eu talgrynnu.

**Rhywedd y cyflawnwr a'r dioddefwr**
- Fel y mae Tabl 1 yn dangos, roedd y rhan fwyaf o'r cyflawnwyr yn wrywaidd, sef 83% o gyfanswm y sampl, 91% o'r achosion llofruddiaeth a 58% o'r achosion dynladdiad.
- Roedd cyflawnwyr benywaidd mewn 21 (18%) o'r achosion yn y sampl.

**Tabl 1: Math o drosedd yn ôl rhywedd y cyflawnwr**

| Rhywedd y cyflawnwr | Llofruddiaeth | Dynladdiad | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| Gwrywaidd | 81 (91%) | 18 (58%) | 99 (83%) |
| Benywaidd | 8 (9%) | 13 (42%) | 21 (18%) |
| **CYFANSWM** | **89 (100%)** | **31 (100%)** | **120 (100%)** |

- Ym mhob achos ond un, roedd y lladdiadau domestig yn cynnwys y rheini a oedd mewn perthynas heterorywiol. Roedd un achos lle'r oedd cyflawnwr a dioddefwr benywaidd.
- Felly, roedd yr holl gyflawnwyr gwrywaidd yn gysylltiedig â dioddefwyr benywaidd ac roedd 20 o'r 21 o gyflawnwyr benywaidd yn gysylltiedig â dioddefwyr gwrywaidd. Felly, roedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr (n=100, 83%) yn fenywaidd.

**Trosedd**
- Roedd 89 (74%) o ddedfrydau am lofruddiaeth a 31 (26%) am ddynladdiad.
- Mae Tabl 2 yn dangos y math o ddynladdiad y cafodd cyflawnwyr ddedfryd amdano. Gweithred anghyfreithlon a chyfrifoldeb lleiedig oedd y ddau fath mwyaf cyffredin.
- Roedd 6 o'r 12 a gyflawnodd ddynladdiad drwy gyfrifoldeb lleiedig wedi cael dedfryd o orchymyn ysbyty gyda chyfyngiadau, yn cynnwys un cyflawnwr benywaidd.
- Roedd colli rheolaeth yn amddiffyniad a godwyd mewn 11 (9%) o'r 120 o achosion yn y sampl achosion. Roedd yn llwyddiannus mewn 2 o'r achosion hynny.

**Tabl 2: Math o ddynladdiad yn ôl rhywedd y cyflawnwr**

| Math | Cyflawnwr Benywaidd | Cyflawnwr Gwrywaidd | Cyfanswm (%) |
|---|---:|---:|---:|
| Gweithred Anghyfreithlon | 7 | 6 | 13 (42%) |
| Cyfrifoldeb Lleiedig | 4 | 8 | 12 (39%) |
| Esgeuluster Difrifol | 0 | 3 | 3 (10%) |
| Colli Rheolaeth | 2 | 0 | 2 (6%) |

| Math | Cyflawnwr Benywaidd | Cyflawnwr Gwrywaidd | Cyfanswm (%) |
|---|---|---|---|
| Heb ei gofnodi | 0 | 1 | 1 (3%) |
| **CYFANSWM** | **13** | **18** | **31 (100%)** |

**Dechreubwyntiau dedfrydu ar gyfer achosion llofruddiaeth**

- Wrth ddedfrydu mewn achosion llofruddiaeth, dynodir dechreubwynt ar sail Atodlen 21. Penderfynir ar y ddedfryd derfynol drwy roi ystyriaeth hefyd i ffactorau gwaethygol a lliniarol, euogfarnau blaenorol, ac unrhyw ble euog.
- Mae Tabl 3 yn dangos nifer yr achosion llofruddiaeth yn ein sampl yn ôl eu dechreubwynt dedfrydu ar sail Atodlen 21. Y dechreubwynt ar gyfer y rhan fwyaf o ddedfrydau am lofruddiaeth yn ein sampl oedd 15 mlynedd. Nid oedd yr un ohonynt lle’r oedd y dechreubwynt yn orchymyn oes gyfan.
- Ar gyfer rhai dan 18 oed, y dechreubwynt yw 12 mlynedd. Fel y mae Tabl 3 yn dangos, roedd un person ifanc yn y sampl.

**Tabl 3: Nifer yr achosion llofruddiaeth yn ôl dechreubwynt dedfrydu**

| Dechreubwynt Dedfrydu | Nifer (%) |
|---|---|
| 12 mlynedd | 1 (1%) |
| 15 mlynedd | 68 (76%) |
| 25 mlynedd | 11 (12%) |
| 30 mlynedd | 9 (10%) |
| **CYFANSWM** | **89 (100%)** |

- Y cyfnod gofynnol cyfartalog ar gyfer y cyfanswm o 89 o achosion llofruddiaeth oedd 20.5 blynedd.
- Ar gyfer achosion lle’r oedd dechreubwynt o 15 mlynedd, roedd yn 18.7 blynedd.
- Y tariff cyfartalog ar gyfer achosion llofruddiaeth lle’r oedd cyflawnwyr gwrywaidd oedd 20.8 blynedd a 17.6 blynedd ar gyfer cyflawnwyr benywaidd. Fodd bynnag, oherwydd nifer bach yr olaf (n=8) ni ellir dod i gasgliadau pendant.
- Roedd pum cyflawnwr benywaidd a gafodd ddechreubwynt o 15 mlynedd ac, am fod dwy o’r rhain wedi cael tariff is na hyn, y tariff cyfartalog ar gyfer y pum menyw oedd 14.6 blynedd o gymharu â dynion a gafodd ddechreubwynt o 15 mlynedd lle’r oedd y tariff yn 19 blynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, rhaid wrth ofal wrth ystyried y ffigurau hyn am fod niferoedd y menywod dan sylw yn fach iawn.

**Defnyddio arf**

- Cofnodwyd bod arf wedi'i ddefnyddio mewn 72% o'r achosion a ddadansoddwyd ac mewn 73% o'r achosion llofruddiaeth.

**Tabl 4: Y defnydd o arf yn ôl trosedd**

| Trosedd | Llofruddiaeth | Dynladdiad | Yr Holl Achosion |
|---|---|---|---|
| Arf wedi'i ddefnyddio | 63 (73%) | 21 (68%) | 86 (72%) |
| Arf heb ei ddefnyddio | 24 (27%) | 10 (32%) | 34 (28%) |
| **CYFANSWM** | 89 (100%) | 31 (100%) | 120 (100%) |

- Roedd yr holl gyflawnwyr benywaidd lle'r oedd y dioddefwr yn wrywaidd wedi defnyddio arf. Yr unig gyflawnwr benywaidd a oedd heb ddefnyddio arf oedd un lle'r oedd y dioddefwr yn fenywaidd – achos o ddynladdiad oedd hwn.
- Fel y mae Tabl 5 yn dangos, roedd dwy ran o dair o'r cyflawnwyr gwrywaidd wedi defnyddio arf.
- Mewn 16 o achosion yn y sampl (13%) cyflawnwyd y lladd drwy achosi un clwyf drwy drywanu (a allai ddangos mai swyddogaethol yn unig oedd y defnydd o drywanu i achosi marwolaeth). Mewn 10 o'r achosion hyn (63%) roedd y cyflawnwr yn fenywaidd ac mewn 6 (37%) roedd y cyflawnwr yn wrywaidd.

**Tabl 5: Y defnydd o arf yn ôl rhywedd**

| Trosedd | Cyflawnwr Benywaidd | Cyflawnwr Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Arf wedi'i ddefnyddio | 20 (95%) | 66 (67%) |
| Arf heb ei ddefnyddio | 1 (5%) | 33 (33%) |
| **CYFANSWM** | **21 (100%)** | **99 (100%)** |

- Ar gyfer achosion llofruddiaeth, diwygiwyd Atodlen 21 i gynnwys categori difrifoldeb newydd wedi'i seilio ar y ffaith bod y troseddwr wedi mynd â chyllell i'r lleoliad gan fwriadu (a) cyflawni unrhyw drosedd, neu (b) peri iddi fod ar gael i'w defnyddio fel arf, a'i fod (c) wedi defnyddio'r gyllell honno neu arf arall wrth gyflawni'r llofruddiaeth. Yn y sampl hon, roedd y tariff gofynnol cyfartalog mewn achosion lle'r aethpwyd ag arf i'r lleoliad yn 6.5 blynedd yn uwch na'r cyfartaledd mewn achosion lle dynodwyd nad oedd arf wedi'i gymryd i'r lleoliad.

**Diwedd perthynas/cenfigen**

- Gwnaed sylw am ddiwedd perthynas a/neu genfigen mewn 45 o achosion (38%). Dim ond un o'r rhain a oedd yn ymwneud â chyflawnwr benywaidd.

- O’r cyfanswm o 99 o achosion a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd, credwyd bod cenfigen neu ddicter ar ddiwedd y berthynas yn sbardun i’r lladd mewn 44 (44%) o achosion.
- O’r 89 o achosion llofruddiaeth, roedd 43 (48%) yn cynnwys sylw am ddiwedd perthynas a/neu genfigen. Cyflawnwr gwrywaidd oedd yn yr holl achosion hyn heblaw un.

**Rheolaeth drwy orfodaeth yn ystod neu ar ôl y berthynas**

- Cofnodwyd bod rheolaeth drwy orfodaeth dros y dioddefwr wedi digwydd mewn 46 (38%) o’r 120 o achosion. Roedd yr holl gyflawnwyr yn yr achosion hyn yn wrywaidd ac roedd 45 o’r achosion hyn yn achosion llofruddiaeth.
- Mewn 29% o’r cyfanswm o 99 o achosion a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd, roedd y cyflawnwr wedi ymddwyn yn rheolaethol a gorfodaethol tuag at y dioddefwr a gellid ystyried bod teimladau o genfigen neu ddicter ar ddiwedd y berthynas yn sbardun i’r lladd.

**Gor-ladd**

- Mewn 56 (47%) o’r 120 o achosion, gwnaed asesiad goddrychol bod gor-ladd wedi digwydd.
- Defnyddiwyd arf mewn 49 (88%) o’r achosion gor-ladd.

*Yn ôl rhywedd y cyflawnwr*

- Cyflawnwyr gwrywaidd oedd yn yr holl achosion gor-ladd heblaw un, felly mewn 56% o’r 99 o achosion lle’r oedd cyflawnwr gwrywaidd fe gafwyd gor-ladd o gymharu ag un (5%) o’r 21 o’r achosion lle’r oedd cyflawnwr benywaidd.
- Mewn ychydig mwy na hanner (56%) yr achosion gor-ladd a oedd yn cynnwys cyflawnwr gwrywaidd, gellid ystyried bod cenfigen neu ddicter ar ddiwedd y berthynas yn sbardun i’r lladd.
- O’r 55 o achosion gor-ladd lle’r oedd cyflawnwr gwrywaidd, roedd dau ym mhob pump (40%, n=22) yn achosion lle nodwyd bod y cyflawnwr wedi ymddwyn yn rheolaethol a gorfodaethol at y dioddefwr ac y gellid ystyried bod cenfigen neu ddicter ar ddiwedd y berthynas yn sbardun i’r lladd.

*Math o drosedd*

- Yn y rhan fwyaf o’r achosion gor-ladd (95%, n=53) cafwyd dedfryd am lofruddiaeth, ond roedd 3 (5%) lle cafwyd dedfryd am ddynladdiad (y cyflawnwyr yn wrywaidd ym mhob achos). Roedd yn ffactor gwaethygol.
- Cyfeiriwyd at or-ladd mewn sylwadau dedfrydu yn nhermau’r ffactorau gwaethygol o ymosodiad estynedig/ dioddefaint meddyliol/corfforol hir mewn 40 (71%) o’r 56 o achosion. Roedd un achos hefyd lle’r oedd wedi’i adlewyrchu yn lle hynny yn yr asesiad o niwed/beiusrwydd.

**Tagu**

- Roedd 35 (29%) o'r 120 o achosion yn cynnwys tagu. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain (91%, n=32) yn ymwneud â thagu â'r dwylo, a'r tri a oedd yn weddill yn ymwneud â'r defnydd o rwymiad.
- Dim ond un achos (tagu â'r dwylo) a oedd yn cynnwys cyflawnwr benywaidd ac roedd y dioddefwr hefyd yn fenywaidd.
- O'r 34 o achosion lle'r oedd cyflawnwr gwrywaidd, roedd 16 (47%) yn ymwneud â thagu â'r dwylo yn unig ac yn y 18 (53%) o achosion a oedd yn weddill, cyflawnwyd y tagu drwy ddefnyddio rhwymiad neu ar y cyd ag ymosod neu ymosodiad ag arf.
- Roedd 27 (77%) o'r 35 o achosion tagu yn achosion llofruddiaeth lle rhoddwyd tariff cyfartalog o 18.6 blynedd.
- O'r 13 o achosion llofruddiaeth a gyflawnwyd drwy dagu â'r dwylo yn unig, y cyfnod gofynnol cyfartalog oedd 18.1 blynedd. Fodd bynnag, roedd un achos lle'r oedd y dechreubwynt 30 mlynedd yn gymwys am ei bod wedi'i chyflawni er elw a phan hepgorwyd yr achos hwn, cafwyd cyfnod gofynnol cyfartalog o 17.1 blynedd. Yn y 14 achos tagu sy'n weddill lle cafwyd euogfarn am lofruddiaeth, roedd ymosodiad ychwanegol ag arf neu heb arf neu defnyddiwyd rhwymiad. Hyd cyfartalog y ddedfryd oedd 18.6 blynedd.
- Roedd yr wyth achos sy'n weddill yn rhai am ddynladdiad – pedwar drwy gyfrifoldeb lleiedig (yn cynnwys yr achos lle'r oedd cyflawnwr benywaidd) a phedwar drwy weithred anghyfreithlon.
- Mewn 16 o'r 35 o achosion (46%) roedd hanes o gam-drin domestig ar ran y cyflawnwr (yn cynnwys yr unig achos lle'r oedd cyflawnwr benywaidd); mewn 13 (37%) o'r 35 o achosion, cofnodwyd y defnydd o reolaeth drwy orfodaeth gan y cyflawnwr (yr holl gyflawnwyr yn wrywaidd); ac mewn 8 achos roedd hanes o dagu blaenorol nad oedd yn angheuol (yr holl gyflawnwyr yn wrywaidd).
- Nodwyd bod diwedd y berthynas a/neu genfigen yn sbardun i'r lladd mewn 12 (34%) o'r 35 o achosion (yr holl gyflawnwyr yn wrywaidd).
- Mewn 15 (43%) o'r 35 o achosion (yn cynnwys yr achos lle'r oedd cyflawnwr benywaidd) nodwyd bod y dull o ladd yn ffactor gwaethygol. Fodd bynnag, mewn 11 o'r 15 achos hyn (yr holl gyflawnwyr yn wrywaidd) roedd y tagu'n rhan o ymosodiad ehangach.
- Mewn 14 (41%) o'r 34 o achosion tagu lle'r oedd cyflawnwr gwrywaidd, roedd y dedfrydwr wedi barnu bod y drosedd wedi'i gwaethygu oherwydd y dioddefaint a achoswyd gan yr ymosodiad ond yn yr 20 achos a oedd yn weddill (59%) nid oedd y dull o ladd wedi'i gydnabod yn y ffactorau hynny y dywedwyd eu bod yn gwaethygu'r drosedd.

# Atodiad E: Data o Fynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref

**Cyd-destun**

Roedd data o Fynegai Lladdiadau y Swyddfa Gartref[255] am laddiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2020 wedi cael eu rhannu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynorthwyo'r adolygiad hwn.[256] Yn unol â diffiniad yr adolygiad o'r term 'domestig', dim ond achosion lladdiad lle'r oedd y cyflawnwr yn bartner neu gyn-bartner personol a oedd wedi'u cynnwys yn y data a gafwyd.

**Nodiadau**

- Data fel yr oeddent ar 15 Rhagfyr 2020 ac mae'r ffigurau yn agored i'w diwygio wrth i'r heddlu a'r llysoedd ddelio â'r achosion, neu wrth i wybodaeth ychwanegol ddod i law.
- I ddibenion y Mynegai Lladdiadau, mae'r dadansoddiadau wedi'u seilio ar y prif berson dan amheuaeth mewn achos lladdiad penodol.
- Y diffiniad o rai dan amheuaeth mewn achos lladdiad yw: rhywun sydd wedi'i gyhuddo o drosedd lladdiad, yn cynnwys y rheini a gafwyd yn euog wedyn a'r rheini sy'n aros treial neu rywun y mae'r heddlu yn amau ei fod wedi cyflawni'r drosedd ond y gwyddys ei fod wedi marw neu wedi marw drwy hunanladdiad. Mae rhai dan amheuaeth a ryddfarnwyd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn, sy'n gwyro oddi wrth ystadegau a gyhoeddwyd.

**Canfyddiadau**

- Rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2020, cafwyd 350 o achosion o laddiadau partneriaid/cyn-bartneriaid personol (yn cynnwys y rheini a arweiniodd at ryddfarnu).
- O'r 350 o brif bersonau dan amheuaeth mewn achosion lladdiad partner/cyn-bartner personol, roedd 87% (305) yn wrywaidd ac 13% (45) yn fenywaidd.

**Tabl 1: Achosion lladdiad partner/cyn-bartner personol, rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2020**

| 12 mis yn diweddu | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth 2017 | Mawrth 2018 | Mawrth 2019 | Mawrth 2020 | CYFANSWM |
| 97 | 77 | 104 | 72 | 350 |

- Fel y mae Tabl 2 yn dangos, y dull o ladd a oedd yn fwyaf cyffredin mewn achosion lladdiad domestig partner personol (44%) oedd drwy ddefnyddio erfyn miniog.
- Tagu oedd y dull lladd mwyaf cyffredin wedyn (21% o'r holl achosion). Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i achosi'n llwyr bron gan rai gwrywaidd dan amheuaeth (24% o'r holl

[255] Fel yr oeddent ar 15 Rhagfyr 2020. Mae'r ffigurau yn agored i'w diwygio wrth i'r heddlu a'r llysoedd ddelio â'r achosion, neu wrth i wybodaeth ychwanegol ddod i law.

[256] Gwnaed cytundeb rhannu data ar gyfer rhannu'r data hyn yn unol â gofynion Diogelu Data.

achosion lle'r oedd y prif berson dan amheuaeth yn wrywaidd, o gymharu â 2% o achosion lle'r oedd y prif berson dan amheuaeth yn fenywaidd).

**Tabl 2: Y dull a ddefnyddiwyd mewn achosion lladdiad partner/cyn-bartner, rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2020**

| | Yr Holl Achosion | Y Prif Rai dan Amheuaeth yn Fenywaidd | Y Prif Rai dan Amheuaeth yn Wrywaidd |
|---|---|---|---|
| Erfyn Miniog | 44% | 67% | 41% |
| Erfyn Di-awch | 10% | 11% | 10% |
| Taro, Cicio etc | 9% | 7% | 10% |
| Tagu | 21% | 2% | 24% |
| Saethu | 3% | 0% | 4% |
| Ffrwydrad | 0% | 0% | 0% |
| Llosgi | 1% | 2% | 1% |
| Boddi | 1% | 0% | 1% |
| Gwenwyn o Gyffuriau | 1% | 0% | 1% |
| Cerbyd Modur | 1% | 2% | 1% |
| Arall | 1% | 2% | 1% |
| Anhysbys | 7% | 7% | 7% |
| **Cyfanswm** | **350** | **45** | **305** |

- Lle'r oedd y canlyniad terfynol yn hysbys, roedd saith o'r prif rai dan amheuaeth wedi'u rhyddfarnu wedyn neu'r achosion wedi'u gollwng.

## Atodiad F: Canllaw Diffiniol y Cyngor Dedfrydu ar Ddynladdiad

Gweler: https://www.sentencingcouncil.org.uk/wp-content/uploads/Manslaughter-definitive-guideline-Web.pdf (Cyrchwyd 16 Chwefror 2023)

E02868937

978-1-5286-3935-4